RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
41/2021

DYDDIAD CYHOEDDI:
10/06/2021

# Gwerthusiad o'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesedd a Gwasanaethau Cynghori

© Hawlfraint y Goron
ISBN digidol 978-1-80195-482-2

Teitl: Gwerthusiad o’r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesedd a Gwasanaethau Cynghori

Awdur(on) / Cwmni

SQW

Adroddiad Ymchwil Llawn: Hindle, R., Pates, R., a Barber, J. (2021). *Gwerthusiad o’r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesedd a Gwasanaethau Cynghori*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Rhif adroddiad GSR 41/2021

Ar gael yn: https://llyw.cymru/gwerthusiad-or-rhaglen-trosglwyddo-gwybodaeth-arloesi-gwasanaethau-cynghori-adroddiad-terfynol

Safbwyntiau’r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw’r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Y Gangen Ymchwilio

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: RDPMandE@llyw.cymru

**Tabl cynnwys**

Rhestr tablau....................................................................................................2
Rhestr ffigurau ..................................................................................................3
1. Rhagymadrodd..............................................................................................4
2 Gweithrediad: nodweddion buddiolwyr, mewnbynnau ac allbynnau .......................14
3. Gweithredu: Effeithiolrwydd cyflenwi, rheolaeth a llywodraethu'r rhaglen.........................30
4 Canlyniadau ac effeithiau ..................................................................................53
5 Dysgu o fannau eraill...........................................................................................73
6 Casgliadau ..........................................................................................................89
Atodiad A: Ymgynghoreion ar draws dau gam yr ymchwil ...........................................101
Atodiad B: Crynodebau astudiaethau achos ................................................................103
Atodiad C: Nodweddion ymatebwyr yr astudiaethau achos ..........................................161
Atodiad D: Dadansoddiad o'r data monitro ychwanegol ar gyfer cyfnod diweddariad y rhaglen ..........................................................................................................162
Atodiad E: Adolygiad Cymaryddion Rhyngwladol – adolygiad manwl o'r rhaglenni ...........169
Atodiad F: Gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol ....................................................177

**Rhestr tablau**

Tabl 1.1: Cwestiynau allweddol y gwerthusiad....4
Tabl 1.2: Dull ymchwil....5
Tabl 2.1: Trosolwg o wariant y rhaglen o gymharu â rhagamcaniad Awst 2015-Awst 2019 (£miliwn)....23
Tabl 2.2: Lot 1: Cyfanswm gwariant o fis Awst 2015 hyd at fis Awst 2019 ar weithgareddau Cyswllt Ffermio....24
Tabl 2.3: Lot 3: Cyfanswm gwariant o fis Awst 2015 hyd at fis Awst 2019 ar weithgareddau Cyswllt Ffermio....25
Tabl 2.4: Lot 2: Cyfanswm gwariant o fis Awst 2015 hyd at fis Awst 2019 ar weithgareddau Cyswllt Ffermio....25
Tabl 2.5: Allbynnau rhaglen Lot 1 (Awst 2015-Awst 2019)....27
Tabl 2.6: Allbynnau rhaglen Lot 2 (Awst 2015-Awst 2019)....28
Tabl 2.7: Allbynnau rhaglen Lot 3 (Awst 2015-Awst 2019)....28
Tabl 4.1: Nodweddion busnes ac i ba raddau y mae newidiadau wedi cael eu rhoi ar waith o ganlyniad i Cyswllt Ffermio yng Ngham 2 (n=36)....55
Tabl 4.2: Ffactorau sy'n galluogi ac yn llesteirio gweithredu a newid....56
Tabl 4.3: Ychwanegedd – i ba raddau y byddai buddiannau wedi'u gwireddu heb Cyswllt Ffermio....70
Tabl 5.1: Crynodeb o'r dystiolaeth sydd ar gael parthed canlyniadau ac effeithiau rhaglenni....77
Tabl D-1: Gwariant rhaglen (Awst 2019-Awst 2022)....162
Tabl D-2: Gwariant rhaglen Lot 1 (Awst 2019-Awst 2022)....163
Tabl D-3: Gwariant rhaglen Lot 3 (Awst 2019-Awst 2022)....165
Tabl D-4: Gwariant rhaglen Lot 2 (Awst 2019-Awst 2022)....166
Tabl D-5: Allbynnau rhaglen Lot 1 (Awst 2019-Awst 2022)....167
Tabl D-6: Allbynnau rhaglen Lot 2 (Awst 2019-Awst 2022)....168
Tabl D-7: Allbynnau rhaglen Lot 3 (Awst 2019-Awst 2022)....168
Tabl F-3: Ymgysylltiad o gymharu â chyrhaeddiad (Twitter a Facebook)....179

**Rhestr ffigurau**

Ffigur 1.1: Cadwyn resymeg drosfwaol ar gyfer Cyswllt Ffermio ........................................10
Ffigur 1.2: Theori o Newid........................................................................................11
Ffigur 2.1: Nodweddion unigolion............................................................................17
Ffigur 2.2: Cefnogaeth a gyrchwyd gan unigolion sydd wedi cofrestru ym mis Awst 2020 (a'r newid ers mis Rhagfyr 2018 fel y cyflwynwyd yn adroddiad Cam 1).......................19
Ffigur 4.1: Canlyniadau sydd i'w gweld ar draws pob llinyn ymchwil (gan ddefnyddio'r dystiolaeth yng Nghamau 1 a 2 wedi'u cyfuno).....................................................59
Ffigur 4.2: Canlyniadau a welwyd neu y disgwylir eu gweld yn y dyfodol ar draws buddiolwyr astudiaeth achos yng Ngham 2........................................................................63
Ffigur 6.1: Theori o Newid … ar waith.......................................................................96
Ffigur C-1: Nodweddion buddiolwyr yr astudiaethau achos ac arolwg 2019......................161
Ffigur F-1: Canlyniadau Twitter a Facebook dros amser ..................................................177
Ffigur F-2: Canlyniadau sianeli yn ôl iaith ............................................................178
Ffigur F-4: Mathau o bostiad/neges drydar yr ymgysylltwyd fwyaf â hwy ..........................179
Ffigur F-5: Twitter – math o ymgysylltu ..............................................................180
Ffigur F-6: Canlyniadau pwnc dros amser ..............................................................181
Ffigur F-7: Canlyniadau pynciau yn ôl iaith ............................................................181
Ffigur F-8: Ymgysylltu yn ôl rhywedd ..................................................................182
Ffigur F-9: Ymgysylltu yn ôl oedran ....................................................................182

# 1. Rhagymadrodd

1.1 Comisiynwyd SQW, gydag Arad a'n harbenigwr amaethyddol Martin Collison, i gynnal gwerthusiad o'r Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth, Arloesedd a Gwasanaeth Cynghori (2014-2020), a adnabyddir fel Cyswllt Ffermio [1]. Yr adroddiad hwn yw'r ail mewn dau gam o ymchwil. Mae'n dwyn ynghyd ganfyddiadau o'r ddau gam.

**Nodau ac amcanion y gwerthusiad**

1.2 Roedd tair elfen i'r gwerthusiad: yn gyntaf, asesu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gweithrediad; yn ail, casglu tystiolaeth am natur a maint y canlyniadau a gyflawnwyd hyd yma, i ba raddau y mae'r rhain yn ychwanegol (na fyddent wedi eu cyflawni fel arall) ac yn mynd i'r afael â nodau ac amcanion gwreiddiol y rhaglen; ac yn drydydd, dysgu beth sy'n digwydd (a pham) er mwyn llywio'r gwaith parhaus o gyflenwi a chynllunio rhaglenni ar gyfer y dyfodol. Cyflwynir cwestiynau gwerthuso mwy manwl yn Nhabl 1.1, sy'n defnyddio ein manyleb wreiddiol, cynnig SQW, a thrafodaethau gyda'r grŵp llywio.

**Tabl 1.1: Cwestiynau allweddol y gwerthusiad**

- Pa weithgareddau sydd wedi'u cyflenwi hyd yma, o gymharu â'r disgwyliadau?
- Pa mor ddwys y mae ffermwyr yn ymgysylltu â'r rhaglen ac yn gwneud cynnydd drwy'r cynnig, a beth sy'n ysgogi hyn?
- Pa mor effeithiol ac effeithlon mae'r rhaglen yn cael ei chyflenwi, ei rheoli a'i llywodraethu?
- I ba raddau y caiff newidiadau eu gweithredu ar ffermydd?
- Pa ganlyniadau ac effeithiau sydd wedi'u cyflawni hyd yma?
- I ba raddau y mae canlyniadau yn ychwanegol, a pha elfennau o'r rhaglen sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf i sicrhau canlyniadau/sydd fwyaf effeithiol (ar eu pen eu hunain neu mewn cyfuniad)?
- Pa ffactorau sy'n galluogi neu'n llesteirio gweithrediad a chynnydd tuag at y canlyniadau a fwriadwyd?
- Beth yw'r gwersi allweddol er mwyn hysbysu cyflenwi parhaus a chynllunio ymyriadau yn y dyfodol?
- Sut mae'r rhaglen yn perfformio yn gyffredinol?

Ffynhonnell: SQW

[1] Sylwer: Nid oedd y Bartneriaeth Arloesi Ewrop, EIP-Agri, o fewn cwmpas y gwerthusiad hwn

### Dull

1.3 Yn unol â'r Fanyleb ar gyfer yr astudiaeth gan Lywodraeth Cymru, mae'r gwerthusiad wedi mabwysiadu dull manwl, hydredol ac ansoddol yn bennaf ar gyfer casglu tystiolaeth yn erbyn cwestiynau'r ymchwil. Roedd ffocws y gwerthusiad ar ddysgu beth sydd (neu ddim) yn gweithio'n dda i greu newid mewn busnesau ffermio yng Nghymru, canlyniadau ac effeithiau y gellir eu priodoli i'r rhaglen, a sut y gellir cryfhau'r ddarpariaeth bresennol a chynllun y rhaglen ar gyfer y dyfodol er mwyn cael y canlyniadau a'r effeithiau gorau posibl ar draws y sector. Mae dau gam y gwerthusiad wedi cynnwys y tasgau canlynol:

**Tabl 1.2: Dull ymchwil**

| Tasgau | Cam 1 | Cam 2 |
|---|---|---|
| Ymgynghoriadau cwmpasu cychwynnol, adolygu dogfennau a data, a datblygu papur cwmpasu gwerthusiad | ✓ | |
| Adolygiad o ddogfennau'r rhaglen, ac adolygiad o weithgarwch cyfryngau cymdeithasol gan Press Data | ✓ | ✓ |
| Dadansoddiad o ddata monitro a gasglwyd gan Menter a Busnes (MaB) | ✓ | ✓ |
| Adolygiad desg o raglenni cymharol | | ✓ |
| Ymgynghoriadau manwl gyda staff llywodraethu, rheoli a chyflenwi yn Llywodraeth Cymru, MaB a Lantra (gweler Atodiad A i weld rhestr lawn yr ymgynghoreion) | ✓ x18 | ✓ x10 |
| Grwpiau ffocws rhanbarthol gyda buddiolwyr, i gasglu adborth ansoddol am y gefnogaeth a'r effaith a sut y gellid gwella'r cynnig, ac i brofi/mireinio canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg yng Ngham 2 | ✓ x22 o ffermwyr mewn 4 grŵp ffocws | ✓ (x9 ail-ymweliad dwyochrog) |
| Cyfres o astudiaethau hydredol manwl yn cwmpasu 13 llinyn gweithgarwch Cyswllt Ffermio (wyth yn canolbwyntio ar Lotiau 1 a 3, a phump ar Lot 2), a oedd yn cynnwys ymgynghoriadau manwl gyda staff cyflenwi | ✓ | ✓ (x53 ymgynghoriadau manwl gyda buddiolwyr ar |

| | | |
|---|---|---|
| a hyd at bump buddiolwr a oedd yn rhan ym mhob gweithgarwch[2]. Mae'r rhain wedi casglu adborth am gefnogaeth, canlyniadau a gafwyd a ffactorau sydd wedi cynorthwyo neu lesteirio cynnydd. Ail-ymwelwyd â phob astudiaeth achos yng Ngham 2 er mwyn deall teithiau a llwybrau cwsmeriaid i sicrhau effaith mewn rhagor o fanylder (ceir adroddiadau cryno ar gyfer pob astudiaeth achos yn Atodiad B) | | draws y ddau gam[3]) |
| Ymgynghoriadau gyda rhanddeiliaid ehangach, gan gynnwys cynrychiolwyr undebau ffermio Cymru, corff ardrethi, AHDB, Clwb Ffermwyr Ifanc a Chyfoeth Naturiol Cymru (mae rhestr lawn o ymgynghoreion yn Atodiad A) | ✓ (x10) | ✓ (x9) |
| Cyflwyno canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg i Lywodraeth Cymru / Bwrdd Cynghori Strategol Cyswllt Ffermio (SAB) | ✓ (Llywodraeth Cymru) | ✓ (SAB) |

1.4 Dechreuodd ail gam yr ymchwil yn hwyrach na'r disgwyl ym mis Ionawr 2020 oherwydd cyfnod enciliad, ond daeth ar draws heriau cysylltiedig â llifogydd eang ledled Cymru ac yna COVID-19. Cwblhawyd y rhan fwyaf o waith maes wyneb yn wyneb yn ystod Gwanwyn 2020 cyn y cyfnod clo o ganlyniad i'r pandemig, ond nid oedd modd i ni gynnal ail rownd o grwpiau ffocws rhanbarthol er mwyn profi a mireinio canfyddiadau oedd yn dod i'r amlwg wyneb yn wyneb. O ganlyniad, mewn cytundeb â Llywodraeth Cymru, gwahoddwyd cyfranogwyr grŵp ffocws o gam cyntaf y gwerthusiad i adolygu ac ymateb i ganfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg o Gam 2 yn ddwyochrog drwy e-bost. Ymatebodd naw unigolyn. Gwnaethom brofi hefyd ychydig o leihad ymhlith buddiolwyr a wrthododd gyfranogi yn yr astudiaethau achos hydredol yng Ngham 2, a therfyniad un gweithgaredd astudiaeth achos. Yn yr achosion hyn, dewiswyd buddiolwyr perthnasol yn eu lle mewn trafodaeth â

[2] I gael rhagor o wybodaeth am y broses dewis astudiaethau achos gweler adroddiad cam un
[3] Sylwer, disodlwyd rhai buddiolwyr nad oeddent yn barod i gymryd rhan yn ail gam yr ymchwil, neu nad oeddent wedi parhau i ymgysylltu â Cyswllt Ffermio (i sicrhau bod o leiaf tri buddiolwr ym mhob astudiaeth achos Cam 2).

Llywodraeth Cymru a MaB. Pan oedd llai na thri buddiolwr fesul astudiaeth achos wedi gwneud cynnydd sylweddol rhwng Camau 1 a 2, chwiliwyd am o leiaf un “achos llwyddiant” amgen. Er bod tuedd o ran dewis yn y dull hwn, gwnaeth ein galluogi i ddeall y ffactorau sy’n cyfrannu ar brofiad llwyddiannus o Cyswllt Ffermio a newid busnes, a hefyd y rhwystrau a wynebwyd.

1.5 Nid oedd casglu data meintiol (er enghraifft, drwy arolygon ffôn gyda buddiolwyr) a thechnegau gwerthuso effaith gwrthffeithiol o fewn cwmpas yr aseiniad hwn, fel y nodwyd ym Manyleb Llywodraeth Cymru. Ochr yn ochr â’r gwerthusiad hwn, roedd Llywodraeth Cymru wedi bwriadu cynnwys buddiolwyr Cyswllt Ffermio yn y sampl ehangach ar gyfer yr Arolwg Arferion Ffermio er mwyn gallu gwneud cymariaethau rhwng buddiolwyr a rhai nad ydynt yn fuddiolwyr yn ôl math o ffermwyr (gan ddefnyddio Segmentiad Ffermwyr). Fel y rhagwelwyd yn wreiddiol, byddai’r arolwg ehangach hwn wedi rhoi cefndir meintiol, tra bod y gwerthusiad ansoddol seiliedig ar ymchwil yn archwilio ac egluro materion allweddol. Gan nad yw’r arolwg wedi’i gynnal hyd yma, mae’r gwerthusiad yn cyflwyno synthesis ac asesiad systematig o dystiolaeth ansoddol, sy’n cyfeirio at gyfres o ganfyddiadau thema sector a seiliedig ar brosiect, a’u goblygiadau posibl. Ni ofynnwyd i ni feintoli GYC/Enillion ar Fuddsoddiad net ar gyfer y rhaglen yn ei chyfanrwydd (byddai hyn yn gofyn am y data meintiol a drafodir uchod), ac nid yw’r data gan fuddiolwyr yr ymgynghorwyd â hwy yn y gwerthusiad hwn wedi’i gyfanredu i lefel poblogaeth y rhaglen.

**Trosolwg o raglen Cyswllt Ffermio**

1.6 Datblygwyd fframwaith Cyswllt Ffermio o dan Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, rhaglen saith mlynedd Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth Cymru. Nod Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP) Cymunedau Gwledig Cymru yw cynyddu cynhyrchiant, amrywiaeth ac effeithlonrwydd busnesau ffermio a choedwigaeth Cymru; gwella amgylchedd Cymru, annog rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol a gweithredu ar hinsawdd yng Nghymru; a hybu twf economaidd gwledig cryf a chynaliadwy yng Nghymru.

1.7 Hysbyswyd cynllun Cyswllt Ffermio drwy ymgynghoriad ac ymgysylltiad â’r diwydiant a rhanddeiliaid mewnol drwy gydol proses gynllunio’r RDP, a defnyddiodd lawer o brofiad gyda rhaglenni Cyswllt Ffermio cynharach. Nododd hyn “angen i ddarparu pecyn trosglwyddo gwybodaeth, arloesedd a gwasanaethau cynghori

wedi'i gydlynu a'i integreiddio sy'n targedu'r sectorau ffermio, coedwigaeth a bwyd" er mwyn mynd i'r afael â methiant y farchnad a methiannau eraill sef:

- Gwybodaeth ac anhoffter o risgiau: yn nodweddiadol nid yw ffermwyr yn gallu cyrchu'r ffynonellau DU/rhyngwladol o arloesi ym maes gwyddor amaeth a throsi hyn yn ddatrysiadau ymarferol ar eu fferm. Mae ffermwyr hefyd yn gyndyn i fuddsoddi mewn technoleg neu brosesau newydd gan nad ydynt yn sylweddoli maint y buddion posibl, maent yn teimlo bod y risg yn rhy uchel, a/neu maent yn gweithredu o fewn cyfyngiadau amser/ariannol oherwydd bod llawer ohonynt yn fusnesau micro/bach.
- Cydlynu: o gofio nifer o chwaraewyr sy'n gysylltiedig, a sector sy'n cynnwys cymysgedd amrywiol o ran maint a mathau o fusnesau, gall ffermwyr gael anhawster i wybod ble i fynd am gefnogaeth.
- Allanoldebau a goferu ehangach: mae ffermwyr yn debygol o danfuddsoddi mewn arloesi oherwydd na allant gael buddion cymdeithasol ac amgylcheddol llawn ar y buddsoddiad hwn.

1.8 Amcan trosfwaol Cyswllt Ffermio yw **cynyddu'r pwyslais ar ymddygiad sy'n canolbwyntio ar fusnes a gwelliannau o ran effeithlonrwydd ac felly gwella proffidioldeb, cystadleurwydd, gwytnwch a chynaliadwyedd busnesau ffermio, coedwigaeth a bwyd, a thrwy estyniad, hyrwyddo twf economaidd a datblygiad ardaloedd gwledig**. Teimlwyd bod cyfnod rhaglen 2014-20 yn hollbwysig mewn cefnogi'r sector drwy gyfnod o newid sylweddol, wrth i gefnogaeth symud oddi wrth daliadau uniongyrchol drwy'r Polisi Amaethyddol Cyffredinol. O fewn y rhaglen roedd tri "Lot" a oedd yn rhoi strwythur i'r cynnig, pob un â nodau penodol a chyfres o weithgareddau:

- **Nod y Rhaglen Trosglwyddo Gwybodaeth (Lot 1)** oedd cefnogi'r diwydiannau ffermio a choedwigaeth i feithrin gwytnwch a gwella cynaliadwyedd busnesau ar gyfer y dyfodol, gyda phwyslais ar welliannau technegol ac o ran effeithlonrwydd. Roedd hyn yn cynnwys ystod o weithgareddau, megis Grwpiau Trafod, Agrisgôp, Ymweliadau Astudio, Safleoedd Arddangos a Ffocws, Academi Amaeth, Cyfnewidfa Rheolaeth, mentora, "Menter", gweithgareddau meincnodi, digwyddiadau a Hyb Cyfnewid Gwybodaeth i gynhyrchu erthyglau technegol.
- Nod y **Rhaglen Dysgu Gydol Oes a Datblygu (Lot 2)** oedd sicrhau diwydiant mwy proffesiynol drwy ei gefnogaeth ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus,

hyfforddiant achrededig, platfform e-ddysgu newydd a ffocws clir ar ddatblygiad personol.


- Nod y **Gwasanaeth Cynghori (Lot 3)** oedd rhoi cyngor annibynnol, pwrpasol, un i un ac mewn grwpiau er mwyn gwella perfformiad economaidd ac amgylcheddol BBaChau ym meysydd ffermio, coedwigaeth a chynhyrchu bwyd sy’n gweithredu mewn ardaloedd gwledig.

1.9 O ran trefniadau llywodraethu a rheoli, goruchwylir Cyswllt Ffermio gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi contractio Menter a Busnes (MaB) i gyflenwi Lotiau 1 a 3, a Lantra i gyflenwi Lot 2. Roedd tîm o Swyddogion Datblygu sydd wedi’u lleoli’n rhanbarthol ar waith, ac mae’n dal i fod felly, i sicrhau proses gyflenwi effeithiol ar lawr gwlad, wedi’u cefnogi gan Swyddogion Technegol sydd â chyfrifoldeb am gydlynu prosiectau a threialon o fewn eu maes gwaith penodol. Goruchwylir y rhaglen gan Fwrdd Cynghori Strategol (SAB), gyda thri Is-grŵp yn cefnogi. Rhagwelwyd y byddai gan y rhaglen hefyd Fwrdd Cynghori Diwydiant yn cynnwys cynrychiolwyr y diwydiant, wedi’i fwriadu i nodi blaenoriaethau a sicrhau bod y gweithgareddau’n bodloni anghenion y sector sy’n esblygu[4].

1.10 Ni chynhyrchwyd cadwyn resymeg a theori o newid cryno ar gyfer y rhaglen ar y dechrau. Felly mae SQW wedi defnyddio, ac ychwanegu at, y ddogfennaeth sy’n bodoli’n barod er mwyn datblygu cadwyn resymeg drosfwaol a theori o newid, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru a phartneriaid cyflenwi. Digwyddodd hyn yn ystod cam cwmpasu cychwynnol y gwerthusiad hwn. Fel y dangosir yn Ffigur 1.1 trosodd, mae’r gadwyn resymeg yn gosod y sail resymegol a’r cyd-destun strategol, nodau ac amcanion, mewnbynnau a’r allbynnau bwriedig, canlyniadau ac effeithiau ar gyfer y rhaglen yn ei chyfanrwydd. Yn Ffigur 1.2 rydym yn cyflwyno dehongliad SQW o’r theori o newid, sy’n ceisio dangos sut a pham y mae disgwyl i Cyswllt Ffermio roi’r canlyniadau a’r effeithiau a ragwelir, drwy sefydlu cysylltiadau achosol rhwng gweithgareddau, allbynnau a chanlyniadau, a thybiaethau cysylltiedig a risgiau/rhesymau pam y gallai’r rhesymeg hwn dorri lawr. Mae’r rhain wedi rhoi fframwaith ar gyfer y gwerthusiad, a phrofwyd perfformiad yn ei erbyn a’i ddangos drwy ymchwil ansoddol.


[4] Sylwer: Cyfarfu IAB ar ychydig achlysuron, ond teimlwyd nad oedd yn cyflawni ei ddiben felly nid oedd yn weithredol ar gyfer y rhan fwyaf o gyfnod 2014-20 y rhaglen

**Ffigur 1.1: Cadwyn resymeg drosfwaol ar gyfer Cyswllt Ffermio**




*Ffynhonnell: SQW. Nodiadau: Mae'r cynnwys a godwyd yn uniongyrchol o'n hadolygiad dogfennau wedi'i nodi mewn testun coch. Mae SQW wedi ychwanegu rhywfaint o wybodaeth ar gyfer eglurder a/neu i sicrhau llif rhesymegol o sail resymegol i effeithiau, yn seiliedig ar ein dealltwriaeth o'r rhaglen ac adborth gan y Grŵp Llywio ac ymgynghoreion cwmpasu: mae hyn wedi'i ddangos mewn testun glas.*

## Ffigur 1.2: Theori o Newid




*Ffynhonnell: SQW. Sylwer: yn ymarferol, mae'r CDP wedi gorwedd o dan Lot 2, nid uwchben y tair lot. Rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai CDPau yn arwyddbostio tuag at Lot 1 a 3, ac yn cael eu defnyddio fel cofnod byw o nodau ac amcanion ar gyfer pob unigolyn.*

1.11 Fel y nodir uchod, mae'r gwerthusiad hwn yn canolbwyntio ar gyfnod 2014-20 y rhaglen, a ddaeth i ben yn ffurfiol (o ran cyflenwi) ar 19 Awst 2019. Yna diweddarwyd y rhaglen a'i hymestyn o 20 Awst 2019 i 19 Awst 2022. Nod y diweddaru oedd gwneud y rhaglen yn fwy hygyrch a chanolbwyntio mwy ar ganlyniadau, a gwella siwrnai'r cwsmer. Roedd yn cynnwys nifer o newidiadau allweddol parthed gweithrediad, derbyn adborth y bwrdd o Gam 1 y gwerthusiad, adborth ehangach a thrafodaethau mewnol rhwng Llywodraeth Cymru, MaB a Lantra.

- Defnyddio themâu newydd (busnes, tir a da byw) i gyflwyno a chyfathrebu'r cynnig i ffermwyr (yn hytrach na Lotiau, a ddefnyddir nawr at ddibenion rheoli rhaglen yn fewnol), a diweddaru gwefan Cyswllt Ffermio i wella siwrnai'r cwsmer.
- Cyflwyno, a defnydd mwy cyson o, waelodlinau ar gyfer pob thema ar ddechrau siwrnai'r cwsmer (yn cynnwys cynlluniau busnes, meincnodi, iechyd anifeiliaid a rheoli maetholion), gydag aliniad agosach i Gynlluniau Datblygu Personol (CDPau) i ddangos yr angen ac annog mwy o bwyslais ar ganlyniadau.
- Cysylltiadau cryfach rhwng gweithgareddau, e.e. Grwpiau Trafod wedi'u cysylltu i Ffermydd Arddangos a rhaid i bob aelod ymgymryd â meincnodi, a rhoddir blaenoriaeth i gyfranogwyr Ffermydd Arddangos ar gyfer y Rhaglen Cyfnewidfa Rheolaeth.
- Ail-ganolbwyntio rhai gweithgareddau megis cyrsiau hyfforddi i sicrhau eu bod yn canolbwyntio mwy ar ddiwydiant, cael gwared ar y rheini sydd â'r nifer lleiaf yn eu defnyddio a chanolbwyntio ar gyrsiau e-ddysgu rhyngweithiol.
- Diwygio trefniadau llywodraethu er mwyn ehangu cyfranogiad diwydiant yn y Bwrdd Cynghori Strategol a chreu un Bwrdd Cyflenwi tanategol i ddisodli'r tri Is-grŵp Lotiau, gan wahaniaethu'n well rolau a chyfrifoldebau pob grŵp.

1.12 Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer Cam 2 yn fuan wedi lansio'r diweddariad. Er bod rhai ymgynghoreion yn gallu ystyried y manteision *posibl* sy'n deillio o'r dull diwygiedig a amlinellir uchod, roedd hi'n rhy gynnar i ymgynghoreion wneud sylwadau neu ddangos effaith ar waith. Roedd ffocws yr ymchwil yn bennaf ar y cyfnod 2014-20, h.y. hyd at fis Awst 2019.

### Strwythur yr adroddiad

1.13 Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro yn y modd canlynol:

- Mae Adran 2 yn rhoi trosolwg o nodweddion buddiolwyr, mewnbynnau ac allbynnau dros gyfnod y rhaglen
- Mae Adran 3 yn asesu effeithiolrwydd cyflenwi, rheolaeth a llywodraethu'r rhaglen
- Mae Adran 4 yn cyflwyno tystiolaeth am ganlyniadau ac effaith, ac i ba raddau y mae'r rhain yn ychwanegol
- Mae Adran 5 yn crynhoi gwersi allweddol o brofiad rhyngwladol
- Mae Adran 6 yn cyflwyno'r casgliadau ac argymhellion ar gyfer y dyfodol.

1.14 Cefnogir yr adroddiad hwn gan yr atodiadau canlynol:

- Atodiad A: Ymgynghoreion
- Atodiad B: Crynodebau astudiaethau achos
- Atodiad C: Nodweddion ymatebwyr astudiaeth achos
- Atodiad D: Dadansoddiad data monitro ychwanegol ar gyfer cyfnod diweddariad y rhaglen
- Atodiad E: Adolygiad o Gymaryddion Rhyngwladol - adolygiad manwl o raglenni
- Atodiad F: Gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol

# 2 Gweithrediad: nodweddion buddiolwyr, mewnbynnau ac allbynnau

2.1 Yn yr adran hon rydym yn rhoi trosolwg o nodweddion ac ymgysylltiad buddiolwyr Cyswllt Ffermio ac yn crynhoi perfformiad y rhaglen, o ran gwariant ac allbynnau yn erbyn targedau. Cyflwynir data gwariant ac allbwn ar gyfer rhaglen Cyswllt Ffermio 2014-19, ac ar wahân hyd fis Gorffennaf/Awst 2020 ar gyfer cyfnod diweddaru'r rhaglen (2019-22). Y cyfnod 2014-19 yw prif ffocws y gwerthusiad hwn; cynhwysir y data wedi mis Awst 2019 i roi diweddariad byr ar gynnydd ers y diweddariad.

**Negeseuon allweddol**

- Erbyn mis Awst 2020, roedd dros tua 23,000 o unigolion, ar draws tua 11,000 o fusnesau/daliadau, wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio. Mae nifer yr unigolion sydd wedi cofrestru wedi cynyddu gan bron i 3,800 ers mis Rhagfyr 2018. Roedd tri chwarter o unigolion cofrestredig wedi ymgysylltu â rhyw fath o weithgarwch rhaglen, yn nodweddiadol naill ai Lot 1 yn unig neu gyfuniad o Lotiau 1 a 3.
- Cyfanswm gwariant y rhaglen (2014-19) oedd £25.72 miliwn, yn agos iawn i'r gwariant a gyllidebwyd, sef £25.73 miliwn. Roedd mymryn o orwariant ar Lot 3 a thanwariant bach ar Lot 2.
- Ar y cyfan perfformiodd y rhaglen yn dda yn erbyn allbynnau targed gyda mwyafrif yr allbynnau ar draws yr holl Lotiau yn cael eu cyflawni, neu fynd y tu hwnt iddynt, erbyn diwedd cyfnod rhaglen 2014-19.
- Y gwariant ar gyflenwi rhaglen ddiweddaru Cyswllt Ffermio oedd ychydig dros £5.4 miliwn erbyn mis Gorffennaf 2020, a oedd yn unol â'r gwariant a ragamcanwyd erbyn yr adeg yma. Dros y cyfnod amser, gwnaed cynnydd da tuag at gyflawni allbynnau targed, yn arbennig o gofio effaith Covid-19 ar gyflenwi.

**Proffiliau a nodweddion buddiolwyr**

2.2 Mae'r isadran hon yn cyflwyno'r canfyddiadau allweddol o ddadansoddiad data monitro Cyswllt Ffermio (BAS), yn cwmpasu nodweddion yr unigolion a busnesau sydd wedi cofrestru gyda'r rhaglen, ac yn rhan fwyaf o achosion a dderbyniodd gefnogaeth, yn ogystal â'r mathau o gefnogaeth a ddarparwyd drwy'r rhaglen.

Mae'r data monitro a ddadansoddir yn cwmpasu'r cyfnod hyd at ddiwedd mis Awst 2020.

*Proffil unigolion*


2.3 Roedd dros 23,000 o unigolion wedi cofrestru gyda rhaglen Cyswllt Ffermio erbyn mis Awst 2020, cynnydd gan bron i 3,800 ers mis Rhagfyr 2018 (adroddiad Cam 1). Mae eu nodweddion allweddol fel a ganlyn:

- Gan adlewyrchu natur y sector, mae tua dwy ran o dair yn ddynion, a 32% o'r unigolion cofrestredig yn fenywod.
- Nododd ychydig dan dri chwarter Saesneg fel eu dewis iaith ar gyfer gohebiaeth[5].
- Mae'r rhaglen wedi denu unigolion ar draws pob grŵp oedran rhwng 16 a 75 a hŷn. Nid yw'r categorïau a ddefnyddir ar gyfer cofnodi oedran ar raddfa wastad ond y grwpiau uchaf eu cynrychiolaeth oedd y rheini rhwng 25-40 (24%) a 51-60 (22%).
- Roedd unigolion y mae eu rôl yn "bartner busnes" neu "bennaeth daliad" yn cyfrif am dros hanner (55%) yr unigolion cofrestredig, ond mae "partneriaid" a "meibion" hefyd yn gwneud cyfran sylweddol o'r rheini sy'n gofrestredig (15% a 12% yn yr un drefn)[6].
- Y siroedd mwyaf o ran eu maint daearyddol sydd hefyd â'r nifer uchaf o unigolion cofrestredig. Mae'r rheini o Bowys yn cyfrif am bron i chwarter (24%) yr holl gofrestriadau, y rheini o Sir Gaerfyrddin 14%, tra bod Ceredigion a Sir Benfro yn cyfrif am 10% yr un.
- Ar gyfartaledd roedd dau unigolyn wedi cofrestru ar gyfer pob busnes, yn gyffredinol ac ymhlith y rheini oedd yn ymgysylltu. Roedd y ffigur hwn yn amrywio'n sylweddol, gyda llawer o unigolion yn gofrestredig ar gyfer rhai busnesau.

2.4 Mae nodweddion y sail buddiolwyr yn debyg iawn i rai adroddiad Cam 1.

[5] Sylwer, nid yw hynny'n golygu na all yr unigolion hyn siarad Cymraeg
[6] Sylwer, nid yw'r dadansoddiad yn cynnwys rhai anhysbys (n=31)

**Ffigur 2.1: Nodweddion unigolion**




Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata BAS

*Dwyster yr ymgysylltu*

2.5 **Hyd yma, yn ôl cronfa ddata Cyswllt Ffermio, mae tua thri chwarter (76%) o *unigolion* sydd wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio wedi ymgysylltu'n weithredol â'r rhaglen[7].** Mae hyn yn gyffredinol wir ar draws yr holl gategorïau unigolion, oni bai am "fyfyrwyr"[8], "priod" neu "ferched", lle mae ymgysylltu yn is, 47%, 69% a 70% yn y drefn honno. Mae data pellach a ddarparwyd gan MaB yn awgrymu bod 82% o'r *busnesau* sydd wedi ymgysylltu â'r rhaglen wedi ymgysylltu â chefnogaeth, ac nid yw 12% wedi ymgysylltu, gyda'r disgwyliad bod unigolion o'r busnesau hynny sy'n ymgysylltu yn rhannu dysgu/negeseuon allweddol gyda busnesau eraill.

---

[7] h.y. ymgysylltu ag un neu ragor o weithgareddau Cyswllt Ffermio, yn hytrach na derbyn deunyddiau Cyswllt Ffermio yn unig (mae pob ffermwr cofrestredig yn derbyn e-byst gwybodaeth gyffredinol ac ati)
[8] Dylid bod yn ofalus wrth ystyried y canfyddiad hwn oherwydd bod cyfanswm nifer y myfyrwyr yn fach (n=17)


2.6 Mae mwyafrif yr unigolion sydd wedi ymgysylltu'n weithredol (n=17,951) wedi gweithio gydag un Lot yn unig (53%, n=9,537), dros un rhan o dair (37%, n=6,594) wedi ymgysylltu â dwy Lot, a 10% (n=1,820) wedi ymgysylltu â gweithgaredd o dan bob un o'r tair Lot. Dangosir y cyfrannau sydd wedi ymgysylltu â phob Lot yn Ffigur 2. Mae un rhan o dair o unigolion sydd wedi ymgysylltu â rhyw weithgaredd, wedi ymgysylltu â Lot 1 (Trosglwyddo Gwybodaeth) yn unig. Mewn cymhariaeth, mae cyfrannau llawer llai wedi ymgysylltu â Lot 2 (Dysgu Gydol Oes a Datblygu) yn unig neu Lot 3 (Gwasanaeth Cynghori) yn unig, sef 7% a 10% yn yr un drefn. Roedd y rheini oedd wedi ymgysylltu â mwy nag un Lot, yn fwy tebygol o fod wedi ymgysylltu â gweithgareddau o dan Lotiau 1 a 3 na gyda gweithgareddau Lot 1 a 2[9].

2.7 Mae ymgysylltiad yn ôl Lot yn amrywio yn ôl rôl. Er enghraifft, mae mwyafrif y "myfyrwyr" wedi ymgysylltu â Lot 2 yn unig (75%), ac mewn cymhariaeth mae'r rhan fwyaf o "bartneriaid busnes" neu "benaethiaid daliad" wedi ymgysylltu â Lot 1 yn unig, neu gyfuniad o Lot 1 a Lot 3, (69% a 65% yn yr un drefn).

2.8 Mae arwyddion calonogol o gynnydd ers Cam 1 yr ymchwil o ran i ba raddau y mae ffermwyr sydd wedi cofrestru â'r rhaglen yn ymgysylltu â'r gefnogaeth - ac yn gwneud hynny ar draws y portffolio. Er enghraifft, mae cyfran y rheini sydd wedi cofrestru ac wedi ymgysylltu'n weithredol â chefnogaeth wedi cynyddu ychydig ers Cam 1 (o 69% i 76%), ac mae'r gyfran sydd wedi ymgysylltu â mwy nag un Lot wedi cynyddu (fel y dangosir isod).

[9] Dylid bod yn ofalus wrth ystyried y canfyddiadau hyn oherwydd dim ond enw pennaeth y daliad sy'n cael ei gofnodi yn erbyn Lot 3 yn BAS, felly, dim ond un unigolyn o fusnes y gellir ei gofnodi fel un sy'n cyrchu'r tair Lot.

**Ffigur 2.2: Cefnogaeth a gyrchwyd gan unigolion sydd wedi cofrestru ym mis Awst 2020 (a'r newid ers mis Rhagfyr 2018 fel y cyflwynwyd yn adroddiad Cam 1)[10]**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad SQW o ddata BAS*

*Proffil busnesau*

2.9 Mae 11,311 o fusnesau/daliadau unigryw wedi cofrestru â Cyswllt Ffermio. Yn ôl MaB, mae hyn yn cynrychioli tua 70-75% yr holl ddaliadau amaethyddol cymwys yng Nghymru. Mae nifer y daliadau sydd wedi cofrestru ar gyfer Cyswllt Ffermio wedi cynyddu gan 18% (neu 1,735 o fusnesau) ers mis Rhagfyr 2018 (fel y cyflwynwyd yn adroddiad Cam 1). Erbyn mis Awst 2020 roedd y rhan fwyaf o fusnesau yn gweithredu yn y sector Amaethyddol (95%), sectorau Defaid/Geifr ac Eidion yn bennaf (37% a 35% yn yr un drefn)[11]. Fel y gellid disgwyl, mae daearyddiaeth busnes yn adlewyrchu'n agos lle mae unigolion wedi'u lleoli, gyda chynrychiolaeth uchel o Bowys (23%) a Sir Gaerfyrddin (15%). Mae'r rhan fwyaf o fusnesau yn gymwys ar gyfer Cyswllt Ffermio fel "busnes ffermio" (91%), gyda chyfran fach yn "fyfyrwyr" (6%).

2.10 Ar adeg cofrestru, roedd gan tua hanner (49%) y busnesau drosiant o rhwng £10K a £100K, ac roedd gan leiafrif sylweddol (21%) drosiant o lai na £10K. Dim ond 2% o'r busnesau oedd â throsiant o dros £1 miliwn. Nid oedd gan ychydig

[10] Mae'r data'n seiliedig ar y rhai a dderbyniodd gefnogaeth gan o leiaf un Lot - ni dderbyniodd 5,660 gefnogaeth o gwbl.
[11] Mae'r categorïau hyn yn annibynnol ar ei gilydd, rhaid i ffermwyr ddewis un prif sector yn unig yn BAS

dros dair rhan o bump o’r busnesau cofrestredig (64%) gyflogeion. O’r 4,025 o fusnesau oedd â chyflogeion, roedd gan 40% ohonynt un cyflogai llawn amser, ac roedd gan 35% ohonynt ddim ond un cyflogai rhan amser[12]. Roedd meintiau busnesau dan sylw yn debyg iawn i’r rheini yng Ngham 1.

2.11 Mae maint nodweddiadol y busnesau a oedd yn ymgysylltu â Cyswllt Ffermio yn debyg i, ond ychydig yn llai na’r boblogaeth gofrestredig. Roedd gan y mwyafrif drosiant is na £500K (95%) a dim cyflogeion (64%)[13]. Mae nodweddion maint yn debyg i’r rheini ar gyfer pob busnes amaethyddol yng Nghymru: yn 2018/19, cyfartaledd incwm busnes fferm (FBI) yng Nghymru oedd £24,000 a’r maint daliad cyfartalog ym mis Mehefin 2019 oedd 57 hectar[14,15].

*Ymgysylltiad â Cyswllt Ffermio*

*Lot 1 (Trosglwyddo Gwybodaeth)*

2.12 **O dan Lot 1, y digwyddiad a fynychwyd yn fwyaf cyffredin yw un ar “Ymwybyddiaeth Strategol”** (yn cynnwys Mentro)**,** sy’n cyfrif am 31% (20,121) o gyfanswm yr ymgysylltu â Lot 1. Roedd “Grwpiau Trafod” (19%) a “Digwyddiadau Arddangos” (17%) hefyd yn gyfrifol am gyfran sylweddol o weithgareddau Lot 1, ac yna “Clinigau” (10%) ac “Agrisgôp” (9%)[16]. Roedd y gweithgareddau a oedd yn gyfrifol am ddim ond cyfran fechan o ymgysylltu cyffredinol buddiolwyr, yn cynnwys, “Mentora Un i Un” (n=1,369 o ymgysylltiadau gan n=399 o fuddiolwyr) ac “Academi Amaeth” (n=577 o ymgysylltiadau gan n=176 o fuddiolwyr). Cyfartaledd nifer y digwyddiadau a fynychwyd oedd pedwar, gydag uchafswm o 116 o ddigwyddiadau wedi cael eu mynychu gan un unigolyn.

*Lot 2 (Dysgu Gydol Oes a Datblygu)*

---

[12] Sylwer, darperir y data hwn ar adeg cofrestru ac felly gall newid dros amser

[13] Sylwer, efallai y bydd gan gwmnïau heb gyflogeion weithwyr amaethyddol fel meibion/merched/priod nad ydynt yn cael eu talu'n ffurfiol fel gweithiwr ond sy'n aml yn rhan o'r bartneriaeth.

[14] Sylwer, cyfrifwyd hyn o gyfanswm arwynebedd y tir wedi'i rannu â nifer y daliadau o'r ffigurau a roddwyd yn adroddiad Mehefin 2019 - Arolwg Amaethyddol a Garddwrol: Canlyniadau Cymru (2019)

[15] Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru (2020) Ffeithiau a Ffigurau Ffermio, Cymru 2020

[16] Sylwer, mae'r ffigurau hyn yn cyfeirio at gyfanswm ymgysylltiadau gyda phob llinyn o weithgaredd o dan Lot 1, nid cyfanswm nifer y buddiolwyr unigryw sydd wedi ymgysylltu. Mae gweithgareddau fel Grwpiau Trafod ac Agrisgôp yn cynnwys ymgysylltu dwys iawn, ond mae'r gefnogaeth wedi'i chanoli ymhlith nifer fach o fuddiolwyr.

2.13 O dan Lot 2, cyflwynwyd 8,654 o geisiadau am hyfforddiant hyd at ddiwedd mis Awst 2020[17]. **Cyfartaledd nifer y ceisiadau hyfforddiant fesul unigolyn oedd dau**, y nifer uchaf oedd 15[18]. Roedd bron i 55% o'r ceisiadau hyn wedi cael eu cymeradwyo a'u darparu erbyn mis Awst 2020.

2.14 **Ar gyfartaledd, mynychwyd un cwrs hyfforddiant fesul unigolyn,** gydag uchafswm o wyth cwrs yn cael eu cwblhau gan un person. O'r tua 4,670 o geisiadau am hyfforddiant oedd wedi'u cyflawni, "peiriannau ac offer" oedd y categori mwyaf cyffredin (42% o'r cyrsiau a gwblhawyd) ac yna cefnogaeth "dechnegol" (37%). Roedd "Gwella busnes" yn cyfrif am 18% o'r cyrsiau sydd wedi'u cwblhau hyd yma. Ni nodwyd testun y 2% o'r cyrsiau sy'n weddill yng nghronfa ddata'r rhaglen.

2.15 **Roedd hyfforddiant wedi'i wasgaru ar draws 68 o wahanol gyrsiau.** "Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnydd Diogel o Blaladdwyr (PA1) a Defnydd Diogel o Blaladdwyr gan ddefnyddio Offer Chwistrellu ar Gerbyd (PA2)", a "Dyfarniad Lefel 2 mewn Defnydd Diogel o Blaladdwyr (PA1) a Defnydd Diogel o Blaladdwyr gan ddefnyddio Offer Llaw (PA6)" oedd y cyrsiau a gyflawnwyd amlaf, gan gyfrif am 14% ac 8% o'r holl gyrsiau a gwblhawyd yn yr un drefn.

2.16 Roedd mathau o gyrsiau yn amrywio yn ôl sector busnes. "Gwella busnes" oedd y mwyafrif o gyrsiau hyfforddiant a gwblhawyd gan unigolion yn y sector moch, tra bod deiliaid/perchnogion coedwigoedd wedi cwblhau'r cwrs hyfforddi "peiriannau ac offer" yn fwyaf aml. Roedd myfyrwyr amaethyddiaeth, coedwigaeth a garddwriaeth wedi cwblhau cyrsiau "peiriannau ac offer" yn fwyaf aml.

2.17 Yn ogystal, **cwblhawyd 4,999 o fodiwlau e-ddysgu** erbyn diwedd mis Awst 2020. Roedd bron i ddwy ran dair o'r holl fodiwlau a gwblhawyd (n=3,236) yn rhai "iechyd a diogelwch", sy'n fodiwl gorfodol ar gyfer cyrsiau "peiriannau neu offer". Yn dilyn hyn, y modiwlau a gwblhawyd yn fwyaf aml oedd "cyllid fferm" (n=73), "cloffni ymhlith defaid" (n=72) a "rheoli llyngyr yr afu/iau ar fferm" (n=68).

*Lot 3 (Gwasanaethau Cynghori)*

---

[17] Oherwydd COVID-19 dylid dehongli'r ffigur hwn yn ofalus. Mae gan ymgeiswyr naw mis i hawlio am gwrs, ond gan fod rhai cyrsiau'n ymarferol, ac felly na ellir eu darparu ar-lein, mae ceisiadau wedi'u canslo ac yna eu hailgyflwyno yn BAS. Felly, mae niferoedd y ceisiadau wedi bod yn newid yn barhaus trwy gydol y pandemig. Sylwer, darparwyd data ar gyfer Lot 2 hyd at fis Awst 2020.

[18] Mae'r ffigur yn cynnwys unigolion sydd wedi cwblhau un neu ragor o geisiadau yn unig

2.18 **Hyd yma, roedd dros 5,800 o geisiadau cynghori wedi cael eu cyflwyno o dan Lot 3, ac roedd 4,474 (76%) wedi'u cwblhau**. Fe wnaeth ychydig mwy o fuddiolwyr gwblhau cefnogaeth grŵp (55%) na chyngor un i un (43%)[19]. Er mwyn cyrchu cefnogaeth o dan Lot 3, yn gyntaf fe wnaeth y mwyafrif o unigolion fynychu digwyddiad Trosglwyddo Gwybodaeth penodol (59%), neu ddatblygu cynllun busnes drwy Cyswllt Ffermio (33%) i ddangos sut y gellid datblygu'r cyngor a dderbyniwyd. Roedd y gweddill wedi cwblhau cynllun busnes o dan y rhaglen flaenorol (4%) neu wedi drafftio un eu hunain / yn breifat gyda chefnogaeth o rywle arall (4%). I grynhoi, roedd tua dwy ran o bump o unigolion wedi cwblhau cynllun busnes.

2.19 Roedd busnesau sy'n gweithredu yn y sectorau Eidion a Godro yn gyfrifol am y gyfran fwyaf o fusnesau sydd wedi derbyn cefnogaeth, gyda'r ddau sector yn cyfrif am dros 30% yr un. Y categori a ddefnyddiwyd amlaf oedd "Technegol - rheoli glaswelltir a chnydau", yn arbennig ar gyfer cyngor grŵp. Ar gyfer cyngor un i un, "cynllunio busnes" oedd yr un mwyaf cyffredin. Y thema drawsbynciol fwyaf cyffredin yr aed i'r afael â hi oedd 'Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol'.

**Dadansoddiad perfformiad o ran gwariant ac allbynnau**

*Rhaglen Cyswllt Ffermio 2014-19: proffil gwariant ac allbynnau 2015-2019*

2.20 Yn yr isadran hon rydym yn cyflwyno data ar wariant ac allbynnau ar gyfer rhaglen Cyswllt Ffermio dros y cyfnod Awst 2015 hyd Awst 2019, h.y. cyfnod y rhaglen y mae'r gwerthusiad hwn yn canolbwyntio arno.

2.21 Mae Tabl 2.1 isod yn cyflwyno gwariant cyfanredol yn ôl Lot dros hyd oes y rhaglen. **Roedd cyfanswm gwariant y rhaglen yn unol â'r gyllideb sef £25.7 miliwn, 99.9% o'r rhagamcaniad ar gyfer diwedd cyfnod y rhaglen** (Awst 2019).

---

[19] YN ogystal â grŵp 2% – mentrau ar y cyd

**Tabl 2.1: Trosolwg o wariant y rhaglen o gymharu â rhagamcaniad Awst 2015-Awst 2019 (£miliwn)**

| | A: Cyfanswm gwariant (Awst 2015-Awst 2019) | B: Cyfanswm rhagamcaniad gwariant (Awst 2015-Awst 2019) | C: Gwahaniaeth (B-A) | D: % Gwahaniaeth (A/B) |
|---|---|---|---|---|
| Lot 1 | 18,510,117 | 18,515,372 | -5,256 | 0% |
| Lot 2 | 2,362,303 | 2,397,076 | -34,773 | -1% |
| Lot 3 | 4,851,350 | 4,817,678 | 33,672 | 1% |
| **Cyfanswm** | **25,723,770** | **25,730,126** | **-6,356** | **0%** |

*Ffynhonnell: MaB a Lantra. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys TAW.*

2.22 Isod dadgyfunir gwariant y rhaglen ar draws Lotiau a gweithgareddau Cyswllt Ffermio.

*Gwariant ar Drosglwyddo Gwybodaeth a Gwasanaethau Cynghori a gyflenwyd gan MaB*

2.23 Dros hyd oes y rhaglen (2015-2019) roedd cyfanswm y gwariant ar Lotiau 1 a 3 yn agos i'r gyllideb, sef £18.5 miliwn a £4.85 miliwn yn yr un drefn. Costau rhedeg y rhaglen oedd yn cyfrif am fwyafrif y gwariant (58%) o dan Lot 1. Yn ôl gweithgaredd, gwariant ar y Rhwydwaith Arddangos oedd y mwyaf, ac yna'r Grwpiau Trafod ac Agrisgôp. O dan Lot 3, Hyfforddiant Grŵp a chyngor un i un oedd yn cyfrif am y gyfran uchaf o gyfanswm y gwariant, sef 51% a 36% yn yr un drefn (gweler Tabl 2.3).

**Tabl 2.2: Lot 1: Cyfanswm gwariant o fis Awst 2015 hyd at fis Awst 2019 ar weithgareddau Cyswllt Ffermio**

| **Categori** | | Cyllideb (£) | Gwirioneddol (£) | Amrywiad (£) | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau Cynnal y Rhaglen | Mae'r costau hyn yn cynnwys darpariaeth staff cyflenwi'r gweithgareddau a staff canolfan wasanaethau sy'n hyrwyddo a gweinyddu Cyswllt Ffermio yn gyfan | 10,887,073 | 10,781,472 | -105,602 | -1% |
| Datblygu a Mentora | Arweinwyr ifanc ac arloeswyr busnes<br>Mentora fferm/coedwigaeth un i un<br>Agrisgôp<br>Mentro<br>Cyfnewidfa rheolaeth Ffermydd a choedwigaeth ac<br>Ymweliadau tymor byr | 1,365,591 | 1,369,284 | 3,693 | 0% |
| Gweithgareddau Technegol | Rhwydwaith Arddangos<br>Hyb Cyfnewid Gwybodaeth<br>Grwpiau Trafod | 3,051,280 | 3,004,737 | -46,543 | -1.5% |
| Digwyddiadau a chefnogaeth un i un | Digwyddiadau ymwybyddiaeth arallgyfeirio<br>Digwyddiadau Cymraeg<br>Cymorthfeydd un i un a Chlinigau<br>Ymwybyddiaeth Strategol | 1,750,196 | 1,901,519 | 151,322 | 9% |
| Cyfathrebu | Mae hyn yn cwmpasu cyfathrebu a marchnata ar gyfer | 1,461,232 | 1,453,105 | -8,127 | -1% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | y rhaglen gyfan (h.y. Lotiau 1, 2 a 3), ac yn cynnwys costau cyfieithu a mynychu sioeau ac arddangosfeydd | | | | |
| **Cyfanswm Lot 1** | | **18,515,372** | **18,510,117** | **-5,256** | **(0)** |

*Ffynhonnell: MaB (derbyniwyd 8 Gorffennaf 2020). Nid yw'r ffigurau'n cynnwys TAW.*

**Tabl 2.3: Lot 3: Cyfanswm gwariant o fis Awst 2015 hyd at fis Awst 2019 ar weithgareddau Cyswllt Ffermio**

| **Categori** | Cyllideb (£) | Gwirioneddol (£) | Amrywiad (£) | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|
| Costau Cynnal y Rhaglen | 326,247 | 322,807 | -3,440 | -1% |
| Cyngor Un i Un | 1,658,519 | 1,733,176 | 74,657 | 5% |
| Hyfforddiant Grŵp | 2,536,914 | 2,476,205 | -60,709 | -2% |
| EIP - Grwpiau Gweithredol | 263,071 | 286,103 | 23,031 | 9% |
| Meincnodi | 32,928 | 33,060 | 132 | 0% |
| **Cyfanswm Lot 3** | **4,817,678** | **4,851,350** | **33,672** | **1%** |

*Ffynhonnell: MaB (derbyniwyd 8 Gorffennaf 2020). Nid yw'r ffigurau'n cynnwys TAW.*

*Gwariant ar ddarpariaeth hyfforddiant a gyflwynwyd gan Lantra*

2.24 Dros hyd oes y rhaglen, cyfanswm y gwariant o dan Lot 2 oedd £2.36 miliwn, 99% o'r gyllideb o £2.397 miliwn. Roedd hyfforddiant achrededig cwrs byr (43%) a chostau cynnal y rhaglen (42%) yn gyfrifol am fwyafrif y gwariant (gweler Tabl 2.4).

**Tabl 2.4: Lot 2: Cyfanswm gwariant o fis Awst 2015 hyd at fis Awst 2019 ar weithgareddau Cyswllt Ffermio**

| **Categori** | Cyllideb (£) | Gwirioneddol (£) | Amrywiad (£) | Amrywiad (%) |
|---|---|---|---|---|
| Costau Cynnal y Rhaglen | 1,021,913 | 990,084 | -31,829 | -3% |
| Hyfforddiant Achrededig Cwrs Byr | 1,008,182 | 1,005,487 | -2,695 | 0% |
| E-ddysgu Achrededig | 182,016 | 181,767 | -249 | 0% |
| Cynlluniau Datblygu Personol | 184,965 | 184,965 | - | 0% |
| **Cyfanswm Lot 2** | **2,397,076** | **2,362,303** | **-34,773** | **-1%** |

*Ffynhonnell: Lantra (derbyniwyd 12 Awst 2020).*

*Proffil allbynnau 2015-2019*

2.25 Ar y cyfan perfformiodd y rhaglen yn dda yn erbyn allbynnau targed. Fodd bynnag, roedd peth amrywiad o ran perfformiad rhwng y Lotiau.

2.26 Dros gyfnod y rhaglen, **cyflawnwyd neu aethpwyd y tu hwnt i holl dargedau allbwn Lot 1**. Aethpwyd ymhell y tu hwnt i nifer o dargedau, gan gynnwys nifer y Clinigau (785 o gymharu â'r targed o 84) a chofrestriadau Cyswllt Ffermio (10,480 o gymharu â'r targed o 2,000) (gweler Tabl 2.5).

2.27 O dan Lot 2, **aethpwyd ymhell y tu hwnt i'r holl dargedau**. Er enghraifft, cyflawnwyd 131% o'r nifer targed ar gyfer cwblhau hyfforddiant un i un ac ar-lein (gweler Tabl 2.6).

2.28 **Roedd y perfformiad yn erbyn y targedau yn fwy amrywiol o dan Lot 3**. Nifer yr achosion o gyngor a hawliwyd (gan gynnwys cyngor Grŵp ac Un i Un) oedd 3,216, ac roedd hyn yn is na'r targed o 4,000 (80%), gweler Tabl 2.5. Mae'r tanberfformio yn erbyn y targedau cyngor yn peri rhywfaint o syndod, yn arbennig o gofio adborth ansoddol ynglŷn â'r galw cynyddol am, ac effeithiolrwydd, cefnogaeth un i un, ond efallai ei fod yn adlewyrchu amharodrwydd ymhlith busnesau i beidio "defnyddio" eu dyraniad o gefnogaeth yn rhy gyflym (trafodir hyn mewn rhagor o fanylder isod).

**Tabl 2.5: Allbynnau rhaglen Lot 1 (Awst 2015-Awst 2019)**

| **Disgrifiad** | Targed y rhaglen (2015-2019) | Cyflawnwyd (2015-2019) | % a gyflawnwyd yn erbyn targedau'r rhaglen |
|---|---|---|---|
| Academi Amaeth | 12 | 12 | 100% |
| Mentora un i un | 280 | 408 | 146% |
| Digwyddiadau Rhwydwaith Arddangos | 480 | 651 | 136% |
| Cyfathrebu | 314 | 747 | D/G |
| Sioeau ac Arddangosfeydd | 64 | 64 | 100% |
| Ffeithlenni a Chanllawiau | 24 | 54 | 225% |
| Cyhoeddiadau Technegol | 24 | 24 | 100% |
| Erthyglau Technegol a Hysbysiadau yn y Wasg | 200 | 607 | 304% |
| Cynhadledd | 2 | 2 | 100% |
| Cyfnewid Gwybodaeth | 2* | 2* | N/A |
| Grwpiau Trafod | 100 | 119 | 119% |
| Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol | 280 | 421 | 150% |
| Digwyddiadau Cymraeg | D/G | 5 | |
| Seminarau Ymwybyddiaeth o Arallgyfeirio | 12 | 13 | 108% |
| Grwpiau Agrisgôp (Dysgu Gweithredol) | 120 | 136 | 113% |
| Cymorthfeydd Un i Un | 240 | 721 | 300% |
| Clinigau | 84 | 785 | 935% |
| Mentro | D/G | D/G | D/G |
| Cyfnewidfeydd Rheolaeth | 32 | 34 | 109% |
| Ymweliadau Astudio | 24 | 28 | 117% |
| Nifer cofrestriadau Cyswllt Ffermio (Cyfanswm busnesau sydd wedi cofrestru ar BAS) | 2,000 | 10,480 | 524% |

*Ffynhonnell: MaB (derbyniwyd 8 Gorffennaf 2020)*

**Tabl 2.6: Allbynnau rhaglen Lot 2 (Awst 2015-Awst 2019)**

| **Disgrifiad** | Targed y rhaglen (2015-2019) | Cyflawnwyd (2015-2019) | % a gyflawnwyd yn erbyn targedau'r rhaglen |
|---|---|---|---|
| Achosion o hyfforddiant achrededig un i un wedi'u cwblhau | 6,000 *(Targed blynyddol 1,500)* | 3,760 | 131% |
| Achosion o e-ddysgu ar-lein wedi'u cwblhau | | 4,095 | |
| *Achosion o e-ddysgu ac eithrio Iechyd a Diogelwch* | | 1,250 | |
| *Achosion o Iechyd a Diogelwch* | | 2,845 | |
| Cynlluniau Datblygu Personol | 3,200 *(Targed blynyddol 800)* | 4,733 | 148% |
| Modiwlau hyfforddiant e-ddysgu newydd wedi'u cynhyrchu | 58[20] | 74 | 128% |

*Ffynhonnell: Lantra (derbyniwyd 12 Awst 2020)*

**Tabl 2.7: Allbynnau rhaglen Lot 3 (Awst 2015-Awst 2019)**

| **Disgrifiad** | Targed y rhaglen (2015-2019) | Cyflawnwyd (2015-2019) | % a gyflawnwyd yn erbyn targedau'r rhaglen |
|---|---|---|---|
| Achosion o gyngor un i un a hawliwyd | 4,000 | 3,216 | 80% |
| Achosion Grŵp o gyngor a hawliwyd | | | |
| EIP (cymeradwyaethau prosiect) | 45 dros gyfnod oes yr RDP | 23 | 51% |

*Ffynhonnell: MaB (derbyniwyd 15 Gorffennaf 2020)*

### Rhaglen ddiweddaru Cyswllt Ffermio: proffil gwariant ac allbynnau 2019-2022

2.29 Er mai prif ffocws y gwerthusiad hwn yw cyfnod y rhaglen hyd at fis Awst 2019, rydym yn rhoi crynodeb byr isod o gynnydd o ran gwariant ac allbynnau ar gyfer diweddariad y rhaglen (Awst 2019 hyd Awst 2022). Mae'r data'n cwmpasu'r cyfnod o fis Medi 2019 hyd at fis Gorffennaf 2020 yn gynhwysol. Mae'r negeseuon allweddol fel a ganlyn (gweler Atodiad D i gael rhagor o fanylion).

[20] Y targed yn wreiddiol oedd 120 ond fe'i diwygiwyd yn ddiweddarach yn dilyn trafodaethau rhwng Lantra a Llywodraeth Cymru a ddaeth i'r casgliad y dylid blaenoriaethu ansawdd dros swm.

- Erbyn mis Gorffennaf 2020 roedd ychydig dros £5.4 miliwn wedi'i wario ar gyflenwi rhaglen ddiweddaru Cyswllt Ffermio ar draws y tair Lot, ac roedd hyn yn cyfateb i 26% o wariant hyd oes a ragamcanwyd o £20.7 miliwn hyd at fis Awst 2022 ac roedd yn unol â'r gwariant a ragamcanwyd ar y pwynt hwn.
- Roedd y gwariant hwn yn cynnwys £3.6 miliwn ar weithgareddau Trosglwyddo Gwybodaeth o dan Lot 1 (yr oedd 75% ohono wedi'i wario ar gostau cynnal y rhaglen), £388k ar hyfforddiant o dan Lot 2 (yr oedd hanner ohono wedi'i wario ar gostau cynnal y rhaglen, a'r rhan fwyaf o'r gweddill ar hyfforddiant achrededig cwrs byr), ac roedd £1.4 miliwn wedi'i wario ar Wasanaethau Cynghori o dan Lot 3 (yr oedd hanner ohono wedi'i wario ar hyfforddiant grŵp, a thraean ohono ar gyngor un i un).
- Dros y cyfnod rhwng mis Medi 2019 a mis Gorffennaf 2020 gwnaed cynnydd da tuag at gyflawni allbynnau targed o dan Lot 1, yn arbennig o gofio effaith COVID-19 ar gyflenwi. Roedd bron i dri chwarter y targedau allbwn blynyddol eisoes wedi'u cyflawni, neu aethpwyd y tu hwnt iddynt, er gwaethaf bod un mis yn weddill ar gyfer cyflenwi. Effeithiwyd ar beth gweithgarwch gan bandemig COVID-19, yn arbennig sioeau ac arddangosfeydd, a chafodd hyn ei adlewyrchu mewn llai o allbynnau nag a ddisgwyliwyd hyd yma. Fodd bynnag, addasodd y rhaglen drwy gyflenwi peth gweithgarwch ar ffurf gweminarau (yn cynnwys Digwyddiadau Arddangos a Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol) a chynyddu gweithgareddau eraill, megis Cymorthfeydd, i wneud yn iawn am hynny. Yn yr un modd gwnaeth Lot 2 gynnydd da, gan fynd y tu hwnt i'r targedau blynyddol ar gyfer hyfforddiant wyneb yn wyneb ac e-ddysgu erbyn mis Gorffennaf. O dan Lot 3, aethpwyd ymhell y tu hwnt i'r targed blynyddol ar gyfer cyngor grŵp, a chyrhaeddwyd 70% o'r targed blynyddol (Awst 2019 hyd Gorffennaf 2020) ar gyfer cyngor un i un.

## 3. Gweithredu: Effeithiolrwydd cyflenwi, rheolaeth a llywodraethu'r rhaglen

3.1 Yn yr Adran hon rydym yn rhoi cyfuniad o adborth ynglŷn ag effeithiolrwydd cyflenwi, rheoli a llywodraethu yn seiliedig ar farn ymgynghoreion yn ystod Gwanwyn 2020, ac yn ystyried hefyd pan fo hynny'n berthnasol sut y cafodd canfyddiadau Cam 1 eu defnyddio yn niweddariad y rhaglen ym mis Medi 2019. Mae'r deunydd a gyflwynir isod yn defnyddio ymgynghoriadau gyda staff rheoli, cyflenwi a llywodraethu a phartneriaid allanol, ochr yn ochr â'n grwpiau ffocws ac astudiaethau achos manwl. Mae'n werth ail-bwysleisio, er bod y diweddariad wedi'i lansio, ei bod yn rhy gynnar i asesu (ac mae y tu hwnt i gylch gwaith y gwerthusiad hwn) a yw'r newidiadau hynny wedi cael effaith gadarnhaol ar weithredu. Felly, mae sylwadau'n ymwneud â'r diweddaru yn canolbwyntio ar y manteision *posibl* wrth symud ymlaen.

**Negeseuon allweddol**

- Mae Cyswllt Ffermio'n darparu ystod eang o gefnogaeth sy'n adlewyrchu ystod amrywiol o anghenion ffermwyr a'r dulliau a ffafrir ganddynt ar gyfer dysgu a datblygu. Fodd bynnag, mae diffyg ffocws strategol wedi bod i'r cynnig, sy'n bwysig o gofio maint a chyflymder y newid sydd ei angen yn y sector.
- Mae galw cynyddol i ganolbwyntio ymdrechion ar gryfhau'r ymgysylltiad â ffermwyr sydd am newid drwy fynediad wedi'i hwyluso i ddatblygu cefnogaeth mewn pecynnau wedi'u personoleiddio a darparu cefnogaeth barhaus drwy gydol siwrnai'r cwsmer.
- Mae elfennau o Cyswllt Ffermio sy'n dangos arfer da yn cynnwys ffocws deuol ar yr hyn sydd angen ei newid a darparu ffermwyr â'r sgiliau a'r wybodaeth i roi'r newid hwnnw ar waith, a phwyslais ar hunangymorth, dysgu ymarferol ar y fferm, a chyfuniad o ddysgu rhwng cymheiriaid a chyngor personol.
- Mae heriau wedi cynnwys amrywiaeth yn ansawdd hwyluswyr/cynghorwyr, dim digon o hyblygrwydd yn y cynnig hyfforddiant, heriau mewn rheoli cefnogaeth "cyfyngedig o ran amser", a'r angen am lwybr cliriach i ffermwyr sydd eisiau datblygu.
- Roedd bylchau yn y cynnig yn cynnwys mynediad at gyllid i alluogi ffermwyr i roi newidiadau ar waith, mwy o bwyslais ar amaethyddiaeth fanwl a gofynion carbon isel, ehangu'r cynnig i gysylltu ffermwyr i'r gadwyn fwyd ehangach, a'r angen cynyddol am gefnogaeth iechyd meddwl.

- Mae'r rhaglen yn cael ei rheoli'n effeithiol, gyda phwyslais cryf ar welliant parhaus ac addasu i anghenion sy'n newid a chyd-destunau heriol. Mae gweithio mewn partneriaeth ar lefel weithredol wedi gwella, ond mae cyfle i weithio mewn partneriaeth gryfach ac aliniad ar lefel strategol. Rhwng Camau 1 a 2 gwelwyd gwelliant amlwg yng nghyflwyniad y wefan, defnydd gwaelodlinau a meincnodau, ymdrechion i gysylltu elfennau o daith cwsmeriaid yn fwy amlwg ar gyfer ffermwyr, a threfniadau llywodraethu i gynnwys mwy o gynrychiolaeth diwydiant.

**Y Cynnig Cyswllt Ffermio**

3.2 Mae Cyswllt Ffermio yn **rhaglen fawr ac amlweddog:** yn nau gam yr ymchwil, canmolwyd Cyswllt Ffermio am ehangder y gefnogaeth a gynigir a oedd yn adlewyrchu ystod amrywiol anghenion ffermwyr, eu profiad o "roi cynnig ar bethau newydd", a'r dulliau a ffafrir ganddynt ar gyfer dysgu a datblygu. Teimlwyd hefyd ei bod yn cynnig **sbectrwm o gefnogaeth**, yn amrywio o ddigwyddiadau mynediad hawdd i weithgareddau mwy datblygedig/arloesol, gan roi'r **cyfle i wneud cynnydd** wrth i hyder ffermwyr dyfu. Mae'r gweithgareddau wedi'u cynllunio i ategu'r rhaglen er mwyn galluogi hyn. Drwy gydol y cynnig **mae'r pwyslais wedi bod ar "pam, beth a sut":** newid agweddau/cyfeiriad meddwl ffermwyr tuag at, ac ymrwymo i, newid eu harferion rheoli busnes; helpu ffermwyr i nodi beth sydd angen newid; a'u darparu â'r wybodaeth a'r offer i roi'r newid ar waith. Roedd ymgynghoreion yn gwerthfawrogi'r ffordd y mae'r rhaglen yn cynnig "siop un stop" ac roeddent yn cytuno bod y cyd-destun ffermio yn ddigon gwahanol i gyfiawnhau dull gwahaniaethol, yn hytrach na disgwyl i ffermwyr ddefnyddio cynnig generig, a ddarperir i bob sector busnes.

3.3 Mae Cyswllt Ffermio wedi esblygu dros gyfnod oes y rhaglen, gan ddangos y gallu i addasu i anghenion a chyd-destun sy'n newid. Mae profiad diweddar a phrofiad rhaglenni blaenorol wedi rhoi'r hyder i gynllunwyr a rheolwyr wneud y newidiadau hyn, a hefyd defnyddwyr.

3.3 Roedd peth pryder ymhlith rhanddeiliaid allanol yn y ddau gam (ac roedd hyn fel petai'n fwy amlwg yng Ngham 2) bod eangder Cyswllt Ffermio yn peri heriau

pwysig. Yn benodol, **roedd hi'n ymddangos bod barn gynyddol na ddylai Cyswllt Ffermio fod yn ceisio bod yn "bopeth i bawb".** Teimlwyd bod y portffolio gweithgareddau "mor eang" fel bod diffyg cydlyniad ar gyfer y rheini a oedd yn llai agos i'r rhaglen - er enghraifft, roedd rhanddeiliaid allanol yn dadlau ei bod yn "*anodd deall sut mae popeth yn gweithio gyda'i gilydd*" a'i bod yn "*anodd gwybod lle i ddechrau*". Roedd pryder parhaus hefyd bod dull "blanced" yn creu'r perygl o wasgaru adnoddau'n rhy denau a gwanhau'r effaith. Yn rhannol mae hyn yn adlewyrchu amcanion eang iawn Cyswllt Ffermio, a natur amrywiol (a darniog yn aml) y sector amaethyddol.

3.4 Barn a oedd yn llawer mwy amlwg yng Ngham 2 oedd **galwad am i raglen Cyswllt Ffermio gael mwy o ffocws strategol a blaenoriaethu'n well, gyda'r neges a'r cynnwys yn glir, a blaenoriaethau strategol i'w gweld yn fwy clir ar draws y sector**. Ni chafodd hyn ei helpu gan y ffaith na wnaeth Strategaeth Amaethyddol i Gymru (2015-2020)[21] yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i chynllunio - yr oedd disgwyl iddi roi'r cyfeiriad strategol i Cyswllt Ffermio - wedi dwyn ffrwyth. Roedd pryder ymhlith y rheini yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer y gwerthusiad bod y cynnig hwn yn gweithio o'r gwaelod i fyny yn bennaf gan y ffermwyr er mwyn sicrhau bod y cynnig yn diwallu eu hanghenion yn uniongyrchol. Er bod y dull hwn yn ganmoladwy ac yn cynorthwyo i sicrhau ymrwymiad ffermwyr, cwestiynodd ymgynghoreion allanol yn arbennig a oedd cynnig Cyswllt Ffermio yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau strategol pwysicaf ar gyfer y diwydiant. Nid yw hyn i ddweud bod y rhaglen wedi'i cham-alinio ag amcanion strategol, ond yn hytrach bod dull trosfwaol Cyswllt Ffermio yn aneglur, ac felly nawr mae'n *canolbwyntio* ac yn *blaenoriaethu* cefnogaeth[22]. Fel yr awgrymodd un rhanddeiliad, "*mae'n anodd bod yn strategol gydag amcanion mor eang a cheisio gwneud daioni i bawb".* Disgwylir i newidiadau mwy diweddar i ail-gyflunio trefniadau llywodraethu (i gynnwys mwy o gynrychiolaeth y diwydiant) ac i ail-ganolbwyntio rhai o weithgareddau Cyswllt Ffermio (er enghraifft, mae'r cynnig hyfforddiant wedi ei ddiweddaru i gyd-fynd yn well ag anghenion y diwydiant) gynorthwyo i fynd i'r afael â'r mater hwn, ond yr adborth o'r ymgynghoriadau oedd y dylid gwneud mwy i egluro amcanion strategol a blaenoriaethau'r rhaglen.

[21] Atodiad 3, Manyleb ar gyfer Fframwaith Cyflenwi Cyswllt Ffermio (2015)

[22] Ers cynnal yr ymchwil hwn, mae'r Bwrdd Cynghori Strategol wedi'i ailsefydlu ac mae wrthi'n datblygu strategaeth hirdymor glir ar gyfer y rhaglen.

3.5 Mae Cyswllt Ffermio wedi bod yn nodwedd sylweddol yn y tirlun cefnogaeth ar gyfer ffermwyr yng Nghymru am yr 20 mlynedd ddiwethaf. Roedd **sefydlogrwydd, hirhoedledd a pharhad y gefnogaeth** yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ymhlith y rheini a holwyd, ac mae'r rhaglen yn ffynhonnell "adnabyddus" o gefnogaeth, "un yr ymddiriedir ynddi" ac "uchel ei pharch".

3.6 Fodd bynnag, yng Ngham 1 mynegodd rhanddeiliaid allanol bryder, er bod ymwybyddiaeth o Cyswllt Ffermio yn gyffredinol uchel ar draws y gymuned ffermio, bod rhai ffermwyr wedi colli golwg ar y nodau tanategol a'r sail resymegol ar gyfer y rhaglen, a bod Cyswllt Ffermio'n cael ei "*chymryd yn ganiataol*". Roedd teimlad bod rhai ffermwyr yn cymryd rhan "*am ei bod ar gael*" (ac am ddim/gyda chymhorthdal) a'u bod yn gwneud hynny ar hap, heb symbyliad gwirioneddol i newid cyn neu wedi derbyn cefnogaeth. Yng Ngham 1 gwnaethom nodi gwahaniaeth bach rhwng canfyddiad o nod Cyswllt Ffermio i "ddarparu cefnogaeth" (h.y. ymgysylltu mewn gweithgareddau) yn hytrach na "gwella perfformiad busnes" (h.y. ysgogi newid mewn canlyniadau), a sut y gallai hyn effeithio ar ganlyniadau'r rhaglen. Cymysg oedd y dystiolaeth gan fuddiolwyr: er bod nifer fel petaent yn gwerthfawrogi cefnogaeth Cyswllt Ffermio yn fawr, roedd hi'n ymddangos bod rhai'n symud o un elfen y rhaglen i un arall heb ddiben clir.

3.7 Ers Cam 1, gwelwyd symudiad amlwg yn y modd y darperir Cyswllt Ffermio mewn ymdrech i fynd i'r afael â'r mater hwn. Sylwodd rhanddeiliaid a nifer o'r buddiolwyr a oedd yn agos i'r rhaglen **fwy o bwyslais ar waelodlinau, meincnodi a "gwella busnes" cyffredinol**, ac ymdrech fwy gweladwy tuag at fesur effaith a pherfformiad. Cafodd pwysigrwydd hyn ei gydnabod yn eang, er enghraifft:

> *"mae meincnodi'n golygu newid mewn diwylliant i ffermwyr … mae angen iddynt ddod yn fwy masnachol" (ymgynghorai sy'n rhanddeiliad allanol)*
>
> *"mae'n ddefnyddiol cael yr edau hon yn rhedeg drwy Cyswllt Ffermio gan ei fod yn helpu i ddod ag ychydig o elfen ragweithiol i'r berthynas â Cyswllt Ffermio" (buddiolwr astudiaeth achos)*

**Marchnata a chyrhaeddiad**

3.8 Mae Cyswllt Ffermio yn defnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau a mecanweithiau i godi ymwybyddiaeth o'r cynnig ar draws y gymuned ffermio, gyda phwyslais cynyddol ar gyfathrebu ar-lein (fel y dangosir yn Atodiad F). Cafodd hyn ei lywio gan ymchwil cynharach i ymrannu cynulleidfa darged y rhaglen a gwahaniaethu'r

dull marchnata (h.y. deunyddiau, negeseuon, mecanweithiau) yn unol â hynny. Ar y cyfan, **teimlai ymgynghoreion bod hyrwyddiad Cyswllt Ffermio yn parhau'n gryf.** Mae nifer o "fannau mynediad", ond **teimlir bod Swyddogion Datblygu a digwyddiadau agored yn bwyntiau cyswllt cyntaf hollbwysig** gyda'r rhaglen.

3.9 Mae MaB wedi ymdrechu'n galed i ehangu cyrhaeddiad Cyswllt Ffermio, ac mae ei strategaeth gyfathrebu amlweddog a phresenoldeb Swyddogion Datblygu ar lawr gwlad wedi bod yn bwysig mewn codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen. Mae ehangu meini prawf cymhwyster (e.e. myfyrwyr, contractwyr) a gwneud presenoldeb mewn digwyddiadau Cyswllt Ffermio yn rhag-amod ar gyfer grantiau fferm, wedi cynorthwyo i gynyddu cyrhaeddiad. Fodd bynnag, mae mater cyrhaeddiad yn parhau i fod yn her. **Roedd gwahaniaeth barn ymhlith ymgynghoreion ynglŷn ag a ddylai Cyswllt Ffermio barhau i fuddsoddi adnoddau sylweddol mewn ceisio ehangu ei gyrhaeddiad: roedd rhai'n dadlau y dylai hyn barhau ac eraill yn dweud y dylai'r ymdrechion nawr ganolbwyntio ar ffermwyr sydd eisiau newid. Yng Ngham 2, roedd symudiad clir tuag at yr ail ddadl, gan randdeiliaid allanol a buddiolwyr yr ymgynghorwyd â hwy**. Ni wnaeth unrhyw un o'r rhanddeiliaid allanol awgrymu y dylai Cyswllt Ffermio barhau i geisio ehangu ei gyrhaeddiad. Yn nodweddiadol teimlai'r ymgynghoreion fod y sector yn rhannu'n dair: traean "uchaf" sydd wedi ymgysylltu ac yn addasu; traean "canol" sy'n agored i newid ond nad sydd eto wedi ymgysylltu; a thraean "gwaelod" sy'n amharod ac yn annhebygol o addasu. Dywedodd nifer o'r ymgynghoreion hyn nad oes fawr o werth mewn dal ati i fynd ar ôl y rheini sy'n parhau i beidio ag ymgysylltu, gan y bydd hyn yn defnyddio llawer iawn o adnoddau ac mae'n annhebygol o weld unrhyw effaith: dylid canolbwyntio'r sylw ar y ddau draean arall lle mae mwy o botensial ar gyfer newid. Yn ogystal, roedd teimlad bod Cyswllt Ffermio yn taenu ei hun yn rhy denau ac y dylai ganolbwyntio rhagor o adnoddau ar (swm llai o bosibl) ffermwyr sydd wirioneddol am wella eu busnes a chael canlyniadau gwell. Er enghraifft:

> *O gofio prinder adnoddau, ni ddylid gwario arian cyhoeddus yn 'gwastraffu amser yn mynd ar ôl y rheini sydd ddim eisiau cymorth' (ymgynghorai grŵp ffocws)*

*Mae Cyswllt Ffermio "yn ceisio bod yn bopeth i bawb" a dylai bod mwy o ffocws iddo yn hytrach na cheisio ymgysylltu mwy o ffermwyr yn barhaus (buddiolwr astudiaeth achos)*

*Mae Cyswllt Ffermio wedi "gwneud popeth y gall" i ymgysylltu â grŵp ehangach o ffermwyr – y cam mwyaf oedd cofrestru gorfodol er mwyn cyrchu cyllid grant" (buddiolwr astudiaeth achos)*

*"mae yna elfen o 'nid ŷf march er ei dywys at ddŵr'. Gallant gynnig pob math o gefnogaeth, ond os nad yw'r ffermwr am gael cymorth nid oes llawer mwy y gellir ei wneud" (buddiolwr astudiaeth achos)*

*"Byddai'n wastraff ar adnoddau nawr i fynd ar ôl y rheini sydd ddim eisiau ymgysylltu. Y rheini yn y canol y dylid canolbwyntio arnynt – gan eu cysylltu i ffermwyr blaengar" (buddiolwr astudiaeth achos)*

*"nid yw rhai pobl am ymgysylltu, felly mae angen i Cyswllt Ffermio ddewis lle mae'n canolbwyntio ei adnoddau" (ymgynghorai rhanddeiliad allanol)*

*er mwyn cael "effaith wirioneddol" mae angen i Cyswllt Ffermio "fod â mwy o ffocws yn hytrach na defnyddio dull cyffredinol" (ymgynghorai rhanddeiliad allanol).*

3.10 Fe wnaeth ymgynghoreion hefyd bwysleisio'r angen am well data am ffermwyr sydd ddim yn ymgysylltu â Cyswllt Ffermio, er mwyn deall pam nad ydynt yn gwneud hynny. Efallai bod rhai'n perfformio'n dda ac nad oes angen cefnogaeth arnynt: mae'n bwysig cydnabod nad yw'r rhaglen yn addas i bawb.

3.11 Nid yw hyn i ddweud na ddylai'r rhaglen fod ar gael yn gyffredinol mwyach - na chwaith nad yw newid syniadaeth yn bwysig mwyach. Fodd bynnag, efallai ei bod yn bryd ystyried peth newid mewn pwyslais, yn arbennig o ran defnydd adnoddau marchnata a defnyddio mecanweithiau cyflenwi amgen ar gyfer rhai mathau o gefnogaeth. Rydym yn trafod hyn mewn rhagor o fanylder isod.

**Rhwystrau i ymgysylltu**

3.12 Mae peth tystiolaeth o rwystrau i ymgysylltu â Cyswllt Ffermio. Yn ogystal â ffermwyr yn ei chael hi'n anodd gwybod lle i ddechrau a sut i lywio drwy'r cynnig (trafodir yn rhywle arall), fe wnaeth ymgynghoreion hefyd nodi amser a gallu fel rhwystr i ymgysylltu, yn arbennig yng nghyd-destun gweithgareddau oddi ar y fferm hyd yn oed gyda'r hwyr, ochr yn ochr â ffactorau personol (megis cyfrifoldebau gofal

plant, iechyd). Byddai'n ddefnyddiol i gael data sector gyfan mwy systematig am y rhesymau dros beidio ag ymgysylltu â Cyswllt Ffermio, er mwyn deall y rhwystrau hyn mewn rhagor o fanylder.

3.13 Fel yr ydym yn ei drafod isod, mae COVID-19 wedi rhoi cyfle i brofi ymhellach ddarpariaeth y rhaglen ar-lein, megis gweminarau ar-lein sy'n cael eu recordio ac y gellir eu gwylio ar yr adeg fwyaf cyfleus. Fel mewn meysydd eraill, yr effaith fu i gyflymu newid mewn mecanweithiau cyflenwi a oedd eisoes ar droed, ac mae adborth anecdotaidd gan staff cyflenwi a buddiolwyr yn awgrymu bod hyn wedi gweithio'n dda i lawer. Er enghraifft, dywedodd un ymgynghorai grŵp ffocws bod "*hyn wedi gwneud newid sylweddol"* yn ei allu i ymgysylltu â Cyswllt Ffermio.

3.14 Yng Ngham 1 gwnaethom ganfod hefyd bod carfanau mawr o ffermwyr yn brin o sgiliau a hyder ym maes TG a/neu bod eu darpariaeth/cyflymder band eang yn wael, ac roedd pryder bod hyn yn llesteirio eu hymgysylltiad â deunyddiau marchnata, prosesau cofrestru a chefnogaeth ar-lein. Rydym wedi profi hyn ymhellach yng ngham dau yr ymchwil, gan ofyn yn benodol i fuddiolwyr astudiaethau achos a oedd eu sgiliau neu brofiad TG wedi dylanwadu ar eu gallu i gyrchu Cyswllt Ffermio. Ar y cyfan, ni theimlwyd bod hyn yn rhwystr mawr yng Ngham 2: teimlwyd bod sgiliau TG yn gwella ar draws y gymuned ffermio, a chydnabuwyd bod Cyswllt Ffermio wedi rhoi pwyslais mawr yn ddiweddar ar hyfforddiant/cefnogaeth TG. Fodd bynnag, mae band-eang cyflymder uchel yn parhau i fod yn her ar draws rhannau o Gymru wledig - fel y nododd un buddiolwr astudiaeth achos, "*prin bodoli y mae'r rhyngrwyd yma".* Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal ffyrdd amgen i dderbyn gwybodaeth am Cyswllt Ffermio.

**Asesu angen a phersonoleiddio cefnogaeth**

3.15 Canfyddiad allweddol yng Ngham 1 oedd y dull amrywiol ac eithaf ad hoc ar gyfer asesu anghenion ffermwyr ar y cychwyn. Cafodd rhai ffermwyr drafodaeth "anffurfiol" gyda Swyddog Datblygu, a wnaeth wedyn eu harwyddbostio at gefnogaeth berthnasol o fewn y rhaglen. Roedd rhai ffermwyr wedi dod yn uniongyrchol drwy'r wefan a hunanddewis y gefnogaeth fwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion. Roedd rhai gweithgareddau o fewn y rhaglen hefyd yn cynnwys asesiad anghenion cychwynnol, er bod hyn yn tueddu i gael ei ganolbwyntio ar y mater penodol a arweiniodd at fanteisio ar y gefnogaeth honno. Er y cydnabyddir nad oes angen asesiad cyfannol o anghenion ar bob ffermwr, yng Ngham 1 gwnaethom ddau sylw allweddol ynglŷn â'r dull hwn.

- Yn gyntaf, roedd hi'n ymddangos mai mater i'r ffermwr yn bennaf yw ddechrau'r ymarferiad hwn ac, fel y dangosir yn yr astudiaethau achos, gall diffyg arweiniad ar y cam hwn arwain at ddiffyg cyfatebu rhwng angen/cefnogaeth ac effaith gyfyngedig (er enghraifft, mewn hyfforddiant).
- Yn ail, mae'n ymddangos mai prin yw'r berthynas rhwng y gwahanol adegau pan fo staff cyflenwi yn asesu anghenion ffermwyr. Tra bod arwyddbostio yn digwydd, teimlai rhai ymgynghoreion bod yn rhaid iddynt esbonio eu sefyllfa nifer o weithiau; efallai bod cyfle'n cael ei golli i greu pecyn cefnogaeth mwy effeithiol.

3.16 Roedd cyflwyniad CDP yng nghyfnod 2014-20 y rhaglen yn ymdrech i ddarparu'r cydgysylltiad hwn, ond cymysg fu ei lwyddiant. Rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai ffermwyr yn cwblhau CDP pan eu bod yn cofrestru gyntaf gyda Cyswllt Ffermio, a fyddai'n eu hannog i ystyried eu hanghenion a nodi'r gefnogaeth fywaf priodol. Yn ymarferol, dywedodd y rhan fwyaf o'r ymgynghoreion yn nau gam y gwerthusiad bod **y CDP wedi bod yn aneffeithiol, gan nad oedd yn darparu ar gyfer asesiad cyfannol o'r angen**. Nodwyd tri mater.

- Roedd llawer o ffermwyr yn teimlo bod y ffurflen ar-lein yn anodd ei llenwi, hyd yn oed y rheini sy'n llythrennog o ran TG, ac roedd hyn wedi golygu llawer iawn o "ddal dwylo" gan Swyddogion Datblygu sydd wedi bod yn dreth ar eu gallu. Roedd ymgynghoreion a oedd yn gyflenwyr hefyd yn poeni bod hyn yn atal ymgysylltiad – teimlai ffermwyr mai hwn yw'r dull arferol ar gyfer y rhaglen gyfan.
- Teimlwyd bod y CDP yn bennaf yn "gylch" i neidio drwyddo er mwyn cyrchu hyfforddiant, yn hytrach na bod yn offeryn gwerthfawr ar gyfer creu gwaelodlin neu feincnodi, ac nid yw'r gefnogaeth a argymhellir drwy'r DPP wedi'i theilwra ddigon.
- O ganlyniad, anaml yr oedd y ffermwr yn ailedrych ar y CDP, oherwydd ei bod yn anodd cael mynediad ato (e.e. anghofio cyfrineiriau, anawsterau mewn dod o hyd i'w tudalen datblygiad personol ac ati) ac oherwydd hynny ni theimlwyd ei fod yn ddefnyddiol. Roedd diffyg ymwybyddiaeth ynglŷn ag ail-lwytho tudalen hafan BOSS ymhlith y rheini yr ymgynghorwyd â hwy.

3.17 Roedd y broses CDP yn gweithio'n well pan fyddai'r ffurflen yn cael ei llenwi yn ystod sgwrs gyda'r Swyddog Datblygu, yna byddai'r ffurflen wedi'i phersonoleiddio,

ac wedyn ail-edrychwyd ar y ffurflen gyda'r un hwylusydd er mwyn asesu'r cynnydd a wnaed.

3.18 **Fe fu gwelliant diweddar amlwg yn y dull ar gyfer asesu anghenion,** yn arbennig drwy ddiweddariad y rhaglen, gan fod disgwyl i fuddiolwyr nawr gwblhau gwaelodlinau ar gyfer pob thema (yn cynnwys cynlluniau busnes, meincnodi, iechyd anifeiliaid a rheoli maetholion). Mae'n rhy gynnar i asesu a yw'r newid hwn wedi bod yn effeithiol, ond roedd ymgynghoreion yn cytuno ei fod yn gam yn y cyfeiriad cywir. Teimlwyd bod cynllun busnes a meincnodi yn offer mwy effeithiol mewn asesu heriau busnes a chefnogaeth briodol, yn arbennig lle'r oedd Swyddogion Datblygu yn rhan o'r broses ac yn gallu harwyddbostio at becynnau cefnogi perthnasol.

**Parhad ymgysylltiad a llywio drwy'r cynnig**

3.19 Yng Ngham 1 roedd tair neges glir ynglŷn â pha mor effeithiol yr oedd ffermwyr yn ymgysylltu â'r cynnig unwaith eu bod wedi cofrestru.

- Yn gyntaf, awgrymodd ffermwyr a rhanddeiliaid allanol bod **lle i ddarparu cefnogaeth wedi'i "phersonoleiddio" a mwy "cyfanol" ar hyd siwrnai'r cwsmer, ac integreiddio gweithgareddau Cyswllt Ffermio yn well**. Yn hollbwysig, dadleuwyd bod angen i Cyswllt Ffermio ddatblygu pecyn o gefnogaeth ar gyfer buddiolwyr (gan gyfuno gwybodaeth, sgiliau a buddsoddiad) er mwyn rhoi gwir effaith a'r "newid mawr" sydd ei angen yn y sector.
- Yn ail, **roedd mwyafrif y buddiolwyr (a nifer o'r rhanddeiliaid allanol) yn ei chael hi'n anodd llywio drwy'r cynnig**. Roedd y cyfrifoldeb o orfod llywio drwy "wifriad" cymhleth Cyswllt Ffermio yn un a syrthiai ar ysgwyddau'r buddiolwyr yn bennaf, naill ai drwy fynd at y Swyddogion Datblygu/staff cyflenwi neu drwy'r wefan. Mynegodd ffermwyr rwystredigaeth hefyd gyda diffyg un pwynt cyswllt o fewn Cyswllt Ffermio ac o orfod egluro eu problem wrth wahanol gysylltiadau (er enghraifft, meddai un o ymgynghoreion y grŵp ffocws "mae'n rhaid i chi ailadrodd eich hun drwy'r amser"). Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymgynghoreion bod y wefan yn un hynod anodd i'w gwe-lywio a'i bod yn aneglur ynglŷn â'r cynnig llawn.
- Yn drydydd, **nid oedd un rhan o dair o'r ffermwyr oedd wedi cofrestru ar gyfer Cyswllt Ffermio wedi ymgysylltu'n weithredol gyda chefnogaeth**,

tra bod dwy ran o dair o'r rheini oedd wedi ymgysylltu'n weithredol gyda chefnogaeth wedi bod yn rhan mewn gweithgareddau o dan un yn unig o'r tair Lot. Sylwer, mae'r holl fusnesau sydd wedi cofrestru ar gyfer Cyswllt Ffermio yn derbyn gwybodaeth megis cyhoeddiadau technegol ac e-gylchlythyrau, a/neu gallent fynd i wefan a thudalen YouTube Cyswllt Ffermio; fodd bynnag, ni chesglir data ar i ba raddau y cyrchir/defnyddir hwn.

3.20 **Roedd diweddariad y rhaglen yn ceisio mynd i'r afael â rhai o'r materion hyn** drwy gyflwyno themâu newydd, diwygio'r wefan er mwyn gwella hygyrchedd, a rhoi mwy o bwyslais ar waelodlinau/meincnodi er mwyn arwyddbostio at gefnogaeth berthnasol. Gwnaed ymdrech fawr hefyd i ddangos i ffermwyr sut mae gweithgareddau'n ategu ei gilydd a nodi llwybr(au) clir i'w ddilyn drwy gydol y cynnig[23]. Er enghraifft:

- Erbyn hyn mae dysgu ar-lein wedi'i integreiddio'n well gydag elfennau eraill Cyswllt Ffermio i roi dull mwy cyfunol; ar ôl mynychu Safle Arddangos, mae gan ffermwyr y cyfle i gwblhau cwrs ar-lein er mwyn atgyfnerthu eu dysgu.
- Mewn digwyddiadau Safle Arddangos, bydd mynychwyr yn derbyn llyfryn ar y dydd yn nodi'r mathau eraill o gefnogaeth Cyswllt Ffermio sydd ar gael, megis hyfforddiant a Chlinigau sydd i'w cynnal.
- Mae mentrau newydd wedi'u cyflwyno sy'n ceisio rhag-becynnu elfennau o Cyswllt Ffermio, megis Rhagori ar Bori sy'n cynnwys cyfres o gyfarfodydd ac ymweliadau fferm a dilynir y rhain gan Glinig dwy awr o hyd ac yna cyngor un i un manylach.

3.21 Fel y nodir mewn man arall yn yr Adran hon, teimlwyd bod y newidiadau hyn yn ddefnyddiol, ac mae tystiolaeth yn Adran 2 bod nifer y ffermwyr sy'n ymgysylltu â mwy nag un Lot wedi cynyddu.

3.22 Fodd bynnag, **awgrymodd rhanddeiliaid a buddiolwyr ym mhob cam bod angen newid mwy sylfaenol er mwyn cynnal a manteisio i'r eithaf ar ymgysylltiad ffermwyr â Cyswllt Ffermio**. Fel y dywedodd un buddiolwr astudiaeth achos, mae gwahaniaeth rhwng ffermwyr yn bod yn *ymwybodol* a ffermwyr yn cael *cysylltiad go iawn* gyda Cyswllt Ffermio: "*nid yw'n ymwneud â darparu mwy o weithgareddau, mae'n ymwneud â chael ffermwyr i ymgysylltu â'r*

[23] Fodd bynnag, nododd buddiolwyr fod gwneud presenoldeb mewn grwpiau/digwyddiadau yn rhagofyniad ar gyfer derbyn cefnogaeth/grantiau pellach yn creu risg o eithrio'r rhai na allant fynychu (er enghraifft, oherwydd cyfrifoldebau gofal plant) rhag cyrchu'r ail fath.

*rhaglen*". Mae pryderon yn dal i fod ei bod yn anodd llywio drwy'r cynnig, nad yw ffermwyr yn glir ynglŷn â pha weithgareddau sydd fwyaf addas ar gyfer eu hanghenion a'r llwybr mwyaf priodol drwy'r gwahanol fathau o gefnogaeth, tra bod y gwaith dilyn i fyny yn dal i fod yn ad hoc/anghyson ar draws y sail cwsmeriaid. Er enghraifft:

> *"Roeddwn i'n teimlo fy mod wedi fy ngadael ar fy mhen fy hun i ryw raddau ar y diwedd. Dyna ni, nid oes parhad na cham nesaf, ond efallai bod yna ond nid yw mor amlwg ag y gallai fod. Mae'n ymwneud â chydgysylltu, oherwydd bod Cyswllt Ffermio eisoes yn gwneud llawer o'r pethau hyn – rwy'n credu bod angen iddynt gysylltu â'i gilydd yn llawer gwell." (*buddiolwr astudiaeth achos)

3.23 Yn yr astudiaethau achos hydredol gwnaethom ganfod ar gyfer y rheini oedd yn parhau i ymgysylltu â Cyswllt Ffermio ar draws dau gam yr ymchwil bod dyfnder ac amlder yr ymgysylltu yn amrywio'n fawr iawn, o fod yn helaeth i fawr ddim. Roedd yr heriau busnes a oedd yn wynebu'r 'ymgysylltwyr prin' ar y cyfan yr un fath, ac roedd eu diffyg ymgysylltiad wedi'i briodoli'n bennaf i "symud gyda'r llif" cyffredinol: roeddent wedi bwriadu ymgysylltu mwy ond "*nid oeddent wedi mynd ati i wneud hynny*". Tri yn unig o'r buddiolwyr yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer yr astudiaethau achos na ymgysylltodd o gwbl gyda Cyswllt Ffermio wedi Cam 1. Roedd eu rhesymau fel a ganlyn: yn gyntaf, natur 'niche' eu busnes ac angen penodol iawn am gefnogaeth yng Ngham 1, a gafodd ei ddatrys yn llawn a bod y fferm nawr yn perfformio'n dda; yn ail, diffyg arian ar gael i roi prosesau newydd ar waith (e.e. "*mae popeth sydd angen i ni ei wneud yn golygu arian, a does gennym ni ddim arian*").

3.24 Ar draws y rheini yr ymgynghorwyd â hwy, **roedd pwysau'r ddadl tuag at yr angen am asesiad anghenion mwy cyfannol, pecynnu cynnig cefnogaeth sy'n targedu anghenion ffermwyr unigol, ac yna ail-edrych ar hyn a'i ddiweddaru wrth i'w hanghenion newid**. Yn hollbwysig, mae angen i hon fod yn **broses wedi'i hwyluso, gydag un person cyswllt penodedig/pwrpasol** o fewn y rhaglen. Fel yr amlygwyd gan randdeiliaid allanol, mae presenoldeb "brocer" sy'n gallu meithrin partneriaeth effeithiol gyda ffermwyr yn ofyniad allweddol ar gyfer cefnogaeth arloesol effeithiol. Mae ymddangos bod dau ysgogwr yn tanategu'r farn hon: (i) mae cefnogaeth wedi'i phersonoleiddio, ei theilwra ac yn berthnasol sy'n cynnwys hwylusydd yn allweddol mewn sicrhau cynnydd o ran busnes, ac (ii) mae

parhad ac atgyfnerthu cefnogaeth yn fwy tebygol o arwain at newid. Byddai'r math o hon gefnogaeth yn amlwg yn rhoi goblygiadau ar adnoddau a gallai fod yn wleidyddol ddadleuol os canolbwyntir cefnogaeth ar garfan o ffermwyr. Byddai angen gwneud dewisiadau anodd wrth gynllunio rhaglenni yn y dyfodol - er enghraifft, a oes angen gwahaniaethu yng ngraddau'r mynediad wedi'i hwyluso ar draws is-sectorau, math o fferm neu fath o ffermwr, megis newydd-ddyfodiaid. Ni ddylid gweld hyn fel awgrymu cefnogaeth ddwys ar gyfer "anelwyr uchel" yn unig.

3.25 Roedd consensws ar draws ymgynghoreion yn nau gam yr ymchwil bod **Swyddogion Datblygu (a hefyd rhai mentoriaid) wedi chwarae rôl allweddol mewn llywio drwy'r cynnig ac mewn hwyluso siwrneiau ffermwyr drwy Cyswllt Ffermio**. Fel y dywedodd un ymgynghorai, y Swyddogion Datblygu yw'r "glud" sy'n dal Cyswllt Ffermio at ei gilydd. Dywedodd buddiolwr arall:

> "*heb gefnogaeth [y Swyddog Datblygu] ni fyddwn wedi ymgysylltu â chymaint o weithgareddau - mae'r Swyddog Datblygu wedi'i gwneud yn hawdd llywio drwy'r cynnig, a gwneir y cyfan drwy'r Swyddog Datblygu*".

3.26 Mae Swyddogion Datblygu wedi'u gwreiddio'n gadarn mewn cymunedau ac, yn y cyd-destun hwn, maent yn chwarae rhan bwysig drwy wirio gyda ffermwyr er mwyn "procio" cynnydd ac ymgysylltiad parhaus â'r rhaglen. Er enghraifft, dywedodd un ymgynghorai bod "gwaith dilyn i fyny yn allweddol" gan "nad yw gweithredu byth yn hawdd" a theimlai fod galwadau gan ei fentor yn "broc" defnyddiol i symud ymlaen. Pwysleisiodd ymgynghorai cyflenwi hefyd sut y mae datblygu perthynas o ymddiriedaeth rhwng y ffermwyr a'r Swyddogion Datblygu yn hollbwysig - mae ffermwyr yn fwy tebygol o ddefnyddio'r gwasanaeth dilyn i fyny os bydd Swyddog Datblygu yr "ymddiriedir" ynddo yn awgrymu bod hynny'n werth chweil. Pe collid y berthynas honno, disgrifiodd yr ymgynghorai sut y byddai wedyn yn anodd cynnal ymgysylltiad â Cyswllt Ffermio.

3.27 Fodd bynnag, roedd pryder yng Ngham 1 bod gallu Swyddog Datblygu yn aml wedi'i ymestyn ac felly mae'r gallu i lywio ffermwyr drwy eu cynnig wrth i'w hanghenion newid yn gallu bod yn amrywiol. Nododd cyfranogwyr grŵp ffocws fod yn rhaid iddynt fod yn rhagweithiol mewn ymgysylltu â'r Swyddogion Datblygu "prysur", ac roedd y trafodaethau hyn yn aml yn anffurfiol ac ad hoc.

**Nodweddion ehangach sydd wedi gweithio'n dda, a dim cystal, o ran cyflenwi'r rhaglen**

3.28 Ar draws dau gam yr ymchwil, mae'r dystiolaeth wedi nodi un nodwedd ar ddeg o Cyswllt Ffermio sydd wedi gweithio'n dda ar draws y gweithgareddau, sy'n dangos arfer da, ac sydd wedi arwain at ganlyniadau llwyddiannus.

- **Mynd i'r afael â <u>beth</u> sydd angen newid a <u>sut</u> i newid**: ar draws y cynnig, ceir gweithgareddau cyflenwol sy'n ceisio (i) newid agweddau tuag at wneud newidiadau a chynyddu hyder i wneud y newidiadau hyn, a (ii) darparu'r sgiliau a'r wybodaeth dechnegol/ymarferol ynglŷn â sut i newid.
- **Annog hunangymorth a gweithredu**: rhoi i'r ffermwyr y galluoedd i fyfyrio, herio eu hunain, ystyried opsiynau a chanfod atebion. Mae dysgu gweithredol a "gwaith cartref" yn sicrhau bod ffocws ar weithredu a newid.
- **Aliniad agos gydag anghenion a hunanddiffinnir**: mae nifer o'r gweithgareddau yn annog cyfranogwyr i ddiffinio eu nodau eu hunain, yn unigol a/neu fel rhan o grŵp; mae hyn yn gymorth i sicrhau ymrwymiad i'r gweithgareddau a pherchnogaeth o'r canlyniadau.
- **Defnydd meincnodi, samplu pridd a chynlluniau rheoli maetholion**: teimlwyd bod y rhain yn hollbwysig gan y rhan fwyaf o randdeiliaid a buddiolwyr mewn helpu ffermwyr i ddeall sut mae eu harferion yn effeithio ar eu perfformiad ariannol, a oedd yn ei dro yn brif ysgogwyr newidiadau mewn ymddygiad. Roedd meincnodi yn aml yn gweithio orau pan oedd yn cael ei wneud fel rhan o grŵp, a/neu ar y cyd gyda chyngor un i un er mwyn nodi'r camau gweithredu dilynol.
- **Cefnogaeth ymarferol, ar fferm a rhwng cymheiriaid:** roedd llawer o'r gweithgareddau yn rhoi'r cyfle i arsylwi a dysgu gan sefyllfaoedd go iawn lle cafodd cyngor/cefnogaeth ei ddarparu mewn "iaith gyffredin" y gallai buddiolwyr uniaethu â hi. Teimlwyd hefyd bod cymdeithasu â chymheiriaid - gan gynnwys grwpiau aml-genhedlaeth - yn bwysig mewn annog trafodaeth agored i rannu syniadau.
- **Cyfuniad o gefnogaeth grŵp a chyngor un i un**: mae'r cyntaf yn arbennig o ddefnyddiol mewn creu syniadau a rhannu gwybodaeth a phrofiadau lle mae'r ail yn darparu cyngor penodol sydd wedi'i deilwra i'r fferm.

- **Hyblygrwydd**: mae'r gallu i siapio ac addasu ffocws gweithgaredd mewn ymateb i amodau sy'n newid (e.e. mewn grŵp trafod neu grŵp Agrisgôp) fel ag y mae trefnu gweithgareddau sy'n addas i batrymau gweithio'r sector (e.e. cyfarfodydd ar adegau penodol o'r flwyddyn/dydd) yn ddefnyddiol. Mae darparu'n lleol neu ar-lein hefyd yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan fuddiolwyr sydd â phrinder amser/adnoddau i deithio'n bell ar gyfer hyfforddiant neu gefnogaeth: fel y dywedodd un buddiolwr e-ddysgu *"Gallaf wneud hynny ar adeg pan fyddaf am ei wneud yn hytrach na gorfod ymrwymo i deithio'n bell".*
- **Hwyluso**: mae'r hwyluswr yn chwarae rôl allweddol mewn darparu strwythur, momentwm, her ac ati i sicrhau bod buddiolwyr yn gwneud cynnydd.
- **Cyngor personol a pherthnasol**: mae hyn yn ei gwneud hi'n haws i fuddiolwyr ei ddefnyddio ar gyfer eu busnes (o gymharu â gwybodaeth generig).
- **Tîm cyflenwi o ansawdd uchel ac un yr "ymddiriedir" ynddo**: mae ymrwymiad a brwdfrydedd hwyluswyr/Swyddogion Datblygu ac ati wedi rhoi egni i fuddiolwyr: fel y dywedodd un buddiolwr "yr unigolion sy'n gwneud Cyswllt Ffermio". Perchir y siaradwyr/hyfforddwyr/hwyluswyr, teimlir eu bod yn wybodus a chredadwy, yn darparu cefnogaeth "wrthrychol" ac yn annibynnol ar y sector.
- **Dull cystadleuol**: lle darparwyd gweithgareddau mwy dwys drwy gystadlaethau, roedd cyfranogwyr yn amlwg wedi ymrwymo i sicrhau bod y gweithgaredd yn arwain at newidiadau cadarnhaol o fewn y busnes.

3.29 Nodwyd pedwar mater allweddol hefyd sy'n peri heriau i weithrediad llwyddiannus a dilyn ymlaen o weithgareddau Cyswllt Ffermio.

- **Amrywiaeth mewn ansawdd, ac anghysondeb yn null, hwyluswyr/cynghorwyr** o ran cyflenwi ac (yr hyn a ystyrir yn aml fel "anffurfiol") arwyddbostio/darparu cefnogaeth gofleidiol. Yn gysylltiedig â hyn, byddai rhai ymgynghoreion yn hoffi cynnig ehangach o fentoriaid, yn cynnwys yr angen am "*fenywod llawn ysbrydoliaeth*", i fynd i'r afael â'r hyn a ystyrir yn "*ormod o ddibyniaeth ar yr un bobl*".
- **Ffenestri gwneud cais am hyfforddiant a diffyg hyblygrwydd**: mae ffenestri gwneud cais yn fwy effeithlon o safbwynt rheoli, ond nid ydynt bob tro'n diwallu anghenion ffermwyr. Roedd yr estyniad o un mis i ddau yn fuddiol, ond mae Swyddogion Datblygu yn gweld bod swm sylweddol o'u hamser yn cael ei

dreulio yn cynorthwyo ymgeiswyr wrth i ddyddiadau cau nesáu. Soniodd ymgynghoreion hefyd am ddiffyg hyblygrwydd yn y cynnig hyfforddiant, er enghraifft, pan fethwyd cyrsiau oherwydd salwch neu alwadau gwaith yn cystadlu[24].

- **Heriau o ran rheoli'r defnydd o gefnogaeth "cyfyngedig i amser":** mae hyn yn ymwneud â gweithgareddau lle mae defnydd blanced o "ddyraniad" cefnogaeth wedi'i bennu ymlaen llaw yn cael ei ddefnyddio'n gyflym ac nid yw'n ddigonol i ffermwyr sydd mewn angen gwirioneddol neu'r rheini sydd am wneud newidiadau trawsnewidiol. Roedd un buddiolwr hefyd yn teimlo ei fod yn atal datblygiad parhaus. I'r gwrthwyneb, fe'i tan-ddefnyddir gan ffermwyr sy'n gallu mynd i'r afael â'u heriau gyda'r swm lleiaf posibl o gefnogaeth. Yn fwy cyffredinol, gall fod yn anodd i ffermwyr gynllunio ac amseru'r hyn y gallai fod ei angen arnynt mewn cyd-destun o newid cyflym, annisgwyl a sylweddol. Mae'n ymddangos bod y mater yn arbennig o ddifrifol ar gyfer Gwasanaethau Cynghori un i un. Efallai y byddai cysylltu darpariaeth o'r math hwn o gefnogaeth i asesiad gwaelodlin cychwynnol - ac ymgysylltu mwy aml / cyson gyda ffermwyr wrth i anghenion newid - yn cynorthwyo i lywio sut y gellir gwneud y cynnig yn fwy hyblyg ac effeithiol.
- **Yr angen am ragor o gefnogaeth a llwybr cliriach i ffermwyr sydd eisiau gwneud cynnydd a "gwthio ymlaen",** gyda Cyswllt Ffermio yn gweithredu fel arweinydd "llawn ysbrydoliaeth". Teimlai'r ymgynghoreion bod mwyafrif y gweithgareddau yn cael eu harwain/diffinio "o'r gwaelod i fyny" gan ffermwyr: er ei bod yn bwysig teilwra cefnogaeth i'w hanghenion a chael eu cefnogaeth (ac mae hwn yn ysgogwr newid pwysig) roedd rhai o'r ffermwyr mwy blaengar yr ymgynghorwyd â hwy yn chwilio am fwy o ysbrydoliaeth ar ffurf dulliau arloesol cwbl newydd a allai symud eu busnes yn ei flaen. Er enghraifft:

  > "Teimlaf fy mod wedi fy nghyfyngu gan y cyrsiau a gynigir. Mae gen i gymwysterau uwch mewn cyfrifyddeg a byddwn wedi hoffi cwrs hyfforddiant mwy datblygedig er mwyn datblygu'r uwch sgiliau hyn o fewn fy musnes ffermio*" (mynychwr grŵp ffocws)*[25]

[24] Ers cynnal yr ymchwil ar gyfer y gwerthusiad hwn, mae'r rhaglen wedi newid ei dull i ganiatáu ail-ymgeisio.
[25] Sylwer: mae'r angen hwn wedi'i gydnabod gan dîm rheoli'r rhaglen ers i'r ymchwil gael ei gynnal.

Yn gysylltiedig i hyn, roedd ymgynghoreion yn dadlau bod Cyswllt Ffermio wedi'i anelu tuag at ffermwyr "traddodiadol" (e.e. defaid a gwartheg) gyda chefnogaeth gyfyngedig ar gyfer is-sectorau neu ddulliau ffermio "annhraddodiadol".

**Rheoli rhaglen**

3.30 Mae Cyswllt Ffermio yn rhaglen fawr ac amlweddog, sy'n gofyn am adnoddau sylweddol o ran rheoli a chydgysylltu. Ar y cyfan, gwnaethom ganfod fod y **trefniadau rheoli wedi gweithio'n dda**.

3.31 Mae gan Lywodraeth Cymru a MaB/Lantra berthynas weithio weithredol, gyda sylwadau'n cael eu cyfnewid yn agored, yn rheolaidd ac o'r ddwy ochr. Canmolodd y rhanddeiliaid y contractwyr cyflenwi, gan dynnu sylw at eu profiad a'u gallu i gyflenwi'r rhaglen a'u gwybodaeth am y sector.

3.32 **Mae MaB a Lantra yn rhoi pwyslais cryf ar adborth a gwelliant parhaus er mwyn sicrhau bod Cyswllt Ffermio mor effeithiol â phosibl mewn amser real**. Teimlwyd bod MaB yn ymatebol a rhagweithiol mewn cydnabod materion oedd dod i'r amlwg ac yn gwrando ar adborth gan staff cyflenwi, partneriaid a buddiolwyr, gan addasu'r cynnig mewn ymateb i amgylchiadau oedd yn newid, a bod yn agored i wneud newidiadau pan fo angen hynny. Canmolwyd hyn gan randdeiliaid allanol, o gofio'r anawsterau, am fod yn chwim tra'n cadw at rwymedigaethau contractiol penodol o dan drefniadau cyllid Ewropeaidd. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol.

- Mae MaB y casglu adborth gan fuddiolwyr ar ôl digwyddiadau ac am gymorth ychwanegol sydd ei angen ac yna bydd Swyddogion Datblygu yn rhoi sylw i'r rhain.
- Pan na weithiodd rhai gweithgareddau cystal ag y gobeithiwyd (e.e. Mentro a Mentora) cynhaliwyd ymchwil er mwyn deall pam, ac addaswyd y cynnig mewn ymateb (e.e. gweithdai i feithrin hyder yn Mentro, newid sut y meddylir am Fentora).
- Caiff Clinigau eu harwain gan y galw - mae gan Swyddogion Datblygu yr adnoddau i ddarparu Clinigau ar bynciau mewn ymateb i adborth/anghenion lleol.
- Mae Lantra wedi adolygu cyrsiau er mwyn sicrhau bod y cyrsiau hyfforddi'n parhau'n berthnasol, o ansawdd uchel, yn addas at y diben, a'u bod yn diwallu anghenion ffermwyr.

- Tynnwyd Ffermydd Arloesi o’r rhaglen pan welwyd eu bod yn llai llwyddiannus nag elfennau eraill: yn ôl y sôn roedd ffermwyr yn ei chael hi’n anodd uniaethu â’r prosesau arloesol mwy technegol a brofwyd ar y safleoedd a arweiniwyd gan Goleg/Prifysgol. Yn eu lle, mae Cyswllt Ffermio wedi gweithio’n agos gyda Cholegau a Phrifysgolion (er enghraifft, drwy gynnal digwyddiadau ar y cyd).

3.33 **Mae’r dystiolaeth hon yn dangos sut y mae MaB a Lantra wedi rheoli’n weithredol y rhaglen mewn cyd-destun sy’n newid.** Er bod y rhan fwyaf o’r ymchwil ar gyfer y gwerthusiad hwn wedi digwydd cyn COVID-19, dangosodd ymgynghoriad dilyn i fyny gyda staff rheoli hyblygrwydd y tîm mewn trefnu ymateb cyflym i amgylchiadau sy’n newid. Cynorthwyodd hyn i sicrhau bod y cynnig yn diwallu anghenion ei sail cwsmeriaid, gan addasu’r rhan fwyaf o elfennau fel y gallai’r gwaith cyflenwi barhau gan gadw pellter cymdeithasol (gweler y blwch).

**Gwelliant parhaus ac addasu – ymateb i COVID-19**

Wrth i fesurau cadw pellter cymdeithasol gael eu cyflwyno, a Chymru a gweddill y DU ddechrau ar gyfnod clo ym mis Mawrth 2020, roedd yn rhaid i’r rhaglen fynd ati’n gyflym i ystyried ac addasu ei chynnig, a oedd wedi dibynnu’n drwm ar fecanweithiau cyflenwi wyneb yn wyneb ac ar ffermydd. Symudwyd rhai elfennau Cyswllt Ffermio i gyfarfodydd grŵp ar-lein, megis Grwpiau Trafod ac Agrisgôp (gwelwyd bod eu llwyddiant yn dibynnu ar i ba raddau yr oedd aelodau yn adnabod ei gilydd yn barod; roedd cyfarfodydd grwpiau newydd a gynhaliwyd yn ddigidol yn fwy heriol). Fe wnaeth cefnogaeth Mentora, Gwasanaethau Cynghori a Chymorthfeydd hefyd newid i gael eu darparu’n ddigidol neu dros y ffôn. Parhaodd y tîm technegol i weithio gyda Safleoedd Arddangos a Ffocws, a rhannwyd gwybodaeth drwy weminarau, podlediadau a blogiau. Gwnaeth y rhaglen hefyd gyflwyno cynnig hyfforddiant digidol yn uniongyrchol mewn ymateb i COVID-19. Awgrymodd adborth anecdotaidd gan staff rheoli a buddiolwyr bod rhannu deunydd ar-lein wedi cael derbyniad cadarnhaol, gan roi mwy o hyblygrwydd i ffermwyr o ran ymgysylltu a hefyd roeddent yn fwy cost effeithiol. Nid oedd rhai gweithgareddau a oedd yn dibynnu ar ddysgu rhwng cymheiriaid, megis dosbarthiadau meistr, yn gallu gweithredu ar y dechrau, ond roeddent i fod i ail-gychwyn ar ddiwedd 2020. Mae gwersi o’r profiad COVID-19 yn debygol o lywio’r gwaith cyflenwi yn y dyfodol, gyda chynnydd cynnwys digidol mewn deunyddiau hyfforddi.

**Trefn lywodraethu'r rhaglen**

3.34 **Bu symudiad sylweddol - a gafodd dderbyniad cadarnhaol - mewn trefniadau llywodraethu dros y flwyddyn ddiwethaf.** Yng Ngham 1, teimlai ymgynghoreion a oedd yn rheolwyr bod y Bwrdd Cynghori Strategol (SAB) a'r tri Is-grŵp (bryd hynny) yn rhoi bwrdd seinio ac adborth defnyddiol, a chanfu rhanddeiliaid a oedd yn rhan mewn grwpiau llywodraethu bod y rhan yr oeddent yn ei chwarae yn ddefnyddiol o ran darparu llwyfan ar gyfer hyrwyddo ac integreiddio eu gweithgarwch eu hunain, yn ogystal â dysgu am y datblygiadau diweddaraf mewn mannau eraill. Fodd bynnag, roedd pryder sylweddol gan randdeiliaid mewnol ac allanol nad oedd trefniadau llywodraethu yn ddigon cynhwysol o fuddiannau'r diwydiant i roi'r cyngor a arweinir gan ddiwydiant, yr her strategol a'r arweiniad y gallai'r cynnig yn y dyfodol esblygu drwyddynt. Er bod MaB yn gweithio'n ddwyochrol gyda grwpiau cynrychioli'r diwydiant, roedd MaB a rhanddeiliaid yn cydnabod nad oedd hwn y dull mwyaf effeithlon.

3.35 Fel yr eglurwyd yn Adran 1, mae aelodaeth y SAB wedi'i ddiwygio i ehangu cyfranogiad y diwydiant ac mae un Bwrdd Cyflenwi tanategol wedi'i greu i ddisodli'r tri Is-grŵp Lotiau. Mae'n rhy gynnar i asesu effeithiau'r newidiadau hyn ar lywodraethu, ond roedd consensws ar draws rhanddeiliaid y dylent fod o gymorth i gynnwys y sector yn llawnach, gyda'r trosolwg ar draws pob un o'r tair Lot yn hwyluso cydlyniad ac integreiddiad y rhaglen.

3.36 Mae'n ymddangos bod dwy rwystredigaeth barhaus a chydgysylltiedig: yn gyntaf, canfyddiad cyffredinol bod cyfeiriad Cyswllt Ffermio yn cael ei yrru "o'r brig i lawr" gan flaenoriaethau Llywodraeth Cymru; yn ail, golygodd amseriad y trefniadau llywodraethu/aelodaeth a ad-drefnwyd nad oedd gan y rheini oedd yn ymwneud o'r newydd gyfle i ddylanwadu ar gynllun y diweddariad. Mae pryder y gallai hyn fod yn wir hefyd pan fydd a phryd y bydd y rhaglen yn cael ei newid yn fwy radical yn y dyfodol.

**Gweithio mewn partneriaeth ac aliniad â chefnogaeth arall**

3.37 **Teimlai rhanddeiliaid allanol bod gweithio mewn partneriaeth wedi gwella,** dros y 12 mis diwethaf, **yn arbennig ar lefel weithredol**. Gwnaethant dynnu sylw at sut yr oedd MaB a Lantra wedi dod yn "*llawer mwy cefnogol a deallgar*" o ran gweithio gyda phartneriaid, ac yn fwy parod i ffitio i mewn gyda sut y mae partneriaid yn gweithio. Gwelwyd hon fel nodwedd gadarnhaol iawn, gan ddangos y

gwrandawyd ar adborth gan randdeiliaid. Nodwyd yn benodol bod yna erbyn hyn weithio mewn partneriaeth gryfach ar lefel weithredol ar gefnogaeth o ddydd i ddydd. Roedd enghreifftiau yn cynnwys: cynnal digwyddiadau ac ymgyrchoedd ar y cyd (e.e. ymgyrch Ansawdd Dŵr, a gyflwynwyd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru); ymgysylltu â phartneriaid er mwyn llywio'r gwaith o gynllunio cyrsiau hyfforddiant a chynnwys cyhoeddiadau Hyb Cyfnewid Gwybodaeth; gweithio ar y cyd gydag AHDB (Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth) er mwyn osgoi gorgyffwrdd rhwng Safleoedd Arddangos a ffermydd llaeth strategol (gan ddefnyddio brandio a hyrwyddo ar y cyd); cydweithredu ar raglenni penodol (e.e. rhaglen meincnodi Cig Coch gyda Hybu Cig Cymru).

3.38 Mae aliniad gyda chefnogaeth amaethyddol a ddarperir gan gyrff eraill (megis cyrff ardrethi) hefyd wedi gwella gyda llawer o'r partneriaid perthnasol nawr wedi'u cynnwys o fewn consortiwm cyflenwi Cyswllt Ffermio. Disgwylir y bydd ad-drefnaint diweddar byrddau llywodraethu i gynnwys rhagor o bartneriaid allanol yn datblygu hyn ymhellach. Cynhaliodd Cyswllt Ffermio frecwastau rhwydweithio rheolaidd cyn COVID-19, gan ymgysylltu â rheolwyr banciau, cyfreithwyr, cyfrifyddion ac ati lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen, ac mae wedi ceisio ymgysylltu cyfryngwyr megis milfeddygon mewn Grwpiau Trafod. Mae yna hefyd draws-atgyfeirio a chydweithredu o ran hyrwyddo gydag ymyriadau eraill (megis rhaglen BVD).

3.39 Fodd bynnag, tynnodd y rhanddeiliaid sylw at dri maes allweddol ar gyfer gwella gweithio mewn partneriaeth.

- **Teimlwyd bod gweithio mewn partneriaeth ar lefel uwch a mwy strategol yn llai effeithiol.** Mae hyn yn ymwneud â chynllunio strategol, hirdymor ar agendâu cyffredin - a nodi'n glir rôl, safle a chyfraniad Cyswllt Ffermio (ochr yn ochr â chwaraewyr ac ymyriadau eraill) yn yr ecosystem arloesi amaethyddol. Yn benodol, teimlai rhanddeiliaid allanol y gallai fod mwy o eglurder o ran sut mae blaenoriaethau strategol Cyswllt Ffermio yn cyd-fynd â blaenoriaethau partneriaid, a chynllunio tymor hwy mwy cyson, cydweithredol a rhagweithiol ar agendâu cyffredin er mwyn osgoi dyblygu, ac annog cysylltiadau esmwyth i raglenni cefnogi busnes eraill. Yn y cyd-destun hwn, roedd ymgynghoreion yn pryderu bod cyfle'n dal i gael ei golli i weithio'n agosach gyda phartneriaid er mwyn "*darparu cymaint gyda llai*" ac atgyfnerthu negeseuon yn fwy effeithiol.

- **Gellid gwneud mwy i gysylltu Cyswllt Ffermio gyda sefydliadau preifat, yn arbennig archfarchnadoedd mawr, proseswyr a sefydliadau contractio.** Mae yna rai enghreifftiau o grwpiau Cyswllt Ffermio yn gweithio gydag archfarchnadoedd a phroseswyr. Hefyd, yn ddiweddar mae Cyswllt Ffermio wedi cynnal rhaglen beilot o brosiect cydweithredol gyda hufenfa fawr i fynd i'r afael â materion ansawdd yn y gadwyn gyflenwi a chafodd hynny dderbyniad cadarnhaol. Rhoddodd hyn becyn integredig o gefnogaeth o gyfarfodydd grŵp, Clinigau, hyfforddiant a chyngor un i un. Mae prosiect tebyg wedi'i gynllunio gyda chwmni prosesu cig mawr. Byddai'r ffermwyr yr ymgynghorwyd â hwy yn croesawu'n fawr mwy o weithgarwch yn y maes hwn, gan y gallai o bosibl ddarparu cyfleoedd masnachol gwerthfawr yn seiliedig ar wybodaeth marchnad benodol a chyfoes.
- Rhoddodd MaB nifer o enghreifftiau o weithio ar y cyd ac atgyfeiriadau rheolaidd i raglenni RDP eraill (e.e. Cywain, Menter Moch, Tyfu Cymru, HerdAdvance, Stoc+, Forestry First, BeefQ), ac mae Swyddogion Datblygu yn aelodau o Grwpiau Gweithredu Lleol. Fodd bynnag, mae **lle i gyfathrebu'n well rôl nodedig Cyswllt Ffermio mewn darparu cefnogaeth fel rhan o system gefnogi ehangach:** prin oedd ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid ynglŷn â sut yr oedd Cyswllt Ffermio wedi'i alinio â rhaglenni RDP eraill, Busnes Cymru, a gyda chefnogaeth berthnasol arall (gan gynnwys darpariaeth sector preifat).

**Ychwanegedd gweithgarwch**

3.40 Cwestiwn allweddol ar gyfer y gwerthusiad yw a fyddai, ac i ba raddau y byddai, ffermwyr wedi ymgysylltu â chyngor allanol a chymorth arall heb Cyswllt Ffermio. Yn nau gam yr ymchwil, roedd y rheini yr **ymgynghorwyd â hwy yn glir na fyddai ffermwyr wedi cyrchu cefnogaeth busnes generig fel arall,** oherwydd diffyg ymwybyddiaeth o sut i gyrchu'r gefnogaeth, amharodrwydd i geisio cyngor allanol, a'r teimlad o ddiffyg perthnasedd cefnogaeth generig i anghenion penodol y sector ffermio. Roedd buddiolwyr hefyd yn dadlau y byddent wedi cael anhawster i fforddio neu gyfiawnhau buddsoddi mewn cefnogaeth a ddarperir yn fasnachol, megis Gwasanaethau Cynghori, yn arbennig hyd nes y byddent yn gwybod ei bod yn "un oedd wedi'i phrofi" ac y "gallai wneud gwahaniaeth mawr i'w harferion".

3.41 Canfuwyd peth tystiolaeth i awgrymu **ychydig bach o ddi-fuddiant yn y rhaglen a allai ystumio'r farchnad sector preifat**. Canfu'r astudiaethau achos enghreifftiau lle'r oedd ffermwyr wedi mynd at ddarparwyr sector preifat am gyngor/hyfforddiant a'u bod yn barod i dalu am hynny, ond cawsant eu hailgyfeirio i Cyswllt Ffermio er mwyn derbyn cefnogaeth am ddim/ar gyfradd gymorthdaledig. Nid yw Gwasanaethau Cynghori yn rhoi ystyriaeth i brofiad blaenorol o gefnogaeth sector preifat neu fodd ariannol, er gwaethaf amrywiad eang mewn defnydd o gynghorwyr sector preifat ar draws is-sectorau. Y nodweddiadol mae'r sector godro yn defnyddio cynghorwyr, gan ei fod yn gweithredu gydag elw uwch ac mae ffermydd mwy yn gwneud cost mewnbwn allanol yn ymarferol o ran economeg, o gymharu â ffermydd eidion a defaid y mae eu helw'n dynnach ac a oedd yn llai abl i allu fforddio cyngor gan gynghorydd. Mae'r gyfradd ymyriadau ar gyfer Gwasanaethau Cynghori wedi'i chyfyngu gan reoliadau RDP ac nid oedd wedi'i hailbrofi ar ddechrau'r rhaglen bresennol; ni chafodd chwaith ei haddasu i adlewyrchu sawl gwaith yr oedd y buddiolwr wedi derbyn cyngor yn y gorffennol (mae pob ffermwr yn derbyn pedwar achos o gyngor yn ystod y rhaglen ar yr un gyfradd ymyrraeth). Er ein bod yn cydnabod y byddai newid y dulliau hyn yn golygu heriau sylweddol o ran eu gweithredu, gallai'r rhaglen gael ei chyflenwi'n fwy effeithlon pe na bai'n cymorthdalu ffermwyr sy'n barod i dalu ac yn gallu talu. Mae hyn fel petai'n berthnasol mewn rhai elfennau yn unig, ond gallai dull mwy personol yn y dyfodol roi gwell gwerth am arian.

**Bylchau mewn darpariaeth**

3.42 Ar y cyfan, teimlwyd bod y cynnig Cyswllt Ffermio yn gynhwysfawr, yn cynnig gwahanol fathau o gefnogaeth a mecanweithiau cyflenwi ar gyfer gwahanol anghenion a dulliau dysgu. Fodd bynnag, wrth i amodau'r sector ac anghenion ffermwyr newid, mae rhai bylchau wedi ymddangos; nid oedd y rhain i gyd wedi'u cynnwys yn y Fanyleb wreiddiol ar gyfer Cyswllt Ffermio ond fe'u hystyrir nawr fel pwyntiau lle gallai'r cynnig gael ei gryfhau. Mae'r pwynt uchod sy'n ymwneud â Cyswllt Ffermio yn ceisio bod yn "bopeth i bawb" yn dal yn ddilys, ond nodwyd y bylchau hyn fel blaenoriaethau pwysig.

- **Yn gyntaf, mae diffyg cyllid cyfalaf priodol er mwyn galluogi ffermwyr i roi syniadau/prosesau newydd ar waith yn fater parhaus**. Mae'r "gyllideb cymhelliant" ar gyfer Grwpiau Trafod sy'n caniatáu i gyfranogwyr roi cynnig ar rywbeth gwahanol a dod â'r canlyniadau i'r sesiwn grŵp trafod nesaf, yn

symudiad cyfyngedig tuag at hyn, ac mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi cyflwyno'r Grant Busnes i Ffermydd newydd (dim y rhan o Cyswllt Ffermio). Er y teimlwyd bod y grant yn ddefnyddiol, mynegwyd rhwystredigaethau ynglŷn â (i) bod y galw yn gorbwyso'n fawr yr adnoddau sydd ar gael, (ii) golygai amseriad ffenestri'r grant, a'r broses gais a deimlwyd oedd yn araf, na allai ffermwyr o reidrwydd gyrchu arian pan oedd ei angen a/neu golygai bod cyfleoedd marchnad wedi'u colli, a'r (iii) cam-gymharu a deimlwyd rhwng anghenion busnesau a beth oedd yn gymwys o dan y grant, a oedd yn canolbwyntio ar ddarpariaeth offer "traddodiadol". Awgrymodd rhai buddiolwyr y byddai gwerth mewn adnodd hyblyg a hygyrch i ganiatáu i ffermwyr brofi prosesau/offer mwy arloesol, sydd yn aml yn risg uchel i'r rheini sy'n ffermio ar lefel fach ond a allai o bosibl gael effaith sylweddol ar berfformiad eu busnes. Dim ond ychydig o gronfeydd sydd ar gael ar gyfer y math hwn o fuddsoddiad (y tu hwnt i ffermydd sy'n gysylltiedig yn y rhwydwaith arddangos) drwy Cyswllt Ffermio neu mewn mannau eraill. Er bod EIP yn darparu cyllid ar gyfer y math hwn o weithgaredd mae hyn yn gymharol gyfyngedig ac yn canolbwyntio mwy ar arloesedd mwy trawsnewidiol ac felly mae'n annhebygol o ddiwallu'n llawn yr angen a ddisgrifir uchod.

- **Yn ail, hyrwyddo a chryfhau ymhellach ddefnydd data a thechnolegau manwl mewn ffermio,** o ran sut i ddefnyddio'r technolegau, ac mewn dadansoddi a dehongli'r data. Mae rhai Ffermydd Arddangos, prosiect Rhagori ar Bori a rhaglen fentora eisoes yn cynnwys ffocws ar dechnolegau manwl. Hefyd, yn nhymor yr haf 2019 arloesodd Cyswllt Ffermio gyda defnydd LoRaWAN (Rhwydwaith Ardal Eang Pellter Hir) ar draws ei Ffermydd Arddangos a ganiataodd dyfeisiau Internet of Things (IoT) i gyfathrebu gyda rhaglenni sydd wedi'u cysylltu i'r rhyngrwyd dros bellteroedd pell gyda'r lleiaf posibl o ddefnydd batri. Yn y dyfodol, dylai'r rhaglen geisio adeiladu ar, ymestyn a blaenoriaethu gweithgareddau'n ymwneud ag amaethyddiaeth fanwl.
- **Yn drydydd, yr angen i ddarparu/blaenoriaethu cefnogaeth glir er mwyn lleihau effeithiau carbon**, o gofio'r nod Sero-Net erbyn 2040[26]. Unwaith eto, mae lle i adeiladu ar waith Ffermydd Arddangos sy'n canolbwyntio ar y maes hwn ac ar ymchwil a wnaed yn 2019 i ddatblygu offeryn allyriadau Nwyon Tŷ

[26] Nodir bod yr SAB wedi datblygu a chymeradwyo Cynllun Cyflenwi Carbon ar ôl i'r ymchwil ar gyfer y gwerthusiad hwn gael ei gynnal.

Gwydr rhyngweithiol ar-fferm ar wefan Cyswllt Ffermio. Roedd awgrymiadau ymgynghoreion yn cynnwys ymdrin â dal a storio carbon a chredydau carbon coedwigoedd, gwarchod/adfer bioamrywiaeth, yn ogystal â sut i gynnal ac ymateb i ôl-troed carbon.

- **Yn bedwerydd, hwyluso mynediad at brynwyr (h.y. archfarchnadoedd, lladd-dai, arwerthwyr, grwpiau prynu a swyddogion caffael).** Er enghraifft, dywedodd un o'r grwpiau ffocws a nifer o fuddiolwyr astudiaethau achos y byddai mwy o fynediad at brynwyr yn arbennig o werthfawr, gan gynorthwyo ffermwyr i ddeall eu manylebau a'r ffordd orau i'w cyflawni, a chanfod mwy o gyfleoedd masnachol yn lleol. Heb y wybodaeth hon, gallai fod yn anodd iawn i fodloni a rhagweld gofynion prynwyr ac optimeiddio prisiau gwerthu. Dywedasant hefyd bod angen cefnogaeth arnynt i feithrin y sgiliau a'r hyder i siarad â phrynwyr. Awgrymodd rai bod prynwyr yn aml yn croesawu hyn, ond teimlai eraill y byddai cael cyfleoedd wedi'u strwythuro drwy Cyswllt Ffermio yn fuddiol iawn.
- **Yn bumed, arwyddbostio at gefnogaeth yn ymwneud ag iechyd meddwl.** Roedd y mater hwn yn llawer mwy amlwg yn ymgynghoriadau Cam 2 gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol a hefyd buddiolwyr yn arbennig yng nghyd-destun pwysau Brexit a COVID-19, a phwysigrwydd iechyd meddwl a chyfeiriad meddwl cadarnhaol o ran rheoli busnes a gallu unigolion i gofleidio newid. Mae holl staff cyflenwi Cyswllt Ffermio yn derbyn hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl, er efallai bod angen am weithio mwy amlwg mewn partneriaeth â gwasanaethau megis y Rhwydwaith Argyfwng Ffermio[27].

[27] Nid oedd darparu cefnogaeth iechyd meddwl o fewn cwmpas Cyswllt Ffermio.

# 4 Canlyniadau ac effeithiau

4.1 Yn yr Adran hon rydym yn archwilio i ba raddau y mae ffermwyr yn rhoi newid ar waith o ganlyniad i Cyswllt Ffermio a'r ffactorau sy'n helpu neu'n llesteirio hyn. Rydym yn cyflwyno tystiolaeth am y canlyniadau ac effeithiau sy'n deillio o Cyswllt Ffermio, o safbwynt unigolion a busnesau sydd wedi ymgysylltu, ac yn ystyried i ba raddau y mae'r canlyniadau ac effeithiau hyn yn ychwanegol h.y. na fyddent wedi'u cyflawni heb Cyswllt Ffermio), cyfraniad Cyswllt Ffermio yng nghyd-destun ffactorau

**Negeseuon Allweddol**

- Mae'r dystiolaeth ansoddol a gasglwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn yn dangos sut y mae Cyswllt Ffermio wedi arwain at newidiadau graddol bach ac eang i arferion ffermio dros amser. Ceir hefyd enghreifftiau o nifer llai o ffermwyr yn gwneud newidiadau mwy sylweddol. Y ffactorau allweddol y teimlwyd oedd yn dylanwadau ar weithredu oedd cyfeiriad meddwl, ysbrydoliaeth a hyder, gallu a galluedd, a mynediad at/blaenoriaethu cyllid.
- Mae Cyswllt Ffermio fel petai wedi gwneud y gwahaniaeth mwyaf mewn dylanwadu ar ddatblygiad personol ffermwyr, yn arbennig mewn cryfhau hyder ac uchelgais, a chreu'r "sylfeini" ar gyfer newid. Ynghyd â gwell sgiliau technegol, mae hyn wedi dylanwadu ar brosesau rheoli busnes a gwneud penderfyniadau, sydd yn eu tro wedi lleihau costau, gwella cynhyrchiant a gwytnwch busnes, ac arwain at well safonau o ran yr amgylchedd a lles anifeiliaid.
- Cyfyngedig yw'r dystiolaeth bod lleihad mewn costau ac enillion o ran cynhyrchiant wedi arwain ar broffidioldeb a throsiant uwch, a chreu swyddi. Er bod buddiolwyr fel petaent yn arallgyfeirio ac yn mabwysiadu elfennau o arfer da sy'n newydd i'r busnes, nid oes tystiolaeth o ffermwyr yn mabwysiadu prosesau/technolegau mwy radical sy'n newydd i'r sector.
- O ran llwybrau i sicrhau effaith, y neges allweddol ar draws yr ymgynghoriadau oedd pwysigrwydd (a) cyfuniad o gefnogaeth a/neu ymgysylltu mewn elfennau dwysach Cyswllt Ffermio, a (b) y Swyddog Datblygu.
- Aseswyd gwerth ychwanegol Cyswllt Ffermio, uwchlaw a thu hwnt i'r hyn fyddai wedi'i gyflawni heb y gefnogaeth hon, fel elfen gref. Yn y mwyafrif o achosion, ni fyddai canlyniadau wedi'u cyflawni neu fe fyddant wedi cymryd mwy o amser, yn llai eu maint ac yn is eu hansawdd; ni chanfuwyd bod llawer mwy o ffactorau eraill wedi cyfrannu at gyflawni'r canlyniadau hyn (ac eithrio'r rheini oedd wedi derbyn grantiau a oedd yn caniatáu ar gyfer eu rhoi ar waith).

dylanwadu eraill, a pha elfennau o gefnogaeth sydd fel petaent yn fwyaf effeithiol mewn ysgogi newid.

- Prin yw'r dystiolaeth o oferu gwybodaeth y tu hwnt i'r rheini a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig, gan awgrymu bod y mecanweithiau sydd ar waith ar hyn o bryd ond yn lled dda.

**Gweithredu newid**

4.2 Cwestiwn allweddol ar gyfer y gwerthusiad oedd a yw buddiolwyr mewn gwirionedd yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth newydd a gafwyd drwy Cyswllt Ffermio ar waith o fewn eu busnesau er mwyn gwireddu'r canlyniadau/effeithiau y mae'r rhaglen yn ceisio eu cyflawni.

4.3 Ar gyfer nifer o ffermwyr yr ymgynghorwyd â hwy drwy astudiaethau achos a grwpiau ffocws yn nau gam yr ymchwil, arweiniodd Cyswllt Ffermio at **newidiadau graddol bach i arferion/technolegau ffermio dros gyfnod o amser[28].** Roedd yr ymgynghoreion yn dweud bod fforddiadwyedd yn allweddol, ynghyd â'r gallu i reoli newid o fewn y busnes. Wedi dweud hynny, gall hyd yn oed y newidiadau bach hyn, o'u rhoi gyda'i gilydd, yn aml weddnewid rhagolygon ar lefel fferm. Er enghraifft:

*"Mae'n ymwneud â newidiadau graddol bach yn gwneud gwahaniaeth yn y diwedd" (ymgynghorai grŵp ffocws)*

*"Rydym wedi gwneud newidiadau, ond gall y rhain fod yn anodd eu mesur. Rydym wedi gwneud newidiadau bach yn aml, yn dilyn gweithgaredd Cyswllt Ffermio. Gallwch newid rhai pethau ar ôl cael cefnogaeth gyda nhw, ond mae rhai pethau sy'n costio arian ac yn cymryd amser – ac ni ellir eu newid yn hawdd" (ymgynghorai astudiaeth achos).*

4.4 Mae tystiolaeth hefyd o **nifer llai o ffermwyr yn gwneud newidiadau sylweddol** o ganlyniad i Cyswllt Ffermio, yn arbennig y rheini sydd wedi ymgysylltu â mathau mwy dwys o gefnogaeth (trafodir rhagor arnynt isod).

[28] Sylwer, cefnogir y dystiolaeth hon gyda data gan MaB rhwng Awst 2019 ac Awst 2020 (y tu hwnt i'r cyfnod gwerthuso) a ddangosodd fod 85% o'r buddiolwyr yn bwriadu newid eu harferion ffermio ar ôl ymgysylltu â chymorthfeydd a chlinigau un i un, a bod 88% o fuddiolwyr y Gwasanaeth Cynghori a gwblhaodd y gwerthusiad 12 mis wedi gweithredu cyngor ar eu fferm.

4.5 Ar y cyfan, mae'r cydbwysedd fel petai yn drymach o blaid llawer o newidiadau bach yn hytrach nag un newid mawr: cefnogwyd hyn mewn ymgynghoriadau gyda staff cyflenwi a rhanddeiliaid allanol.

4.6 Canfyddiad ar draws yr holl fuddiolwyr yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer yr astudiaethau achos yng Ngham 2 oedd y soniodd bron i ddwy ran o dair (22 allan o 36) am gynnydd "rhesymol" mewn rhoi newid ar waith (a ddiffinnir yn ansoddol fel nifer o newidiadau bach a/neu newid mwy sylweddol). Roedd naw (25%) wedi gwneud nifer fechan o fân newidiadau, a dim ond pedwar (11%) oedd heb wneud unrhyw newidiadau o gwbl. Hefyd, hunanadroddodd cyfran uwch o ffermwyr oedd ag uchelgais glir, a gyda chynllun busnes a meincnodi ar waith, eu bod wedi gweithredu "newid rhesymol" a briodolwyd i Cyswllt Ffermio (gweler isod). Er bod y meintiau sampl yn rhy fach i asesu arwyddocâd ystadegol, mae hyn yn dynodi perthynas rhwng bod â chyfeiriad teithio clir, gyda sail ar gyfer mesur cynnydd, a gweithrediad dulliau newydd.

**Tabl 4.1: Nodweddion busnes ac i ba raddau y mae newidiadau wedi cael eu rhoi ar waith o ganlyniad i Cyswllt Ffermio yng Ngham 2 (n=36)**

| | % yr ymatebwyr **gyda …** sydd wedi rhoi newid "rhesymol" ar waith o ganlyniad i Cyswllt Ffermio | % yr ymatebwyr **heb…** sydd wedi rhoi newid "rhesymol" ar waith o ganlyniad i Cyswllt Ffermio |
|---|---|---|
| Uchelgais Clir | 79% | 30% |
| Cynllun Busnes | 73% | 58% |
| Meincnodi | 86% | 20% |
| Cynllun Rheoli Maetholion | 76% | 42% |
| Cynllun Iechyd Anifeiliaid | 85% | 30% |

Ffynhonnell: astudiaethau achos

*Pa ffactorau sy'n galluogi neu'n llesteirio gweithrediad a chynnydd*

4.7 Archwiliodd yr astudiaethau achos hefyd ffactorau sydd wedi helpu neu lesteirio gallu ffermwyr i roi syniadau neu sgiliau newydd yr oeddent wedi eu datblygu drwy Cyswllt Ffermio ar waith, y rheini oedd wedi'u cysylltu i ddarpariaeth Cyswllt Ffermio a ffactorau allanol ehangach. Mae'r canfyddiadau sydd wedi'u crynhoi yn y tabl isod

yn nodi cyfuniad o i) **gyfeiriad meddwl unigolion**, (ii) **ysbrydoliaeth a hyder** i gynllunio newidiadau a nodwyd drwy Cyswllt Ffermio, a'r iii) **sgiliau a gallu ymarferol** i wneud y newidiadau hyn (a gwneud hynny'n gynt). Mae ffactorau ehangach a wnaeth wahaniaeth pwysig yn cynnwys argaeledd cyfalaf buddsoddi, materion galluedd, olyniaeth a gwneud penderfyniadau o fewn y busnes; hefyd, amodau rheoleiddiol allanol, gwleidyddol a marchnad. O restr hirach o rwystrau, y rhai a ddyfynnwyd amlaf oedd (i) argaeledd **cyllid** (i brynu offer newydd ac ati), sydd wedi arwain at oedi mewn newidiadau'n cael eu gwneud, neu dim newid o gwbl, (ii) **cyfeiriad meddwl** unigolion oedd yn gysylltiedig; ac (iii) **ansicrwydd yn y cyd-destun gwleidyddol/rheoleiddiol,** yn arwain at oedi mewn gwneud penderfyniad a buddsoddiad.

**Tabl 4.2: Ffactorau sy'n galluogi ac yn llesteirio gweithredu a newid**

| Galluogwyr |
|---|
| **Dyluniad/dull cyflenwi Cyswllt Ffermio:**<br>• Mae cyfuniad o gefnogaeth gyflenwol yn allweddol, gan nodi beth sydd angen ei newid a sut i wneud hyn. Hefyd dilyn i fyny personol gan Cyswllt Ffermio (pan fo'n digwydd) i ysgogi gweithredu<br>• Cyngor ymarferol ac wedi'i deilwra a wyneb yn wyneb pan fo hynny'n bosibl, gyda galw cynyddol am gyngor un i un<br>• Fforymau agored ar gyfer trafod, profi a dysgu, yn cynnwys trafod a mireinio cynlluniau gydag eraill (mentoriaid, cymheiriaid). Mae creu ymddiriedaeth yn y fforymau hyn yn bwysig, er mwyn annog ffermwyr i rannu methiannau yn ogystal â llwyddiant<br>• Ymgysylltu â "dylanwadwyr allweddol" mewn busnes i newid cyfeiriadau meddwl, agweddau ac ymddygiad busnes<br>• Atebion fforddiadwy, ymarferol a hawdd eu rhoi ar waith, a gefnogir drwy ddangos y gwerth a'r broses o fabwysiadu ar ffermydd gweithiol real<br>**Ffactorau busnes mewnol:**<br>• Cymhelliant a pharodrwydd i ddysgu a sgiliau ffermwyr<br>**Ffactorau ehangach:**<br>• Cyllid grant i brynu offer newydd neu'r gallu i rentu offer<br>• Ysbryd calonogol rhai is-sectorau, megis coedwigaeth, gan ddenu diddordeb mewn arallgyfeirio<br>• Brexit, gwneud i ffermwyr feddwl am newid ac archwilio opsiynau<br>• Negeseuon sydd wedi alinio ac yn atgyfnerthu rhwng Cyswllt Ffermio a chyfryngwyr eraill yr ymddiriedir ynddynt, e.e. milfeddygon ac agronomegwyr |
| **Rhwystrau** |
| **Dyluniad/dull cyflenwi Cyswllt Ffermio:**<br>• Peth gwybodaeth (e.e. e-ddysgu) "yn rhy syml", cyffredinol a bach i gael effaith sylweddol<br>• Bydd y dull "diferu" ar gyfer cefnogaeth yn cymryd yn hwy i sicrhau newid<br>• Diffyg gwerthfawrogiad o'r cynnig |

- Amharodrwydd gan rai i ofyn am ragor o gymorth er mwyn gwneud i bethau newid, e.e. mentora, datblygiad sgiliau

**Ffactorau busnes mewnol:**

- Cymhelliant a pharodrwydd ffermwyr i ddysgu a chyfeiriad meddwl
- Anawsterau'n cyrchu cyllid ar gyfer syniadau newydd/twf (e.e. trwy fanciau), neu geisiadau araf am grant / amseru ddim yn cyd-fynd â ffenestri ceisiadau (gan arwain at gyfleoedd am gontractau'n cael eu colli)
- Heriau sy'n gysylltiedig â busnesau bach, gan gynnwys anawsterau'n cyfiawnhau cost eu rhoi ar waith, neu newidiadau sydd ddim yn gost effeithiol o gofio maint busnesau bach, cyfyngiadau o ran gallu i roi prosesau newydd ar waith a'u hintegreiddio, a materion yn gwrthdynnu, e.e. ymladd tân o fewn busnesau bach iawn. Gallai cyflwyno ac integreiddio arferion newydd o bosibl darfu yn y tymor byr sy'n her i fusnesau bach sy'n canolbwyntio ar ymdrin â materion o ddydd i ddydd.
- Strwythurau busnes a materion olyniaeth, lle mae gwneuthurwyr penderfyniadau yn ymwrthod â neu'n anwybyddu newid (naill ai oherwydd gwahaniaeth barn o fewn y teulu, neu nad oes cenhedlaeth nesaf i drosglwyddo'r fferm iddi)
- Heriau technegol sy'n gysylltiedig â rhoi systemau newydd ar waith

**Ffactorau allanol**

- Ansicrwydd economaidd, e.e. anwadalrwydd prisiau uchel o fewn y sector, Brexit yn dal penderfyniadau buddsoddi yn eu hôl, COVID-19 ac adferiad cysylltiedig
- Ansicrwydd rheoleiddiol ac o ran polisi, e.e. ffermwyr yn aros am i reoliadau amgylcheddol newydd ddod i rym neu grantiau amgylcheddol sydd i ddod ac felly nid ydynt am fuddsoddi eu harian eu hunain, newidiadau posibl i dreth etifeddiaeth
- Band eang gwledig gwaeth yn llesteirio'r gallu i gyflwyno technolegau newydd neu i wneud gwaith e-fasnach.
- Amseru – angen i'r broses o roi newid ar waith gyd-fynd â thymhorau
- Digwyddiadau tywydd eithafol amlach

Ffynhonnell: Pob llinyn ymchwil y gwerthusiad

### Canlyniadau ac effeithiau

4.8 Ar draws dau gam yr ymchwil, rydym wedi archwilio'r canlyniadau a'r effeithiau sy'n deillio o ffermwyr yn derbyn cefnogaeth Cyswllt Ffermio a (lle bo hynny'n berthnasol) rhoi newidiadau ar waith ar eu ffermydd. Mae Ffigur 4.1, isod, yn crynhoi - mewn termau pennawd - y mathau o ganlyniadau sy'n amlwg ar draws y prif ffynonellau tystiolaeth ar gyfer y gwerthusiad hwn. Mae dau dic yn dangos tystiolaeth gref o'r canlyniad, ac un tic yn dangos peth tystiolaeth o'r canlyniad a/neu y canlyniad fel effaith eilaidd. Mae'n bwysig nodi nad yw'r ticiau yn dynodi maint cymharol yr effaith rhwng un gweithgaredd i'r llall. Hefyd, nid yw dim tic yn erbyn canlyniad yn golygu nad yw'r gweithgaredd yn cael effaith yn erbyn y canlyniad hwn o gwbl - yn hytrach na nodwyd y canlyniad hwn yn yr ymgynghoriadau.

4.9 Wrth edrych ar draws y dystiolaeth astudiaeth achos, rydym yn gwneud dau sylw allweddol:

- Mae'n ymddangos bod Cyswllt Ffermio wedi gwneud y gwahaniaeth mwyaf mewn dylanwadu ar ddatblygiad personol ffermwyr, yn arbennig mewn cryfhau hyder ac uchelgais, a chreu'r "sylfeini" ar gyfer newid. Ochr yn ochr â gwell sgiliau technegol, mae hyn wedi dylanwadu ar brosesau rheoli busnes a gwneud penderfyniadau, a'u trosi'n gostau is, gwell cynhyrchiant a gwytnwch busnes, a gwell safonau ar gyfer effaith ar yr amgylchedd a llesiant anifeiliaid.
- Mae tystiolaeth o effeithiau ariannol (y tu hwnt i leihad mewn cost) ar broffidioldeb, trosiant a chreu swyddi yn llai amlwg[29]. Mae hefyd tystiolaeth gyfyngedig o ganlyniadau arloesi - er bod buddiolwyr fel petaent yn mabwysiadu elfennau o arfer da sy'n newydd i'r busnes a/neu yn arallgyfeirio i ffrydiau incwm eraill, ni lwyddodd yr ymchwil i ganfod tystiolaeth bod ffermwyr yn mabwysiadu prosesau/technolegau mwy radical sy'n newydd i'r sector o ganlyniad i Cyswllt Ffermio[30]. Nododd MaB, fodd bynnag, bod mabwysiadu dulliau arloesol "newydd i fferm" yn digwydd o ganlyniad i Cyswllt Ffermio, er enghraifft, mewn defnydd o amaethyddiaeth fanwl, technolegau GPS a chyflwyno amrywiadau gwair newydd.

4.10 Mae'n bwysig ail-bwysleisio, o gofio cwmpas y gwerthusiad a'r dull ansoddol a ddefnyddiwyd, na ellir cyffredinoli'r canfyddiadau hyn i'r boblogaeth o fuddiolwyr yn gyfan, ac nad ydynt chwaith yn caniatáu i effaith economaidd cyffredinol meintiol gael ei hasesu. Byddai cyfrifo effaith economaidd *net* y gellir ei phriodoli i Cyswllt Ffermio yn gofyn am arolwg meintiol ar draws y boblogaeth, a chymhariaeth gyda grŵp o fusnesau ffermio sydd heb eu cefnogi er mwyn deall y gwrthffeithiol.

[29] Nid oedd data ar y metrics hyn ar gael.
[30] Sylwer, mae hyn yn fwy tebygol i'w weld yn EIP-AGRI, a oedd y tu allan i gwmpas y gwerthusiad hwn.

## Ffigur 4.1: Canlyniadau sydd i'w gweld ar draws pob llinyn ymchwil (gan ddefnyddio'r dystiolaeth yng Nghamau 1 a 2 wedi'u cyfuno)

| Canlyniadau a welwyd | Tystiolaeth astudiaethau achos | | | | | | | | | | Buddiolwyr grwpiau ffocws | Staff rheoli a chyflenwi | Rhanddeiliaid allanol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau cynghori | Agrisgôp | Academi Amaeth | Safle arddangos | Grwpiau trafod | Safleoedd ffocws | Cyfnewidfa Rheolaeth | Mentora | Cyrsiau sgiliau wyneb yn wyneb | E-ddysgu | Cyswllt Ffermio yn gyfan | Cyswllt Ffermio yn gyfan | Cyswllt Ffermio yn gyfan |
| Gwell gwybodaeth a sgiliau (busnes a thechnegol) | ✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ |
| Newidiadau mewn cyfeiriad meddwl ac agweddau tuag at newid | | ✓✓ | ✓ | ✓ | ✓✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓ |
| Codi ymwybyddiaeth o syniadau newydd | ✓ | ✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓ |
| Mwy o hyder ac uchelgais i newid | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓ | ✓✓ | ✓ | ✓ | ✓✓ | | | ✓✓ | ✓✓ | ✓ |
| Manteision iechyd meddwl | ✓ | ✓ | | | | | | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ |
| Mwy o ymddiriedaeth mewn cyngor allanol | ✓ | | | | | | | | | | | | |
| Wedi newid arferion rheoli busnes | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓✓ | ✓✓ | ✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓ |
| Manteision rhwydweithio (yn ystod ac wedi cefnogaeth) | | ✓✓ | ✓✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | | | ✓✓ | ✓✓ | ✓ |
| Canlyniadau arloesedd (cynnyrch neu gyfleoedd marchnad newydd) | | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ | ✓ | | | | |
| Perfformiad busnes - costau | ✓✓ | ✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓✓ | | ✓ | ✓✓ | ✓✓ |
| Perfformiad busnes - cynhyrchiant, trosiant, proffidioldeb | | ✓ | ✓✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓✓ | | ✓ | ✓ | |
| Gwytnwch / cynaliadwyedd / hyfywedd busnes | ✓ | ✓✓ | ✓ | ✓✓ | ✓✓ | ✓ | ✓ | ✓✓ | ✓ | | ✓✓ | ✓ | ✓ |
| Gwelliannau amgylcheddol ac iechyd anifeiliaid | ✓✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ | | | | ✓✓ | ✓ | ✓ |

Ffynhonnell: Pob llinyn ymchwil y gwerthusiad

4.11 Yn y paragraffau sy'n dilyn rydym yn archwilio ar yn dangos y canlyniadau mewn rhagor o fanylder.

### Canlyniadau personol

*Gwell gwybodaeth a sgiliau*

4.12 Yn nau gam yr ymchwil gwnaethom ganfod bod holl elfennau Cyswllt Ffermio yn arwain ar **welliant mewn sail gwybodaeth a sgiliau ffermwyr, a bod y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio'n gyflym ar ffermydd**. Mae nifer o enghreifftiau o sut y gwnaeth y gefnogaeth gyflawni'r canlyniad hwn: cynorthwyodd Agrisgôp i wella gwybodaeth a sgiliau drwy ddysgu rhwng cymheiriaid, drwy wahodd siaradwyr gwadd sydd â safbwyntiau o'r tu allan, a thrwy "ddysgu trwy wneud" fel grŵp; galluogodd cyrsiau hyfforddi (megis cneifio, trimio traed a TAW) ffermwyr i gyflawni tasgau yn fewnol yn hytrach na thalu i gontractwyr, a arbedodd gostau ar unwaith. Roedd rhanddeiliaid allanol yn cytuno: dywedodd un

ymgynghorai bod cwrs trin llif gadwyn Cyswllt Ffermio "yn ddiamheuol" wedi gwella diogelwch rheoli fferm a choetir.

*Newidiadau mewn cyfeiriad meddwl ac agweddau tuag at newid, hyder personol ac uchelgais*

4.13 **Mae tystiolaeth eang a chyson gadarnhaol o'r effaith sylweddol y mae Cyswllt Ffermio wedi ei gael mewn newid cyfeiriad meddwl ac agweddau, hybu hyder a rhoi hwb i uchelgais ffermwyr.** Mae llawer o'r gweithgareddau yn chwarae rôl mewn rhoi hwb i hyder i roi cynnig ar rywbeth newydd a chodi uchelgais - yn benodol Agrisgôp, Academi Amaeth, Safleoedd Arddangos, Grwpiau Trafod a Mentora. Er enghraifft, dywedodd buddiolwyr astudiaethau achos fod Cyswllt Ffermio wedi rhoi "*hwb seicolegol*" lle gallwch weld bod y newidiadau a wnaed yn creu gwelliannau yn y busnes. "*Mae hyn wedi rhoi gobaith i mi ac wedi newid cyfeiriad fy meddwl a rhoi cymhelliant i mi feddwl nad yw popeth yn gwbl anobeithiol a gallwn fynd ymlaen - mae golau ar ben draw'r twnnel"* a *"rhoddodd hwb enfawr i'm hyder a nod i weithio tuag ati*". Fe wnaeth buddiolwyr o ddwy astudiaeth achos hefyd ddisgrifio sut yr oeddent yn teimlo mwy "*mewn rheolaeth*" o ddyfodol eu busnes. Cytunodd ymgynghoreion y grwpiau ffocws - dywedodd un "*Mae Cyswllt Ffermio yn helpu i harneisio cyfeiriad meddwl cadarnhaol, ac felly'n cofleidio newid cadarnhaol*".

4.14 Roedd yna hefyd nifer fechan o enghreifftiau lle'r oedd Cyswllt Ffermio wedi meithrin hyder gan gadarnhau fod arferion buddiolwyr yn briodol. Roedd Cyswllt Ffermio "*yn tueddu i gadarnhau mai'r hyn yr oeddem wedi bod yn ei wneud yn reddfol oedd y dull cywir*" a "*roedd llawer ohono wedi rhoi'r hyder i ni fod yr hyn rydym yn ei wneud yn iawn, gydag elfennau newydd ychwanegol ynglŷn â rheoli cloffni".*

4.15 Cefnogwyd y canfyddiadau hyn hefyd gan staff cyflenwi a rhanddeiliaid allanol. Nododd un o'r rhanddeiliaid allanol sut yr oedd Cyswllt Ffermio wedi rhoi "*egni*" a brwdfrydedd i ffermwyr i roi cynnig ar arferion newydd. Fodd bynnag, er bod y canlyniadau hyn yn bwysig, a serch tystiolaeth i segmentu'r sector (cydnabod bod cyfran o'r sector yn annhebygol o addasu), roedd rhai rhanddeiliaid allanol yn pryderu – os mai dyna unig effaith Cyswllt Ffermio i rai – nad oedd yn ddigon i gyflawni maint y newid oedd ei angen yn y sector.

*Manteision rhwydweithio*

4.16 Fe wnaeth gweithgareddau Cyswllt Ffermio helpu i **ddatblygu a chryfhau rhwydweithiau** rhwng ffermwyr, yn ystod ac wedi'r gefnogaeth. Cyflawnwyd hyn drwy weithgareddau grŵp rhwng cymheiriaid, megis Agrisgôp, Academi Amaeth a Grwpiau Trafod, ond roedd hefyd i'w weld mewn gweithgareddau eraill megis Cyfnewidfa Rheolaeth.

4.17 Mae tystiolaeth o **effaith etifeddiaeth hunangynhaliol**, lle cynhelir rhwydweithiau wedi i gefnogaeth Cyswllt Ffermio ddod i ben **a bod ffermwyr yn parhau i gyfnewid gwybodaeth ac arfer da.** Er enghraifft, fe wnaeth grwpiau Agrisgôp a charfannau Academi Amaeth yn aml barhau i gefnogi ei gilydd yn anffurfiol wedyn. Roedd hyn yn cynnwys rhannu problemau a llwyddiannau gyda gweddill y grŵp, gofyn i gymheiriaid am gyngor a hyd yn oed sefydlu mentrau busnes ar y cyd. Cadarnhaodd nifer o'r ymgynghoreion na fyddai'r rhwydweithiau hyn yn bodoli oni bai am Cyswllt Ffermio. Soniodd yr astudiaeth achos Cyfnewidfa Rheolaeth hefyd am enghraifft o fuddiolwr yn dal mewn cysylltiad â'i bartner cyfnewid i drafod problemau cyffredin.

*Iechyd meddwl*

4.18 **Mae Cyswllt Ffermio yn cael effaith gadarnhaol hollbwysig – ac un a danbrisir yn aml – ar iechyd a lles y rheini sy'n gysylltiedig yn y sector**. Roedd y canlyniad hwn yn fwy amlwg yn ail gam yr ymchwil, yn erbyn cefndir COVID-19 a Brexit. Disgrifiodd ymgynghoreion sut y rhoddodd gweithgareddau megis Gwasanaethau Cynghori un i un ffordd glir, ymarferol a fforddiadwy ymlaen ar gyfer ffermwyr, gan leihau lefelau straen a phryder (a oedd yn aml yn fewnol a hirsefydledig). Ategwyd hyn gan weithgareddau grŵp a roddodd fanteision cymdeithasol a rhoi sicrwydd bod ffermwyr eraill yn profi heriau tebyg.

*Arferion rheoli busnes wedi newid a mwy o ymwybyddiaeth o ddulliau newydd*

4.19 Yn yr astudiaethau achos, disgrifiodd y buddiolwyr hefyd sut yr oedd cymryd rhan mewn gweithgareddau Cyswllt Ffermio wedi **"ehangu gorwelion" a'u cyflwyno i syniadau newydd**, o ganlyniad i arbenigwyr yn y maes a/neu drwy drafodaethau gyda chymheiriaid. Roedd y rhan fwyaf o'r syniadau hyn yn canolbwyntio ar newidiadau ar raddfa fechan a oedd yn newydd i'r ffermydd, megis newid mewn dwyster plannu cnydau a strategaethau bwydo anifeiliaid (e.e. astudiaeth achos Cyfnewidfa Rheolaeth), proffilio metabolig mamogiaid (e.e. Safle Arddangos) a

chyfundrefnau rheoli pridd (e.e. Academi Amaeth). Fodd bynnag, roedd hefyd enghreifftiau o syniadau mwy trawsnewidiol yn dylanwadu ar arferion ffermwyr, gan gynnwys arallgyfeirio i fiomas o ganlyniad i fynychu Safle Ffocws, a mentoriaid yn cyflwyno syniadau newydd, er enghraifft ar wahanol fathau o dda byw sy'n fwy addas ar dirddaliadau penodol.

4.20 Rhoddodd yr ymgynghoriadau â buddiolwyr a staff cyflenwi nifer o enghreifftiau o sut y mae Cyswllt Ffermio wedi cryfhau a phroffesynoleiddio arferion rheoli busnes, yn arbennig drwy (i) **wneud penderfyniadau wedi'u seilio ar dystiolaeth a hyderus** a (ii) **chyflwyno prosesau newydd i reoli'r busnes** megis monitro electronig a gwell rheoli cyfrifon. Cyflawnwyd hyn drwy'r gweithgareddau rhwng cymheiriaid, cyngor un i un drwy'r Gwasanaeth Cynghori a Mentora, a hyfforddiant yn canolbwyntio ar fusnes. Disgrifiodd buddiolwyr sut y daethant yn fwy ymwybodol o bwysigrwydd cael cynllun busnes wedi'i gostio'n llawn, y gwnaethant sefydlu mwy o ddisgyblaeth ynglŷn â chynllunio busnes a chynllunio ariannol, a chreu rhwydwaith gefnogi i'w helpu gyda'u proses gwneud penderfyniadau. Cyflymodd hyn eu proses gwneud penderfyniadau a hefyd osgoi canlyniadau a fyddai o bosibl wedi bod yn gostus. Er enghraifft:

> *"Fe fyddwn i'n dweud bod Cyswllt Ffermio wedi helpu llawer arna'i, ac mae'r Academi Amaeth wedi fy helpu i gael mwy o hyder a gwybod gyda phwy i gysylltu fel nad ydw i'n teimlo wedi fy ynysu yn y penderfyniadau a wnaf.' (ymgynghorai astudiaeth achos)*

> *"Mae Cyswllt Ffermio wedi rhoi hwb i'm hyder a rhoi hwb seicolegol i mi hefyd. Drwy deimlo'n fwy hyderus yn yr hyn rydw i'n ei wneud, gallaf wneud gwell penderfyniadau" (ymgynghorai astudiaeth achos)*

> *"Mae Cyswllt Ffermio yn sicr wedi helpu'n fawr gyda datblygiad personol o fewn ein busnes. Rydym wedi datblygu llawer o sgiliau rheoli busnes, sydd wedi arwain at fenter cig eidion gynaliadwy" (ymgynghorai astudiaeth achos)*

*Ymddiried mwy mewn cyngor allanol*


4.21 Mae tystiolaeth bod y Gwasanaeth Cynghori yn cynyddu ymddiriedaeth ffermwyr a'u parodrwydd i ymgysylltu â chyngor allanol, ac mewn rhai achosion eu parodrwydd i dalu am hyn. Er enghraifft, canfu un cynghorydd bod rhai ffermwyr wedyn yn talu'n breifat am ymgynghoriaeth cynllunio. Mae Cyswllt Ffermio wedi helpu drwy ddangos y manteision sy'n gysylltiedig â chyngor allanol (gyda chymorth

y cymhorthdal) a thrwy gyflwyno ffermwyr i gynghorwyr credadwy (gan fynd i'r afael â diffyg ymwybyddiaeth ffermwyr ynglŷn â lle i fynd am gyngor).

**Busnes a chanlyniadau ehangach**

4.22 Fel rhan o ymchwil astudiaeth achos Cam 2, fe wnaethom ofyn i fuddiolwyr a oedent eisoes wedi gweld budd i'w busnes o ganlyniad i Cyswllt Ffermio neu a ydynt yn disgwyl gweld hynny yn y dyfodol (gweler Ffigur 2.1). Fel y nodir uchod, mae'n edrych fel petai Cyswllt Ffermio wedi cael effaith eang ar leihau costau, gwella cynhyrchiant a gwytnwch busnes, a sicrhau buddiannau amgylcheddol ac o ran llesiant anifeiliaid. Er nad oedd hyn wedi'i droi'n well trosiant, proffidioldeb neu greu swyddi ar gyfer y busnesau hyn, roedd y rhan fwyaf yn disgwyl gweld yr effeithiau hyn yn y dyfodol. Rydym yn archwilio hyn mewn rhagor o fanylder isod.

**Ffigur 4.2: Canlyniadau a welwyd neu y disgwylir eu gweld yn y dyfodol ar draws buddiolwyr <u>astudiaeth achos</u> yng Ngham 2**




Ffynhonnell: Buddiolwyr astudiaeth achos Cam 2, n=36

*Lleihad mewn costau*

4.23 Roedd dros hanner y buddiolwyr astudiaeth achos wedi gwneud arbedion mewn costau o ganlyniad i'r gefnogaeth y maent wedi'i derbyn drwy Cyswllt Ffermio. Ar y cyfan roedd y rhain wedi cael eu gwireddu'n gyflym, ac roedd rhai'n eithaf sylweddol. Cadarnhawyd y canlyniad hwn gan dystiolaeth ymgynghoreion grwpiau ffocws, staff rheoli a rhanddeiliaid allanol. Roedd meincnodi wedi chwarae rhan hollbwysig mewn amlygu materion cost, ond yn nodweddiadol roedd ffermwyr

angen cefnogaeth gofleidiol er mwyn ysgogi gweithredu, gan gynnwys grwpiau rhwng cymheiriaid lle trafodwyd problemau a datrysiadau posibl, Mentora, Clinigau a chyngor un i un a oedd yn rhoi argymhellion penodol i ffermydd. Roedd Safleoedd Ffocws/Arddangos a Chyfnewidfa Rheolaeth hefyd yn ddefnyddiol mewn amlygu syniadau arbed costau. Mae enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

*Ar ôl trafod pydewau silwair mewn cyfarfod grŵp trafod, roedd un buddiolwr wedi newid y gorchudd ar ei bydew silwair er mwyn lleihau gwastraff. Mae hyn wedi gwella ansawdd y porthiant a, thrwy leihau gwastraff, mae hefyd wedi lleihau faint o silwair a brynir i mewn gan arbed £200 yr wythnos (ymgynghorai astudiaeth achos)*

*Ar ôl arsylwi ar wahanol arferion rheoli glaswelltiroedd dramor, roedd un buddiolwr wedi gweithredu newidiadau ar ei fferm gan arwain at leihad a oedd yn cyfateb i £5,000 y flwyddyn mewn gwariant ar wrtaith (ymgynghorai astudiaeth achos)*

*Trafodwyd data meincnodi ar gyfnodau lloia mewn Grŵp Trafod. Roedd fferm y buddiolwr yn perfformio'n wael, ac wedi rhoi'r newidiadau ar waith lleihaodd y cyfnod lloia gan 40 diwrnod ar draws buches o 150 o wartheg, gan greu arbediad o tua £18k y flwyddyn (ymgynghorai astudiaeth achos)*

*Arweiniodd samplu pridd Cyswllt Ffermio ar unwaith at haneru costau gwrtaith, o £6k i £3k y flwyddyn, sydd wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i gwmni sydd â throsiant cyfartalog o £15k y flwyddyn*

*Mae clinigau technegol ar reoli maetholion wedi arbed "degau o filoedd o bunnoedd" i ffermwyr; gwnaethant roi esiampl o ffermwr oedd ar fin tyllu storfa slyri am £100k, ond yn dilyn cyngor technegol gan Cyswllt Ffermio gwnaeth newidiadau a gostiodd £20k er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â rheoliadau amgylcheddol (rhanddeiliad allanol)*

*Fe wnaeth ffermwr Safle Arddangos Cyswllt Ffermio a gyflwynodd system silwair aml-doriad arbediad o £109,771 y flwyddyn mewn costau porthiant crynodedig (gwefan Cyswllt Ffermio).*

*Gwell perfformiad busnes a gwytnwch*

4.24 Mae tystiolaeth hefyd sy'n dangos sut mae Cyswllt Ffermio wedi arwain at gynnydd mewn cynhyrchiant – fel y nodir uchod, roedd bron i dri chwarter o'r buddiolwyr yr

ymgynghorwyd â hwy ar gyfer yr astudiaethau achos wedi gwella eu cynhyrchiant. Er enghraifft:

*Nododd cefnogaeth y potensial ar gyfer coleri gwres er mwyn lleihau cyfnodau lloia, ac o ganlyniad fe wnaeth ffermwr a gyflwynodd y dechnoleg hon leihau cyfnodau lloia fel ei fod yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru (ymgynghorai astudiaeth achos)*

*Yn dilyn cefnogaeth, lleihaodd ffermwr ei ddiadell o ddefaid gan 50% ond lleihaodd nifer yr ŵyn gorffenedig gan ddim ond 30%. Roedd hyn yn bosibl drwy well rheolaeth ar bori ac iechyd anifeiliaid (ymgynghorai astudiaeth achos).*

4.25 Mae Cyswllt Ffermio hefyd wedi helpu i wella gwytnwch a hyfywedd busnesau. Dywedodd ymgynghoreion, gan fod llawer o'r gwelliannau'n gymharol gyflym i'w rhoi ar waith, eu bod yn gallu creu busnes mwy cynaliadwy yn gyflym. Nid oedd y rhain o reidrwydd yn newidiadau trawsnewidiol yn y busnes, ond fel y dywedodd buddiolwyr astudiaeth achos Agrisgôp, roeddent yn creu busnesau cynaliadwy a allai wedyn gael eu datblygu ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Teimlwyd bod cadw pobl ifanc a busnesau hyfyw mewn ardaloedd gwledig yn bwysig ar gyfer cynaliadwyedd cymunedol. Er enghraifft:

*Roedd dysgwr wedi cwblhau cynllun busnes a chynllun marchnata ar gyfer ei fenter newydd, sef datblygu maes gwersylla oedd yn eithaf di-nod yn rhywbeth mwy sylweddol a chynaliadwy. Mae'r busnes newydd yn tyfu'n raddol ac yn y tymor hwy y gobaith yw y bydd ei blentyn yn gallu parhau â'r busnes a fydd yn ei dro yn cefnogi dyfodol y cartref a'r tyddyn (ymgynghorai astudiaeth achos)*

4.26 Roedd tystiolaeth o effeithiau ar drosiant a phroffidioldeb yn llai mynych, ac yn aml ar raddfa fach; pan adroddwyd am hyn, roedd fel arfer yn cael ei ysgogi gan arallgyfeirio, prosesau mwy effeithlon a bod â'r sgiliau i wneud y tasgau'n fewnol. Mewn rhai achosion, nid oedd effeithiau ariannol i'w gweld ar adeg yr ymgynghoriad ond roedd disgwyl iddynt ddod i'r amlwg yn y tymor hwy. Nid oedd creu neu gadw swyddi yn brif nod ar gyfer y rhan fwyaf o ymgynghoreion; roeddent yn canolbwyntio ar sicrhau bod y busnes yn gynaliadwy er mwyn diogelu eu swyddi eu hunain a swyddi eu plant.

*Buddsoddodd fferm Safle Ffocws tua £250k mewn ynni adnewyddadwy, gan gynnwys system solar, tyrbin gwynt a bwyler biomas. Mae hyn wedi arwain at leihad o hanner cant y cant yn ei filiau trydan o £14k i £7k ac mae'r fferm wedi*

*cyfrifo y bydd yr offer ynni adnewyddadwy yn talu am eu hunain mewn llai na saith mlynedd oherwydd bod ganddynt Dariff Cyflenwi Trydan (FIT) gwerth 19c/kWh*

*(Dangosfwrdd Cyswllt Ffermio, Awst 2019 – Tachwedd 2019).*

*Canlyniadau arloesi*

4.27 Fel rhan o astudiaethau achos Cam 2, gofynnwyd i'r ymgynghoreion a oedd Cyswllt Ffermio wedi arwain ar gynnyrch newydd neu gyfleoedd newydd yn y farchnad. Fel y dangosir uchod, roedd tua un rhan o dair o fuddiolwyr wedi gweld yr effaith hon eisoes, ond roedd hyn yn ymwneud yn bennaf â chyfleoedd marchnad newydd megis cynhyrchu mêl, plannu amrywiadau newydd, symud o ffermio defaid i fuchod sugno neu arallgyfeirio gweithgareddau busnes i ddod â gwytnwch i'r busnes (e.e. biomas). Nid oedd tystiolaeth o ffermwyr yn cyflwyno cynhyrchion/prosesau newydd hynod arloesol, megis systemau cynhyrchu bwyd newydd (mae'r rhain yn fwy tebygol o godi o gefnogaeth EIP, sydd ddim yng nghwmpas y gwerthusiad).

*Manteision amgylcheddol ac o ran iechyd anifeiliaid*

4.28 Rhoddodd dau gam yr ymchwil dystiolaeth sylweddol fod cyngor Cyswllt Ffermio wedi arwain at welliant amgylcheddol a manteision i iechyd anifeiliaid. Cyflawnwyd hyn drwy leihad mewn defnydd gwrthfiotigau a gwrtaith, a rheolaeth fwy cynaliadwy ar adnoddau a mesurau i wella bioamrywiaeth. Er enghraifft:

- O ganlyniad i gefnogaeth Gwasanaeth Cynghori, roedd un buddiolwr wedi cyflwyno canonau dŵr sydd wedi lleihau gwastraff dŵr, ac mae nifer o rai eraill wedi gwella eu rheolaeth slyri
- Roedd buddiolwyr grwpiau trafod wedi dysgu gan eu cymheiriaid sut i leihau defnydd gwrthfiotigau, rheoli mastitis yn well, a newid polisi golchi traed er mwyn lleihau dermatitis
- Roedd buddiolwyr Safleoedd Arddangos hefyd wedi dysgu am arferion hylendid, lleihau defnydd gwrthfiotigau a gwella cynlluniau iechyd anifeiliaid
- Roedd un o fuddiolwyr yr hyfforddiant wedi dod yn fwy effeithlon o ganlyniad i'r cwrs defnydd diogel o blaladdwyr, a oedd wedi cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd bywyd gwyllt ar y fferm
- Roedd gan fuddiolwr cwrs e-ddysgu ar sgorio cyflwr corff gwartheg wedi defnyddio hwn fel man cychwyn ar gyfer trafodaeth gyda'i milfeddyg; arweiniodd

hyn iddi archwilio ymhellach ac yna mabwysiadu dull meincnodi. (Gan fod y cyfnod lloia yn dal i ddigwydd, nid oedd yn gallu dweud a oedd y newidiadau hyn wedi cael effaith gadarnhaol).

*Effeithiau nas bwriadwyd neu annisgwyl*

4.29 Dim ond ychydig o ymgynghoreion Cam 2 - pedwar buddiolwr a thri aelod staff cyflenwi - oedd wedi gweld effeithiau nas bwriadwyd neu annisgwyl o ganlyniad i Cyswllt Ffermio. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd hyn yn ymwneud â'u gallu i wneud llawer mwy o gynnydd na'r disgwyl gyda'r gefnogaeth, a/neu wneud newidiadau annisgwyl nad oeddent yn sylweddoli oedd yn ofynnol/yn bosibl. Nododd dau o'r ymgynghoreion fod Cyswllt Ffermio wedi arwain at **welliannau mewn ansawdd bywyd**, yn rhannol drwy rwydweithio cymdeithasol ac arferion ffermio mwy effeithlon a oedd wedi lleihau oriau gwaith.

**Llwybrau i sicrhau effaith**

4.30 Roedd adborth cyson ar draws staff cyflenwi a buddiolwyr ynglŷn ag elfennau o Cyswllt Ffermio a oedd yn gyfrifol am y llwybr mwyaf effeithiol i effaith. Y rhain oedd:

- **Yn gyntaf, roedd cefnogaeth yn fwyaf effeithiol "mewn cyfuniad" dros gyfnod o amser**, gan gydnabod bod gwell perfformiad yn aml yn dibynnu ar addasu nifer o elfennau o'r busnes. Fel yr eglurodd un buddiolwr astudiaeth achos, "*nid un peth ydyw*" ond "*y pethau bach sy'n crynhoi i helpu i wella perfformiad busnes*". Mae enghreifftiau eraill i gefnogi'r ddadl hon yn cynnwys:

  > *"Y gefnogaeth fwyaf effeithiol yw pan fo Cyswllt Ffermio yn ystyried eich busnes cyfan, yn ystyried sut rydych am iddo ddatblygu/ nodau busnes ac yn darparu cefnogaeth wedi'i theilwra." (buddiolwr astudiaeth achos)*
  >
  > *"Y cyfuniad o becynnau sy'n gwneud y gwahaniaeth i'r mwyafrif" (ymgynghorai cyflenwi)*

  **Y cyfuniad o gefnogaeth a ddyfynnwyd yn fwyaf cyffredin mewn gwneud newid effeithiol oedd: (a) gwybodaeth/arfer gorau gan arbenigwyr ac o Safleoedd Arddangos i roi ysbrydoliaeth, (b) meincnodi, gan roi ffocws a materion/effeithiau diriaethol, (c) trafodaeth grŵp/rhwng cymheiriaid, gan**

**roi cyfuniad o "bwysau gan gymheiriaid" a meithrin hyder yn ogystal â bod yn "siwrnai a rennir", a (d) cyngor un i un a oedd yn benodol i fferm, yn ymarferol ac wedi'i deilwra. Ar draws y pecyn hwn, gwelodd ymgynghoreion sut y gellid clymu trafodaethau cysyniadol yn uniongyrchol i fuddiannau ymarferol posibl. Teimlwyd bod cefnogaeth ehangach, megis hyfforddiant, e-ddysgu, erthyglau Hyb Cyfnewid Gwybodaeth a deunyddiau ar-lein eraill yn ddefnyddiol mewn atgyfnerthu'r dysgu.**

- **Yn ail, mae elfennau mwy dwys Cyswllt Ffermio fel petaent wedi bod yn arbennig o effeithiol mewn sicrhau newid**, megis Academi Amaeth, Cyfnewidfa Rheolaeth, a Grŵp Trafod neu Agrisgôp neu Mentora. Er enghraifft, dywedodd ymgynghorai astudiaeth achos fod Academi Amaeth:

  *"yn gyfle gwych i gwrdd â ffermwyr eraill a rhoddodd hyn hyder i mi i wneud penderfyniadau a chyflwyno syniadau newydd ar y fferm. Roedd hi'n wych gweld pobl eraill yn tyfu ac yn gwneud newidiadau ar sail eich argymhellion chi hefyd."*

  Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod hefyd bod cyfyngiadau o ran y gallu ac ymrwymiadau teuluol yn cyfyngu ar allu nifer o ffermwyr i ymgysylltu ag agweddau mwy dwys o Cyswllt Ffermio, ac effeithiau cefnogaeth barhaus.

- **Yn drydydd, rôl hwyluso bwysig y Swyddogion Datblygu**, sy'n gweithredu fel gweithredwyr annibynnol y mae eu gwybodaeth o ffermydd a sefyllfa ffermwyr yn eu galluogi i nodi pa fath o gymorth sydd fwyaf addas a phryd; roedd yr ymgynghoreion yn bendant bod hyn wedi creu canlyniadau gwell ar draws Cyswllt Ffermio.

**Ychwanegedd a chyfraniad**

4.31 Yn ail gam yr ymchwil astudiaeth achos, gofynnwyd i'r buddiolwyr a fyddent wedi rhoi newidiadau ar waith a sicrhau manteision heb Cyswllt Ffermio. Cyflwynir y canlyniadau yn Nhabl 4.2. Er bod hyn wedi'i seilio ar sampl fechan ac wedi'i hunanadrodd, dangosodd y dystiolaeth oedd ar gael y canlynol:

- Mae ychwaneged llawn yn gryf, yn y ffaith y byddai llawer o fanteision mwy na thebyg neu'n sicr heb eu cyflawni heb Cyswllt Ffermio, gan fod buddiolwyr o'r farn nad oedd cefnogaeth debyg ar gael, neu na fyddent wedi ceisio cyngor allanol. Fel y dywedodd un ymgynghorai astudiaeth achos: *"Byddem yn dal i ffermio fel yr oedd dad yn ei wneud heb Cyswllt Ffermio. Byddem wedi gwneud rhai newidiadau, ond ni fyddai cymaint, ac ni fyddem wedi gwella'r busnes yn y*

*modd yr ydym wedi'i wneud heb Cyswllt Ffermio. Fe fyddem wedi bod flynyddoedd ar ei hôl hi".*

- Mewn nifer o achosion, fe wnaeth Cyswllt Ffermio gyflymu a chynyddu maint y newid y teimlai buddiolwyr y byddent wedi'u gwireddu yn ddiweddarach. Gwnaethant ddisgrifio sut yr oedd y gefnogaeth yn rhoi ffocws, symbyliad (e.e. "gan fod y bobl mor frwdfrydig a llawn ysgogiad"), yr hyder a'r sgiliau i wneud newidiadau'n gyflymach, a theilwra cyngor sy'n berthnasol i bob fferm (yn hytrach na ffermwyr yn ceisio cyngor cyffredinol a gorfod penderfynu a yw'n berthnasol). Roedd trafodaethau wedi'u hwyluso a dulliau dysgu gweithredol yn hollbwysig mewn cynnal momentwm. Dywedodd buddiolwr arall y gallent fod wedi dysgu o'u camgymeriadau eu hunain heb Cyswllt Ffermio, ond byddai hyn wedi bod yn ddrud ac wedi cymryd amser.
- Mae'r rhaglen hefyd wedi codi ansawdd ac effeithiolrwydd newidiadau, o gymharu â'r hyn a fyddai efallai wedi digwydd beth bynnag, sy'n bwysig o ran creu busnes hyfyw a blaengar. Er enghraifft, dywedodd un o'r cynghorwyr fod cefnogaeth Cyswllt Ffermio wedi sicrhau bod ffermwyr yn mabwysiadu'r dull mwyaf cost effeithiol i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir o fewn y busnes.
- Roedd nifer fechan o enghreifftiau o ddi-fuddiant yn yr astudiaethau achos, lle byddai ffermwyr wedi talu'n breifat am gyngor neu hyfforddiant, ond cawsant eu llywio'n ôl i Cyswllt Ffermio gan y cynghorydd/darparwr hyfforddiant er mwyn derbyn y gefnogaeth am ddim/am gyfradd gymorthdaledig. Mae hyn i'w weld yn fwyaf cyffredin pan fyddai newidiadau rheoleiddiol wedi gorfodi newid (e.e. mewn rheoli slyri a defnydd diogel ar blaladdwyr). Wedi dweud hynny, roedd rhai buddiolwyr yn dweud bod y cyllid wedi eu galluogi i fanteisio ar hyfforddiant yn gynharach, ac o ganlyniad eu bod wedi cyflwyno arferion mwy diogel ac effeithlon yn gyflymach.

4.32 Mae tystiolaeth hefyd bod ychwanegedd yn amrywio ar draws y canlyniadau, a'i fod ychydig yn uwch, ar gyfer y sampl hon, ar ganlyniadau meddal yn ymwneud â hyder, agweddau a chyfeiriad meddwl (e.e. astudiaeth achos Agrisgôp).

4.33 **Ar y cyfan, ac er gwaethaf ychydig bach o ddifuddiant, arweiniodd Cyswllt Ffermio at newidiadau cyflymach, gwell eu hansawdd a mwy cynaliadwy yn y sector; ni fyddai llawer o'r newidiadau hyn wedi digwydd fel arall, neu o leiaf ddim i'r un graddau.**

**Tabl 4.3: Ychwanegedd – i ba raddau y byddai buddiannau wedi'u gwireddu heb Cyswllt Ffermio**

| | | Newidiadau wedi'u cyflwyno ar y fferm | Buddiannau personol | Perfformiad fferm |
|---|---|---|---|---|
| Difuddiant | Byddai'r canlyniadau wedi'u cyflawni'n llawn beth bynnag (yr un cyflymder, graddfa ac ansawdd) | 8% | 6% | 8% |
| Ychwanegedd rhannol | Byddai'r un canlyniadau wedi'u cyflawni, ond dim mor gyflym | 31% | 28% | 25% |
| | Byddai'r un canlyniadau wedi'u cyflawni, ond nid ar yr un raddfa | 11% | 8% | 11% |
| | Byddai'r un canlyniadau wedi'u cyflawni, ond yn is eu hansawdd | 17% | 11% | 17% |
| Ychwanegedd llawn | Mwy na thebyg na fyddai'r un canlyniadau wedi'u cyflawni | 22% | 31% | 25% |
| | Yn sicr ni fyddai'r un canlyniadau wedi'u cyflawni | 14% | 14% | 14% |
| Dim yn gwybod | | 3% | 0% | 3% |

Ffynhonnell: Astudiaethau achos Cam 2, n=36

4.34 Fel rhan o ail gam y gwerthusiad, gwnaethom hefyd archwilio ffactorau eraill sydd wedi dylanwadu ar berfformiad busnes (o ran newidiadau mewnol eraill yn y busnes ac ysgogwyr allanol) a chyfraniad a phwysigrwydd Cyswllt Ffermio o gymharu â'r ffactorau eraill hyn.

4.35 Nododd ychydig dros un rhan o bump (8 allan o 36) o'r buddiolwyr yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer astudiaethau achos Cam 2 newidiadau eraill a ddigwyddodd o fewn y busnes ar yr un adeg neu wedi eu hymgysylltiad â Cyswllt Ffermio. Roedd y rhain yn ymwneud â (i) prynu offer arall, (ii) newidiadau i brosesau/technegau, e.e. trefniadau godro, a (iii) chaffael tir. Dim ond yn un o'r achosion hyn (caffael tir) y gwnaeth y newid arall gyfrannu mwy at wella perfformiad busnes na Cyswllt Ffermio. Yn yr holl achosion eraill, er enghraifft lle prynwyd offer newydd yn lle cyfarpar oedd wedi mynd yn hen, **dim ond cyfraniad bach iawn neu ddim cyfraniad o gwbl a nodwyd, ac ystyriwyd Cyswllt Ffermio yn brif ysgogwr y newid.**

4.36 Dim ond 11 o'r 36 buddiolwr yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer astudiaethau achos yng Ngham 2 oedd wedi derbyn cefnogaeth o rywle arall, a oedd yn cynnwys meincnodi a hyfforddiant gan gwsmeriaid (e.e. Tesco a Muller), AHDB, grantiau arallgyfeirio fferm Llywodraeth Cymru a Glastir, cyngor ymgynghoriaeth Coed Cymru, cynlluniau iechyd anifeiliaid drwy HCC, cyngor marchnata gan y Clwstwr Bwyd a Diod Cymru, a digwyddiadau a gynhaliwyd gan Gymdeithas Glaswelltir Prydain. Mae hyn yn codi'r cwestiynau'n ynglŷn ag i ba raddau y mae Cyswllt Ffermio wedi'i gysylltu i - ac yn gweithio mewn partneriaeth â - y cyd-destun cefnogaeth ehangach. Fodd bynnag, ar gyfer buddiolwyr, ail-bwysleisiodd bwysigrwydd Cyswllt Ffermio mewn sicrhau newid. Dywedodd y ddau fuddiolwr a dderbyniodd grantiau o fannau eraill **bod y grantiau yn bwysig er mwyn eu galluogi i roi ar waith yr hyn oedd wedi'i ddysgu drwy Cyswllt Ffermio**. Er enghraifft, dywedodd un bod y grant "*wedi helpu i wthio cynhyrchiant yn y cyfeiriad cywir*", a dywedodd y llall fod y grant wedi helpu'r busnes i ddilyn i fyny gyda'r syniadau a gafwyd drwy Cyswllt Ffermio, ac ysgogi ymgysylltu pellach yn y rhaglen gan fod ganddynt gyllid i fuddsoddi yn y busnes.

4.37 Nododd dros un rhan o dair (14 o 36) o'r buddiolwyr yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer yr astudiaethau achos **ffactorau allanol mawr** oedd wedi dylanwadu ar effaith Cyswllt Ffermio ar berfformiad busnes, **yn y rhan fwyaf o achosion ei gwneud hi'n fwy anodd i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd.** Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf â anwadalrwydd yn y farchnad, newid yn y gyfradd cyfnewid arian, cynnydd mewn costau, a materion yn ymwneud â TB.

### Effeithiau ehangach a goferu

4.38 Roedd rhan o'r cyfiawnhad gwreiddiol dros ymyriad Cyswllt Ffermio yn ymwneud â methiannau o ran gwybodaeth ar draws sector darniog ac amrywiol, sydd wedi'i ddominyddu gan fusnesau bach ac wedi'i leoli rhwng cyflenwyr mawr a phrynwyr, a hefyd wedi'i nodweddu gan rwydwaith cyfnewid gwybodaeth darniog. Yn y cyd-destun hwn cwestiwn pwysig ar gyfer y gwerthusiad oedd y graddau y gwnaeth y rhaglen helpu i greu/cynnal rhwydweithiau ac annog goferu gwybodaeth y tu hwnt i'r rheini sy'n uniongyrchol gysylltiedig yn y rhaglen. Credai nifer o'r staff cyflenwi a buddiolwyr bod rhannu gwybodaeth rhwng buddiolwyr a'r gymuned ffermio ehangach yn digwydd, ond cawsant drafferth i roi enghreifftiau penodol. Gwnaethom ganfod diffyg eglurder ynglŷn â'r mecanweithiau a fwriadwyd ar gyfer goferu gwybodaeth, a phwy oedd yn gyfrifol am hyn. Y Gyfnewidfa Rheolaeth oedd yr unig weithgaredd lle cafodd cyfrifoldeb am ledaenu dysgu ei nodi'n glir, gyda goferu gwybodaeth wedi'i gynllunio i'r gefnogaeth drwy rwymedigaeth a roddwyd ar y buddiolwyr. Er nad yw lledaenu gwybodaeth yn amlwg yn briodol ar gyfer pob gweithgaredd (megis Gwasanaethau Cynghori cyfrinachol neu grwpiau Agrisgôp sy'n canolbwyntio ar faterion sensitif), efallai bod rhai cyfleoedd wedi'u colli i gynnwys lledaenu gwybodaeth yn y broses pan fo buddiolwyr yn derbyn cefnogaeth ddwys (e.e. annog cyn-fyfyrwyr yr Academi Amaeth i weithredu fel "llysgenhadon" yn eu cymunedau) a/neu i hwyluso mwy o rannu gwybodaeth yn gyson ar draws staff cyflenwi (gan roi adborth i'r grwpiau y maent yn eu cefnogi).

# 5 Dysgu o fannau eraill

5.1 Mae'r adran hon yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol o adolygiad cymaryddion rhyngwladol o raglenni ffermio perthnasol. Y nod oedd canfod gwersi trosglwyddadwy ac arfer da ar gyfer Cymru, yn dilyn Brexit. Mae Atodiad E yn rhoi trosolwg o'r dull a rhagor o fanylion am y rhaglenni a adolygwyd.

**Negeseuon allweddol**

- Roedd seiliau rhesymegol a nodau'r rhaglenni cymharu yn debyg iawn i rai Cyswllt Ffermio. Yn nodweddiadol, ceisiodd y rhaglenni fynd i'r afael â mwy nag un o'r themâu cyffredinol canlynol: cynaliadwyedd amgylcheddol, elfennau cymdeithasol gan gynnwys sgiliau a chydweithredu, gwelliannau economaidd ac ysgogi ymchwil ac arloesedd.
- Yn benodol, ac yn debyg i Cyswllt Ffermio, roedd eu nodau allweddol yn cynnwys: annog ffyrdd newydd o feddwl a syniadau newydd ymhlith ffermwyr, ac felly cefnogi mwy o uchelgais, a'r gallu a galluedd ar gyfer twf; gwella hyder ffermwyr mewn mabwysiadau technegau newydd; gwella sgiliau busnes a sgiliau technegol; a darparu offer i ffermwyr werthuso eu dulliau gweithio eu hunain. Roedd defnydd amaethyddiaeth fanwl hefyd yn bwyslais allweddol, ac er bod Cyswllt Ffermio yn cefnogi mabwysiadu dulliau o'r fath, mae lle i gynyddu ymhellach ffocws y rhaglen yn y maes hwn.
- Ar draws y dystiolaeth oedd ar gael, nodwyd ystod o ganlyniadau rhaglen. Roedd y rhain yn cynnwys canlyniadau'n ymwneud â:
  - cyfnewid gwybodaeth megis codi ymwybyddiaeth, cynyddu cydweithio a gwell cydweithredu rhwng rhanddeiliaid a datblygu neu fecanweithiau a chynhyrchion trosglwyddo gwybodaeth gwell
  - gwelliant economaidd megis cynnydd mewn cynhyrchiant, ochr yn ochr â gwell sefydlogrwydd economaidd yn yr hirdymor
  - defnydd o dechnoleg ac annog gweithgareddau arloesi.
- Mae ffactorau a weithiodd yn dda ar draws y rhaglenni yn debyg i'r rheini a nodwyd ar gyfer Cyswllt Ffermio. Roedd ffactorau o'r fath yn cynnwys gweithgareddau cydweithredu a rhwydweithio, digon o gyllid i roi newid ar waith (a nodwyd fel bwlch allweddol yn y cynnig Cyswllt Ffermio), gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth (cyngor arbenigol ac wedi'i arwain gan y ffermwr), datblygu cynllun ffurfiol, a mecanweithiau cefnogi un i un.

**Trosolwg o'r rhaglenni**

5.2 **Adolygwyd chwech ar hugain o raglenni,** gan gynnwys dwy sy'n gweithredu ar draws y DU, a phump arall o Loegr, Yr Alban a Gogledd Iwerddon. Roedd y deg rhaglen o wledydd yr UE yn cynnwys pum o Iwerddon, tair o'r Iseldiroedd a dwy o Ddenmarc. Yn gynwysedig hefyd yr oedd tair rhaglen yr un o Awstralia a Chanada, dwy o Seland Newydd ac un o UDA. Roeddent yn ymdrin â gwahanol farchnadoedd targed, gweithgareddau a maint, ac fe'u cyflwynwyd drwy ystod eang o sefydliadau. Ceir crynodeb byr o'u nodweddion allweddol isod, a chynhwysir rhagor o fanylion am bob un, gan gynnwys y sefydliad arweiniol, swm a ffynhonnell y cyllido, y farchnad darged a'r prif weithgareddau, yn Atodiad E.

*Sefydliadau cyflenwi*

5.3 O'r 26 o raglenni, cyflenwyd 15 ohonynt gan y sector cyhoeddus, adrannau llywodraeth yn bennaf; cyflenwyd chwech gan bartneriaethau, tair gan sefydliadau sector preifat, un gan brifysgol ac un gan elusen.

*Cyllido*

5.4 Mae'r rhaglenni'n amrywio'n eang o ran maint gweithgarwch, ac i ba raddau y cawsant eu cyllido'n gyhoeddus. Ni wnaeth yr un o raglenni Awstralia dderbyn unrhyw arian cyhoeddus, gyda disgwyl i'r cyfranogwyr dalu cost lawn yr hyfforddiant (rhaglen Behaviour Innovation) tra bod Rhaglen Datblygu Gwledig Denmarc[31] wedi defnyddio €1,200 miliwn gan yr Undeb Ewropeaidd a chyfraniadau cenedlaethol. Roedd buddsoddiadau a rhoddion gan y sector preifat yn ffynonellau cyllid pwysig ar gyfer rhai, ynghyd â chyllido cyhoeddus a thaliadau gwasanaethu.

*Marchnad darged*

5.5 Roedd y farchnad darged ar gyfer y rhaglenni yn amrywio ar draws y sector amaethyddol, gan gynnwys ffermwyr godro, da byw, âr, cnydau a dyframaethu. Roedd rhai cynlluniau hefyd wedi'u creu i gefnogi buddiannau ffermio/gwledig eraill, gan gynnwys amaeth-fusnesau, tirfeddianwyr a chymunedau lleol.

*Sail resymegol a nodau*

5.6 Roedd y themâu yr aed i'r afael â hwy, a oedd i'w gweld yn amlwg yn sail resymegol a nodau pob rhaglen, yn cynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol, agweddau cymdeithasol gan gynnwys sgiliau a chydweithredu, gwelliannau

[31] Factsheet on 2014-2020 Rural Development Programme for Denmark

economaidd, ac ysgogi ymchwil ac arloesedd. Yn nodweddiadol, ceisiodd y rhaglenni fynd i'r afael â mwy nag un o'r themâu eang hyn.

5.7 Nodwyd yr angen i weithio **tuag at reoliadau amgylcheddol ac arferion ffermio cynaliadwy ymron hanner y rhaglenni a adolygwyd.** Aed i'r afael ag amcanion amgylcheddol drwy gefnogaeth i helpu cyfranogwyr i fodloni cyfarwyddebau dŵr a nitradau, a thrwy annog cynllunio rheoli maetholion. Roedd llawer o raglenni hefyd yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o arferion amaethyddol cynaliadwy, er enghraifft drwy reoli pori a ffrwythlondeb pridd yn well.

5.8 **Roedd dros ddwy ran o dair** o'r rhaglenni â'r nod **o annog cyfnewid gwybodaeth a datblygu, o fewn y sector amaethyddol a rhwng amaethyddiaeth ac ymchwilwyr**. Roeddent yn ceisio hyrwyddo rhannu cyngor a gwybodaeth er mwyn annog ffyrdd o feddwl a syniadau newydd ymhlith ffermwyr, ac felly meithrin uchelgais, a'r gallu a'r galluedd ar gyfer twf. Roedd llawer o'r rhaglenni yn cynnwys mecanweithiau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng arbenigwyr ymchwil ac amaethyddiaeth, i lywio cynllunio busnes ac, er enghraifft, datblygu cynllun rheoli maetholion.

5.9 Un ffocws pwysig oedd gwella llif gwybodaeth drwy gyfnewid gwybodaeth a chydweithio rhwng ffermwyr, ffermwyr a busnesau, ffermwyr ac ymchwilwyr, a ffermwyr a chymunedau lleol. Roedd disgwyl i lif gwybodaeth dwyffordd ddod â buddiannau i'r ddwy ochr, o ran gwell dealltwriaeth, a'r gallu i nodi materion a datrysiadau posibl yn fwy effeithiol. Roedd disgwyl i ymwybyddiaeth o safbwyntiau a dulliau pobl eraill wella hyder ffermwyr mewn mabwysiadu technegau newydd, tra'n ehangu a dwysau eu rhwydweithiau o gysylltiadau a gwella ymwybyddiaeth o ffynonellau eraill o gyngor. Roedd gwella sgiliau busnes a thechnegol yn arbennig o berthnasol i fentrau a oedd yn targedu ffermydd teuluol. Nod rhaglenni o'r fath oedd darparu ffermydd â'r offer i werthuso eu gwaith eu hunain, ac felly annog cynaliadwyedd tymor hwy.

5.10 **Roedd bron i un rhan o dair o'r rhaglenni wedi nodi gwelliannau economaidd fel y brif sail resymegol.** Mynegwyd hyn drwy gynnydd mewn cynhyrchiant, mwy o elw a chostau is. Disgwyliwyd i hyfywedd economaidd gynyddu gallu ar gyfer, a diddordeb mewn, buddsoddiad amgylcheddol, a fyddai yn ei dro yn gwella cynaliadwyedd hirdymor.

5.11 **Nod dros draean o'r rhaglenni oedd ceisio hyrwyddo defnydd ar dechnoleg ac annog arloesedd yn y sector amaethyddol:** roedd nodi'r cwmpas ar gyfer, ac yna cymhwyso, 'amaethyddiaeth fanwl' i wella cynhyrchiant yn thema allweddol. Roedd hyn yn cynnwys ystod o ddulliau i godi ymwybyddiaeth o'i fanteision o fewn y sector amaethyddol.

*Marchnata a hyrwyddo rhaglenni*

5.12 Roedd nodweddion allweddol marchnata a hyrwyddo rhaglenni fel a ganlyn.

- Y **dechneg farchnata a ddefnyddiwyd yn fwyaf cyffredin oedd gwefannau ar-lein**, lle byddai rhaglenni'n rhoi deunydd a gwybodaeth hyrwyddo i annog rhanddeiliaid i gymryd rhan. Defnyddiwyd gwefannau hefyd i ddarparu astudiaethau achos prosiectau blaenorol, newyddion diweddaraf, meini prawf cymhwyster, a chanllawiau a chefnogaeth yn ymwneud â'r broses gais.
- Roedd **cyfryngau cymdeithasol ar-lein a datganiadau i'r wasg** hefyd yn dechneg farchnata ddefnyddiol a ddefnyddiwyd i hyrwyddo rhaglenni a'r gefnogaeth benodol a gynigiwyd.
- Roedd technegau marchnata eraill yn cynnwys hyrwyddo mynediad drwy gyrsiau Prifysgol (Dairy Campus) a rhwydweithiau cefnogaeth amaethyddol (Tried and Tested).
- Mae nifer o raglenni, gan gynnwys Circular Agriculture yn yr Iseldiroedd a'r Rhaglenni Agricultural Chatchments yn Iwerddon, yn cael eu hyrwyddo drwy ddeddfwriaeth a chyfarwyddebau Llywodraeth sy'n caniatáu iddynt ymgysylltu â ffermydd a busnesau perthnasol yn y maes a ddiffiniwyd gan y rhaglen.

**Canlyniadau**

5.13 Ar draws y rhaglenni, tystiolaeth gyfyngedig yn unig oedd ar gael ar gyfer perfformiad a chanlyniadau, drwy astudiaethau achos, gwerthusiadau a chanlyniadau disgwyliedig penodol i raglenni. Dim ond yn ddiweddar y dechreuodd rhai rhaglenni weithredu, a hyd yma nid oes llawer o adroddiadau gwerthuso ac asesiadau cynnydd. Yn yr adran hon rydym yn crynhoi'r dystiolaeth gyfyngedig sydd ar gael am berfformiad, canfyddiadau allweddol, ac enghreifftiau o brif ganlyniadau ac effeithiau'r rhaglenni. Trefnir y rhain o dan y themâu eang a nodwyd yn gynharach yn yr adran sail resymegol a nodau.

5.14 Mae Tabl 5.1 yn amlinellu cwmpas y dystiolaeth am ganlyniadau sydd ar gael ar gyfer y 19 rhaglen a adolygwyd, gan gynnwys rhai lle'r oedd ond canlyniadau disgwyliedig ar gael.

**Tabl 5.1: Crynodeb o'r dystiolaeth sydd ar gael parthed canlyniadau ac effeithiau rhaglenni**

| Rhaglen | Tystiolaeth sydd ar gael |
|---|---|
| Circular Agriculture | Astudiaeth achos |
| Use of Agritech | Canlyniadau disgwyliedig |
| Precision agriculture | Astudiaethau achos |
| Farming Together (Rhaglen Beilot Ffermydd Cydweithredol a Chydweithrediadau) | Astudiaeth achos |
| Rural Research and Development for Profit | Gwerthusiad (ar ganol rhaglen) |
| Rhaglen Monitor Farm | Astudiaethau achos |
| Rhaglen Agriculture Clean Technology | Canlyniadau disgwyliedig |
| AgriInnovate | Canlyniadau disgwyliedig |
| Rhaglen AgriScience | Canlyniadau disgwyliedig |
| Prosiectau Sustainable Farming Fund | Gwerthusiad |
| Rhaglen Gefnogi a Chynghori Cynaliadwyedd Amaethyddol | Gwerthusiad a chanfyddiadau cyntaf |
| Rhaglen BETTER Farm Crops | Gwerthusiad |
| Multi Actor Farm Health Plans (DISARM) | Canlyniadau disgwyliedig |
| Options for Farm Families | Canlyniadau disgwyliedig |
| Agricultural Catchment | Gwerthusiad |
| Food Valley | Gwerthusiad |
| Tried and Tested | Astudiaethau achos |
| Water and Integrated Local Delivery (WILD) | Gwerthusiad |
| Prosiect Catchment Sensitive Farming | Gwerthusiad |

Ffynhonnell: SQW

*Effaith amgylcheddol a chynaliadwyedd*

5.15 O'r 19 o raglenni lle'r oedd rhywfaint o dystiolaeth o ganlyniadau ar gael, roedd **ychydig dros draean** wedi cynnwys canlyniadau'n ymwneud â thema **gwelliant amgylcheddol a chynaliadwyedd.**

5.16 Roedd canlyniadau a adroddwyd ar gyfer nifer o brosiectau yn ymwneud â gwelliannau mewn rheoli maetholion a manteision amgylcheddol cysylltiedig megis gwell ansawdd dŵr. Er enghraifft, rhoddodd adroddiad Cam 2 rhaglen Agricultural Catchment (ACP) yn Iwerddon grynodeb o'r cam o'r rhaglen a gynhaliwyd rhwng mis Ionawr 2012 a mis Rhagfyr 2015[32]. Amlinellodd yr adroddiad ganfyddiadau allweddol a goblygiadau sy'n deillio o ACP, gan gynnwys patrymau lleihad mewn ffosfforws mewn pedwar o'r pum dalgylch a astudiwyd[33]. Yn yr un modd, dywedodd gwerthusiad o'r prosiect Catchment Sensitive Farming (CSF) fod gwelliannau ansawdd dŵr i'w gweld yn y data monitro, gyda lleihad gan 34% mewn crynodiadau plaladdwyr sy'n uwch na 0.1µg/l ar draws y dalgylchoedd gafodd eu monitro[34]. Prosiect arall a adroddodd ar ganlyniadau amgylcheddol cadarnhaol oedd y prosiect Circular Agriculture, gydag enghraifft astudiaeth achos o sector godro'r Iseldiroedd[35]. Canfu hyn bod ymyriad y rhaglen wedi arwain at leihad yn y galw am borthiant anifeiliaid a gwrteithiau, a oedd yn ei dro wedi cyfyngu ar effeithiau andwyol ar ansawdd dŵr ac aer, a chaniatáu ar gyfer yr ansawdd pridd gorau posibl[36].

5.17 Canlyniad arall a gysylltwyd i welliant amgylcheddol o'r rhaglenni a adolygwyd oedd buddiannau cyfalaf naturiol cysylltiedig. Amlygodd werthusiad y prosiect Catchment Sensitive Farming ganlyniadau a oedd yn cynnwys buddiannau cyfalaf naturiol megis gwell bioamrywiaeth, darpariaeth cynhyrchion a deunydd anifeiliaid, gwell rheolaeth ar erydiad, risg is o lifogydd, rheoli pla yn naturiol a pheilliad pryfed buddiol[37].

---

[32] Agricultural Catchments Programme Phase 2 Report
[33] Agricultural Catchments Programme Phase 2 Report
[34] Catchment Sensitive Farming Evaluation Report – Water Quality Phases 1 to 4
Evaluating system development options in circular economies for the milk sector – development options for production systems in The Netherlands and Hungary
[36] Evaluating system development options in circular economies for the milk sector – development options for production systems in The Netherlands and Hungary
[37] Catchment Sensitive Farming Evaluation Report – Water Quality Phases 1 to 4

5.18 Mae'r canlyniadau disgwyliedig o'r rhaglen Agriculture Clean Technology yng Nghanada yn ymwneud â chynnydd buddsoddiad mewn technoleg amaethyddol glân, a'r canlyniad hirdymor a ragwelir yw gwell perfformiad amaethyddol y sector[38]. Yn yr un modd, mae gan y prosiect Sustainable Farming yn Seland Newydd ganlyniadau disgwyliedig sy'n cynnwys newidiadau ymddygiadol ymhlith cyfranogwyr, y disgwylir iddynt wedyn arwain at fuddiannau amgylcheddol cadarnhaol, megis cynnwys arferion amgylcheddol gynaliadwy[39].

*Cyfnewid gwybodaeth*

5.19 O blith y 19 o raglenni lle'r oedd rhywfaint o dystiolaeth ar gael, ar gyfer 14 ohonynt **roedd hyn wedi'i gysylltu i gyfnewid gwybodaeth a datblygu.**

5.20 Adroddodd nifer o brosiectau ganlyniadau'n ymwneud â chodi ymwybyddiaeth ymhlith cyfranogwyr. Roedd hyn wedi'i gysylltu â gweithgareddau megis cyfarfodydd cymunedol, cefnogaeth un i un a chyhoeddi papurau a adolygwyd gan gymheiriaid a deunyddiau cyfathrebu eraill. Er enghraifft, dywedodd adroddiad Cam 1 ar gyfer rhaglen Water and Integrated Local Delivery (WILD) mai un canlyniad i'r rhaglen oedd mwy o ymwybyddiaeth ymhlith cymunedau ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau perchnogion glan afonydd yn gweithio tuag at y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr[40]. Yn yr un modd, o ganlyniad dywedodd papur ar gyfer rhaglen BETTER Farm Crops yn Iwerddon bod, rhwng 2010 a 2013, dros 2,000 o ymwelwyr (ffermwyr, agronomegwyr, myfyrwyr, personél masnach) naill ai wedi mynychu digwyddiadau ar ffermydd BETTER, neu wedi derbyn gwybodaeth am y rhaglen yn uniongyrchol, a'r canlyniad oedd lledaenu canfyddiadau[41].

5.21 Canlyniad arall yn ymwneud â chyfnewid gwybodaeth a datblygu oedd mwy o gydweithio a chydweithredu rhwng rhanddeiliaid. Er enghraifft, dywedodd gwerthusiad rhaglen prosiectau Sustainable Farming Fund fod 'perthynas well' yn un o ganlyniadau'r rhaglen[42]. Yn yr un modd, mae canlyniadau disgwyliedig Use of Agritech yn cynnwys cynnydd yn nifer y cysylltiadau rhyngwladol a chydweithrediadau ymhlith rhanddeiliaid[43].

---

[38] Agricultural Clean Technology Programme: Applicant Guide
[39] Sustainable Farming Fund Projects
[40] Overview of the Water and Integrated Local Delivery (WILD) project
[41] Better Farm Crops Programme Report 2010-2012/3
[42] Sustainable Farming Fund Projects
[43] Agritech in New Zealand Towards an Industry Transformation Plan

5.22 Y canlyniad terfynol cysylltiedig â chyfnewid gwybodaeth a datblygu oedd gwell mecanweithiau a chynhyrchion cyfnewid gwybodaeth neu ddatblygiad yn hyn o beth. Nod rhaglen AgriScience Canada yw cefnogi gwyddoniaeth gymwysedig, ymchwil a/neu weithgareddau datblygu wedi'u targedu i hyrwyddo datblygiad cynhyrchion newydd ar gyfer eu defnyddio yn y sector amaethyddol[44]. Mae canlyniadau disgwyliedig yn cynnwys: datblygiad cynhyrchion cyfnewid gwybodaeth newydd; trefnu hyfforddiant/ digwyddiadau trosglwyddo gwybodaeth; cynnydd mewn hyfforddiant neu ddigwyddiadau trosglwyddo gwybodaeth; ac arddangos technolegau newydd ar ffermydd neu mewn gweithfeydd[45].

*Gwelliant economaidd*

5.23 Allan o'r 19 o raglenni lle'r oedd tystiolaeth o ganlyniadau ar gael, roedd naw **yn cynnwys canlyniadau oedd yn ymwneud â thema gwelliant economaidd.**

5.24 Roedd enghreifftiau o'r canlyniadau hyn yn cynnwys y canlynol.

- Targedodd y rhaglen BETTER Farm Crops gynnnydd mewn elw, gyda'r ffermydd BETTER yn rhoi lefel elw 65% yn uwch na ffermydd cyfatebol ar gyfartaledd[46]. Canlyniad economaidd arall a nodwyd oedd lleihad mewn costau oherwydd llai o alw am fewnbynnau megis porthiant a gwrteithiau.
- Adroddodd gwerthusiad o'r rhaglen Circular Agriculture, gyda'r enghraifft astudiaeth achos benodol sector llaeth yr Iseldiroedd[47], am leihad yn y galw am borthiant anifeiliaid a gwrteithiau; canlyniad sydd â manteision amgylcheddol, ac mae hyn hefyd yn lleihau costau i ffermwyr.
- Amlinellodd astudiaeth achos o'r rhaglen Tried and Tested fanteision cynllunio rheoli maetholion yn Wigmore, Swydd Henffordd[48]. Mae'r canlyniadau a adroddwyd yn cynnwys arbedion cost a fesurwyd dros gyfnod o dair blynedd[49].

5.25 Canlyniad economaidd arall oedd cynnydd mewn cynhyrchiant wedi'i gysylltu i fwy o sefydlogrwydd economaidd dros amser. Er enghraifft, nododd y rhaglen Use of Agritech ganlyniadau disgwyliedig megis twf mesuradwy mewn cynhyrchiant a

[44] AgriScience Program – Projects: Applicant Guide
[45] AgriScience Program – Projects: Applicant Guide
[46] Better Farm Crops Programme Report 2010-2012/3
[47] Evaluating system development options in circular economies for the milk sector – development options for production systems in The Netherlands and Hungary
[48] Nutrient Management Case Studies
[49] Nutrient Management Case Studies

swyddi, yn arbennig swyddi gwerth uchel[50]. Nododd y rhaglen hefyd ganlyniadau o gynnydd buddsoddiad yn y sector, ochr yn ochr â gwell sefydlogrwydd economaidd yn y sector amaethyddiaeth cynradd drwy ddefnyddio modelau busnes cynaliadwy a defnydd effeithiol ar dir[51].

*Technoleg ac arloesi*

5.26 **Ar gyfer pum o'r rhaglenni, roedd tystiolaeth wedi'i chysylltu i thema defnydd technoleg ac annog gweithgareddau arloesi.** Er enghraifft, canfu gwerthusiad y Sustainable Farming Fund (SFF)[52] dystiolaeth bod prosiectau a ariannwyd gan SFF wedi cyfrannu at ddatblygiad technolegau newydd a'u mabwysiadu. Roedd prosiectau SFF llwyddiannus wedi rhoi'r cyfle i ffermwyr ddatblygu datrysiadau newydd gyda gwyddonwyr a'r diwydiant, a rhoesant gyfleoedd ar gyfer mabwysiadu technoleg, ochr yn ochr â threialu a gwreiddio arfer gwell mewn cymunedau[53].

5.27 Roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth oedd yn ymwneud â defnydd technoleg a gweithgareddau arloesi yn canolbwyntio ar ganlyniadau disgwyliedig. Fodd bynnag, mae'r rhain yn aml yn gyffredinol, ond gall y dystiolaeth roi peth mewnwelediad gwerthfawr. Er enghraifft, mae canlyniadau disgwyliedig Agriculture Clean Technology Canada yn cynnwys datblygiad cynyddol, arddangos, masnachu a mabwysiadu technolegau glân ym maes amaethyddiaeth[54]. Yn yr un modd, roedd y rhaglen AgriScience yn disgwyl canlyniadau megis defnydd technolegau newydd gan gynnwys cynhyrchion, arferion, prosesau a systemau[55]. Roedd canlyniadau bwriedig rhaglen AgriInnovate yn cynnwys cynnydd mewn creu a masnacheiddiad deunyddiau arloesol yn y sector amaethyddiaeth a bwyd-amaeth[56].

**Gwersi allweddol**

5.28 Roedd tystiolaeth ynglŷn â'r hyn a weithiodd yn dda ac na weithiodd cystal o ran cyflenwi hefyd yn gyfyngedig ar draws y rhaglenni a adolygwyd. Unwaith eto, gellir priodoli hyn i weithrediad diweddar nifer o'r rhaglenni, a diffyg hyd yma adroddiadau gwerthuso neu gynnydd wedi'u cyhoeddi. Ceir crynodeb o'r wybodaeth sydd ar gael

[50] Agritech in New Zealand Towards an Industry Transformation Plan
[51] Agritech in New Zealand Towards an Industry Transformation Plan
[52] Sustainable Farming Fund Evaluation
[53] Sustainable Farming Fund Evaluation
[54] Agricultural Clean Technology Program: Applicant Guide
[55] AgriScience Program – Projects: Applicant Guide
[56] AgriInnovate Programme: Applicant Guide

ar wersi allweddol ar draws pedair rhaglen ar ddeg isod. Mae rhan olaf yr adran hon yn rhestru rhai ffactorau ehangach sydd wedi galluogi neu lesteirio cynnydd rhaglenni.

*Beth weithiodd yn dda a pham?*

5.29 **Nodwyd nifer o ffactorau a oedd wedi gweithio'n dda, gan gynnwys: gweithgareddau cydweithredu a rhwydweithio, cyllido, gweithgareddau cyfnewid gwybodaeth (cyngor arbenigol ac wedi'i arwain gan y ffermwr), datblygiad cynllun ffurfiol, a mecanweithiau cefnogaeth un i un. Trafodir pob thema yn ei thro isod.**

5.30 Roedd gweithgareddau a oedd yn **annog a hwyluso cydweithredu a rhwydweithio yn ffactorau llwyddiant allweddol** mewn nifer o brosiectau. Er enghraifft, dangosodd Rhaglen Beilot Farm Co-operatives and Collaboration, yn benodol cwmni cydweithredol BraidGarlic, bod anogaeth i gydweithredu rhwng ffermwyr (o fewn cwmni cydweithredol yn yr achos hwn) wedi gwella trefniadaeth a chynnydd, gan alluogi datblygiad fframwaith ansawdd ar gyfer ffermio garlleg[57]. Yn yr un modd, nododd werthusiad y prosiect Water and Integrated Delivery (WILD) fod partneriaid yn pwysleisio pwysigrwydd elfennau cymdeithasol y prosiect, megis datblygu rhwydweithiau lleol a chyfrifoldeb ac atebolrwydd, mewn gwella cydgysylltiad amcanion ar draws maes y prosiect a chynnal gweithgarwch dros yr hirdymor[58]. Yn benodol, ysgogodd ddarpariaeth pwyntiau cyswllt, megis Farmer Guardian Network, atebolrwydd yn y prosiect[59]. Roedd prosiectau eraill lle nodwyd bod cydweithio a rhwydweithio yn bwysig y cynnwys: i) Food Valley, lle rhodiodd y swyddogaeth trefn rwydweithio gyfleoedd i ffermwyr feithrin cysylltiadau gwerthfawr iawn a datblygu partneriaethau[60]; a'r ii) prosiect Catchment Sensitive Farming, lle'r oedd rhyngweithio rhwng grwpiau cymheiriaid yn galluogi ffermwyr i feithrin hyder a datblygu sgiliau, a sefydlu dulliau ffermio sensitif i ddalgylch fel 'norm' ymhlith cyfranogwyr[61].

5.31 Gwers bwysig arall yw **pwysigrwydd mecanweithiau cyllido** (er enghraifft, cyllid cyd-fuddsoddiad) er mwyn annog ymglymiad mewn rhai gweithgareddau. Er

---

57 Garlic co-op's home-grown QA guide
58 Overview of the Water and Integrated Local Delivery (WILD) project
59 Water and Integrated Local Delivery
60 Member Company Evaluation of the Effectiveness of Food Valley as a Cluster Organization
61 Catchment Sensitive Farming Evaluation Report – Water Quality Phases 1 to 4

enghraifft, mae elfen prosiectau Farmer Group Projects Together (Rhaglen Beilot Ffermydd Cydweithredol a Chydweithrediadau), yn darparu cyllido cystadleuol ar gyfer grwpiau ffermwyr cymwys fel y gallant roi trefniadau busnes cydweithredol ar waith[62]. Derbyniodd gwmni cydweithredol BraidGarlic $60,000 ar gyfer ei brosiect[63]. Yn yr un modd, adroddodd gwerthusiad o brosiect Catchment Sensitive Farming na fyddai'r rhan fwyaf o ffermwyr wedi gweithredu'r newidiadau heb gyllid grant[64].

5.32 **Roedd cyfnewid gwybodaeth yn ganolog i lawer o'r prosiectau a adolygwyd, a nodwyd nifer o elfennau a weithiodd yn dda**. Nodwyd darpariaeth cyngor arbenigol gan Brosiect Sustainable Farming Fund fel elfen bwysig mewn rhoi'r cyfle i unigolion **weithio gydag arbenigwyr i gael gwybodaeth wyddonol werthfawr**[65]. Yn yr un modd, yn rhaglen Tried and Tested, roedd mynediad at gyngor arbenigol wedi bod yn werthfawr mewn caniatáu i ffermwyr ganfod lle gellid gwneud gwelliannau ac arbedion o ran cost, ac yna datblygu Cynlluniau Rheoli Maetholion[66].

5.33 **Nodwyd hefyd bod cyfnewid gwybodaeth drwy rannu rhwng ffermwyr yn elfen lwyddiannus**. Er enghraifft, nododd y Prosiect Ffermio Cynaliadwy New Entry bod y fformatau hyfforddiant mwyaf buddiol yn cynnwys y rheini a arweiniwyd gan ffermwyr, a oedd yn cynnwys ffermwr yn cyflwyno neu a gynhaliwyd ar fferm[67]. Nododd y rhaglen BETTER Farm Crops bod yr unigolion a fynychodd ddigwyddiadau ar y fferm yna defnyddio'r canfyddiadau yn cynnwys ffermwyr lleol a rhai mewn ardal fwy eang[68]. Ysbrydolodd y cyfarfodydd Monitor Farm destun astudiaeth achos Lochaber Farm i ddod yn ffermydd fonitor[69]. Fe wnaeth y rhaglen Monitor Farm Focus on Profit yn Iwerddon hefyd dynnu sylw at bwysigrwydd cyfnewid gwybodaeth, gyda gweithgareddau megis cynnal digwyddiadau ar ffermydd monitor a rhannu negeseuon mewn cylchlythyrau a chyhoeddiadau yn cael eu nodi fel rhai allweddol i estyniad llwyddiannus rhaglenni fferm monitor unigol[70].

---

62 Farm Co-operatives and Collaboration Pilot Program
63 Garlic co-op's home-grown QA guide
64 Catchment Sensitive Farming Evaluation Report – Water Quality Phases 1 to 4
65 Sustainable Farming Fund Evaluation
66 Nutrient Management Case Studies
67 Program Evaluation
68 Better Farm Crops Programme Report 2010-2012/3
69 Lochaber Monitor Farm Focuses on Alternative Cattle Wintering Options
70 Monitor Farms – Teagasc/Kerry Agribusiness Monitor Farms 2016-2019

5.34 Ffactor arall a weithiodd yn dda oedd **datblygiad cynllun gan fusnesau/ffermydd unigol drwy'r prosiect.** Er enghraifft, soniodd y rhaglen Monitor Farms Focus on Profit bwysigrwydd datblygu cynllun wedi'i baratoi'n dda[71]. Yn yr un modd, canfu'r rhaglen Agricultural Catchment bod defnydd o un cynllun arbrofol cyffredin ar draws ddalgylchoedd y prosiect yn effeithiol[72]. Yn gysylltiedig â hyn, nododd y rhaglen Rural Research and Development for Profit bwysigrwydd **dewis personél a maes ymchwil ar gyfer y prosiect.** Roedd dau alluogwr allweddol cydweithrediadau effeithiol yn ymwneud â dewis a chynllunio: i) dewis y prosiect ymchwil 'cywir', lle gall canlyniadau'r prosiect ymchwil fod o fudd i'r holl randdeiliaid[73]; ii) dewis y rheolwr prosiect neu gydlynydd 'cywir', cyfathrebwr ac arweinydd/trefnydd da sy'n canolbwyntio ar ymgysylltiad cyfranogwyr a datblygiad prosiect, ac felly'n creu gwell canlyniadau[74].

5.35 Yn olaf, fe wnaeth **cefnogaeth un i un a Gwasanaethau Cynghori** hefyd weithio'n dda mewn nifer o brosiectau. Er enghraifft, nododd prosiect Catchment Sensitive Farming mai cynnal cyngor un i un yw'r mwyaf buddiol mewn meithrin a datblygu ymddiriedaeth a hyder[75].

*Beth sydd heb weithio cystal, a pham?*

5.36 **Gellir hefyd nodi nifer o ffactorau sydd heb weithio cystal yn y rhaglenni a adolygwyd, gan gynnwys: trosglwyddo technoleg; yr angen am gefnogaeth bellach; costau cysylltiedig â rhaglen; a manylion yn ymwneud â chymhwyso rhai gwelliannau.**

5.37 Nododd y prosiect Sustainable Farming Fund (SFF) fod **trosglwyddo technoleg i'r prosiectau unigol heb weithio cystal ag y gallai;** yn nodweddiadol roedd arbenigedd wedi aros mewn sectorau a rhanbarthau penodol a lledaenu dysgu yn gymharol gyfyngedig.[76] Fe wnaeth gwerthusiad y prosiect SFF hefyd nodi tanfuddsoddiad amlwg yn y cynghorwyr oedd yn rhan mewn cyflwyno'r prosiect[77]. Yn yr un modd, nododd y rhaglen Agricultural Catchment angen am gefnogaeth cynghori ychwanegol er mwyn galluogi gwell penderfyniadau i gael eu gwneud

[71] Monitor Farms – Teagasc/Kerry Agribusiness Monitor Farms 2016-2019
[72] Agricultural Catchments Programme Phase 2 Report
[73] Evaluation of the Rural Research and Development (R&D) for Profit Program
[74] Evaluation of the Rural Research and Development (R&D) for Profit Program
[75] Catchment Sensitive Farming Evaluation Report – Water Quality Phases 1 to 4
[76] Sustainable Farming Fund Evaluation
[77] Sustainable Farming Fund Evaluation

ynglŷn â lleoliad ac amseriad defnydd maetholion[78]. Nododd y rhaglen hefyd er bod y Cynllun Rheoli Maetholion Ar-lein newydd a grëwyd ar gyfer y rhaglen yn llwyddiannus, ar ei ben ei hun ni fyddai hyn yn diwallu anghenion ffermwr, ac y byddai angen cefnogaeth cynghori pellach[79].

5.38 **Nodwyd ffactor arall yn ymwneud â'r mathau penodol o welliannau a roddwyd ar waith ym mhrosiect Catchment Sensitive Farming**. Canfu gwerthusiad y prosiect hwn fod mesurau'n ymwneud ag amseriad defnydd gwrtaith, tail/dom a phlaladdwyr wedi'u defnyddio'n fwy na newidiadau mewn seilwaith ffermydd a defnydd tir[80]. Daethpwyd i'r casgliad bod angen amser ar y math yma o raglen i ymgysylltu â meithrin perthynas â ffermwyr, ac felly sicrhau defnydd sylweddol o fesurau lliniaru llygredd ar ffermydd[81]. Nododd gwerthusiad o Brosiect Ffermio Cynaliadwy New Entry bod heriau i ffermwyr yn cynnwys nifer cyfyngedig o sgiliau ôl-gyneafu a sgiliau entrepreneuraidd[82].

5.39 Yn olaf, **nodwyd costau cysylltiedig â gwelliannau fel rhwystr posibl i weithrediad**. Er enghraifft, nododd adroddiad Statistics Denmark ar y rhaglen Precision Agriculture bod ffermydd mawr yn aml yn gweld y costau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth fanwl fel rhwystr allweddol i'w ddefnydd[83]. Yn yr un modd, nododd y rhaglen Rural Research and Development for Profit y costau sylweddol, yn economaidd ac mewn cyfraniadau o fath arall megis amser ac adnoddau, a oedd yn gysylltiedig â gwneud gwelliannau[84].

*A oes unrhyw ffactorau ehangach sydd wedi galluogi cynnydd rhaglen?*

5.40 Rhoddodd nifer o raglenni fewnwelediad i'r ffactorau ehangach sydd wedi galluogi cynnydd o fewn rhaglen. Mae'r adran hon yn amlinellu'r ffactorau allweddol a nodwyd, gan ddefnyddio enghraifft ar gyfer pob un.

5.41 Yn gyntaf, **roedd cyflymu gweithrediad drwy leihau risgiau ariannol a risgiau busnes ehangach yn alluogwr allweddol**. Er enghraifft, noddodd y rhaglen Precision Agriculture bod defnydd contractwyr mewn rhoi arferion technoleg fanwl ar waith yn rhoi llwybr byr pwysig ar gyfer ffermydd bach. Hefyd, nododd adroddiad

---

[78] Agricultural Catchments Programme Phase 2 Report
[79] Agricultural Catchments Programme Phase 2 Report
[80] Catchment Sensitive Farming Evaluation Report – Water Quality Phases 1 to 4
[81] Catchment Sensitive Farming Evaluation Report – Water Quality Phases 1 to 4
[82] Program Evaluation
[83] Advanced technology conquers the Danish fields
[84] Evaluation of the Rural Research and Development (R&D) for Profit Program

pellach gan Statistics Denmark fod dros hanner (53%) ffermydd a oedd yn defnyddio technoleg fanwl, mai contractwyr amaethyddol sy'n berchen ar yr offer [85].

5.42 Yn ail, **mae ystod o sgiliau yn berthnasol ochr yn ochr â gwybodaeth arbenigol penodol i'r diwydiant mewn galluogi llwyddiant rhaglen**. Nododd y rhaglen Rural Research and Development fanteision partneriaethau gyda sefydliadau eraill sydd â sgiliau a safbwyntiau gwahanol[86]. Mae ffactorau sy'n cynnwys datblygu perthynas gref a meithrin partneriaethau drwy weithgareddau cydweithredu a rhwydweithiau'n dylanwadu'n sylweddol ar gynnydd rhaglen. Nododd y rhaglen Sustainable Farming Fund bwysigrwydd meithrin a defnyddio partneriaethau mewn datblygu ymddiriedaeth a deall blaenoriaethau'r diwydiant er mwyn hysbysu blaenoriaethau strategol, gan wella cynnydd prosiect[87]. Fe wnaeth y rhaglen Agricultural Catchment hefyd dynnu sylw at bwysigrwydd partneriaethau llwyddiannus ar gyfer cynnydd rhaglen, gan gydnabod bod cyfranogiad gweithredol mewn partneriaethau rhaglen wedi sicrhau llwyddiant y rhaglen[88].

5.43 Yn olaf, nodwyd bod **sicrhau bod rhaglen neu brosiect cydweithredol yn cael ei gyflenwi gan reolwr prosiect/cydlynydd effeithiol** yn ffactor llwyddiant allweddol. Yn wir, amlygodd adroddiad terfynol rhaglen Rural Research and Development for Profit bwysigrwydd cael y rheolwr prosiect 'cywir' er mwyn sicrhau llwyddiant neu beidio prosiectau cydweithredol. Roedd priodweddau allweddol yn cynnwys unigolion trefnus a theg sydd â sgiliau cyfathrebu ar arweinyddiaeth cryf[89].

*A oes unrhyw ffactorau ehangach sydd wedi llesteirio cynnydd rhaglen?*

5.44 Mae mewnwelediadau i'r ffactorau ehangach yn ôl pob golwg wedi llesteirio cynnydd rhaglen yn cynnwys y materion ac enghreifftiau penodol canlynol.

5.45 Nododd y rhaglen Rural Research and Development for Profit fod cystadleuaeth yn ffactor niweidiol bosibl yn yr amgylchedd ehangach. Awgrymodd rhai rhanddeiliaid wrth y gwerthuswyr fod cydweithrediad rhwng ffermwyr wedi'i gyfyngu gan rhai yn dal gwybodaeth yn ei hôl er mwyn cadw mantais gystadleuol[90]. Er bod hyn ac ymyriadau eraill yn ceisio annog cydweithredu agored traws-sector a/neu traws-ffermydd, gallai tensiynau ddod i'r amlwg pan deimlir nad yw unigolion yn cyfrannu,

[85] Advanced technology conquers the Danish fields
[86] Evaluation of the Rural Research and Development (R&D) for Profit Program
[87] Sustainable Farming Fund Evaluation
[88] Agricultural Catchments Programme Phase 2 Report
[89] Evaluation of the Rural Research and Development (R&D) for Profit Program
[90] Evaluation of the Rural Research and Development (R&D) for Profit Program

a lle mae busnesau'n teimlo'r angen i gynnal eu mantais gystadleuol i fod yn llwyddiannus.

5.46 Nododd y rhaglen BETTER Farm Crops hefyd nifer o gyfyngiadau ehangach y gallai gael eu gweld fel rhai sy'n lliniaru cynnydd, gan gynnwys mynediad at dir, risgiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chyflwyniad ungnwd, a'r mater o olyniaeth ffermydd[91]. Gallai pob un o'r rhain lesteirio'n sylweddol gynnydd rhaglen a gallent fod yn berthnasol neu'n gyffredin i brosiectau eraill.

5.47 Yn olaf, canfu'r rhaglen Water and Integrated Local Delivery (WILD) bod yr heriau cychwynnol ar gyfer darparu rhaglen yn ymwneud â chyllido a blaenoriaethu gweithiau amaeth-amgylcheddol. Cafodd mater blaenoriaethu ei ddatrys i raddau helaeth yn ystod camau olaf darpariaeth y rhaglen. Fodd bynnag, nodwyd bod chwilio am gyllid ar gyfer prosiectau oedd ag amcanion niferus yn her benodol.

**Myfyrio**

5.48 Mae gan raglenni cymharol mewn mannau eraill nifer o nodweddion tebyg i Cyswllt Ffermio, o ran ffurf ac effaith. Gellir categoreiddio dysgu posibl gan y rhain o dan dair prif thema, a drafodir yn eu tro isod.

5.49 Yn gyntaf, ar y cyfan, **roedd seiliau rhesymeg a nodau'r rhaglenni cymharol yn cyd-fynd yn agos â rhai Cyswllt Ffermio**, o ran eu bod y cwmpasu themâu eang yn ymwneud â chynaliadwyedd amgylcheddol, sgiliau a chydweithredu, gwelliannau economaidd ac ymchwil ac arloesi. Y nod a nodwyd fel yr ail fwyaf cyffredin oedd cefnogi gwelliant amgylcheddol a chynaliadwyedd. Er bod gwell perfformiad amgylcheddol yn nod trawstorrol allweddol ar gyfer Cyswllt Ffermio, ac yn un sydd i'w weld mewn nifer o rannau o'r rhaglen, **efallai bod lle i ail-fframio'r cynnig presennol a sicrhau dull mwy cyfannol ar gyfer gwelliannau amgylcheddol sy'n cynnwys ystod eang o faterion megis bioamrywiaeth, rheoli erydiad, peilliad pryfaid, a lliniaru llifogydd**. Rydym wedi nodi bod yna eisoes beth symud tuag at hyn: yn ddiweddar lansiwyd canllaw rhyngweithiol gyda'r nod o leihau nwyon tŷ gwydr o ddaliadau amaethyddol ar wefan Cyswllt Ffermio. Hefyd, cyflwynwyd bron i 3,000 o weithgareddau o dan Thema Trawstorrol Rheolaeth Gynaliadwy ar Adnoddau Naturiol rhwng mis Hydref 2015 a mis Awst 2019.

[91] Better Farm Crops Programme Report 2010-2012/3

5.50 Yn ail, mae'r **gwersi a ddysgwyd ynglŷn â beth sy'n gweithio'n dda/dim cystal o ran cyflenwi yn debyg i'r rheini a nodwyd ar gyfer Cyswllt Ffermio**. Er enghraifft, effeithiolrwydd dysgu gan gymheiriaid a chyngor un i un gan arbenigwyr, ac i'r gwrthwyneb, costau rhoi newidiadau ar waith. Mae'r dystiolaeth yn rhoi peth sicrwydd bod rhaglenni ar draws yr UE ac yn rhyngwladol yn profi heriau tebyg o ran cyflenwi, ac eir i'r afael â'r rhain mewn ffyrdd tebyg i Cyswllt Ffermio. Dwy wers allweddol o ran beth sy'n gweithio'n dda yw: i) **mae digon o fecanweithiau cyllido ar gyfer prosiectau/busnesau unigol yn hollbwysig**, ond amlygwyd cyllid fel bwlch allweddol yn y cynnig Cyswllt Ffermio presennol ac, yn gyson â'r dystiolaeth uchod, mae diffyg cyfalaf wedi'i nodi fel un o'r rhwystrau mwyaf pwysig i weithrediad newidiadau; ii) mae unigolion/busnesau yn datblygu cynllun cyn rhoi newidiadau ar waith, ochr yn ochr â digon o gefnogaeth/canllawiau i weithredu'r cynllun, hefyd yn alluogwr allweddol: er bod Cyswllt Ffermio yn annog cynllunio busnes, a chefnogaeth gysylltiedig megis meincnodi, efallai bod lle i gynnwys **proses cynllunio busnes mwy cyfannol ('dull cynllun fferm gyfan') a/neu annog ymhellach fanteisio ar y broses cynllunio busnes bresennol**.

5.51 Yn drydydd, **mae rhwydweithiau cydweithredu yn ffactor llwyddiant hollbwysig mewn cyflenwi rhaglenni ffermio integredig a llwyddiannus**. Mae'r dystiolaeth yn cyfeirio at rôl allweddol cyfryngwyr mewn gweithredu fel 'hwyluswyr a rheolwyr rhwydwaith'. Yng Nghymru, Cyswllt Ffermio fu'n bennaf gyfrifol am y rôl hon sydd, o gofio maint y wlad a phwysigrwydd y sector, wedi bod yn briodol, ond mewn cyd-destunau eraill mae gweithgareddau o'r fath wedi cael eu gwneud gan eraill. Mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn cefnogi pwysigrwydd mecanweithiau sy'n darparu gofodau ar gyfer rhwydweithio, cydweithredu a rhyngweithio cymdeithasol megis Rhwydwaith Arddangos Cyswllt Ffermio a gweithgareddau megis Grwpiau Trafod. Y goblygiad yw dylai unrhyw raglen ôl-EAFRD geisio cynnal rhyw faint o arloesi/trosglwyddo gwybodaeth sy'n canolbwyntio ar rwydweithio cydweithredol wrth ei chyflenwi.

# 6 Casgliadau

6.1 Yn yr Adran olaf hon, rydym yn myfyrio ar y canfyddiadau a negeseuon allweddol yn erbyn y cwestiynau ymchwil ar gyfer y gwerthusiad. Rydym yn ailymweld â'r theori o newid ar gyfer Cyswllt Ffermio gan asesu sut y cyflawnwyd y rhaglen yn ymarferol a'r ffactorau sydd wedi cyfrannu at neu lesteirio ei llwyddiant. Rydym hefyd yn nodi gwersi i'w hystyried wrth gynllunio polisi yn y dyfodol.

**Crynodeb o ganfyddiadau allweddol**

*Pa weithgareddau sydd wedi'u cyflawni hyd yma, o gymharu â'r disgwyliadau?*

6.2 Cynlluniwyd Cyswllt Ffermio i gynnig ystod eang o gefnogaeth, gan adlewyrchu gwahanol anghenion, camau datblygiad a dulliau dysgu a ffafrir ar draws y sector ffermio. Mae hyn yn cynnwys cefnogaeth grŵp a chyngor un i un, a chyfnewid gwybodaeth rhwng cymheiriaid ac arbenigedd allanol gan eraill. Gyda'i gilydd, bwriedir i'r gweithgareddau fynd i'r afael â rhwystrau seiliedig ar agwedd i newid, meithrin hyder a darparu ffermwyr â'r ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i roi newidiadau ar waith. Mae hefyd yn cynnig y cyfle i wneud cynnydd tuag at newid mwy trawsnewidiol wrth i brofiad a hyder unigolion gynyddu. Mae'r rhaglen "yn gyfarwydd" ac "yn un yr ymddiriedir ynddi" ledled Cymru, ac mae hirhoedledd, sefydlogrwydd a pharhad Cyswllt Ffermio wedi bod yn bwysig.

6.3 Cyfanswm gwariant y rhaglen dros y cyfnod contract 2014-20 (hyd at Awst 19) oedd £25.72 miliwn, sy'n agos iawn i'r gyllideb ar gyfer gwariant sef £25.73 miliwn. Perfformiodd y rhaglen yn dda yn erbyn targedau allbwn yn ystod y contract hwnnw, gyda mwyafrif yr allbynnau'n cael eu cyflawni, neu fynd ymhellach na hynny, ar draws pob Lot erbyn diwedd y rhaglen. Mae'r rhaglen wedi parhau i berfformio'n dda ers iddi gael ei diweddaru. Er gwaethaf COVID-19 yn creu cyd-destun heriol iawn ar gyfer ei chyflenwi; mae eangder a hyblygrwydd y rhaglen wedi cynorthwyo'r rheini sy'n ei darparu i ymateb i'r her.

*Pa mor ddwys mae ffermwyr yn ymgysylltu â'r rhaglen ac yn gwneud cynnydd drwy'r cynnig, a beth sy'n ysgogi hyn?*

6.4 O fewn y rhaglen mae Cyswllt Ffermio yn chwilio am y cydbwysedd 'cywir' ar draws tair elfen: ehangder cyrhaeddiad a chefnogaeth ddwys; cefnogaeth dechnegol benodol drwy ddull "fferm gyfan" cyfannol; a rhwng cefnogaeth grŵp/rhwng cymheiriaid ac un i un.

6.5 Mae’r data diweddaraf yn awgrymu bod gan Cyswllt Ffermio gyrhaeddiad eang, gyda dros 23,000 o unigolion wedi cofrestru ar y rhaglen erbyn mis Awst 2020 ar draws 11,000 o fusnesau. Mae cynnydd sylweddol wedi’i wneud i ehangu cyrhaeddiad y rhaglen, ond mae trafodaeth ynglŷn ag a ddylai’r rhaglen barhau i ymdrechu i gyrraedd ymhellach, neu a ddylai nawr ganolbwyntio ar ffermwyr sydd eisiau newid. Yng Ngham 2 y gwerthusiad hwn, roedd pwysau’r ddadl yn gryfach tuag at yr ail ddewis ymhlith y rhanddeiliaid a’r buddiolwyr, gan gydnabod yr ymdrech sylweddol a wnaed i gofrestru ffermwyr newydd yn ystod cyfnod 2014-20 y rhaglen.

6.6 Mae pryder parhaus ynglŷn ag i ba raddau y mae’r rheini a gofrestrodd yn ymgysylltu â’r rhaglen yn ymarferol. Nid yw chwarter ohonynt wedi ymgysylltu’n weithredol ag unrhyw gefnogaeth Cyswllt Ffermio, ac mae tua hanner y rheini sydd wedi ymgysylltu ond wedi derbyn cefnogaeth gan un Lot. Mae traean o’r unigolion sydd wedi ymgysylltu â rhywfaint o weithgarwch wedi ymgysylltu â Lot 1 (Trosglwyddo Gwybodaeth) yn unig. Cadarnhawyd y canfyddiadau hyn gan ymgynghoreion yn nau gam yr ymchwil gyda phryder y gall ymgysylltiad â’r cynnig, i lawer, fod yn eithaf cul a/neu yn ysgafn. Mae hyn yn rhannol oherwydd cyfyngiadau amser ar ffermwyr ond nodwyd bod llywio drwy’r cynnig yn her allweddol, yng Ngham 1 yn arbennig.

6.7 Cyflwynodd ddiweddariad Cyswllt Ffermio fesurau a fwriadwyd i wella gallu ffermwyr i ddewis y gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir, gan osod llwybr(au) cliriach drwy’r cynnig (e.e. arwyddbostio at e-ddysgu a Chlinigau perthnasol a chyflenwol mewn digwyddiadau Safle Arddangos) ac ail-ddylunio’r wefan i ganolbwyntio ar dair thema (busnes, tir a da bwy) yn hytrach na lotiau. Er ei bod yn rhy gynnar i asesu a yw hyn wedi bod yn llwyddiannus, roedd ymgynghoreion yn hyderus y dylai’r newidiadau fod yn fuddiol. Mae Swyddogion Datblygu wedi chwarae (ac yn parhau i chwarae) rôl hollbwysig mewn annog ffermwyr i fanteisio ar y cynnig a hwyluso siwrneiau rhai ffermwyr drwy Cyswllt Ffermio, ond roedd buddiolwyr yn dal ym mynegi rhwystredigaeth gyda diffyg un pwynt cyswllt o fewn y rhaglen.

6.8 Felly, er bod ehangder Cyswllt Ffermio yn gryfder, gellid gwneud mwy i becynnu, integreiddio a chyfathrebu’r cynnig yn fwy effeithiol. Awgrymodd ffermwyr a rhanddeiliaid allanol bod lle i ddarparu cefnogaeth fwy “personol” a “chyfannol” er mwyn integreiddio gweithgareddau Cyswllt Ffermio yn well, wedi’i llywio gan waelodlin effeithiol, ochr yn ochr â dull mwy cyson i hwyluso a “phrocio” drwy siwrnai’r cwsmer, er mwyn rhoi effaith gwirioneddol a’r “newid mawr” sydd ei angen

yn y sector. Mae ymdrechion mwy diweddar i greu "pecynnau blaengar" o gefnogaeth Cyswllt Ffermio, gydag ymgyrchoedd yn rhedeg ochr yn ochr ag elfennau rhyng-gysylltiedig o gefnogaeth, yn gam a groesawir i'r cyfeiriad hwn.

*Pa mor effeithiol ac effeithlon y mae'r rhaglen yn cael ei chyflenwi, ei rheoli a'i llywodraethu?*

6.9 O ran cyflenwi, amlygwyd nifer o elfennau o Cyswllt Ffermio fel arfer da ar draws ddau gam y gwaith. Yn hollbwysig, mae'r cynnig yn rhoi pwyslais ar <u>beth</u> sydd angen newid, <u>pam</u> a <u>sut</u> y gellir cyflawni hyn mewn modd ymarferol a chost effeithiol. Mae nodweddion eraill sydd wedi gweithio'n dda yn cynnwys dulliau hunangymorth a dysgu gweithredol, gan annog buddiolwyr i hunanddiffinio nodau "o'r gwaelod i fyny" er mwyn sicrhau eu bod yn addas i'w hanghenion a'u bod yn ymrwymo i'r broses, dulliau dysgu ymarferol ar y fferm a chefnogaeth rhwng cymheiriaid, a hyblygrwydd i addasu i ffocws gweithgaredd mewn ymateb i amodau sy'n newid ac fel eu bod yn addas i batrymau gweithio y rheini sy'n gysylltiedig. Mae'r cyfuniad o gefnogaeth grŵp a chefnogaeth bwrpasol/gyfrinachol un i un hefyd wedi bod yn bwysig. Mae hwyluswyr mewn gweithgareddau grŵp yn chwarae rôl allweddol mewn rhoi strwythur, momentwm a (phan fo angen) her er mwyn sicrhau bod buddiolwyr yn gwneud cynnydd, ochr yn ochr â mewnbwn gan gynghorwyr/siaradwyr o ansawdd uchel ac a "ymddiriedir" ynddynt i ddarparu ysbrydoliaeth ac arbenigedd. Cyflwynir rhai o'r gweithgareddau mwyaf dwys drwy gystadlaethau yn hytrach na hygyrchedd agored ac, er nad yw'r dull hwn yn briodol i bob agwedd ar Cyswllt Ffermio, mae'n ymddangos i fod yn sicrhau ymrwymiad cryf a chadarn i'r gefnogaeth, ac wedi hynny i wneud newidiadau. Dangoswyd bod meincnodi yn ysgogwr allweddol newid mewn ymddygiad, yn arbennig pan y caiff ei wneud mewn trafodaeth â chymheiriaid neu hwyluswyr.

6.10 Bu rhai heriau o ran cyflenwi, gan gynnwys amrywioldeb yr adroddwyd amdano yn ansawdd a chysondeb hwyluswyr/cynghorwyr (yn arbennig o ran arwyddbostio/gefnogaeth gofleidiol), gallu Swyddogion Datblygu, defnydd ffenestri gwneud cais am hyfforddiant, a rheoli defnydd cefnogaeth "cyfyngedig o ran amser". Fe wnaeth ymgynghoreion hefyd awgrymu y gallai fod cyfleoedd wedi'u colli i ffermwyr sydd eisiau gwthio ymlaen, gyda gweithgareddau mwy ysbrydoledig a datblygedig a llwybrau clir ar gyfer y ffermwyr mwyaf blaengar.

6.11 Bu peth pryder hefyd bod rhaglen Cyswllt Ffermio wedi cael "ei chymryd yn ganiataol" gan lawer yn y sector, gyda'r nifer sy'n manteisio yn cael eu hysgogi gan

bresenoldeb cefnogaeth am ddim yn hytrach na gwir angen/cymhelliant i newid, a bod ymgysylltiad ffermwyr â Cyswllt Ffermio heb fod â ffocws a diben clir. Roedd rhai'n dadlau bod hyn wedi lleihau effaith bosibl y rhaglen. Yng Ngham 1 gwnaethom hefyd ganfod bod asesiad o anghenion ffermwyr ar y dechrau wedi bod yn ad hoc ac anghyson, a bod Cynlluniau Datblygu Personol wedi bod yn aneffeithiol ar y cyfan yn hyn o beth. Mae'r rhaglen wedi ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn yn y diweddariad, drwy annog yr holl fuddiolwyr i gwblhau gwaelodlinau (gan gynnwys cynlluniau busnes, meincnodi, iechyd anifeiliaid a Chynlluniau Rheoli Maeth). Teimlai'r ymgynghoreion bod hwn yn gam cadarnhaol ymlaen.

6.12 Amlygwyd cyllid datblygu fel un o'r rhwystrau pwysicaf i weithrediad, ac er ein bod yn cydnabod nad oedd hyn wedi'i gynnwys yn y Fanyleb wreiddiol ar gyfer Cyswllt Ffermio, mae wedi llesteirio cyflawniad nodau'r rhaglen. Roedd ymgynghoreion yn dadlau y byddai cronfa hyblyg a hygyrch i ffermwyr i brofi a rhoi syniadau newydd/arloesol ar waith yn gymorth i hwyluso newid mwy sylweddol yn y sector. Er bod y Grant Busnes i Ffermydd newydd yn fuddiol, mynegwyd pryderon ynglŷn â swm, amseriad a ffocws yr arian sydd ar gael drwy'r fecanwaith hon. Roedd blaenoriaethau eraill ar gyfer y dyfodol yn cynnwys: y rôl ar gyfer technolegau manwl, lle a sut yr oedd y rhain yn briodol; cefnogaeth i fesur a lleihau carbon; hwyluso mynediad at brynwyr, a darparu mwy o gefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl a lles.

6.13 Mae rheoli rhaglen wedi gweithio'n dda drwy gydol y gwerthusiad, gyda thîm profiadol a gwybodus iawn yn ei le. Rhoddir pwyslais cryf ar adborth a gwelliant parhaus er mwyn gwneud i Cyswllt Ffermio fod mor effeithiol â phosibl mewn amser real, ac mae'r rhaglen wedi cael ei rheoli mewn ymateb i anghenion ac amodau sy'n newid (fel y dangosir yn yr ymateb i COVID-19).

6.14 Fe fu newid sylweddol mewn trefniadau llywodraethu dros y flwyddyn ddiwethaf a chafodd groeso cadarnhaol. Yng Ngham 1 roedd diffyg her a mewnbwn strategol a arweinir gan ddiwydiant i gynllun a darpariaeth Cyswllt Ffermio yn peri pryder i nifer o ymgynghoreion, yn arbennig o gofio'r cyflymder y mae angen i'r sector newid. Mewn ymateb, fe wnaeth y diweddariad ehangu aelodaeth y Bwrdd Cynghori Strategol i gynnwys mwy o gynrychiolaeth y sector preifat ac annog gwell integreiddiad ar draws y Lotiau, gyda chreu un Bwrdd Cyflenwi tanategol i ddisodli tri Is-grŵp Lotiau.

6.15 Mae gweithio mewn partneriaeth ar lefel weithredol wedi gwella'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae lle i gryfhau hyn ymhellach, yn arbennig o ran ymgysylltu mewn blaenoriaethu strategol, hirdymor a chynllunio ar lefel uwch. Mae yna hefyd angen i egluro'n glir rôl rhaglen Cyswllt Ffermio o fewn, a'i chyfraniad i, ecosystem arloesedd amaethyddol Cymru, a'i haliniad ac integreiddiad gyda chwaraewyr ac ymyriadau eraill yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

*I ba raddau y mae newidiadau a roddir ar waith ar ffermydd yn arwain at y canlyniadau a'r effeithiau a fwriadwyd?*

6.16 Yn nau gam y gwerthusiad rydym wedi gweld sut mae Cyswllt Ffermio yn chwarae rhan hollbwysig mewn creu'r "sylfeini ar gyfer newid", gydag effaith sylweddol ar ganlyniadau personol - megis newid cyfeiriad meddwl, agweddau, hyder ac uchelgais, ochr yn ochr â gwell sgiliau a gwybodaeth (o ran sgiliau busnes a thechnegol). Mae'r buddiannau hyn wedi arwain at newid mewn arferion rheoli busnes ac, yn hollbwysig, prosesau gwneud penderfyniadau mwy gwybodus a mwy hyderus o fewn busnesau. Mae Cyswllt Ffermio hefyd yn cael effaith (a gydnabyddir ond yn aml a danwerthfawrogir) ar iechyd meddwl ffermwyr ac mewn cryfhau rhwydweithiau o fewn y gymuned ffermio.

6.17 O ran gweithredu, ar gyfer nifer o ffermwyr mae'r gefnogaeth yn arwain at newidiadau ar raddfa fach, graddol dros gyfnod o amser. Mae'r dull graddol hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod nifer o fusnesau bach iawn wedi'u llesteirio gan allu ac adnoddau, felly mae angen i newidiadau fod yn fforddiadwy ac yn hawdd eu rheoli. Efallai ei fod hefyd yn adlewyrchu'r modd y mae ymgysylltu â Cyswllt Ffermio (a llywio drwy'r cynnig) a diffiniad nodau o fewn nifer o weithgareddau yn cael eu harwain gan ffermwyr. Gwnaethom ganfod fod yn enillion bach hyn ar draws llawer o agweddau o'r busnes, gyda'i gilydd, yn cynorthwyo i greu mentrau mwy hyfyw a chynaliadwy yn y tymor hwy. Mae buddiannau eang hefyd o ran effeithiau amgylcheddol ac iechyd anifeiliaid, yn arbennig o ran lleihad mewn defnydd gwrthfiotigau a gwrteithiau, rheolaeth adnoddau cynaliadwy a bioamrywiaeth. Hefyd, ar gyfer rhai o'r rheini sy'n gysylltiedig, mae Cyswllt Ffermio wedi cael effaith fwy trawsnewidiol ar y busnes, drwy leihau costau'n sylweddol, gwella cynhyrchiant/cynnyrch neu arallgyfeirio.

6.18 Mae'r modd y mae rhaglen Cyswllt Ffermio wedi cael ei chynllunio a'i gyflenwi ar y cyfan wedi bod yn ffafriol i annog newid - er enghraifft darparu cyngor ymarferol, dysgu trwy brofiadau ymarferol cymheiriaid - yn unol ag arfer da. Canfu'r

gwerthusiad bod gwahanol weithgareddau Cyswllt Ffermio wedi cyfrannu at y gweithgareddau a ddisgrifir uchod drwy fecanweithiau amrywiol sydd yn aml yn atgyfnerthu. Roedd neges gyson gan staff cyflenwi, rhanddeiliaid allanol a buddiolwyr mai cyfuniad o ymyriadau, ochr yn ochr â chefnogaeth Swyddog Datblygu neu fentor, sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn sicrhau effaith. Mae buddiolwyr fel petaent yn mynd ar nifer o lwybrau drwy'r cynnig, gan ei gwneud hi'n anodd gweld patrymau neu i benderfynu pa lwybrau sydd fwyaf effeithiol. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod cyfuniad o gefnogaeth grŵp/rhwng cymheiriaid ac un i un yn hollbwysig i lawer, yn ogystal ag agweddau mwy dwys Cyswllt Ffermio (megis Agrisgôp ac Academi Amaeth) sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae hyn yn ail-bwysleisio'r pwysigrwydd o fod â chynnig eang, y gall defnyddwyr ei ddeall, ond y gellir llywio drwyddo mewn gwahanol ffyrdd.

6.19 Bu nifer o rwystrau i weithredu, gan gynnwys amser/gallu/ymladd tân o fewn busnesau bach iawn, materion olyniaeth, a ffactorau allanol megis marchnadoedd, darpariaeth band eang ac amodau tywydd. Roedd rhai rhanddeiliaid allanol hefyd yn dadlau, er bod Cyswllt Ffermio wedi arwain at newidiadau mewn ymddygiad ac agwedd, mae'n "ceisio bod yn bopeth i bawb" ac yn taenu'r gefnogaeth yn rhy eang a thenau - mae pryder bod hyn yn gwanhau effaith y rhaglen.


6.20 Ar y cyfan, gwnaethom ganfod bod Cyswllt Ffermio wedi rhoi canlyniadau na fyddent wedi'u cyflawni o gwbl, neu a fyddai wedi cymryd mwy o amser, wedi bod o safon is neu'n llai cynaliadwy, heb y rhaglen. Er hynny, mae cyfraniad Cyswllt Ffermio o gymharu â ffactorau mewnol neu allanol eraill yn sylweddol - ychydig bach o'r buddiolwyr yr ymgynghorwyd â hwy oedd wedi gwneud newidiadau eraill i'w busnes ochr yn ochr â chefnogaeth Cyswllt Ffermio, ac os oeddent wedi gwneud hynny, cyfraniad prin neu dim cyfraniad o gwbl a wnaeth hyn i'r canlyniadau. Yr eithriad oedd grantiau, a oedd yn bwysig mewn galluogi ffermwyr i roi'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu drwy Cyswllt Ffermio ar waith.

6.21 Yn fwy cyffredinol, cyfyngedig yw'r dystiolaeth y daethpwyd o hyd iddi am oferu gwybodaeth o Cyswllt Ffermio i'r gymuned ffermio ehangach. Er bod hyn yn rhannol adlewyrchu'r dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y gwerthusiad hwn, bu rhywfaint o ddiffyg eglurder o fewn Cyswllt Ffermio ynglŷn â sut oedd disgwyl i'r effaith ddigwydd, neu pwy oedd yn gyfrifol am hyn.

6.22 I grynhoi'r negeseuon allweddol o'r gwerthusiad hwn, gwnaethom ail-edrych ar theori o newid Cyswllt Ffermio i ddangos - mewn termau pennawd - sut y

perfformiodd y rhaglen yn erbyn yr allbynnau, canlyniadau ac effeithiau a ragwelwyd, ac i amlygu'r ffactorau sydd wedi cynorthwyo neu lesteirio cyflawni ar bob cam o'r broses.

## Ffigur 6.1: Theori o Newid … ar waith



*Beth yw'r gwersi allweddol i hysbysu cyflenwi parhaus a chynllunio ymyriadau yn y dyfodol?*

6.23 Roedd y gwahanol randdeiliaid a buddiolwyr yr ymgynghorwyd â hwy yn gytûn y bydd cefnogaeth i gynorthwyo'r sector ffermio i addasu a pharhau'n gystadleuol yn dod yn fwyfwy pwysig yn y dyfodol agos a thu hwnt, a bod y rhaglen bresennol yn rhoi llwyfan cryf, ac yn un a werthfawrogir yn eang, ar gyfer hyn. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad hwn, fodd bynnag, yn codi rhai cwestiynau y credwn ni y dylai Llywodraeth Cymru a phartneriaid eu hystyried wrth gynllunio rhaglenni yn y dyfodol.

- **Yn gyntaf, byddai'n ddefnyddiol i egluro a chanolbwyntio blaenoriaethau strategol Cyswllt Ffermio [92],** yn arbennig yng nghyd-destun presennol Brexit a'r cyflymder y mae angen i'r sector ffermio addasu, ac i flaenoriaethu/cymell manteisio ar weithgareddau allweddol sy'n cyflawni yn erbyn hyn.
- Yn gysylltiedig i hyn, canfu'r gwerthusiad dystiolaeth o weithio mewn partneriaeth gweithredol cryf ond llai o dystiolaeth o gydweithredu strategol a chynllunio tymor hwy. Efallai y bydd egluro blaenoriaethau strategol Cyswllt Ffermio yn cynorthwyo i lywio dull seiliedig ar bartneriaeth mwy strategol gyda sefydliadau eraill sy'n gweithio yn y maes hwn. Dylai hyn arwain at gyfnewid cynlluniau tymor hir a blaenoriaethau yn fwy ystyrlon, a chanfod nodweddion cyffredin a chyfleoedd ar gyfer gweithio mewn partneriaeth mwy rhagweithiol a chydweithredol a allai "roi mwy am lai". Gellid ystyried cytundebau partneriaeth ffurfiol – megis model Yr Iseldiroedd – yn y cyd-destun hwn (gweler Atodiad E).
- **Yn ail, dialai'r rhaglen ystyried gweithio mewn partneriaeth a rhwydweithio mwy ffurfiol a chyson gyda'r sector preifat a'r cyfryngwyr**. Gallai hyn i) ehangu cwmpas yr ymyrraeth, gan ddarparu llwybr effeithiol i drosglwyddo gwybodaeth ar draws y gymuned ffermio ehangach, yn arbennig y rheini sy'n ymgysylltu â milfeddygon, banciau, cyfrifyddion ac ati[93], ond nid Cyswllt Ffermio; ii) galluogi Cyswllt Ffermio i ddefnyddio ei safle cryf i hwyluso rhwydweithio mwy effeithiol ar yr 'ochr gyflenwi' a chefnogi cyd-destun cefnogaeth mwy cydlynol; a iii) hyrwyddo newid mwy effeithiol mewn busnesau fferm drwy negeseuon cyson

[92] I'w nodi, ers y cynhaliwyd yr ymchwil ar gyfer y gwerthusiad hwn a diweddariad y rhaglen, penodwyd SAB a Chadeirydd newydd ac mae strategaeth hirdymor ar gyfer Cyswllt Ffermio (gan ystyried Brexit a COVID-19) yn cael ei datblygu.

[93] Sylwer, mae'r pwynt hwn yn ymwneud â dull mwy cyson a strategol o ymgysylltu â chyfryngwyr (o gymharu, er enghraifft, â Chyfarfodydd Brecwast rhannu gwybodaeth)

at atgyfnerthol o nifer o ffynonellau yr "ymddiriedir" ynddynt. Byddai gweithio cydweithredol gyda phractisau milfeddygon anifeiliaid mawr sy'n darparu Clinigau Iechyd Anifeiliaid ar gyfer Cyswllt Ffermio yn un llwybr i ddefnyddio'r ymgysylltu presennol fel sail ar gyfer dull a chynllunio mwy strategol.

- **Yn drydydd, asesu hyfywedd symud y model Cyswllt Ffermio tuag at ddull sydd wedi'i bersonoleiddio'n fwy, gyda rhywfaint o fynediad wedi'i hwyluso** at y cynnig yn gyfan ar gyfer ffermwyr sy'n barod i newid (gallai hyn gael ei lywio gan asesiad gwaelodlin gychwynnol a dadansoddiad segmentiad, mewn cydnabyddiaeth o'r costau sy'n gysylltiedig â'r dull hwn). Dylai hyn gynnwys un pwynt cyswllt gyda chyfrifoldeb clir i gefnogi/hwyluso siwrnai'r cwsmer, yn cynnwys asesiad cyfannol o anghenion, gan greu pecyn cefnogaeth perthnasol (ar y dechrau ac wrth i'w hanghenion esblygu), a "phrociad" parhaus i annog gweithredu (gan gydnabod bod newid sylweddol yn nodweddiadol yn gofyn am amserlenni hirach i'w cynllunio a'u cyflawni). Gallai Cyswllt Ffermio ystyried mabwysiadu model gyda'r ffermwyr yn fwy canolog iddo, gan ddechrau gyda gwaelodlin/cynllun busnes ar gyfer y busnes yn gyfan a chefnogaeth gan Swyddog Datblygu i ddiffinio cynllun blwyddyn gyntaf (o bosibl gyda dangosyddion perfformiad allweddol cysylltiedig) a nodau tymor hwy, ac yn cynnwys sut y gallai ymgysylltu ddigwydd ar adegau a gytunir i edrych ar gynnydd. Mae tystiolaeth gynyddol i awgrymu y gallai cynnig mwy dwys, personol ac integredig ar gyfer y rheini sydd â'r mwyaf o botensial/yr angen mwyaf/y mwyaf parod i newid arwain at fwy o effaith yn gyffredinol. Nid yw hyn i ddweud y dylai Cyswllt Ffermio beidio â bod ar gael mwyach yn gyffredinol neu dim ond canolbwyntio ar ffermwyr mwy "blaengar", ond dylid ystyried ymarferoldeb mecanweithiau cyflenwi mwy economaidd ar gyfer yr elfennau "eang a bas" o gefnogaeth (wedi'u hysbysu gan y profiad cadarnhaol y soniwyd amdano yn ystod COVID-19 o gyflenwi ar-lein).
- **Yn bedwerydd, mae lle - a galw amlwg gan rai ffermwyr - i gyflwyno syniadau mwy ysbrydoledig a heriau allanol i'r rhaglen er mwyn ysgogi ffyrdd newydd o feddwl.** Efallai y bydd angen i'r model hwn symud o gefnogaeth wedi'i chyllido'n llawn i gefnogaeth gymorthdaledig ar gyfer y cyngor mwy gwerthfawr, neu fodel lle mae Cyswllt Ffermio yn darparu'r llwyfan sylfaenol ac yna'n cyfeirio ffermwr at arbenigwyr allanol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen. Mae hyn hefyd yn codi cwestiwn mwy strategol ynglŷn â'r cydbwysedd rhwng datblygiad gwybodaeth rhwng cymheiriaid, a arweinir gan fuddiolwyr ac a

arweinir yn allanol wrth gynllunio a chyflenwi'r math hon o raglen. Yn y cyd-destun hwn, dylai'r rhaglen ystyried y cydbwysedd rhwng cefnogi'r sector ffermio "traddodiadol" i ddod yn fyw cynhyrchiol/gwydn a chyfleoedd ar gyfer systemau cynhyrchu bwyd newydd ac arloesol. Gallai aliniad agosach gydag Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI) gynorthwyo i adeiladu cynnig cryfach seiliedig ar arloesedd.

- **Yn bumed, wrth i Gymru symud allan o'r UE, rhoddir mwy o bwyslais ar ganlyniadau "budd y cyhoedd", yn arbennig mewn perthynas â'r amgylchedd. Dylai'r rhaglen ystyried cryfhau a hyrwyddo ei gynnig yn hyn o beth** (mewn cydweithrediad ag ysgogiad gan y diwydiant yn gyffredinol), yn cynnwys offer/dulliau/metrics i alluogi ffermwyr i asesu a meintioli eu heffaith carbon, ochr yn ochr â sgiliau a dulliau i leihau ôl-troed/dal a storio carbon a rheoli tir yn gynaliadwy. Gall y rhaglen hefyd ystyried sut y mae'n cysylltu ffermwyr yn well gyda chorfforaethau mawr sydd am wrthbwyso eu hôl-troed carbon[94].
- **Yn chweched, cryfhau'r sail tystiolaeth tanategol ar gyfer Cyswllt Ffermio.** Yng ngoleuni'r materion allweddol a godir yn yr adroddiad hwn, rydym yn awgrymu bod y sail tystiolaeth yn cael ei chryfhau mewn tair ffordd allweddol: yn gyntaf, ymchwil wedi'i dargedu i nodweddu rhai nad ydynt yn gyfranogwyr a deall pam nad ydynt yn ymgysylltu â Cyswllt Ffermio[95] (i gael persbectif mwy gwybodus ar i ba raddau y dylai'r rhaglen barhau i fuddsoddi adnoddau er mwyn ehangu ei chyrhaeddiad); yn ail, cryfhau casglu data o fewn rhaglen, yn arbennig o ran defnydd cyson a chynhwysfawr gwaelodlinau a monitro cynnydd yn erbyn hyn; ac yn drydydd, cynnal dadansoddiad effaith ansoddol ar lefel rhaglen, drwy arolygon a/neu ganiatáu ar gyfer cysylltu data i setiau data cenedlaethol er mwyn cymharu perfformiad buddiolwyr a rhai nad sy'n cyfranogi dros amser. Yn ogystal, mae cwmpas ar gyfer ymchwil pellach i'r materion a godir yn y gwerthusiad hwn, megis i ba raddau y mae mynediad at gyllid yn rhwystr cyffredinol ar draws y boblogaeth ac adolygu pa mor addas ar gyfer y diben yw'r ffrydiau cyllido presennol.

6.24 Mae pwyntiau1-6 uchod yn nodi casgliad o baramedrau i arwain ymyriadau yn y dyfodol a fydd yn cynorthwyo ffermwyr i weithredu'n effeithlon ac mor broffidiol â

---

[94] Nodir bod yr SAB wedi datblygu a chymeradwyo Cynllun Cyflenwi Carbon ar ôl i'r ymchwil ar gyfer y gwerthusiad hwn gael ei gynnal.

[95] Yn seiliedig ar gronfa ddata BAS Cyswllt Ffermio sy'n olrhain i ba raddau y mae ffermwyr cofrestredig yn ymgysylltu â'r gweithgareddau a gynigir.

phosibl mewn amodau marchnad sy'n newid. Ond mewn byd sy'n newid yn gyflym ac sy'n ansicr, lle mae amodau yn fwyfwy anwadal ac yn amlwg ddim yn ffafrio cynhyrchwyr, a lle gall newid fod yn arbennig o anodd ei negodi ar gyfer cwmnïau llai, mae angen brys i gynorthwyo ffermwyr, busnesau fferm a chymunedau sy'n seiliedig ar ffermydd yng Nghymru i ganfod gwahanol gyfleoedd, a chymryd camau eraill, mwy radical. Dylai cynllun Cyswllt Ffermio yn y dyfodol hefyd ystyried yr angen i gynorthwyo ffermydd i oroesi'r trawsnewidiad hwn drwy arallgyfeirio i weithgareddau elw uwch o fewn a thu allan i faes amaethyddiaeth.

**Atodiad A: Ymgynghoreion ar draws dau gam yr ymchwil**

*Ymgynghoreion staff llywodraethu, rheoli a chyflenwi*

- Llywodraeth Cymru
- Menter a Busnes
- Lantra
- PMR Direct Ltd
- Simply the Best Training Consultancy Lt
- Cadeirydd Is-grŵp
- IBERS

*Rhanddeiliaid ehangach*

- Bwrdd Cynghori Amaethyddol
- Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB)
- Busnes Cymru
- CLA Cymru
- Coed Cymru
- Colegau Cymru
- Undeb Amaethwyr Cymru (FUW)
- Hybu Cig Cymru (HCC)
- Tîm Cyflenwi Arloesedd, Llywodraeth Cymru
- Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru (CFfI)

*Grwpiau ffocws*

- Cam 1: 22 buddiolwr, dienw
- Cam 2: 9 buddiolwr, dienw

*Astudiaethau achos*

- Cam 1:
  - 14 staff cyflenwi, dienw
  - 53 buddiolwr, dienw
- Cam 2:
  - 14 staff cyflenwi, dienw
  - 36 buddiolwr, dienw

**Atodiad B: Crynodebau astudiaethau achos**

- Astudiaeth Achos Gwasanaethau Cynghori
- Astudiaeth Achos Academi Amaeth
- Astudiaeth Achos Agrisgôp
- Astudiaeth Achos Safleoedd Arddangos
- Astudiaeth Achos Grŵp Trafod
- Astudiaeth Achos E-ddysgu (cwmpasu dau fodiwl)
- Astudiaeth Achos Safle Ffocws
- Astudiaeth Achos Cyfnewidfa Rheolaeth
- Astudiaeth Achos Mentora
- Astudiaeth Achos Hyfforddiant Busnes a Chyllid (cynnwys dau gwrs)
- Astudiaeth Achos Hyfforddiant Technegol Peiriannau ac Offer (cynnwys dau gwrs)

## Astudiaeth Achos Gwasanaethau Cynghori

### Rhagymadrodd

Mae Gwasanaeth Cynghori Cyswllt Ffermio o dan Lot 3 yn cynnig cyngor un i un (hyd at 80% ohono wedi'i ariannu) a chyngor grŵp (wedi'i ariannu 100%); gall busnesau wneud cais am hyd at bedwar gwahanol ddigwyddiad o gyngor drwy'r gwasanaeth. Mae cyngor pwrpasol ar gael ar draws ystod o bynciau, gan gynnwys cynllunio busnes, rheoli coedwigaeth, newydd-ddyfodiaid, da byw, rheoli coedwigoedd, garddwriaeth ac arallgyfeirio. Yn nodweddiadol, bydd pob "achos" o gyngor yn cynnwys ymweliad wyneb yn wyneb ar y fferm gan y cynghorydd ac yna adroddiad ysgrifenedig sy'n cynnwys datrysiadau posibl ac argymhellion. Mae'r Gwasanaethau Cynghori cymorthdaledig wedi bod o dan ymbarél Cyswllt Ffermio ers 2008. Mae'r astudiaeth achos hon wedi'i seilio ar ddwy don o ymgynghoriad dwys gyda chynghorydd sy'n canolbwyntio ar gynllunio adeiladau, cydymffurfiaeth rheoleiddio a llygredd, a phedwar buddiolwr sy'n ffermwyr llaeth yng Ngham 1, yr oedd tri ohonynt yn barod i gymryd rhan mewn cyfweliad dilyn i fyny yng Ngham 2.

### Cyflenwi cefnogaeth

Yng nghyd-destun yr astudiaeth achos hon, bydd y cyngor a ddarperir yn aml yn cael ei ysgogi gan yr angen i gydymffurfio â, neu baratoi ar gyfer, rheoleiddiad sydd i ddod, lle bydd ffermwyr yn nodweddiadol yn teimlo nad oes ganddynt "unlle i droi" gyda phroblemau. Mewn rhai achosion, mae pryderon wedi'u mynegi gan Gyfoeth Naturiol Cymru yn ystod ymweliadau cydymffurfiaeth, sy'n ysgogi'r ffermwr i geisio cyngor. Mae diagnosis o'r angen yn canolbwyntio'n fawr ar y mater amgylcheddol dan sylw (yn hytrach nag asesiad mwy cyfannol o'r busnes). Unwaith yr atgyfeirir ffermwr ar gynghorydd/bod ffermwyr wedi cysylltu â chynghorydd, cynhelir sgwrs fer dros y ffôn er mwyn amlinellu'r mater, a dilynir hyn gan ymweliad un i un ar y fferm i drafod mewn rhagor o fanylder. Mae siwrnai cwsmer y busnesau yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer yr astudiaeth achos hon yn nodweddiadol o ddull cyson a ddefnyddir ar draws y Gwasanaeth Cynghori.

Ar y cyfan, mae'r adborth yn awgrymu bod darpariaeth y Gwasanaeth Cynghori yn effeithiol, o ansawdd uchel ac y caiff ei werthfawrogi gan y ffermwyr a gyfwelwyd. Mae cryfderau allweddol y cynnig yn cynnwys:

- **Cyngor personol ac wedi'i deilwra**: teimlai'r holl fuddiolwyr bod cael cyngor penodol, wedi'i deilwra ac ymarferol (ynghyd ag ymateb cyflym rhwng yr ymholiad-ymweliad-adroddiad) yn hollbwysig i lwyddiant y Gwasanaeth Cynghori, gan eu galluogi i weithredu newidiadau yn gyflym.
- **Cyfrinachol**: mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun cydymffurfio ac annog ffermwyr i siarad yn agored am yr heriau y maent yn eu hwynebu, sy'n bwysig os oes newidiadau effeithiol i gael eu gwneud.
- **Annibyniaeth ac ymddiriedaeth ochr yn ochr ag arbenigedd a phrofiad y cynghorydd**: roedd cytundeb ymhlith y ffermwyr a gyfwelwyd bod ansawdd y

cyngor a roddwyd yn arbennig o uchel a gwerthfawr. Ystyrir cynghorwyr yn unigolion annibynnol yr ymddiriedir ynddynt, gydag arbenigedd a phrofiad yn eu maes yn ogystal â dealltwriaeth ymarferol o'r cyd-destun ffermio. Hefyd, dywedodd yr ymgynghoreion bod cael safbwynt allanol ar eu heriau wedi cynorthwyo i gyflwyno ffyrdd newydd o wneud pethau a oedd yn briodol ar gyfer eu busnes.

- **Fforddiadwyedd cefnogaeth a datrysiadau arfaethedig:** yn y rhan fwyaf o achosion mae diffyg arian i dalu am gefnogaeth breifat yn ysgogwr allweddol i ffermwyr sy'n ceisio'r Gwasanaethau Cynghori. Mae'r datrysiadau a gyflwynir yn y cyngor wedi'u teilwra i'r busnes, yn glir ac yn gost effeithiol (gan gydnabod yr adnoddau sydd ar gael i bob fferm).
- **Clinigau'n cael eu dilyn gan gyngor un i un**: yn ddiweddar cyflwynwyd Clinigau awr o hyd am ddim er mwyn rhoi datrysiadau cyflym fel sy'n briodol, wedi'u dilyn gan ymweliad un i un ar gyfer y rheini sydd angen cefnogaeth fwy dwys. Mae hon yn profi i fod yn ffordd fwy cost effeithiol i weithredu'r gwasanaeth.
- **Ôl-ofal anffurfiol**: mae'r cynghorydd yn yr astudiaeth achos hon yn darparu cefnogaeth anffurfiol, o fath arall pellach i'r ffermwr, gan gynnwys galwadau ffôn i i drafod argymhellion yr adroddiad a sicrhau eu bod wedi'u deall yn iawn, cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru ar ran y ffermwr a chyngor ynglŷn â sut i roi'r argymhellion ar waith.

Fodd bynnag, mae yna hefyd rai problemau gyda gweithredu. Mae'r gyfradd ymyrraeth wedi'i nodi yn y rheoliadau RDP ac nid yw wedi'i phrofi ar gyfer y rhaglen bresennol i sicrhau ei bod yn cael ei darparu am y gost isaf bosibl i bwrs y wlad; na chwaith yn hyblyg yn dibynnu ar nifer yr "achosion" o gefnogaeth a dderbynnir. Fodd bynnag, roedd pryder ymhlith y rheini yr ymgynghorwyd â hwy y byddai cyfradd is yn arwain at ffermwyr ddim yn ceisio cyngor a byddai pryderon cydymffurfio yn cael eu mewnoli i'r fath raddau bod y fferm yn methu bodloni rheoleiddiad yn gyfan gwbl/yn mynd allan o fusnes. Gwnaethom hefyd ganfod enghraifft lle'r aeth ffermwr at gynghorydd yn uniongyrchol i gaffael cyngor, ond cafodd ei lywio'n ôl i Cyswllt Ffermio. Mae yna hefyd heriau mewn rheoli llif y galw a'r cyngor. Mae cyfyngu ar nifer yr achosion o gefnogaeth sydd ar gael bob blwyddyn (ar gyfer y categorïau cynllunio busnes) yn arwain at rai ffermwyr yn dal yn ôl ar ddefnyddio eu dyraniad neu (o bosibl y fwy aml) bod ffermwyr sydd angen mwy o gefnogaeth yn defnyddio'u dyraniad cyn bod mater hollbwysig codi ei ben. Gallai hyn lesteirio gallu ffermwyr i ymateb i newid sylweddol sydd i ddod yn y sector. O safbwynt cynghorydd, gall hefyd fod yn heriol i reoli'r cyfnodau trymaf o ran yr atgyfeiriadau/ceisiadau am gefnogaeth (e.e. yn dilyn digwyddiadau Grant Busnes i Ffermydd, neu cyn cyflwyniad rheoliadau newydd). Yn olaf, mae peth pryder ynglŷn â mynediad at gyllid er mwyn gweithredu'r argymhellion a wneir gan gynghorwyr. Er enghraifft, nodwyd bod angen i rai busnesau sy'n gwneud cais am Grant Cynhyrchu Cynaliadwy neu gyllid banc gael cynllun busnes, ond roeddent wedi defnyddio eu dyraniad o Wasanaeth Cynghori i lunio un ac felly nid oedd ganddynt y cyfalaf i roi argymhellion y Gwasanaeth Cynghori ar waith.

Ystyriwyd y Gwasanaethau Cynghori hyn yn rhai cyflenwol ond ar wahân i'r cynnig Cyswllt Ffermio ehangach. Roedd i ba raddau yr oedd y buddiolwyr wedi ymgysylltu â'r gefnogaeth ehangach wedi amrywio'n sylweddol, o ychydig bach i lawer iawn. Ar gyfer y llawer iawn, roedd y gefnogaeth Gwasanaeth Cynghori yn mynd i'r afael â mater penodol o fewn y busnes, lle daeth agweddau eraill o gefnogaeth (Grŵp Trafod, meincnodi, profi pridd a ffrwythlondeb, Safleoedd Arddangos, cwrs hyfforddi, a chyngor arall i ddatblygu cynllun busnes) ynghyd i ddarparu pecyn o gefnogaeth ar gyfer y busnes yn gyfan. Mae'r Gwasanaethau Cynghori fel paent yn gweddu'n dda i'r cyd-destun ehangach, fel y dangoswyd gan y cynghorydd yr ymgynghorwyd ag ef ar gyfer yr astudiaeth achos hon sy'n derbyn nifer o atgyfeiriadau gan Gyfoeth Naturiol Cymru, ochr yn ochr ag atgyfeiriadau mewnol gan Swyddogion Datblygu Cyswllt Ffermio neu geisiadau dilyn i fyny wedi i'r cynghorydd gyflwyno mewn digwyddiadau/Grwpiau Trafod.

**Gweithredu**

Dywedodd yr ymgynghorai cyflenwi bod ffermwyr yn nodweddiadol yn rhoi newidiadau ar waith o ganlyniad i'r Gwasanaeth Cynghori yn gyflym ac, er bod llawer o'r newidiadau hyn fel petaent yn gymharol fychan a fforddiadwy, roeddent yn arwain at arbedion cost ar unwaith. Dangoswyd hyn gan ddau o'r buddiolwyr yr ymgynghorwyd â hwy dros ddau gam yr ymchwil, oedd wedi dargyfeirio dŵr glaw a oedd yn llifo i storfa slyri o ganlyniad i'r cyngor. Roedd dau fuddiolwr yn cynllunio newidiadau yn y dyfodol, ond roedd un yn disgwyl canlyniad cais am grant er mwyn ariannu hyn.

Ar wahân, ar draws pob un o'r tri, amlygwyd samplu pridd a Chynlluniau Rheoli Maetholion yn "eithriadol ddefnyddiol" ac roeddent wedi arwain at arbedion cost (er enghraifft, roedd un ymgynghorai wedi haneru costau gwrtaith mewn un flwyddyn, roedd un arall wedi lleihau costau o £14-12k yn y flwyddyn fwyaf diweddar. Dywedodd un o'r ffermwyr mai mantais cefnogaeth Cyswllt Ffermio yw ei fod yn rhoi "strwythur", gan roi cefnogaeth gyflenwol sy'n cyfuno gwybodaeth (er enghraifft, o ran diffygion maeth) gyda chanllawiau ymarferol ar sut i weithredu ar y wybodaeth honno. Teimlwyd bod cefnogaeth gan staff Cyswllt Ffermio yn bwysig er mwyn sicrhau bod cynlluniau yn datblygu, o gofio "llawer o ddyletswyddau eraill" ar y fferm.

Yn ôl y rheini yr ymgynghorwyd â hwy, mae tair prif ffactor yn llesteirio newid: (i) mae rhai ffermwyr yn dal yn ôl rhag buddsoddi mewn rhoi newidiadau ar waith hyd nes y daw fframweithiau rheoleiddio newydd i rym, (ii) mynediad at gyfalaf, fel y disgrifiwyd uchod, sy'n golygu bod newidiadau llai yn digwydd dros gyfnod hirach neu ddim o gwbl, ac (iii) amseriad ffenestri cais am grant a gwneud penderfyniadau, a all arafu'r broses o roi newidiadau ar waith.

**Canlyniadau ac effeithiau ar gyfer buddiolwyr**

Mae manteision sy'n deillio o'r agwedd hon o'r Gwasanaeth Cynghori fel petaent yn canolbwyntio ar arbedion cost a manteision amgylcheddol, ochr yn ochr â manteision hyder

ac iechyd meddwl y mae rhai buddiolwyr yn teimlo sydd yr un mor bwysig. Yn benodol, nododd yr ymgynghoreion y canlyniadau canlynol:

- **Penderfyniadau buddsoddi mwy gwybodus**: dywedodd dau fuddiolwr yng Ngham 2 fod y cyngor yn helpu ffermwyr i wneud penderfyniadau buddsoddi a rheoli busnes mwy gwybodus a seiliedig ar dystiolaeth, a helpu i osgoi camgymeriadau drud.
- **Arbedion cost**: o ganlyniad i'r cyngor, nid yw ffermwyr mwyach yn gwastraffu maetholion (yn flaenorol roedd slyri'n cael ei wasgaru oherwydd cyfleusterau storio gwael, gan wastraffu maetholion a chreu costau llafur ychwanegol).
- **Hyder a gwelliannau iechyd meddwl**: disgrifiodd buddiolwyr sut yr oeddent wedi bod yn cadw'r straen sy'n gysylltiedig â materion cydymffurfio yr oeddent yn eu hwynebu iddynt eu hunain am gyfnodau hir, mewn galwedigaeth a all fod yn un ynysig iawn. Oherwydd y teimlir bod datrysiadau yn ddrud iawn, bydd ffermwyr yn aml yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i ffordd allan. Disgrifiodd buddiolwyr sut yr oedd y cyngor wedi rhoi "sicrwydd" a "thawelwch meddwl" iddo.
- **Mwy o ymddiriedaeth mewn cyngor allanol:** mae peth tystiolaeth bod y Gwasanaeth Cynghori yn cynyddu parodrwydd ffermwyr i dalu am gyngor allanol. Er enghraifft, roedd y cynghorydd wedi canfod bod rhai ffermwyr yn talu'n breifat am ymgynghoriaeth cynllunio wedi hynny.
- **Manteision amgylcheddol:** roedd enghreifftiau yn cynnwys cyflwyniad canonau dŵr o ganlyniad i'r cyngor a dderbyniwyd sydd wedi lleihau gwastraff dŵr, lleihad mewn gwanhad oherwydd dŵr glaw sydd wedi lleihau swm y slyri a'r costau sy'n gysylltiedig â chael gwared ag ef (e.e. contractwyr, llafur, tanwydd), a lleihau llygredd yn fwy cyffredinol.

**Canlyniadau ac effeithiau ehangach**

Prin yw'r dystiolaeth o effeithiau ehangach/goferiad yn deillio o'r Gwasanaeth Cynghori yn yr astudiaeth achos hon, yn bennaf oherwydd bod y cyngor yn benodol iawn i bob fferm unigol. Wedi dweud hynny, roedd y cynghorydd yn credu bod rhai effeithiau anuniongyrchol yn deillio o adeiladu pydewau slyri newydd ac ati (er bod cyfran fawr o ddeunyddiau yn cael eu mewnforio oherwydd costau is).

**Ychwanegedd a chyfraniad**

Mae ychwaneged fel petai'n amrywio ar draws y buddiolwyr yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer yr astudiaeth achos hon (ac yn ôl y cynghorydd, ffermwyr eraill a gefnogwyd):

- **Ar gyfer rhai, ni fyddai unrhyw newidiadau wedi eu gwneud heb y cyngor**. Disgrifiodd y cynghorydd sut y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru gynghori bod angen i ffermwr adeiladu pydew slyri newydd, ond teimlir bod hyn yn rhy ddrud, ni wneir dim, ac mae'r fferm yn mynd allan o fusnes. Cadarnhaodd un o'r buddiolwyr hyn, gan ddweud na fyddai wedi gwneud unrhyw newidiadau: "rydych yn dal ati - *dydych chi ddim agor eich llygaid, ydych chi?".*

- **Byddai rhai buddiolwyr wedi gweithredu beth bynnag, wedi'u gorfodi gan newid rheoleiddiol/cydymffurfiaeth**. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, mae'r Gwasanaeth Cynghori wedi cyflymu newid a sicrhau bod ffermwyr yn mabwysiadu'r dull mwyaf fforddiadwy ac effeithiol. Fodd bynnag, byddai eraill - gan gynnwys un o'r ymgynghoreion ar gyfer yr astudiaeth achos hon - wedi talu'n breifat am gyngor ac wedi gwneud newidiadau beth bynnag, gan awgrymu bod ychydig bach o ddi-fuddiant yn y rhaglen.

Mae ffactorau eraill sydd wedi dylanwadu ar y canlyniadau uchod wedi cynnwys anwadalrwydd sylweddol mewn prisiau (gyda goblygiadau ar gyfer arian sydd ar gael i fuddsoddi mewn gwelliannau), prynu offer newydd, tywydd mwy eithafol (glaw a sychder yn y cyd-destun hwn), newidiadau sydd i ddod yn fuan i reoliadau amgylcheddol, a symudiadau mewn ymwybyddiaeth gyhoeddus o faterion amgylcheddol dros y blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, teimlai ymgynghoreion fod Gwasanaethau Cynghori yn bwysig - ac mewn rhai achosion yn "hollbwysig" - mewn hyrwyddo a chyflymu'r canlyniadau a ddisgrifir uchod, hyd yn oed pan oedd mathau eraill o gefnogaeth wedi'u derbyn yn ychwanegol at Cyswllt Ffermio (e.e. grwpiau glaswelltir, cyflwyniadau AHDB neu gyfarfodydd prynwyr llaeth).

**Gwersi a goblygiadau**

Ar y cyfan, mae'r Gwasanaeth Cynghori a gwmpesir gan yr astudiaeth achos hon fel petai'n arwain at newidiadau bach a graddol, ond mewn rhai achosion rhoddir newidiadau ar waith yn gyflym ac maent yn rhoi manteision ariannol ar unwaith i'r ffermydd. Mae ffactorau llwyddiant allweddol yn cynnwys natur wedi'i theilwra/pwrpasol a chyfrinachol y cyngor, ansawdd y cynghorwyr (a'u harbenigedd/profiad), a darpariaeth datrysiadau clir, penodol i'r fferm a fforddiadwy. Mae'r cynnig Gwasanaeth Cynghori yn gweddu'n dda i'r cyd-destun Cyswllt Ffermio ehangach, yn aml yn darparu cefnogaeth dilyn i fyny mwy penodol/manwl wedi gweithgareddau grŵp.

Fodd bynnag, mae yna gwestiynau ynglŷn â'r gyfradd ymyriadau ac enghraifft o ddi-fuddiant, ochr yn ochr â heriau mewn rheoli llif y galw a sicrhau bod cyllid ar gael/yn hygyrch er mwyn rhoi newid ar waith. Mae ychydig o dystiolaeth hefyd bod buddiolwyr yn dod yn fwy ymwybodol o fanteision cyngor allanol, er mai prin yw'r dystiolaeth bod hyn yn dylanwadu ar eu parodrwydd i dalu amdano yn y dyfodol.

**Astudiaeth Achos Academi Amaeth**

**Rhagymadrodd**

Sefydlwyd rhaglen Academi Amaeth yn 2012 er mwy galluogi datblygu a dysgu yn y sector Amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae'r rhaglen sydd â chymhorthdal llawn yn darparu tair sesiwn breswyl dros gyfnod o 12 mis sy'n rhoi hyfforddiant, mentora, cefnogaeth ac arweiniad. Mae'r Academi Amaeth erbyn hyn yn ei hwythfed blynedd ac mae ganddi dros 200 o gyn-fynychwyr. Mae iddi dwy elfen benodol, y rhaglen fusnes ac arloesi sy'n cefnogi a datblygu'r genhedlaeth nesaf o ffermwyr ac entrepreneuriaid, a'r rhaglen iau sydd wedi'i hanelu at gefnogi pobl ifanc rhwng 16 ac 19 oed. Ers ymchwil Cam 1 bu newidiadau i'r rhaglen gydag un elfen, y Rhaglen Datblygu Gwledig, yn dod i ben. Newid arall yw bod yr arbenigwr amaethyddol a ysgrifennodd y papur academaidd a gychwynnodd y rhaglen wedi camu i lawr ac un arall wedi dod yn ei le.

Mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar y Rhaglen Busnes ac Arloesi ac mae wedi'i seilio ar gyfweliadau a gynhaliwyd yn ystod dwy flynedd y gwerthusiad. Roedd cyfweleion yr astudiaeth achos yn cynnwys dau arweinydd, yr oedd un ohonynt hefyd yn fuddiolwr yn 2013. Mae'r astudiaeth achos hefyd y cynnwys pum cyfweliad gyda buddiolwyr, un yr ymgynghorwyd ag ef y ddau gam, a phedwar yr ymgynghorwyd â hwy yng ngham un yn unig.

Ffermwr sydd wedi arwain y grŵp busnes ac arloesi er mis Ebrill 2019 yw'r arweinydd. Ymhlith y buddiolwyr eraill y mae unigolyn sydd heb gefndir ffermio a brynodd fferm gyda'i bartner. Gwnaeth gymryd rhan yn yr Academi Amaeth, gwahanol gyrsiau a Grwpiau Trafod.

Cymerodd ail fuddiolwr rhan yn y gweithgaredd yn 2016 ac mae'n gweithio'n llawn amser fel gwerthwr yn y sector. Mae trydydd buddiolwr yn gweithio gyda'i sibling; gwnaethant gwblhau'r rhaglen yn 2017 ac mae'r ddau wedi mynychu cyrsiau hyfforddiant ac wedi gweld cynghorydd drwy Cyswllt Ffermio. Ymgynghorwyd â'r ddau fuddiolwr arall llynedd ond ni ellid ail-gysylltu â nhw ar gyfer yr ail gam. Mae eu dyfyniadau hwy hefyd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth achos hon.

**Cyflenwi cefnogaeth**

Ers penodi arweinydd newydd ar gyfer y rhaglen Busnes ac Arloesi, mae'r rhaglen wedi parhau i redeg mewn modd tebyg, gyda'r un strwythur ac amlder yr ymgysylltu. Mae hyn yn cynnwys pum sesiwn dros 12 mis:

- Sesiwn 1: Cyflwyniadau
- Sesiwn 2: Deall fy nghadwyn gyflenwi
- Sesiwn 3: Astudiaeth dramor

- Sesiwn 4: Adeiladu eich busnes, Seremoni
- Sesiwn 5: Sesiwn gloi – 'Beth nesaf'?

Yn nodweddiadol mae'r cyfranogwyr yn unigolion uchelgeisiol, sydd â diddordeb mewn arallgyfeirio er mwyn gwella proffidioldeb. Maent fel arfer yn disgwyl ehangu, newid a herio eu busnesau. Mae'r academi hefyd wedi'i hanelu at unigolion sydd eisiau cyfarfod â phobl newydd a rhwydweithio gydag unigolion o'r un bryd, gan ddatblygu rhwydwaith o gysylltiadau yn y sector.

Hyrwyddir y rhaglen drwy gyfryngau cymdeithasol a'i gwefan. Gyda'r rhaglen yn ei hwythfed blynedd, *"mae mwy neu lai yn hyrwyddo ei hun gyda chyn-fynychwyr yn lledaenu'r gair ac yn esbonio'r manteision."* Rhaid cwblhau proses gais ar-lein, a bydd y rheini sy'n cyrraedd y rhestr fer yn cael eu cyfweld. Mae'r arweinydd wedi gwneud mân newidiadau i'r rhaglen hyd yma, sy'n cynnwys elfen fideo i gais pob ffermwr. Daeth y syniad hwn gan i'r arweinydd wneud cais am Ysgoloriaeth Tesco a gwneud y broses hon ei hun.

> *"Elfen bwysig o'r rhaglen yw gwneud ffrindiau a thaflu syniadau oddi ar eich gilydd – ac mae'r fideo hwn yn galluogi hyn o'r dechrau."*

Drwy'r fideo hwn gallant esbonio eu cynllun busnes 5 a 25 mlynedd. Gallant hefyd ehangu ar eu cryfderau a'u gwendidau: bydd ymgeiswyr sy'n siarad am eu cynlluniau a'u huchelgeisiau "yn fwy tebygol o gyflawni'r nodau hyn". Addasiad arall i'r rhaglen oedd cyflwyno diwrnod cefnogaeth cyfryngau ar-lein a oedd yn golygu cyfweliadau teledu ffug. Roedd cyfranogwyr yn derbyn gwybodaeth am dargedu gwahanol gynulleidfaoedd gan ddefnyddio gwahanol blatfformau cyfryngau, a sut i ddefnyddio'r rhain i hyrwyddo eu busnesau. Soniodd yr arweinydd am gynyddu hyn ar gyfer y garfan nesaf o hanner diwrnod i ddiwrnod cyfan.

Rhan fwyaf gwerthfawr y rhaglen ar gyfer cyfranogwyr oedd y cyfle i gyfarfod â phobl o'r un bryd â hwy a meithrin hyder a phrofiad i siarad o flaen pobl eraill. Roeddent hefyd yn gwerthfawrogi cael rhwydwaith o gysylltiadau y gallent gyfathrebu â hwy pe bai unrhyw broblemau, cyfleoedd neu bryderon yn codi.

> *"Mae'n sicr yn helpu ffermwyr i arallgyfeirio eu busnesau. Os ydych angen cyngor gan unrhyw un, efallai na fydd pobl sydd wedi cymryd rhan yn Cyswllt Ffermio yn gwybod, ond byddant mwy na thebyg yn debygol o adnabod rhywun sy'n gwybod - cael y rhwydwaith hwnnw o gefnogaeth ar flaenau'ch bysedd y gallwch droi ati."*
>
> Soniodd buddiolwyr a'r arweinydd bod disgwyl iddynt fod wedi ymrwymo'n llwyr i'r Academi, gyda rhai sesiynau'n mynd ymlaen nes ei bod yn hwyr. Soniodd yr arweinydd y *"gall fod yn ffordd wych i wneud yn siŵr bod pawb yn canolbwyntio'n llwyr ar y rhaglen, ac nid yw'r gwaith o gynnal eu busnesau o ddydd i ddydd yn mynd yn y ffordd."*

> Soniodd un buddiolwr fod ganddo fusnes llai ac roedd yn teimlo bod yn rhaglen yn fwy addas ar gyfer gweithrediadau mwy sefydledig, *“nid oedd o reidrwydd yn fy siwtio i 100% fel unigolyn. Wedi dweud hynny, roedd yn ffordd wych i gwrdd â phobl newydd.”*

Gall yr holl fuddiolwyr sy’n cymryd rhan yn y rhaglen symud ymlaen i’r grŵp Agrisgôp: maent yn dueddol i drefnu sgyrsiau gydag arbenigwyr a pharhau i rannu gwybodaeth wedi i’r rhaglen ddod i ben. Mae’r rhaglen hefyd yn gweithio’n dda gyda llinyn ymgynghoriaeth Cyswllt Ffermio: gwneir y buddiolwyr yn ymwybodol o’r dewisiadau arallgyfeirio sydd ar gael iddynt, sy’n golygu y byddant yn fwy tebygol o nodi a chyrchu data technegol perthnasol.

Dywedodd y rhan fwyaf o’r rheini a gyfwelwyd fod Academi Amaeth yn rhaglen nodedig sydd ddim yn cael ei dyblygu o fewn y cynnig. Nododd yr arweinydd newydd nodweddion tebyg rhwng Tesco Future Farmer Foundation a rhaglen Nuffield, gan ddweud bod y rhaglen yn cael ei gwerthfawrogi’n fawr o fewn y sector yng Nghymru.

**Gweithredu**

Soniodd y buddiolwyr eu bod wedi gwneud newidiadau cadarnhaol i’w busnes o ganlyniad i’r rhaglen. Mae’r arweinydd yn crybwyll nad yw’r newidiadau a wneir o’r gweithgaredd hwn yn dueddol o fod ar unwaith, mae’n cymryd amser i roi unrhyw ddysgu o’r rhaglen ar waith. Gallai hyn fod oherwydd nifer o resymau sy’n cynnwys diffyg arian ac amser.

> *“Gorffennais i yn 2013, ac fe gymerodd 3 blynedd cyn i mi ddechrau gwneud newidiadau mawr i’r busnes.”*

Soniodd buddiolwyr bod magu hyder o’r rhaglen yn hwb enfawr mewn dewis rhoi arferion newydd ar waith a gwneud cais am gyfleoedd newydd. Un enghraifft oedd bod buddiolwr o 2013 wedi cyflwyno prosesau pori-techno newydd ar ei fferm. Ers gwneud y newidiadau hyn mae proffidioldeb ei fferm wedi cynyddu gan 226%. Nododd buddiolwr arall dri phrif newid i’w fusnes:

> *“Ysgoloriaeth Tesco, cysylltiadau gyda chontractau Tesco, prynu eiddo gwyliau - dyna dair ffordd yr ydw i wedi elwa’n uniongyrchol gan yr Academi Amaeth, ond mae’n cymryd amser i wneud y newidiadau i’ch busnes. O 2013 hyd nawr mae fy musnes wedi’i weddnewid.”*

Roedd un buddiolwr wedi prynu systemau oedd eu hangen i roi newidiadau newydd ar waith, ond nid yw wedi cael amser i’w gosod. Soniodd buddiolwr arall am wneud newidiadau bach i’w fusnes y *“gallant fod yn anodd eu mesur. Mae rhai pethau’n costio arian ac yn cymryd amser – ac nid yw mor hawdd â hynny i’w newid.”*

**Canlyniadau ac effeithiau ar gyfer buddiolwyr**

Nododd y buddiolwyr bod y rhaglen wedi rhoi hyder iddynt newid dulliau ac arferion ar eu fferm, er mwyn gwella proffidioldeb a chynhyrchiant. Soniodd un cyfranogwr bod cael profiad gwerthfawr o siarad yn gyhoeddus gyda chyfoedion wedi gwneud iddo deimlo'n fwy cymwys i siarad â phobl eraill, y tu allan i Cyswllt Ffermio.

> *"Roeddwn i'n meddwl ei bod yn dda sut y gallai Cyswllt Ffermio ddwyn pobl ynghyd – fydden ni ddim wedi gallu trefnu hynny ein hunain. Hoffwn feddwl bod gennym nawr efallai ychydig mwy o ddylanwad ar wneuthurwyr polisi."* Mae buddiolwr arall yn esbonio bod datblygu cysylltiadau a rhwydweithiau pwysig yn y sector wedi arwain at newidiadau sylweddol i'w fusnes.
>
> *"Rhoesant yr hyder i mi brynu'r tŷ, ac mae'n debyg na fyddwn wedi gwneud hynny pe na bawn wedi deall y manteision a'r ffigurau. Mae fy nhrosiant deirgwaith yn uwch, ac rwy'n credu fy mod mewn sefyllfa llawer gwell o ran fy musnes. Alla'i ddim dweud bod y cyfan o ganlyniad i'r rhaglen, ond mae'n sicr wedi rhoi'r hyder i mi symud ymlaen."*

Soniodd cyfwelai arall am yr undod a roddodd y rhaglen i'w grŵp. Roedd bod yn rhan o rwydwaith o ffermwyr oedd â'r un meddylfryd a'r un ysgogiad i fod eisiau gwella eu busnes wedi bod yn "*wych, ac agorodd cymaint o ddrysau i mi."*

Roeddent hefyd yn teimlo bod y rhaglen yn agor eu llygaid i'r gwahanol gyfleoedd cyllido. Soniodd y buddiolwyr eu bod wedi cael syniadau newydd am sut i arallgyfeirio i fagu dofednod a gosod llety gwyliau. Teimlai rhai buddiolwyr er bod y rhaglen wedi rhoi cyfleoedd iddynt feddwl am ffyrdd eraill o ennill incwm, gall fod yn anodd dod o hyd i'r amser, yr arian a'r adnoddau i wneud y newidiadau hyn. Dywedodd un buddiolwr bod Cyswllt Ffermio wedi rhoi gwell gwybodaeth iddo am iechyd a diogelwch, a pherygl ar y fferm, "*hyd yn oed os nad ydym yn defnyddio'r cyfan ar unwaith – mae'r holl wybodaeth yn eich helpu i gryfhau eich busnes yn y pen draw."*

Eglurodd un buddiolwr bod y rhaglen wedi arwain at dderbyn ysgoloriaeth gan Sioe Frenhinol Cymru, mynychu Cynhadledd Ffermio Rhydychen, a llwyddo i ennill dyfarniad Tesco Future Farmer Foundation, "*mae'r cyfan yn deillio o Academi Amaeth yn 2017. Rhoddodd yr hwb i mi i adael y fferm a gweld systemau a thechnegau ar ffermydd eraill."*

Dywedodd un buddiolwr ei fod wedi gallu cael mewnwelediad gwerthfawr er mwyn gwella ei allbynnau drwy dreial gorffen ŵyn Cyswllt Ffermio. Roedd yn gallu arsylwi a deall drosto'i hun pa borthiant, systemau a dulliau oedd fwyaf effeithiol. *"Fydden ni byth wedi cael y canlyniadau hynny a threfnu'r profion hynny ein hunain mewn modd mor wyddonol, gan gymharu systemau'n uniongyrchol â'i gilydd – fydden ni ddim wedi gallu gwneud hyn ar ein fferm."*

Dywedodd yr holl fuddiolwyr eu bod wedi cadw mewn cysylltiad â ffermwyr eraill oedd wedi cymryd rhan. Mae’r rhaglen fel petai wedi newid ymddygiad rhai ffermwyr mewn deall grym rhannu syniadau, gan wneud iddynt adeiladu ar hyn drwy wneud ceisiadau am gyfleoedd eraill mewn mannau tebyg.

*“Ni fyddai’r busnes wedi arallgyfeirio ar y gyfradd y gwnaeth. Roedd teimlad o wacter heb y rhaglen ac roeddwn i’n mwynhau rhannu syniadau; roedd hi’n braf cyfarfod â phobl eraill oedd yr un mor frwdfrydig â mi. Nawr rwy’n gwybod gyda phwy i gysylltu fel nad ydw i’n teimlo wedi fy ynysu pan fyddaf yn gwneud penderfyniadau. Heb gymryd rhan fyddwn i ddim wedi gwybod y gallwn ddisgwyl y gefnogaeth honno gan fy nghymheiriaid. Dydw i ddim yn meddwl y byddwn wedi mynd am yr ysgoloriaeth, sydd wedi arwain at newidiadau eraill i fy musnes.”*

Fe wnaeth y rhaglen ei helpu i feddwl am arallgyfeirio o fewn ei fusnes presennol, a sut i ddefnyddio’r tir a’r cyfleoedd sydd ganddo ar ei fferm. Fel cymhariaeth, eglurodd yr un buddiolwr, cyn cymryd rhan yn y rhaglen, y byddai wedi ceisio “*cynyddu nifer y fuches heb fod â’r seilwaith i gynnal y niferoedd hynny*.”

**Canlyniadau ac effeithiau ehangach**

Roedd buddiolwyr yn teimlo fod gwybodaeth a gafwyd drwy’r rhaglen a chefnogaeth Cyswllt Ffermio wedi galluogi iddynt hwy a gweithwyr eraill i ddysgu arferion newydd. Dylai’r dysgu newydd hwn arwain at eraill, sydd dim yn rhan uniongyrchol y Cyswllt Ffermio, yn defnyddio’r wybodaeth hon wrth symud i weithio yn y sector.

Eglurodd arweinydd y rhaglen ei fod yn teimlo bod rhaglen Cyswllt Ffermio yn ei chyfanrwydd wedi golygu bod pobl ifanc wedi gallu aros yn eu hardal leol ac ennill mwy o gyflogaeth drwy Cyswllt Ffermio.

*“Mae’n golygu y gall pobl ifanc barhau i helpu eu teuluoedd ar eu ffermydd, tra’n dal i ennill bywoliaeth yn y sector. Mae hyn yn bwysig ar gyfer dyfodol y sector a’r Gymraeg.”*

**Ychwanegedd a chyfraniad**

Honnodd nifer o’r buddiolwyr, heb Cyswllt Ffermio na fyddent wedi rhoi’r un newidiadau ar waith yn eu busnes. Gwnaethant hefyd grybwyll na fyddent wedi gallu fforddio’r wybodaeth arbenigol, nac ariannu’r cyrsiau heb y gefnogaeth. *“Nid oeddem yn gallu fforddio trefnu ymgynghorydd oni bai ei fod yn rhywbeth y gwyddom oedd wedi'i brofi. Gyda chymorth Cyswllt Ffermio, rydym wedi gallu cael mynediad at yr arbenigedd am gost is sydd wedi gwneud gwahaniaeth mawr i’n busnes.”*

Dywedodd buddiolwyr eraill bod y rhaglen naill ai wedi galluogi iddynt roi newid ar waith yn eu busnes yn gynt a/neu i safon uwch: “*ni fyddai’r busnes wedi arallgyfeirio ar y gyfradd y gwnaeth, does dim amheuaeth ynglŷn â hynny.”*

Mae buddiolwyr yn rhagweld newidiadau yn sut y caiff grantiau eu gweinyddu yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf, gyda ffactorau gwleidyddol yn achosi ansefydlogrwydd o fewn y sector. Gwnaethant hefyd grybwyll mwy o ffocws ar gynaliadwyedd, gyda ffermwyr angen gwella effeithlonrwydd drwy ganolbwyntio ar osod perthi a chadw eu hôl-troed carbon i lawr. *"Mae'n ymwneud â chanfod y cydbwysedd rhwng cynhyrchu bwyd a sut i fod mor amgylcheddol gyfeillgar ag y gallwn."* Roeddent yn teimlo bod gan Cyswllt Ffermio gyfrifoldeb i helpu i weinyddu cefnogaeth i fusnesau ddod yn fwy cynaliadwy a'u gwneud yn ymwybodol o'r grantiau sydd ar gael iddynt.

**Gwersi a goblygiadau**

Roedd buddiolwyr yn awyddus i Cyswllt Ffermio barhau i ariannu'r Academi Amaeth, gan ddweud ei bod yn rhaglen bwysig mewn helpu pobl i arallgyfeirio eu busnesau ac agor eu meddyliau i'r posibiliadau a'r cysylltiadau y gallwch eu creu o fewn y sector.

Dylai Cyswllt Ffermio hefyd barhau i gefnogi busnesau sy'n ceisio defnyddio datblygiadau technolegol i gasglu a dadansoddi data er mwyn gwella eu proffidioldeb. Awgrymodd un buddiolwr hyfforddiant meddalwedd i gynorthwyo ffermwyr i sefydlu systemau o'r fath.

**Agrisgôp**

**Rhagymadrodd**

Mae Agrisgôp yn rhaglen a ariennir yn llawn sy'n dwyn ynghyd grwpiau bach o bobl o'r un bryd i ddatblygu galluoedd y rheini sy'n rhan o'r rhaglen, gwella busnesau sy'n bodoli eisoes ac archwilio cyfleoedd newydd. Cafodd ei chyflwyno'n wreiddiol yn 2003 ac mae'n elfen allweddol yn y rhaglen Cyswllt Ffermio bresennol. Nod Agrisgôp yw newid cyfeiriadau meddwl, agweddau, hyder a gallu unigolion sy'n cymryd rhan ynddi, a fydd yn cynorthwyo ffermwyr i ganfod a datblygu syniadau a chyfleoedd yn eu busnesau.

Mae'r astudiaeth achos hon yn cwmpasu dau grŵp Agrisgôp, y ddau wedi'u harwain gan yr un hwylusydd: mae'r cyntaf yn cynnwys grŵp o fenywod sydd ag ystod o wahanol rolau yn y sector amaethyddol; ac mae'r ail yn cynnwys ffermwyr ar raddfa fach iawn sydd wedi arallgyfeirio i, neu'n canolbwyntio'n llwyr ar, arddwriaeth. Cynhaliwyd cyfweliad manwl wyneb yn wyneb gyda'r hwylusydd yn nau gam y gwerthusiad, ynghyd â chyfweliadau un i un gyda phum buddiolwr yng Ngham 1 a dilyn hynny i fyny gyda phedwar buddiolwr yng Ngham 2.

**Cyflenwi cefnogaeth**

Darperir y gefnogaeth drwy ddull dysgu gweithredol a chyfranogol, lle mae'r grŵp yn diffinio ei nodau ei hun a, dan arweiniad hwylusydd, yn datblygu ei ddatrysiadau/cyfleoedd ei hun. Fel arfer bydd yr hwylusydd wedi'i benodi gan MaB, ac mae'n gyfrifol am gydlynu'r grŵp, y gyllideb ac am adrodd yn ôl wrth MaB, a hwyluso trafodaethau ym mhob cyfarfod grŵp. Mae pob grŵp (fel arfer) wedi'i hunanddewis, ac mae ganddo gyllideb fechan ar gyfer 10 cyfarfod, llogi lleoliad a siaradwyr (os oes angen). Bydd pwnc pob grŵp - a phob sesiwn - yn cael ei ddiffinio gan y cyfranogwyr.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer yr astudiaeth achos hon yn awgrymu bod nifer o ffactorau'n allweddol i lwyddiant Agrisgôp:

- **Cefnogaeth cymheiriaid mewn grŵp bach sy'n gyfrinachol**: disgrifiwyd y sesiynau grŵp fel amgylchedd "hyfforddi", lle mae buddiolwyr mewn "lle diogel" a "di-fygythiad" i drafod materion ac archwilio syniadau. Mae cyfrinachedd yn hollbwysig, gan annog cyfranogwyr i siarad yn agored am yr heriau sy'n wynebu eu busnes.
- **Proses wedi'i hwyluso a chydweithredol o ddysgu gweithredol, gyda pherson cyswllt allweddol drwy'r cyfnod ac ar gyfer dilyn i fyny:** mae'r dull hwn yn annog gweithredu a myfyrio parhaus yn ystod y broses, a chanolbwyntio ar weithredu/rhoi ar waith, yn hytrach na dim ond trafod yn unig. Mae'r hwylusydd a chymheiriaid yn y grŵp yn darparu cefnogaeth drwy gydol y broses. Teimlir bod yr hwylusydd yn benodol yn allweddol mewn "procio", arwain a (pan fo angen) herio'r cyfranogwyr, sy'n hollbwysig er mwyn sicrhau bod y grŵp yn cadw ffocws ar ei nodau ac yn symud ymlaen. Ar gyfer cyfnod cyfan cefnogaeth Agrisgôp, yr

hwyluswyr yn y bôn yw cyswllt allweddol y grŵp ar gyfer anghenion cefnogaeth eu busnesau, ac maent yn darparu cyngor "cofleidiol" anffurfiol neu gyngor "ôl-ofal" (er bod yr amser a geir ar gyfer y gefnogaeth hon yn aml o fath arall gan yr hwylusydd) ac yn helpu i lywio drwy'r cynnig Cyswllt Ffermio yn ôl y galw.

- **Hyblygrwydd a'r gallu i addasu**: ysgogir ffocws Agrisgôp "o'r gwaelod i fyny" yn ôl yr heriau/cyfleoedd a nodir gan y ffermwyr sy'n rhan ohono, a gellir addasu'r ffocws i ddiwallu anghenion sy'n newid y ffermwyr. Roedd ymgynghoreion yn gwerthfawrogi "peidio cael rhywun yn dweud wrthynt beth i'w wneud" gan deimlo bod hyn yn helpu i sicrhau ymrwymiad i'r broses. Yn ogystal, mae amlder a dwysedd y cyfarfodydd yn hyblyg er mwyn darparu ar gyfer cynnydd tymhorol mewn llwyth gwaith ar gyfer gwahanol rannau o'r sector.
- **Adnodd i ddod â siaradwyr i mewn:** mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol er mwyn cyflwyno arbenigedd penodol i'r grŵp a rhoi ysbrydoliaeth ar gyfer cyfleoedd newydd (e.e. cadw gwenyn ar gyfer y grŵp garddwriaeth).

Fodd bynnag, fe fu hefyd rai heriau, ac mae rhai elfennau o Agrisgôp yn gweithio'n llai da: yn gyntaf, mae'n ymddangos mai cyfyngedig yw'r ymwybyddiaeth ar draws y ffermwyr y cysylltwyd â hwy ar gyfer yr astudiaeth achos hon (ac mewn grwpiau Agrisgôp eraill, yn ôl yr hwylusydd) bod cyfyngiad amser ar gefnogaeth Agrisgôp, ac nid yw meddwl am "beth nesaf" wedi'i integreiddio'n arbennig o dda i'r gweithgaredd; yna ail, mae cwestiwn ynglŷn ag a oes angen mwy o hyblygrwydd er mwyn darparu cefnogaeth bellach i grwpiau sydd â'r (i) potensial mwyaf ar gyfer effaith/goferu a/neu (ii) mwy o angen am ymyriad; ac yn drydydd, yn ôl yr hwylusydd, nid yw Agrisgôp wedi gweithio'n dda lle mae grwpiau wedi cael eu creu "o'r brig i lawr" gan bobl allanol, gyda grwpiau sydd wedi'u hunan-ffurfio yn dueddol o fod yn fwy llwyddiannus.

Mae Agrisgôp yn gynnig arbennig ar gyfer y sector amaethyddol yng Nghymru. Y dewis amgen agosaf iddo yw Grwpiau Trafod (a ddarperir drwy Cyswllt Ffermio a chryf eraill), ond nid yw'r rhain yn mabwysiadu'r dull dysgu gweithredol sy'n ffactor allweddol yn llwyddiant Agrisgôp. Wedi dweud hynny, mae gan Raglen Prince's Farm Resilience rai nodweddion a chryfderau tebyg yr awgrymodd yr ymgynghorai cyflenwi y gallai Agrisgôp ddysgu ganddi (yn arbennig y gallu i ddarparu mwy o gefnogaeth fanwl un i un gan yr hwylusydd Agrisgôp yr ymddiriedir ynddo er mwyn ysgogi gweithredu).

**Gweithredu**

Mae tystiolaeth yr astudiaeth achos yn awgrymu bod Agrisgôp, yn y rhan fwyaf o achosion, yn arwain at newidiadau bach a graddol o fewn busnesau dros gyfnod hir o amser – er enghraifft newidiadau i ddewis hadau er mwyn gwella ansawdd cynnyrch a'r offer a ddefnyddir. Gwelwyd bod llawer o'r buddiannau personol a ddisgrifir isod wedi parhau ar ôl cefnogaeth Agrisgôp, a bod Agrisgôp wedi rhoi'r hyder i'r cyfranogwyr ymgysylltu â/datblygu mwy o ymwybyddiaeth o agweddau eraill ar Cyswllt Ffermio (megis Clinigau, Cynlluniau Rheoli Maetholion, Safleoedd Arddangos a Mentora) sydd yn eu tro wedi annog newid.

Mewn rhai achosion, mae Agrisgôp yn rhoi sicrwydd bod arferion presennol neu gynlluniau newydd yn briodol ac felly nid yw’n arwain at newidiadau o fewn y busnes. Mae rhwystrau allweddol a amlygwyd gan ymgynghoreion sy’n llesteirio ar eu gallu i roi arferion a gwybodaeth newydd a gafwyd drwy Agrisgôp ar waith yn cynnwys mynediad cyfyngedig at gyfalaf i fuddsoddi mewn offer neu brosesau newydd, amser a gallu, strwythurau busnes a materion olyniaeth.

**Canlyniadau ac effeithiau ar gyfer buddiolwyr**

Gan ddefnyddio tystiolaeth gan yr hwylusydd a’r buddiolwyr yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer dau gam yr astudiaeth achos hon, y canlyniadau allweddol sy’n deillio o Agrisgôp yw’r canlynol:

- **Newid cyfeiriad meddwl, agweddau ac ymddygiadau**: drwy ddull dysgu gweithredol mae ffermwyr yn dysgu sut i feddwl ymlaen, myfyrio, gosod nodau, ystyried opsiynau a diffinio datrysiadau a, thrwy wneud hyn, mae Agrisgôp yn eu helpu i ddeall sut i newid eu busnes. Mae’n ymddangos bod annog newid mewn diwylliant – yn arbennig o ran parodrwydd ffermwyr i ystyried newid o fewn eu busnes a bod yn rhagweithiol – yn fudd allweddol sy’n deillio o Agrisgôp.
- **Gwneud penderfyniadau mwy gwybodus, a chynllun/gweledigaeth glir ar gyfer y busnes**: wedi’i gysylltu i’r pwynt uchod, i rai mae Agrisgôp wedi eu helpu i sylweddoli bod ganddynt reolaeth dros eu dyfodol ac y gallant ddylanwadu ar hyn. Disgrifiodd un ymgynghorai sut y mae ganddo nawr gynllun gyda mwy o ffocws iddo ar gyfer y busnes, teimlodd un arall bod y rhwydwaith cefnogi a ddatblygwyd drwy Agrisgôp wedi ei helpu i wneud penderfyniadau mwy gwybodus.
- **Hyder a manteision iechyd meddwl**: amlygwyd y canlyniad hwn gan yr holl fuddiolwyr yr ymgynghorwyd â hwy ar gyfer yr astudiaeth achos hon, gan gynnwys hyder i drafod cynlluniau olyniaeth a chyfleoedd arallgyfeirio gartref, hyder i ddilyn cyfleoedd arallgyfeirio, a hyder i fynychu cynhadledd amaethyddol yn Llundain. Disgrifiodd un o’r buddiolwyr sut y byddai’n cadw problemau iddo’i hun yn flaenorol, a oedd yn achosi llawer o straen, ac mae trafod y rhain drwy Agrisgôp wedi cynorthwyo i fynd i’r afael â’r pryderon hyn.
- **Gwybodaeth a sgiliau**: Mae Agrisgôp yn cynorthwyo i wella gwybodaeth a sgiliau drwy wybodaeth ar y cyd/a rennir gan y grŵp, drwy wahodd siaradwyr gwadd sydd â safbwyntiau allanol, a thrwy “ddysgu drwy wneud” fel grŵp. Mae’r sgiliau a gafaelwyd yn amrywio o well sgiliau cyfathrebu a negodi yng nghyd-destun polisi amaethyddiaeth i ddefnydd plaladdwyr.
- **Manteision rhwydweithio cynaledig:** mae rhwydweithiau cymdeithasol a busnes wedi’u datblygu drwy’r grwpiau, sydd wedi arwain at aelodau’n cefnogi ei gilydd yn anffurfiol y tu allan i sesiynau’r grŵp wedi i gefnogaeth Agrisgôp ddod i ben (yn y ddau grŵp).

Er bod yr ymgynghorai cyflenwi wedi gweld amrywiaeth enfawr ar draws grwpiau Agrisgôp, mae manteision datblygiad personol yn amlwg ar draws y mwyafrif o’r grwpiau.

Mae peth tystiolaeth i awgrymu bod Agrisgôp wedi cynorthwyo i greu **busnesau mwy cynaliadwy, effeithlon ac, mewn rhai achosion, busnesau sy'n tyfu mwy**. Yn aml, cyfuniad o ffactorau/cefnogaeth oedd wedi galluogi'r newid hwn yn hytrach nag un elfen benodol o Cyswllt Ffermio ac nid oedd yr un o'r buddiolwyr yr ymgynghorwyd â hwy yn gallu meintioli'r effaith ar eu busnes. Roedd rhai o'r busnesau yr ymgynghorwyd â hwy yn fach iawn ac nid oedd ganddynt gynlluniau ar gyfer tyfu ar raddfa fawr, ac felly roedd unrhyw newidiadau a oedd yn deillio o Cyswllt Ffermio ar raddfa fechan (er enghraifft, refeniw bach yn cael ei gynhyrchu o ganlyniad i ehangu amrediad cynhyrchion a llwybrau newydd i'r farchnad ar gyfer tyfu llysiau cartref). Wedi dweud hynny, dywedodd un ymgynghorai bod creu busnes cynaliadwy a hyfyw yn chwarae rôl bwysig mewn cadw cenedlaethau iau mewn ardaloedd gwledig ac ar gyfer cynaliadwyedd gwledig yn fwy cyffredinol.

**Canlyniadau ac effeithiau ehangach**

Mae tystiolaeth gyfyngedig o'r effaith y mae grwpiau Agrisgôp yn ei chael ar y gymuned ffermio/wledig yn ehangach y tu hwnt i gynorthwyo i greu busnesau cynaliadwy ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ffermwyr ac ar gyfer cynaliadwyedd cymuned wledig yn fwy cyffredinol. Mae cyfrinachedd grwpiau Agrisgôp yn cyfyngu ar i ba raddau y caiff dysgu ei rannu'n fwy eang y tu hwnt i'r rheini sy'n rhan o'r grŵp, ac nid yw'r cyfrifoldeb am rannu dysgu yn gyfrifoldeb penodol pob grŵp. Mae hi hefyd yn ymddangos mai cyfyngedig yw rhannu gwybodaeth rhwng grwpiau Agrisgôp neu ar draws y rhaglen Cyswllt Ffermio yn ehangach. Wedi dweud hynny, tynnodd yr hwylusydd sylw at un enghraifft lle'r oedd grŵp Agrisgôp arall wedi arwain at brosiect ymchwil EIP, a fydd wedyn yn cael ei ledaenu.

**Ychwanegedd a chyfraniad**

O ran ychwaneged, y consensws cyffredinol oedd na fyddai ffermwyr wedi cyfarfod/cydweithio yn y modd hwn heb Agrisgôp, ac na fyddai buddiolwyr y grŵp garddwriaeth chwaith wedi manteisio ar gefnogaeth ehangach Cyswllt Ffermio. Ar y cyfan, roedd ymgynghoreion yn dweud na fyddai canlyniadau wedi cael eu cyflawni o gwbl, neu byddent wedi eu cyflawni'n arafach, heb Agrisgôp. Mae'r dull dysgu gweithredol a phresenoldeb hwylusydd wedi bod yn allweddol mewn cyflymu newid ar draws y busnesau oedd yn rhan o'r rhaglen. Mae ychwaneged fel petai'n arbennig o uchel parthed canlyniadau meddalach ynglŷn â hyder a chyfeiriad meddwl.

Roedd dau fuddiolwr wedi gwneud cynnydd mwy sylweddol ers Cam 1, a phriodolwyd hyn i gyfuniad o'r gefnogaeth Cyswllt Ffermio a dderbyniwyd (e.e. Cynlluniau Rheoli Maetholion, Academi Amaeth, Mentora, Cymorthfeydd a chyngor un i un) ochr yn ochr â chyllid grant amaethyddol. Mae sesiynau dilyn i fyny wedi'u personoleiddio wedi bod yn bwysig drwy gydol y rhaglen. Roedd buddiolwyr eraill a oedd wedi gwneud rhywfaint o gynnydd (cyfyngedig) ers Cam 1 wedi cael llai o ymgysylltiad â Cyswllt Ffermio (neu gefnogaeth ehangach) wedi i'r grŵp Agrisgôp ddod i ben.

**Gwersi a goblygiadau**

Ar y cyfan, teimlir bod Agrisgôp yn elfen lwyddiannus iawn o Cyswllt Ffermio. Ffactorau allweddol sy'n hollbwysig i'w llwyddiant yw ei bod yn cael ei harwain gan ffermwyr; mae'n cael ei theilwra'n agos i anghenion; hyblygrwydd; cefnogaeth rhwng cymheiriaid yn cael ei darparu drwy ddysgu gweithredol (er mwyn sicrhau gweithrediad); ac, yn fwyaf pwysig, hwyluso. Yn ystod eu cyfnod ar raglen Agrisgôp mae'n ymddangos bod siwrneiau cwsmer ffermwyr yn cael eu rheoli'n effeithiol gan hwyluswyr (da). Mae'r cyswllt personol a pharhaus hwn yn bwysig mewn cynnal momentwm a gweithredu yn ystod Agrisgôp, ac mewn sicrhau bod ffermwyr (yn arbennig y rheini sy'n llai cyfarwydd â Cyswllt Ffermio) yn gwneud y defnydd gorau o'r cynnig ehangach i wella eu busnes. Mae Agrisgôp yn chwarae rôl bwysig mewn creu'r amodau a'r galluoedd ar gyfer newid (agweddau, datrys problemau, hyder) ac yn arbennig o effeithiol ar y cyd ag elfennau eraill o Cyswllt Ffermio, megis meincnodi a chyngor un i un.

## Safleoedd Arddangos

### Rhagymadrodd

Dewisir Safleoedd Arddangos er mwyn rhoi enghreifftiau o arfer gorau, technegau arloesol a thechnolegau newydd. Mae’r gweithgaredd hwn yn rhan o linyn Rhwydwaith Arddangos ehangach Cyswllt Ffermio, sydd â’r nod o ddangos technolegau ac arferion arloesol ym meysydd ffermio a choedwigaeth, ac i ledaenu dysgu drwy ddigwyddiadau ar-safle wedi’u cynllunio a chyhoeddiadau.

Mae Safleoedd yn gweithredu ac yn arddangos prosiectau sy’n canolbwyntio ar integreiddio technoleg newydd a/neu ddulliau newydd ar gyfer rheoli, gwella effeithlonrwydd a chynyddu proffidioldeb. Byddant yn cynnal diwrnodau agored a digwyddiadau cynnydd rheolaidd er mwyn rhannu gwybodaeth â’r diwydiant yn ehangach. Goruchwylir y gweithgarwch gan Swyddog Technegol ac fe’i cefnogir gan arbenigwyr yn y diwydiant sy’n cynorthwyo gyda datblygu prosiectau sector-penodol a monitro cynnydd.

Mae’r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar ddau Safle Arddangos yng Ngogledd Cymru ac yn defnyddio cyfweliadau gyda Swyddog Technegol, ffermwr Safle Arddangos (‘perchennog Safle’) a dau fuddiolwr. Sylwer bod yr ymgynghoriadau gyda’r Swyddog Technegol a buddiolwyr yn ymwneud â Safleoedd Arddangos gwahanol i un perchennog Safle, felly adroddir yr adborth ar wahân pa fo hynny’n briodol. Ymgynghorwyd â phawb oni bai am y perchennog Safle yn nau gam yr astudiaeth achos. Roedd prif weithgareddau busnes y buddiolwyr yn cynnwys ffermio defaid ac eidion ac mae’r holl fuddiolwyr wedi cyrchu gweithgareddau Cyswllt Ffermio eraill gan gynnwys Grwpiau Trafod, y Gwasanaeth Cynghori a meincnodi.

### Cyflenwi cefnogaeth

Mae Cyswllt Ffermio yn sefydlu Safleoedd Ffermio, yn darparu cymorth ariannol, ac yn cydlynu prosiectau a digwyddiadau ar-safle. Dros bedair blynedd, mae pob Safle yn ymrwymo i gynnal un digwyddiad agored a dau ddigwyddiad cynnydd y flwyddyn[96]. Fel arfer mae digwyddiadau agored yn cynnwys cyfle o weld ffyrdd newydd o weithio, gwrando ar siaradwyr sy’n arbenigwyr mewn sectorau perthnasol a thrafod. Hysbysebir digwyddiadau i ffermwyr yn y gymdogaeth ar ffurf gwahoddiadau drwy’r post a hysbysebion mewn papurau newydd, ac yn fwy eang ledled Cymru mewn erthyglau technegol deufisol. Trefnir digwyddiadau cynnydd gan yr Arweinydd Cyflenwi ar gyfer Grwpiau Trafod, y mae gan eu haelodau ddiddordeb yn y prosiect(au) sy’n cael ei roi ar waith yn y Safle Arddangos.

Ar gyfer y perchennog Safle, teimlwyd bod dod yn Safle Arddangos yn **ffordd dda i gyrchu cyngor a chefnogaeth** ar adeg pan oedd yn ystyried sut i “ddiogelu’r busnes at y dyfodol”.

[96] Cafodd hyn ei ddiweddaru ymlaen llaw, o dan y rhaglen wedi'i diweddaru cyflwynir Safleoedd Arddangos dros dair blynedd.

Ar gyfer y buddiolwyr, roedd ymgysylltiad yn rhoi **cyfle da i weld drostynt eu hunain weithrediad ymarferol arferion/technolegau newydd**, gan gynorthwyo i ddatblygu eu dealltwriaeth, a dangos manteision posibl gweithredu ffyrdd newydd o weithio[97]. Nododd y Swyddog Technegol bod **digwyddiadau yn aml yn denu ffermwyr mwy blaengar** sydd eisoes yn ystyried arferion a/neu dechnoleg newydd, a'u bod am gael cyngor a dysgu gan arfer gorau.

Fel rhan o'r lledaeniad ehangach, bydd dysgu gan Safleoedd Arddangos ar gael drwy flogiau ac erthyglau technegol ar wefan Cyswllt Ffermio, ac mewn cyhoeddiadau cysylltiedig â'r sector. Er enghraifft, cyflwynodd y Swyddog Technegol ganfyddiadau i Gymdeithas Defaid Genedlaethol (NSA) Cymru a chreodd fideo o'r gynhadledd Responsible use of Medicine in Agriculture Alliance (RUMA) yn Llundain.

Nid oes **Safle Arddangos 'nodweddiadol' gan fod pob fferm a/neu yr amrywiaeth o brosiectau yr ymgymerir â hwy yn unigryw**, ond mae'r strwythur a'r fformat, gydag un digwyddiad agored a dau ddigwyddiad cynnydd y flwyddyn, yn y bôn wedi bod yr un fath ers dechrau'r rhaglen Cyswllt Ffermio bresennol. Fodd bynnag, fel rhan o ddiweddariad Cyswllt Ffermio, mae pob Safle Arddangos i gael ei gysylltu'n agosach i Grŵp Trafod. Hefyd, er bod y Rhwydwaith Arddangos cynharach yn cynnwys tair haen – Arloesi, Safleoedd Arddangos a Ffocws – mae'r haen Arloesi erbyn hyn wedi cael ei dileu.

### Beth weithiodd yn dda a dim cystal

Roedd buddiolwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i weld **gweithrediad ymarferol arferion/technolegau newydd a ysgogodd syniadau, a dull cyfeillgar a chroesawgar** y lletywr a'r Swyddog Technegol. Nid wnaethant nodi unrhyw feysydd na weithiodd cystal.

Ar gyfer y Swyddog Technegol, roedd ffactorau llwyddiant allweddol yn cynnwys: **cyfeiriad meddwl y perchennog**, sef ei fod yn agored i weithredu newidiadau arloesol; bod â **fferm a berchir yn fawr**; a **dim gwleidyddiaeth deuluol** a allai fod wedi atal perchennog y Safle rhag gweithredu newidiadau. Fodd bynnag, byddai'r Swyddog Technegol am i ffermwyr Safleoedd Arddangos **drafod yn fwy agored eu Dangosyddion Perfformiad Allweddol** er mwyn gallu cymharu â Dangosyddion Perfformiad Allweddol mynychwyr digwyddiadau. Yn ogystal, byddai'n fuddiol i **ledaenu'r cynnig Gwasanaeth Cynghori er mwyn gwella parhad;** ar hyn o bryd nid yw'r holl ymgynghorwyr sy'n siarad mewn digwyddiadau Safle Arddangos yn rhan o hyn. Nododd y Swyddog Technegol yr amser sylweddol oedd ei angen i gyflwyno Safle Arddangos, a'r heriau o ddyfeisio prosiect(au) y gellir eu cyflwyno ochr yn ochr ag ymrwymiadau fferm parhaus.

Dywedodd y perchennog Safle bod yr **amrywiaeth o brosiectau wedi helpu i ddenu cynulleidfaoedd gwahanol a chynnal presenoldeb cyffredinol da** mewn digwyddiadau. Teimlwyd bod arbenigwyr/ymgynghorwyr, ynghyd â chefnogaeth barhaus gan Swyddog

[97] Yn ôl MaB, mae Safleoedd Arddangos hefyd yn cefnogi buddiolwyr i wneud penderfyniadau strategol ynglŷn â gweithredu arferion/technolegau oherwydd wedi iddynt weld technolegau/arferion newydd yn cael eu gweithredu ar Safle, gallant ystyried a yw'n hyfyw i'w busnesau hwyac felly lleihau'r risg o brofi a methu.

Technegol a oedd yn deall y busnes, yn ffactorau llwyddiant allweddol. Fe wnaeth ffermwyr y Safleoedd Arddangos gyfarfod â'i gilydd ar ddechrau eu hymglymiad, ond awgrymodd y perchennog Safle y byddai **cefnogaeth cymheiriaid ychwanegol wedi bod yn fuddiol,** drwy gyfarfod yn flynyddol (yn ddaearyddol efallai) gydag eraill, i rannu'r adborth a'r gwersi a ddysgwyd o ran cyflenwi prosiect[98].

### Cyd-fynd â chynnig ehangach Cyswllt Ffermio

Nododd ymgynghoreion bod y gweithgaredd hwn yn **cyd-fynd yn arbennig o dda gyda chefnogaeth gan y Gwasanaeth Cynghori, e-ddysgu a Grwpiau Trafod** gan fod y mecanweithiau hyn yn rhoi'r gefnogaeth fanwl/wedi'i phersonoleiddio angenrheidiol i ffermwyr ddatblygu syniad y maent wedi ei gael o ddigwyddiad. Efallai y bydd aelodau Grŵp Trafod yn dod i wybod am arbenigwyr perthnasol drwy fynychu Safleoedd Arddangos, ac yn eu gwahodd i siarad yn un o'u cyfarfodydd grŵp.

Roedd y perchennog Safle a buddiolwyr yr ymgynghorwyd â hwy **i gyd wedi ymgysylltu â gweithgaredd Cyswllt Ffermio arall**. Roedd hyn yn cynnwys: Grwpiau Trafod, y Gwasanaeth Cynghori, Cynllunio Rheoli Maetholion a digwyddiadau Cyswllt Ffermio/Cymorthfeydd. Roedd deunydd cyfathrebu Cyswllt Ffermio (taflenni, negeseuon testun, negeseuon e-bost) a'r Swyddog Datblygu lleol (*"eithriadol o dda"*) yn llwybrau allweddol i gyrchu'r cynnig Cyswllt Ffermio ehangach.

Mae **Safleoedd Arddangos a Safleoedd Ffocws** yn ymwneud â digwyddiadau ar-safle er mwyn rhannu arfer gorau ac arddangos arloesedd. Mae eu gweithgareddau'n gyflenwol o ran bod Safleoedd Arddangos yn rhannu gwahanol enghreifftiau o arfer gorau, arloesi a thechnoleg newydd, tra bod Safleoedd Ffocws yn canolbwyntio ar brosiectau unigol ac arfer da.

### Gweithredu

Roedd prosiectau perchennog y Safle Arddangos yn cynnwys:

- defnyddio coleri gwres (defnyddio Deallusrwydd Artiffisial) ar wartheg sugno i leihau'r cyfnod amser (diwrnodau neu fisoedd) rhwng geni llo a genedigaeth llo dilynol
- archwilio sut i leihau swm y silwair bêls a gollir wrth fwydo defaid
- digwyddiad glaswelltir ar gynyddu cyflenwad porthiant a dyfir gartref mewn ymateb i sychder 2018.

**Roedd y ddau fuddiolwr wedi gweithredu newidiadau'n llwyddiannus ar ôl ymweld â'r Safle Arddangos.** Maent yn dod yn rhan o grŵp ehangach o ffermwyr sydd wedi lleihau defnydd o wrthfiotigau yn ystod ŵyna drwy broffilio metabolig mamogiaid, arferion hylendid llym a chynlluniau iechyd anifeiliaid newydd. Fe wnaeth un o'r buddiolwyr hefyd nodi

[98] Yn ôl MaB cynhelir cyfarfodydd ychwanegol gyda Safleoedd Arddangos, gan gynnwys cyfarfod yn flynyddol yn y Sioe Frenhinol.

newidiadau eraill a wnaed o ganlyniad i gefnogaeth ehangach Cyswllt Ffermio: addasiadau i ddefnydd gwrtaith/tail/dom er mwyn sicrhau'r pH pridd cywir yn dilyn samplu pridd, ac, o ganlyniad i'r Grŵp Trafod, newidiodd storfa porthiant/tail/dom.

Roedd ffactorau allweddol mewn galluogi newid yn cynnwys cymhelliant ffermwr i fabwysiadu arferion newydd a oedd wedi bod yn llwyddiannus ar fferm cyd-ffermwr, a natur amserol y prosiect/digwyddiad. Ni nodwyd unrhyw ffactorau mawr fel rhai oedd yn llesteirio newid, ond dywedodd un buddiolwr bod y gost ariannol gychwynnol yn her gan fod nifer o newidiadau wedi cael eu cyflwyno ar yr un pryd. Cadarnhaodd adborth gan y Swyddog Technegol y gall arian fod yn rhwystr gan fod yn rhaid i unrhyw newid *"wneud synnwyr yn ariannol",* fodd bynnag, teimlwyd mai amser oedd y rhwystr mwyaf sylweddol wrth weithredu newid: mae dyletswyddau megis glanhau'r siediau bob pythefnos yn drwm ar adnoddau.

**Canlyniadau ac effeithiau ar gyfer buddiolwyr**

Nododd ymgynghoreion (y perchennog Safle a'r buddiolwyr) **amrywiaeth o fanteision personol** o fod yn gysylltiedig yn Cyswllt Ffermio, gan gynnwys **gwell gwybodaeth dechnegol a/neu reoli busnes** a gafwyd drwy'r gweithgarwch Safle Arddangos a'u hymglymiad ehangach yn Cyswllt Ffermio. Fe wnaeth un buddiolwr hefyd bwysleisio **pwysigrwydd Cyswllt Ffermio mewn annog ymgysylltu a thrafodaethau gyda ffermwyr eraill** - *"Rydych yn dysgu gan eich gilydd".* Nododd y Swyddog Technegol fod digwyddiadau Cyswllt Ffermio yn rhoi'r cyfle i ffermwyr gael trafodaethau amrywiol/ymgysylltu'n gymdeithasol. Drwy ddod yn Safle Arddangos cafodd perchennog y Safle y cymhelliant oedd ei angen arno i roi'r newidiadau yr oedd eisoes yn eu hystyried ar waith. Yna rhoddodd hynny *"hwb seicolegol"* ychwanegol o weld y gwelliannau a ddilynodd ar gyfer y busnes.

Mae'r **effeithiau cronedig hyn wedi gwella gwytnwch busnes y perchennog Safle**. Un o'r prif ganlyniadau fu **lleihad yn y cyfnod lloia**[99] o ganlyniad i ddatgeliad gwres - lleihaodd cyfnod lloia gwartheg sugno i 401 diwrnod i 370 diwrnod, o gymharu â chyfnod lloia optimaidd o 365 diwrnod - ac felly helpu i gynyddu proffidioldeb. Teimlwyd hefyd bod rhoi'r gorau i ffermio defaid a chanolbwyntio ar fagu gwartheg sugno wedi gwella hyfywedd busnes dros y tymor hwy. Er bod yr oriau sydd eu hangen i redeg y fferm wedi cynyddu, mae'r busnes hefyd wedi cynyddu cynhyrchiant drwy fabwysiadau technoleg/arferion newydd, ac nid oes staff ychwanegol wedi cael eu cyflogi. Sicrhawyd rheolaeth fwy cynaliadwy ar adnoddau drwy newid rheolaeth glaswelltir o bori lefel stocio i bori mewn cylchdro.

Ar gyfer y ddau fuddiolwr, canlyniad gweithredu arferion ŵyna newydd oedd **lleihad mewn defnydd gwrthfiotigau** (roedd un buddiolwr yn amcangyfrif lleihad gwerth 50% mewn

---

[99] Cyfnod lloia yw'r amser rhwng genedigaeth llo a genedigaeth llo dilynol o'r un fuwch. Cyfartaledd cenedlaethol Cymru oedd 426 diwrnod yn 2013. Amcangyfrifir bod buches nodweddiadol y DU yn colli £250 y fuwch y flwyddyn trwy gyfnod lloia gwael (i gael enghraifft, gweler yma).

defnydd gwrthfiotigau), **a gwelliant mewn iechyd a pherfformiad y ddiadell**. Yn ei dro mae hyn wedi arwain at leihad mewn costau.[100] Gan edrych ymlaen dros y ddwy flynedd nesaf, roedd y ddau ymgynghorai yn disgwyl gweld cynnydd mewn proffidioldeb a gwelliant cyffredinol yng nghynaliadwyedd eu busnesau. Dywedodd y ddau fuddiolwr fod y Safle Arddangos yn elfen allweddol ar gyfer gwella perfformiad eu busnes, ond gwnaethant nodi hefyd elfennau eraill o gefnogaeth Cyswllt Ffermio a oedd yn ddefnyddiol, gan gynnwys samplu pridd a mynychu digwyddiadau eraill Cyswllt Ffermio.

**Canlyniadau ac effeithiau ehangach**

Mae'r gynhadledd ar gyfer NSA Cymru a chreu fideo ar gyfer cynhadledd RUMA yn Llundain yn dangos bod **gwybodaeth a dysgu o Safleoedd Arddangos wedi cael eu lledaenu ar draws Cymru ac yn fwy eang**. Credai'r Swyddog Technegol bod yr enghreifftiau hyn wedi annog **Safleoedd Arddangos eraill i ledaenu canlyniadau prosiect yn fwy eang** ar draws gwahanol gymunedau.

Nododd perchennog Safle o Safle Arddangos gwahanol fanteision ehangach eraill. Daeth canlyniadau'r prosiect bêls yn bwnc trafod mewn cymdeithasau glaswelltir, a gwnaeth y canfyddiadau'n ymwneud â choleri gwres yn lleihau cyfnod lloia hefyd enyn sylw, gan nad oedd y coleri wedi eu defnyddio'n flaenorol ar wartheg sugno.

**Ychwanegedd a chyfraniad**

Credai'r ymgynghoreion fod **cefnogaeth Cyswllt Ffermio yn ychwanegol**. Dywedodd un buddiolwr y **byddai heb gyflawni'r un canlyniadau** o well sgiliau ac arbenigedd, newid arferion fferm a gwell perfformiad fferm heb Cyswllt Ffermio oherwydd nad oedd hi'n debygol y byddai'n cael yr un lefel o gefnogaeth/cyngor a oedd ei angen yn rhywle arall. Dywedodd y ddau ymgynghorai arall **y byddai'r un canlyniadau wedi'u cyflawni, ond nid mor gyflym.** Eglurodd un er ei fod eisoes yn awyddus i wneud gwelliannau, bod Cyswllt Ffermio wedi canolbwyntio ei ymdrechion ar feysydd allweddol ac wedi rhoi'r ysgogiad ar gyfer newid. Credai'r ymgynghorai arall bod newidiadau wedi cael eu gwneud yn gyflymach gan fod Cyswllt Ffermio yn rhoi *"sbotolau*" ar y busnes.

**Cymysg yw'r canfyddiadau parthed priodoliad.** Nododd dau o'r ymgynghoreion newidiadau eraill a ddigwyddodd yn eu busnes ar yr un adeg neu wedi eu hymgysylltiad â Cyswllt Ffermio, y rhain oedd: i) cynnydd mewn defnydd technoleg i wella cofnodi data, a ii) meincnodi. Er y teimlwyd bod y cyntaf yn llai arwyddocaol na Cyswllt Ffermio o ran cefnogi gwelliant perfformiad busnes, ystyriwyd yr ail yn ysgogwr allweddol newid ochr yn ochr â Cyswllt Ffermio. Ni wnaeth y trydydd buddiolwr nodi unrhyw newidiadau mewnol ar yr un pryd a gafodd effaith sylweddol, ac ni wnaeth yr ymgynghoreion nodi unrhyw ffactorau allanol mawr a oedd wedi dylanwadu ar effaith Cyswllt Ffermio ar berfformiad busnes.

[100] Ni chafodd arbedion cost eu meintioli gan fuddiolwyr: nododd un y byddai costau'n cael eu monitro dros gyfnod o dair blynedd ac yna cymryd cyfartaledd.

**Gwersi a chanlyniadau**

Mae'r **ystod eang o brosiectau a gyflwynwyd ar draws Safleoedd Arddangos** wedi rhoi cyfleoedd gwerthfawr i unigolion weld dulliau arloesol a thechnolegau yn cael eu rhoi ar waith, ac i drafod gyda'u cymheiriaid. Roedd y buddiolwyr wedi llwyddo i roi prosiectau tebyg ar waith yn eu busnesau eu hunain (weithiau gyda chefnogaeth ychwanegol gan Cyswllt Ffermio) sydd wedi cynorthwyo i wella lles anifeiliaid, lleihau costau a gwella cynaliadwyedd eu busnesau.

**Roedd yr ymgynghoreion yn fodlon gyda chwmpas a chyflenwad Safleoedd Arddangos.** Roedd y ffactorau llwyddiant hollbwysig a nodwyd gan yr ymgynghoreion yn cynnwys: i) cyfuniad o Rwydwaith Arddangos a Grwpiau Trafod mewn hwyluso trafodaethau ar syniadau newydd; ii) elfennau cymdeithasol y rhaglen; iii) darpariaeth cyngor arbenigol ar-fferm; iv) sicrhau bod newidiadau yn y pen draw yn cael eu hysgogi gan fusnesau yn hytrach nag unigolyn allanol neu raglen benodol. Roedd meysydd posibl ar gyfer gwella yn cynnwys mwy o gyfarfodydd rheolaidd rhwng yr holl ffermwyr Safleoedd Arddangos a sicrhau bod ffermwyr Safleoedd Arddangos yn trafod Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn agored.

**Astudiaeth Achos Grŵp Trafod**

**Rhagymadrodd**

Fel arfer mae gan Grwpiau Targed (GTau) rhwng wyth a deg aelod sy'n magu'r un bridiau/tyfu'r un cnydau yn yr un gymdogaeth ac felly'n wynebu heriau a chyfleoedd tebyg. Hwylusir bob GT gan Swyddog Datblygu Cyswllt Ffermio, sy'n trefnu'r cyfarfodydd ac yn cysylltu â siaradwyr.

Mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar GT Llaeth ac yn defnyddio cyfweliadau gyda hwylusydd y GT a thri ffermwr a oedd yn rhan yn y GT yng Ngham 1 a Cham 2. Roedd y buddiolwyr yr ymgynghorwyd â hwy i gyd wedi bod yn rhan mewn elfennau eraill o Cyswllt Ffermio megis digwyddiadau, Safleoedd Arddangos a'r Gwasanaeth Cynghori grŵp.

**Cyflenwi cefnogaeth**

Mae pob cyfarfod GT yn ymdrin ag un pwnc ac yn cymryd tua dwy awr, ac maent yn cynnwys cyflwyniad gan siaradwr arbenigol a sesiwn holi ac ateb. Pan fo hynny'n bosibl mae'r cyflwyniad yn defnyddio data meincnodi a gasglwyd gan y cyfranogwyr. Mae'r hwylusydd hefyd yn rhoi diweddariadau am elfennau ehangach Cyswllt Ffermio, er enghraifft digwyddiadau lleol a gynhelir yn fuan. Dilynir cyfarfod GT mwy ffurfiol gan ginio er mwyn caniatáu i drafodaeth anffurfiol barhau. Roedd cyfarfodydd ar gyfer y GT a gwmpesir gan yr astudiaeth achos hon fel arfer yn cael eu cynnal rhwng mis Medi a mis Ebrill/Mai fel bod y misoedd sy'n weddill yn cael eu cadw'n rhydd ar gyfer cynaeafu ac ati.

Nid oes math nodweddiadol o GT gan fod, hyd yn oed ar gyfer GTau sy'n ymdrin â'r un sector, oed y cyfranogwyr, maint a natur y broblem a wynebir ganddynt, a deinameg personol mewn cyfarfodydd TG i gyd yn amrywio. Fodd bynnag, mae cyfranogwyr yn ymgysylltu â GTau am yr un rhesymau cyffredin sef eisiau dysgu gan siaradwyr arbenigol a'u cymheiriaid. Mae meincnodi data hefyd yn cynorthwyo i amlygu meysydd ar gyfer gwella.

Nid yw fformat y GTau wedi newid ers iddynt gael eu cyflwyno ar ddechrau'r rhaglen Cyswllt Ffermio bresennol, er yn dilyn diweddariad Cyswllt Ffermio mae cysylltiad agosach gyda Ffermydd Arddangos. Roedd un o'r buddiolwyr yr ymgynghorwyd ag ef eisoes wedi gwneud cais i ddod yn Fferm Arddangos y tu allan i'r broses GT, felly yn yr achos hwnnw ni chafodd diweddariad Cyswllt Ffermio effaith sylweddol ar y GT.

Mae'n bwysig cael aelodaeth GT yn gywir drwy sicrhau cymysgedd o bersonoliaethau - y rheini sy'n lleisio barn yn gyson yn ogystal â'r rheini sy'n dda am wrando - a chymysgedd o berfformiadau fferm i wneud yn siŵr bod yna fusnesau y gellir dysgu ganddynt a rhai a allai wella. Mae bod â hwylusydd GT gwybodus i ofyn cwestiynau synhwyrol ac ysgogi trafodaeth grŵp hefyd yn ffactor llwyddiant allweddol, tra bod amserlennu'r sesiwn GT ar adeg gyfleus o'r flwyddyn/diwrnod ar gyfer y cyfranogwyr yn hollbwysig er mwyn sicrhau'r presenoldeb gorau posibl. Parthed y siaradwr, mae'n rhaid iddo ef/iddi hi fod yn wybodus ac

yn ddiddorol, yn gallu cymysgu theori gyda thrafodaeth ymarferol (gan gynnwys data meincnodi), cael ei ystyried yn rhywun niwtral yn hytrach nag un sy'n 'gwthio' nwyddau/gwasanaeth penodol, yn dod â safbwynt ffres o tu allan i'r ardal leol, a bod yn barod i ymgysylltu ag aelodau GT dros y ffôn/drwy e-bost wedi'r cyfarfod.

Ni chafodd siaradwyr gwael dderbyniad da, er nad yw bob amser yn hawdd asesu safon siaradwr ymlaen llaw. Roedd heriau hefyd o ran presenoldeb, gan y gallai materion annisgwyl godi ar ffermydd ychydig cyn cyfarfod ac atal y ffermwr rhag mynychu. Weithiau aed i'r afael â hyn drwy fod perchennog busnes a/neu gyflogeion yn cymryd rhan yn y cyfarfodydd yn lle'r mynychwr arferol.

Mae gan GTau nodweddion tebyg i grwpiau Agrisgôp o ran dysgu gan gymheiriaid, a digwyddiadau Cyswllt Ffermio o ran cyflwyniadau gan arbenigwyr. Fodd bynnag, mae'r GTau yn arbennig ac yn gyflenwol i linynnau eraill Cyswllt Ffermio gan eu bod yn sesiynau grŵp bach sydd â'r nod o ledaenu gwybodaeth a thrafod o fewn grŵp dethol ond heb ddull dysgu gweithredol penodol Agrisgôp. Mae pob cyfarfod GT hefyd yn cynnig fforwm i'r hwylusydd dynnu sylw ar elfennau eraill Cyswllt Ffermio a allai fod yn ddefnyddiol i fuddiolwyr, e.e. digwyddiadau perthnasol, dyddiadau terfyn ar gyfer ceisiadau grant ac ati.

**Gweithredu**

Roedd y buddiolwyr yr ymgynghorwyd â hwy wedi rhoi arferion newydd ar waith o ganlyniad i GT gan gynnwys mesurau i: wella'r cyfnod lloia; lleihau defnydd gwrthfiotigau; rheoli mastitis; a rheoli pydewau silwair. Roedd newidiadau nad oedd yn gysylltiedig â'r GT hefyd wedi'u rhoi ar waith, yn bennaf oherwydd cyngor un i un, e.e. yn ymwneud â defnydd gwrtaith, storio slyri, a system lloia ar dywod.

Roedd ffactorau allweddol mewn galluogi newid yn cynnwys cymhelliant y ffermwr i fabwysiadu arferion sydd wedi bod yn llwyddiannus ar ffermydd cymheiriaid (sydd ar y cyfan yn debyg i'w un hwy). Hefyd, dangosodd ddefnydd data meincnodi maint posibl y budd o welliannau. Roedd maint cymharol fach y newidiadau'n golygu y gallai buddiolwyr roi'r rhain ar waith eu hunain, neu gyda chymorth partner allweddol megis milfeddyg. Yn olaf, fe wnaeth dysgu gan y GT hefyd gymell rhai cyfranogwyr i gyrchu cyngor un i un a'u galluogodd i wneud newidiadau mwy. Mewn un achos, llwyddodd cyngor un i un ei gwneud hi'n bosibl i ffermwr beidio gorfod gwneud buddsoddiad sylweddol mewn gwella storfa silwair gan fod yr arbenigwr wedi gallu awgrymu datrysiad mwy cost effeithiol.

Roedd ffactorau a oedd wedi llesteirio newid yn cynnwys diffyg cyllid i weithredu rhai o'r newidiadau a ddymunwyd, anghytundebau rhwng y genhedlaeth hŷn ac iau ynglŷn â pha newidiadau ddylid eu rhoi ar waith a phryd, a statws y fuches o ran clefydau. Er enghraifft, weithiau gall presenoldeb TB rwystro gweithrediad strategaethau i wella ffrwythlondeb a/neu swm y llaeth.

## Canlyniadau ac effeithiau ar gyfer buddiolwyr

Soniodd y ffermwyr yr ymgynghorwyd â hwy am fanteision personol a oedd yn cynnwys gwell gwybodaeth dechnegol, e.e. ynglŷn â chyfyngu lledaeniad clefyd penodol, a gafwyd gan y siaradwyr arbenigol a wahoddwyd i'r sesiynau GT. Roedd un buddiolwr hefyd yn gwerthfawrogi'r cyfarfodydd TG gan eu bod yn "*rhoi'r teimlad ein bod ar siwrnai gyda'n gilydd yn hytrach na'n poeni ar ein pen ein hunain*."

Roedd y newidiadau a roddwyd ar waith o ganlyniad i GT yn gymharol fach ac yn canolbwyntio ar un elfen o'r busnes, ond arweiniodd rhai at effaith fawr. Er enghraifft, arbedodd un buddiolwr tua £200/wythnos o ganlyniad i well system storio silwair. Newidiodd un arall amseriad ac amlder ffrwythloni artiffisial – ymhlith mesurau eraill – ac felly lleihau'r cyfnod lloia gan 40 diwrnod ar draws buches o 150, gan greu arbediad o tua £18k y flwyddyn.[101] Soniodd aelodau GT hefyd am effeithiau ariannol nad oedd yn gysylltiedig â'r GT, er enghraifft arbedodd un buddiolwr £5k y flwyddyn drwy newid gwrtaith yn dilyn sesiwn cyngor un i un. Fe wnaeth newid y math o wrtaith hefyd gael gwared ar effaith anffafriol ar yr amgylchedd.

Rhagwelwyd effeithiau eraill ar fusnes o ganlyniad i newidiadau diweddar a ysgogwyd gan y GT sydd hyd yma heb eu trosi'n well gwytnwch a chynaliadwyedd busnes. Er enghraifft, o ganlyniad i gyflwyniad mewn cyfarfod GT, cyrchodd un ffermwr gyngor un i un ar sut i leihau trosglwyddiad mastitis ac ym mis Ionawr 2020 rhoddodd system lloia ar dywod ar waith a disgwylir iddi arwain at fanteision i'r busnes drwy well cynnyrch llaeth. Mae'r enghraifft hon yn dangos y gall ymglymiad yn y GTau yn ei hun fod yn ddigon i greu effeithiau, ond mewn achosion eraill mae'n rhaid cyfuno'r GT gydag elfennau ehangach o gefnogaeth Cyswllt Ffermio.

## Canlyniadau ac effeithiau ehangach

Drwy'r cyflwyniad a thrafodaeth grŵp mae'r GTau yn effeithiol mewn hwyluso cyfnewid gwybodaeth rhwng y siaradwr a'r cyfranogwyr, a hefyd rhwng y cyfranogwyr a'i gilydd. Fodd bynnag, nid oes mecanwaith ffurfiol i ledaenu'r wybodaeth hon i drydydd partïon. Er bod buddiolwyr yn adrodd am sgyrsiau anffurfiol gyda'r rheini tu allan i'r GT, nid oedd effeithiau dilynol y rhain yn hysbys.

## Ychwanegedd a chyfraniad

Adroddodd cyfranogwyr bod y GTau yn ychwanegol dros ben. Nid oedd gan gyfranogwyr unigol yr amser i drefnu cyfarfodydd, y wybodaeth am ba siaradwyr i'w gwadd na'r arian i

[101] Cyfnod lloia yw'r amser rhwng genedigaeth llo a genedigaeth llo dilynol o'r un fuwch. Yn gyffredinol, ystyrir bod y cyfnod targed tybiannol yn 400 diwrnod. Amcangyfrifir bod colled o tua £3 i fusnes y fferm fesul buwch am bob diwrnod yr eir y tu hwnt i hyn, yn bennaf o ganlyniad i golli cynhyrchiad llaeth. I gael enghraifft gweler yma

dalu amdanynt. Er y bydd ffermwyr efallai'n cyfarfod yn y mart neu mewn lleoliadau cymdeithasol, mae'r sgyrsiau hyn yn debygol o fod ar lefel cyffredinol yn hytrach na'r trafodaethau manwl a geir yng nghyfarfodydd y GT. Felly, heb y GT byddai ffermwyr yn annhebygol i ddysgu am y newidiadau buddiol y gwnaethant wedyn eu gweithredu, yn arbennig lle arweiniodd trafodaeth anffurfiol rhwng cymheiriaid at syniadau a oedd yn ddiriaethol berthnasol i bwnc gwreiddiol y cyfarfod.

Cymysg yw asesiad buddiolwyr o gyfraniad, o fewn Cyswllt Ffermio ac mewn perthynas â ffactorau allanol. O gymharu ag elfennau eraill Cyswllt Ffermio, y GT oedd yn ffactor mwyaf arwyddocaol mewn gwella perfformiad busnes i un buddiolwr, tra bod dau arall yn dweud mai'r gefnogaeth Cyswllt Ffermio ehangach oedd y cyfranogwr mwyaf arwyddocaol a/neu a fyddai yn y dyfodol pan fyddai effeithiau newidiadau a roddwyd ar waith yn ddiweddar yn dwyn ffrwyth. O ran effeithiau allanol, prynodd un buddiolwr swm sylweddol o dir âr a dywedodd bod yr incwm newydd o'r cnydau hyn yn ffactor mwy arwyddocaol i berfformiad y busnes na newidiadau a wnaed drwy Cyswllt Ffermio. Fodd bynnag, dywedodd y ddau fuddiolwr arall bod Cyswllt Ffermio, iddynt hwy, yn ei gyfanrwydd yn fwy arwyddocaol na ffactorau allanol gan ei bod yn cynorthwyo i dynnu sylw at faterion a chynnig ymatebion. Roedd y ffactorau allanol hyn yn cynnwys contractau ag archfarchnadoedd (sy'n cynnig cefnogaeth cynllunio busnes), cyngor gan drydydd partïon megis milfeddygon, a newid rheolau a rheoliadau, e.e. ar storio slyri.

**Gwersi a chanlyniadau**

Drwy ddarparu fforwm ar gyfer trafod gydag arbenigwyr a chymheiriaid, mae'r GTau wedi creu manteision o ran busnes ac yn bersonol ar gyfer ffermwyr. Mae aelodau GT hefyd wedi gallu gweithredu newidiadau ar y fferm oherwydd y wybodaeth a gafwyd yn y cyfarfodydd GT, weithiau gyda chefnogaeth elfennau eraill Cyswllt Ffermio. Gan nad oes mecanwaith ffurfiol i annog trosglwyddo gwybodaeth i drydydd partïon, mae'r manteision y gwyddom amdanynt wedi'u cyfyngu i aelodau'r GT.

Mae ffactorau llwyddiant allweddol ar gyfer y GTau y cynnwys yr hwylusydd yn meithrin ymddiriedaeth gyda chyfranogwyr, yn rhannol drwy ddefnydd anfeirniadol o ddata, er enghraifft cyflwyno cyfleoedd i wella yn hytrach na beirniadu perfformiad gwael. Mae mewnbwn aelodau GTau i bynciau cyfarfodydd hefyd wedi cynorthwyo ffermwyr i aros wedi'u hymgysylltu. Mae cael y siaradwr 'cywir' yn bwysig, ynghyd â chymysgedd o gyfranogwyr sy'n barod i rannu eu profiadau. Mae cyfyngu ar faint GTau hefyd yn cynorthwyo i greu awyrgylch o drafodaeth yn hytrach na darlith, gyda chyfraniadau gan, a chyfnewid rhwng, ffermwyr.

## Astudiaeth Achos E-ddysgu

### Rhagymadrodd

Mae cynnig e-ddysgu Cyswllt Ffermio yn cynnwys cyrsiau byr ar-lein sy'n cymryd tua 15-30 i'w cwblhau. Hwn yw'r llinyn mwyaf ysgafn o gefnogaeth sgiliau sydd ar gael gan Cyswllt Ffermio.

Er mwyn llywio'r astudiaeth achos hon gwnaethom siarad â'r arweinwyr e-ddysgu yn IBERS a Lantra, yn ogystal â saith ffermwr yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r astudiaeth achos flaenorol. Roedd pob un o'r ffermwyr wedi cwblhau'r modiwlau 'Rheoli Pori' neu 'Cyllid Fferm', neu'r ddau. Roedd chwech o'r ymgynghoreion wedi parhau i ymgysylltu â chefnogaeth Cyswllt Ffermio ac un heb wneud hynny. Roedd yr ymgynghoreion i gyd o ffermydd teuluol bach neu gymedrol eu maint. Roedd y sectorau'n amrywio ac yn cynnwys ffermwyr llaeth, defaid, ceffylau, grawnfwydydd a rhai oedd wedi arallgyfeirio neu a oedd yn y broses o arallgyfeirio i faes twristiaeth. Mae'r astudiaeth achos hefyd yn defnyddio data monitro Cyswllt Ffermio yn yr adran ganlynol.

Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymgynghoreion wedi parhau i ddefnyddio'r e-ddysgu, gan eu bod wedi cwblhau'r modiwlau perthnasol oedd yn cael eu cynnig cyn yr ymgynghoriadau Cam 1. O'r ymgynghoreion, dim ond un oedd wedi parhau i ymgysylltu'n ystyrlon â'r e-ddysgu, tra bod eraill yn dal i ddefnyddio'r e-ddysgu ar gyfer uwchsgilio eu cyflogeion.

Cymysg oedd lefel yr ymgysylltu gyda gweddill y gefnogaeth Cyswllt Ffermio. Roedd rhai wedi aros gyda dysgu ar-lein i ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau. Ar gyfer yr ymgynghoreion hynny, roedd e-ddysgu a phresenoldeb ar-lein ehangach Cyswllt Ffermio (gan gynnwys fideos YouTube a thaflenni technegol) yn rhan o'u darllen ehangach ar bynciau oedd o ddiddordeb. Dyfynnodd yr ymgynghoreion hyn ffynonellau eraill megis cynnwys gan sefydliadau/cyrff ffermio eraill, cylchgronau a llyfrau amaethyddiaeth. Dangosodd yr ymgynghoreion hyn ffafriaeth tuag at ddysgu drwy ddarllen, ond gwnaethant hefyd sôn am hygyrchedd, cost ac elw cyfyngedig am y costau (gan adlewyrchu maint bach eu busnes) fel rhwystrau i fanteisio ar gefnogaeth fwy dwys gan Cyswllt Ffermio - megis mynychu cyrsiau hyfforddi yn bersonol.

Ar gyfer ymgynghoreion eraill, roedd yr e-ddysgu wedi ategu a dechrau ymgysylltiad â chynnig ehangach Cyswllt Ffermio. Cynigodd yr e-ddysgu gyflwyniad byr i bynciau a'r arferion ffermio da oedd yn gysylltiedig â'r rheini. Gwnaeth hyn eu cynorthwyo i ddeall y wybodaeth, sgiliau ac arferion oedd angen iddynt eu datblygu ymhellach drwy gefnogaeth fwy dwys, gan arwain at iddynt fanteisio ar hyfforddiant a chefnogaeth gynghori. Roeddent yn cynnwys dau ddechreuwr newydd, yr oedd yr e-ddysgu wedi bod yn amhrisiadwy iddynt er mwyn rhoi cyflwyniad a'u cynorthwyo i ddeall beth ddylai eu blaenoriaethau fod.

**Cyflenwi cefnogaeth**

Cyflwynwyd cynnig e-ddysgu Cyswllt Ffermio fel elfen newydd yn rhaglen 2014-2020. Datblygwyd y modiwlau e-ddysgu gan Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) ym Mhrifysgol Aberystwyth gyda chefnogaeth gan Lantra.

Brigodd nifer y cyrsiau oedd ar gael yn 74 yn ystod 2019, ond mae rhai cyrsiau is eu safon wedi cael eu tynnu o'r cynnig ers hynny, ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn roedd archwiliad ar y gweill. Ar ddechrau mis Tachwedd 2019[102] roedd 4,610 o gyrsiau wedi'u cwblhau gan 3,188 o unigolion. O'r rheini, roedd 2,783 (87%) wedi cwblhau dim ond y modiwl Iechyd a Diogelwch sy'n orfodol er mwyn cyrchu cyrsiau Lefel 3 drwy Cyswllt Ffermio. Dim ond 405 o ddefnyddwyr a gwblhaodd modiwlau eraill, gyda chyfanswm o 1,436 o gyrsiau yn cael eu cwblhau. Un o uchelgeisiau allweddol Cyswllt Ffermio yw cynyddu nifer y cyrsiau ychwanegol sy'n cael eu cwblhau gan y rheini sy'n cwblhau'r Modiwl Iechyd a Diogelwch. Y cyrsiau mwyaf poblogaidd oedd Cyllid Fferm (74 wedi'i gwblhau), Cloffni Defaid (69), Rheoli Pori (66), Rheoli Llyngyr yr Afu/Iau ar Fferm (60), Ŵyna - Y Sylfeini (57) a Chynllunio Busnes (56). Mae defnyddiwr nodweddiadol rhwng 25-40 oed ac yn fwy tueddol o fod yn wryw.

Ers Astudiaeth Achos Cam 1, mae nifer o newidiadau wedi'u gwneud i'r cynnig e-ddysgu.

- Canolbwyntio ar ansawdd yn hytrach na nifer. Mae cyrsiau wedi cael eu hail-gynllunio i fod o ansawdd uwch, yn fwy cyson a mwy rhyngweithiol. Yn flaenorol ffeithlenni yn y bôn oedd llawer o'r cyrsiau is eu hansawdd. Gan adlewyrchu'r newid hwn mewn ffocws, mae'r targed ar gyfer nifer y cyrsiau erbyn mis Awst 2020 wedi cael ei newid o 120 i 70.
- Mae gwefan Cyswllt Ffermio a gwefan BOSS sy'n lletya'r e-ddysgu wedi eu diweddaru, ac mae'r cyrsiau wedi cael eu hail-gategoreiddio. Mae hyn wedi gwella'r llywio rhwng y ddwy wefan. Sylwyd bod BOSS wedi'i gwella a chafodd dderbyniad cadarnhaol gan yr holl ymgynghoreion, er bod un yn poeni am y rheini oedd â sgiliau llythrennedd ddigidol gwan yn cael anhawster i newid i'r wefan newydd. Mae'r platfform newydd wedi bod yn bwysig mewn galluogi dyluniad gwell a mwy cyson y cwrs.
- Mae mwy o weithdrefnau sicrwydd ansawdd wedi cael eu sefydlu, ac mae cyfrifoldeb am greu modiwlau e-ddysgu nawr gydag aelod newydd o staff yn IBERS sydd â'r sgiliau priodol.
- Mae'r gyllideb ar gyfer cynnwys yr e-ddysgu wedi cynyddu, gan alluogi i gynnwys o ansawdd uwch gael ei ffynonellau. Er enghraifft, mae cyrsiau a gynlluniwyd yn ddiweddar yn defnyddio deunydd o'r Gwasanaeth Gwybodaeth Cenedlaethol am Glefydau Anifeiliaid (NADIS).
- Mae yna nawr fersiwn Gymraeg o'r e-ddysgu er mwyn ehangu ei hygyrchedd.
- Diwygiwyd yr iaith, er mwyn lleihau ei chymhlethdod a sicrhau ei bod yn hygyrch.

[102] Dim ond hyd at y dyddiad hwn yr oedd data e-ddysgu ar gael

- Mae rolau wedi cael eu diffinio’n well ac mae cyfathrebu wedi gwella. Nid yw Menter a Busnes yn chwarae rôl mwyach mewn darparu cynnwys, ond yn hytrach mae’n llywio’r pynciau yr ymdrinnir â hwy.

Nid oedd y cyrsiau newydd a diwygiedig wedi cael eu lansio ar adeg yr ymgynghoriadau gyda Lantra ym mis Mawrth 2020, gan eu bod yn aros i Lywodraeth Cymru eu cymeradwyo. Bydd strategaeth farchnata yn cyd-fynd â’r e-ddysgu newydd a fydd wedi’i thargedu fwy ac yn defnyddio dull mwy tymhorol ac amserol ar gyfer rhyddhau a hyrwyddo cyrsiau. Gan edrych i’r dyfodol, mae yna hefyd fwriad i:

- Barhau i weithio gyda chydweithwyr er mwyn cynyddu nifer y myfyrwyr sy’n dilyn cyrsiau. Roedd diwygio’r iaith er mwyn lleihau cymhlethdod yn gais allweddol gan golegau a oedd wedi ymgysylltu fel rhan o’r broses hon
- Gwella cysylltiad rhwng yr e-ddysgu a’r cynnig Cyswllt Ffermio ehangach. Er enghraifft, anfon dolen ar gyfer yr e-ddysgu at y rheini a oedd yn cyfranogi mewn cwrs hyfforddi perthnasol cyn neu wedi’r cwrs. Nododd IBERS y byddai hyn yn gofyn am gael rhywun oedd â digon o feta-olwg o’r cynnig Cyswllt Ffermio i nodi cysylltiadau posibl.

Ar gyfer y rheini oedd yn cyflenwi’r gefnogaeth, un mater sy’n dal heb ei ddatrys yw prinder adborth gan ddefnyddwyr, er gwaethaf y ddarpariaeth ar gyfer darparu adborth sydd wedi’i chynnwys yn y cyrsiau.

Ar gyfer y ffermwyr yr ymgysylltwyd â hwy, apêl e-ddysgu oedd ei fod yn gyfleus, hygyrch ac y gellid ei gyrchu am ddim. Roedd y ffermwyr yn gallu ei ffitio i mewn i’w hamserlenni ac nid yw’n gofyn am yr un lefel o amser ac ymrwymiad ariannol â theithio i ddigwyddiad.

> “Rwy’n teimlo ei fod yn ddefnyddiol iawn, oherwydd fy mod yn gallu ei wneud gyda’r hwyr.”
>
> “Rydw i’n gallu ei wneud pan fyddaf am ei wneud yn hytrach na gorfod teithio’n bell”

Y rhwystrau i ddefnyddio’r cynnig e-ddysgu a nodwyd gan ymgynghoreion oedd diffyg offer TG, lefel isel o lythrennedd ddigidol a chysylltiadau rhyngrwyd gwael ar gyfer ffermwyr. Gan ystyried y newidiadau oedd wedi’u rhoi ar waith a’r rhai arfaethedig o safbwynt y ffermwyr yr ymgynghorwyd â hwy, mae dau sylw allweddol:

- Roedd diweddariad y wefan wedi cael derbyniad da a theimlwyd ei bod yn haws i’w gwe-lywio ac yn llai anhylaw (“*Mae’n sicr yn fwy cyfeillgar i ddefnyddwyr nad yr oedd hi cynt*”)
- Roedd galw clir am well cysylltiad rhwng e-ddysgu a’r cynnig cefnogaeth ehangach, yn ogystal â chysylltu Cyswllt Ffermio yn fwy cyffredinol. Roedd y diffyg cyswllt yn cyfyngu ar y niferoedd oedd yn manteisio ar gefnogaeth gyflenwol a pherthnasol ychwanegol, gan nad oedd defnyddwyr yn aml yn ymwybodol o gefnogaeth bellach, neu’n methu dod o hyd iddi, ar bynciau yr oeddent wedi ymgysylltu â hwy.

Holwyd yr ymgynghoreion ynglŷn ag i ba raddau y mae'r e-ddysgu yn dyblygu neu'n ategu cefnogaeth sydd i'w chael mewn mannau eraill. Ni wnaeth yr un o'r ymgynghoreion nodi enghreifftiau eraill o gyrsiau e-ddysgu penodol i ffermio, felly mae fformat y gefnogaeth yn nodedig. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd yn flaenorol, cyrchu'r e-ddysgu oedd un rhan yn unig o ddatblygiad gwybodaeth a sgiliau'r ymgynghorai: fe'i defnyddiwyd i ategu ac arwain at gefnogaeth fanylach gan Cyswllt Ffermio a/neu fel rhan o ddarllen ehangach ar bynciau o ddiddordeb. Roedd ffynonellau eraill yn cynnwys tudalennau gan sefydliadau ffermio eraill (megis ADHB), erthyglau mewn cylchgronau a llyfrau ffermio. Teimlwyd bod Cyswllt Ffermio yn fan cychwyn da a gwerthfawr ar gyfer pwnc, gan ei fod yn ffynhonnell awdurdodol ymhlith llu o wybodaeth sydd ar gael ar-lein. Roedd un ymgynghorai a oedd yn newydd i ffermio yn teimlo bod grwpiau ffermio ar Facebook yn fwrdd seinio defnyddiol, mewn modd tebyg i Grwpiau Trafod.

**Gweithredu**

Ar gyfer yr ymgynghoreion, roedd natur gyflwyniadol a byr y cynnwys yn golygu nad oedd e-ddysgu ar ei ben ei hun yn sail ddigonol ar gyfer newid. Fe wnaeth, fodd bynnag, chwarae rôl werthfawr yn eu siwrneiau i roi arferion newydd ar waith. Roedd y cyrsiau yn cyflwyno rhai ymgynghoreion i syniadau ac arferion newydd, neu'n cynorthwyo i gadarnhau arferion presennol neu uchelgeisiau. Cwblhau'r e-ddysgu oedd un elfen o'u hymchwil i wella eu harfer, wedi'i ategu gan, neu'n fan cychwyn i, ddarllen ehangach. Roedd hefyd yn arwain at eu hymgysylltiad a chynnig cefnogaeth fwy dwys Cyswllt Ffermio, pan oedd gan ymgynghoreion ddigon o ddiddordeb mewn arfer neu syniad penodol i ddatblygu sgiliau neu fanteisio ar gefnogaeth cynghori. Er enghraifft:

- Cyflwynodd un ymgynghorai bori mewn cylchdro  fel rhan o'i system rheoli pori. Roedd modiwl e-ddysgu yn hyrwyddo manteision posibl y dull hwn a gwnaeth hynny lywio ei benderfyniad, ond darllenodd yn llawer ehangach cyn rhoi'r system ar waith
- Cwblhaodd ymgynghorai a oedd yn newydd i ffermio nifer o gyrsiau e-ddysgu er mwyn datblygu ei ddealltwriaeth o arferion ffermio a busnes da. Roedd cyrsiau'n ymwneud â phori a rheoli glaswellt wedi helpu i gadarnhau pwysigrwydd sicrhau gwelliannau yn y meysydd hyn. Wedi hynny cyfranogodd yr ymgynghorai yn y cwrs dwys Rhagori ar Bori, datblygodd gynllun maetholion pridd ac mae'n bwriadu meincnodi gyda Grŵp Trafod. Er nad oedd hyn wedi'i briodoli'n llwyr i'r modiwlau e-ddysgu, chwaraeodd y modiwlau ran bwysig yn ei siwrnai.

**Canlyniadau ac effeithiau ar gyfer buddiolwyr**

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ganlyniadau ac effaith a brofwyd gan ymgynghoreion. Ni phriodolwyd y rhain i e-ddysgu ar ei ben ei hun, ond dylent gael eu hystyried ochr yn ochr â'u hymchwil ehangach a'r defnydd o gefnogaeth mwy dwys - y gwelwyd bod e-ddysgu yn ei ategu ac weithiau'n ei ysgogi.

- Soniodd pedwar ymgynghorai oedd wedi canolbwyntio'n benodol ar reoli glaswellt (gan gynnwys dau oedd wedi cyfranogi yn Rhagori ar Bori) am well tyfiant glaswellt drwy well systemau rheoli a phori, a defnydd mwy deallus o wrtaith. Arweiniodd hyn at i'w ffermydd fod yn fwy hunan-gynaledig, gyda chostau is ac anifeiliaid mwy cynhyrchiol, cynnydd mewn cynhyrchiant a gwytnwch ariannol.
- Roedd un ymgynghorai'n gallu lleihau ei ddiadell o ddefaid gan 50% ond lleihau nifer yr ŵyn gorffenedig gan ddim ond 30%. Roedd hyn yn bosibl drwy well rheolaeth ar bori ac iechyd anifeiliaid, yr ail yn adlewyrchu'n rhannol cymaint yn haws oedd rheoli iechyd gyda diadell lai. Golygodd y ddiadell lai a gwell rheolaeth ar bori bod yn fferm yn fwy hunan-gynaledig, gyda'r ddiadell yn cael ei bwydo gyda gwair a gwywair y fferm, a lleihawyd swm yr atchwanegolion oedd eu hangen. Ar y cyfan, lleihaodd hyn gostau, amser ac ymdrech gan arwain at gynnydd mewn cynhyrchiant, elw a gwytnwch. Roedd y lleihad ym maint y ddiadell yn arbennig o bwysig ar gyfer cynllunio olyniaeth yr ymgynghorai gan fod ei ferch yn ddarlithydd ac felly mae ei hamser i ymroi i'r fferm wedi'i gyfyngu.
- Dywedodd dau o'r ymgynghoreion bod y cwrs e-ddysgu 'Cyllid Fferm' wedi cynorthwyo i sefydlu gallu cynllunio ariannol da, yn arbennig ochr yn ochr â'r gefnogaeth yn ymwneud â chynllunio busnes ac adnoddau ar-lein cysylltiedig gan Cyswllt Ffermio megis templedi cynllun busnes. Roedd hyn wedi bod o fudd iddynt i ganolbwyntio ar wella cynhyrchiant a gwytnwch ariannol.
- Pwysleisiodd dau ffermwr newydd y byddai wedi bod yn anodd iddynt gael dealltwriaeth gynhwysfawr ar nifer o agweddau ar ffermio a beth yw arfer da heb Cyswllt Ffermio. Teimlwyd bod cael cefnogaeth Cyswllt Ffermio o dan un faner yn werthfawr iawn mewn cyflymu'r broses hon. Iddynt hwy, golygodd ystod a natur gyflwyniadol yr e-ddysgu ei fod yn adnodd allweddol ar gyfer eu cyflwyniad i ffermio.
- Pwysleisiodd dau ymgynghorai bod cydymffurfio â rheoliadau a diogelwch yn flaenoriaethau. Roedd hyfforddiant Cyswllt Ffermio wedi bod yn bwysig mewn sicrhau eu bod yn cydymffurfio o ran eu harferion mewn plaladdwyr a rheoli pla.
- Roedd un ymgynghorai wedi defnyddio'r e-ddysgu, a chynnig Cyswllt Ffermio ehangach, er mwyn uwchsgilio ei chyflogai ifanc.

Dywedodd rhai ymgynghoreion nad oeddent wedi gallu cyrchu cefnogaeth fwy dwys, megis hyfforddiant neu grantiau ar gyfer peiriannau, gan nad oeddent yn ddigon mawr neu nad oedd ganddynt ddigon o arian ymlaen llaw i wneud cais am rai grantiau - roedd yr enillion yn rhy hirdymor i warantu buddsoddiad o'r fath.

**Canlyniadau ac effeithiau ehangach**

Ni wnaeth yr ymgynghoreion nodi unrhyw fanteision ehangach ar gyfer y rheini nad oedd yn uniongyrchol gysylltiedig. Soniodd rhai o'r ymgynghoreion am bwysigrwydd ffermwyr yn siarad â'u cymdogion, yn y mart neu ar gyfryngau cymdeithasol er mwyn lledaenu arfer gorau, ond ni allent nodi enghreifftiau penodol lle'r oedd hyn wedi lledaenu gwybodaeth o Cyswllt Ffermio.

**Ychwanegedd a chyfraniad**

Roedd y rhan fwyaf o ymgynghoreion yn disgwyl y byddai'r gwelliannau yr oeddent yn eu dyfynnu wedi digwydd heb e-ddysgu Cyswllt Ffermio, er yn arafach ac o bosibl ar raddfa lai. Teimlwyd bod y wybodaeth o Cyswllt Ffermio yn ddibynadwy ac awdurdodol, fel y gallent fod yn fwy hyderus mewn gweithredu ar wybodaeth newydd, neu pan fyddai Cyswllt Ffermio yn cadarnhau bod eu harferion presennol yn arfer da. Roedd y rheini oedd wedi derbyn cefnogaeth fwy dwys neu eang yn debygol o fod yn fwy amheus y byddent wedi cael yr effeithiau cadarnhaol heb Cyswllt Ffermio.

**Gwersi a Chanlyniadau**

Ar sail y wybodaeth a ddarparwyd, mae disgwyl i'r e-ddysgu diwygiedig (nad oedd wedi'i lansio ar adeg yr ymgynghoriadau) a gwefannau Cyswllt Ffermio/BOSS wedi'u diweddaru fynd i'r afael â nifer o'r materion a amlygwyd gan yr astudiaeth achos e-ddysgu yng Ngham 1. Yn arbennig, dylai'r newidiadau mewn cynnwys fynd i'r afael â'r mater o anghysondeb rhwng cyrsiau a rhai cyrsiau yn is eu safon.

Y mater allweddol sy'n dal heb ei ddatrys yw'r angen am well cysylltiad rhwng e-ddysgu a chefnogaeth arall Cyswllt Ffermio[103], er ein bod yn ymwybodol bod y mater hwn yn cael ei ystyried a rhagwelir hefyd gamau i fynd i'r afael ag ef. Yr angen am y gwelliant hwn oedd yr awgrym mwyaf amlwg gan ymgynghoreion, a ail-adroddwyd ar draws ddau gam yr ymgynghoriad. Byddai gwell cysylltiadau yn mwyhau effeithiolrwydd, gan y gwelwyd bod effaith yn digwydd pan oedd defnyddwyr e-ddysgu yn dod i gysylltiad â syniadau ac arferion newydd, a'u bod wedyn yn dilyn hynny gydag ymchwil ehangach a manteisio ar gefnogaeth fwy dwys. Ar gyfer y dyfodol, uchelgais bwysig ar gyfer Cyswllt Ffermio yw bod defnyddwyr yn cwblhau nifer o gyrsiau e-ddysgu. Dylai gwell ansawdd, cysondeb, amlygrwydd, hygyrchedd a marchnata gynorthwyo i wireddu hyn.

Yn olaf, roedd y rheini yr ymgynghorwyd â hwy wedi dilyn cyrsiau e-ddysgu oherwydd ei fod am ddim a'i fod yn gyfleus. Nododd yr ymgynghoreion yn gyson gost a chyfleustra fel rhwystrau i fanteisio ar gefnogaeth ychwanegol gan Cyswllt Ffermio. I ryw raddau, roedd hyn yn adlewyrchu maint bychan ffermydd yr ymgynghoreion; roedd rhai'n teimlo bod hyfforddiant neu Wasanaethau Cynghori yn afresymol o ddrud, gan deimlo nad oedd lefel y buddsoddiad oedd ei angen yn ymarferol pan nad oeddent yn disgwyl iddynt weld ffrwyth y buddsoddiad am nifer o flynyddoedd. O ran cyfleustra, roedd rhai ymgynghoreion yn siomedig iawn fod amseriad neu leoliad y gefnogaeth ychwanegol yr oedd ganddynt ddiddordeb ynddi yn golygu nad oedd hi'n bosibl iddynt fynychu. Er enghraifft, roedd un ymgynghorai'n awyddus i fynychu Grŵp Trafod, i gael budd o ryngweithio mewn grŵp yn ogystal â chyrchu grant ar gyfer offer sy'n gofyn am fod wedi mynychu'r grŵp. Fodd bynnag,

[103] Sylwer: ers cynnal yr ymchwil ar gyfer y gwerthusiad hwn, gwnaed mwy o waith cydlynu rhwng ymgyrchoedd ac e-ddysgu.

roedd ei gyfrifoldeb gofal plant gyda’r hwyr a dim llawer o ffermydd tebyg gerllaw yn golygu nad oedd yn gallu manteisio ar y cyfle hwn.

Awgrymodd yr ymgynghorai y gallai rhai Grwpiau Trafod a pheth hyfforddiant ddigwydd ar-lein er mwyn lleihau rhwystrau i gyfranogi. Efallai ei bod yn werth ystyried hyn, yn arbennig yng nghyd-destun y gofynion presennol ar gyfer cadw pellter cymdeithasol oherwydd COVID-19, ac ansicrwydd ynglŷn â phryd y bydd y rheolau’n cael eu llacio.

**Astudiaeth Achos Safle Ffocws**

**Rhagymadrodd**

Mae Safleoedd Ffocws yn darparu prosiectau a threialon 'untro' ar draws ystod eang o bynciau, fel rhan o linyn Rhwydwaith Arddangos ehangach Cyswllt Ffermio, sydd â'r nod o arddangos technolegau ac arferion arloesol ym meysydd ffermio a choedwigoedd, ac i ledaenu dysgu drwy ddigwyddiadau ar-safle sydd wedi'u cynllunio a chyhoeddiadau. Sefydlir a rheolir Safleoedd Ffocws gan Swyddogion Technegol Cyswllt Ffermio ond mae'r 'perchennog Safle' hefyd yn chwarae rhan bwysig yn y broses. Yn ychwanegol at y digwyddiadau, mae rhai perchnogion Safle, gan gynnwys testun yr astudiaeth achos hon, yn darparu mwy o gyngor ad hoc a chyfleoedd i ymweld â'r safle.

Mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar Safle Ffocws yng Ngogledd Cymru ac yn defnyddio cyfweliadau gyda'r Swyddog Technegol a oedd yn goruchwylio'r gweithgaredd, perchennog y Safle, a dau fuddiolwr. Ymgynghorwyd â'r cyfan ohonynt yn nau gam yr astudiaeth achos. Prif weithgareddau busnes y buddiolwyr oedd ffermio defaid a choedwigaeth, ac maent wedi cyrchu gweithgareddau Cyswllt Ffermio eraill gan gynnwys e-ddysgu, y Gwasanaeth Cynghori un i un a chynlluniau busnes, ond ymgysylltiad â'r Safle Ffocws yw canolbwynt yr astudiaeth achos hon.

**Cyflenwi cefnogaeth**

Goruchwylir gweithgaredd Safle Ffocws gan Swyddog Technegol, sy'n gyfrifol am ddyfeisio prosiectau Safle Ffocws perthnasol a llawn gwybodaeth, a threfnu digwyddiadau diwrnod agored, gan gynnwys trefnu siaradwyr priodol a hysbysebu digwyddiadau drwy sianeli cyfathrebu Cyswllt Ffermio. Cyfranogodd y Safle sy'n ganolbwynt i'r astudiaeth achos hon ym menter Fferm Ffocws Cyswllt Ffermio yn ystod 2016-2017 pan gynhaliwyd tri phrif ddigwyddiad. Cynhaliodd y Safle hefyd ddigwyddiadau llai ar gyfer sefydliadau/unigolion mewn ymateb i geisiadau penodol (er enghraifft, gan grŵp Prifysgol). Fe wnaeth y buddiolwyr fynychu naill ai un neu ddau ddigwyddiad ar y Safle ond gwnaethant hefyd dderbyn cyngor 'ad hoc' gan y Swyddog Technegol a/neu berchennog y Safle. Bydd y rhan fwyaf o ffermwyr yn mynychu digwyddiadau ar Safleoedd Ffocws i **gael syniadau, ysbrydoliaeth a gwybodaeth ymarferol, y gellir wedyn eu rhoi ar waith yn eu busnes eu hunain.** Fodd bynnag, bydd rhai'n mynychu oherwydd chwilfrydedd heb y bwriad o weithredu arferion/technolegau tebyg.

Caiff gwybodaeth a geir o weithgaredd Safle Ffocws ei lledaenu'n bennaf drwy ddiwrnodau agored lle bydd buddiolwyr yn cael **cyfle i brofi gweithrediad ymarferol newidiadau, gwrando ar siaradwyr arbenigol, a chydweithio â'r Swyddog Technegol a pherchennog y Safle.** Hefyd, lledaenir dysgu drwy gyhoeddi erthyglau technegol, blog, a fideos ar wefan Cyswllt Ffermio (a ystyrir yn ddull effeithiol iawn gan y Swyddog Technegol), yn ogystal â chael ei ledaenu'n fwy eang, er enghraifft mewn erthyglau/cyfnodolion perthnasol ar gyfer y sector.

**Nid oes Safle Ffocws 'nodweddiadol' gan fod pob prosiect a fferm yn wahanol,** a bwriedir i ddigwyddiadau fod yn addas ar gyfer cyd-destun/logisteg ffermydd unigol. Er hynny, mae fformat cyffredinol pob digwyddiad Safe Ffocws yn debyg: cyflwyniad (sy'n cynnwys tri neu bedwar siaradwr) a thaith o amgylch y technolegau a/neu arferion perthnasol, a bydd yn para tua phedair awr.

Mae'r **fformat cyflenwi ar gyfer Safleoedd Ffocws wedi aros ar y cyfan yn debyg** ers dechrau'r rhaglen Cyswllt Ffermio bresennol; fodd bynnag, mae'r Swyddog Technegol wedi **treialu cynnal digwyddiadau byrrach gyda'r hwyr** (tua 2.5 awr) er mwyn hybu presenoldeb. Yn ogystal, fel rhan o ddiweddariad Cyswllt Ffermio mae'r Rhwydwaith Arddangos wedi ei haddasu. Yn wreiddiol roedd y Rhwydwaith yn cefnogi dull 3 haen a oedd yn cynnwys Arloesi, Safleoedd Arddangos a Ffocws, ond ers diweddariad y rhaglen mae'r rhwydwaith wedi dod yn ddull 2 haen sy'n cynnwys Safleoedd Arddangos a Ffocws yn unig.

**Beth weithiodd yn dda a dim cystal**

Teimlwyd bod perthynas dda rhwng y Swyddog Technegol a pherchennog y Safle yn hollbwysig ar gyfer darpariaeth effeithiol Safle Ffocws. Teimlodd perchennog y Safle a'r buddiolwyr bod gwybodaeth ac arbenigedd y Swyddog Technegol yn werthfawr, tra bod y Swyddog Technegol yn teimlo bod cymhelliant ac agwedd perchennog y Safle yn hollbwysig i lwyddiant y prosiect. Roedd buddiolwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle i weld goblygiadau ymarferol newidiadau, agwedd parod ei gymorth a brwdfrydig y Swyddog Technegol a pherchennog y Safle ac, yn gysylltiedig â hyn, y cyfle i ofyn cwestiynau wrth yr arbenigwyr. Nodwyd mai dod o hyd i siaradwyr priodol o ansawdd da oedd yr elfen fwyaf heriol mewn cyflwyno digwyddiadau Safle ffocws.

**Cyd-fynd â chynnig ehangach Cyswllt Ffermio**

Nododd yr ymgynghoreion bod y gweithgarwch **yn cyd-fynd yn arbennig o dda â chefnogaeth gan y Gwasanaeth Cynghori a Mentora** gan fod hyn yn caniatáu i ffermwyr gael mynediad at gefnogaeth wedi'i phersonoleiddio ar bwnc penodol, ac i archwilio syniadau a gynhyrchwyd o ddigwyddiad Safle Ffocws. **Teimlwyd bod cynllunio busnes hefyd yn weithgaredd dilyn i fyny defnyddiol** fel y gall unigolion ymchwilio a chynllunio hyfywedd rhoi prosiect newydd ar waith neu newid gweithrediadau busnes.

Roedd **perchennog y Safle a'r buddiolwyr yr ymgynghorwyd â hwy wedi ymgysylltu â'r gweithgarwch Cyswllt Ffermio ehangach**, gan gynnwys Cynllunio Busnes, CDPau, cyrsiau hyfforddi a digwyddiadau Cyswllt Ffermio. Mae cyfathrebu gyda'r Swyddog Technegol, y Swyddog Datblygu lleol a deunydd cyfathrebu Cyswllt Ffermio (er enghraifft, y wefan, negeseuon e-bost) wedi bod yn llwybrau allweddol i gyrchu'r cynnig Cyswllt Ffermio ehangach.

**Mae nodweddion tebyg rhwng Safleoedd Ffocws a Safleoedd Arddangos,** o ran bod y ddau'n cynnwys digwyddiadau ar-safle er mwyn rhannu arfer gorau ac arddangos arloesedd

ar waith. Mae'r gweithgareddau'n gyflenwol gan fod Safleoedd Ffocws yn cynnwys prosiectau 'untro', lle bo Safleoedd Arddangos yn rhannu gwahanol enghreifftiau o arfer gorau, arloesi a thechnolegau yn ystod eu hymglymiad yn y fenter.

**Gweithredu**

Roedd un o'r ddau fuddiolwr yr ymgynghorwyd â hwy wedi gweithredu newidiadau'n llwyddiannus ar ôl ymweld â'r arddangosfa biomas yn y Safle Ffocws; roedd y llall wedi ceisio rhoi newidiadau ar waith ond wedi sylweddoli nad oedd hynny'n ymarferol. Cyflwynodd y buddiolwr cyntaf System Gwres a Phŵer Cyfunedig (CHP) a daeth yn achrededig ar gyfer y Fenter Gwres Adnewyddadwy (RHI). Roedd yr ail fuddiolwr hefyd wedi bwriadu manteisio ar yr RHI, ond teimlodd bod y broses yn rhy fiwrocrataidd, a gyda galw cyfyngedig yn lleol, ni aeth ymlaen â'r fenter. Fodd bynnag, ni ddylid ystyried hyn yn ganlyniad negyddol, gan fod cefnogi ffermwyr i wneud penderfyniadau busnes strategol yn sylfaenol i sail resymegol Safleoedd Ffocws, a'r Rhwydwaith Arddangos yn fwy cyffredinol. Gwnaeth y buddiolwr newidiadau eraill o ganlyniad i gefnogaeth ehangach Cyswllt Ffermio (yn bennaf yn dilyn digwyddiadau Cyswllt Ffermio a thrafodaethau gyda Swyddog Technegol), megis calchu caeau a phlannu coed ewcalyptws. O safbwynt y Swyddog Technegol nid yw pawb yn gweithredu newidiadau ar ôl mynychu digwyddiad Safle Ffocws, yn hytrach bydd unigolion yn aml yn gwneud ymholiadau ar yn archwilio opsiynau posibl. Hefyd, roedd y prosiect Safle Ffocws penodol hwn yn gymhleth, 'unigryw' ac yn gofyn am fuddsoddiad ar raddfa fawr, felly mae'r rheini sydd wedi mabwysiadau a gweithredu'r dechnoleg hon hyd yma wedi bod yn brin.

Roedd ffactorau allweddol mewn galluogi newid yn cynnwys cyflenwad lleol o ddeunyddiau crai, targedau Llywodraeth i gynyddu cynhyrchiad ynni adnewyddadwy ac, yn gysylltiedig â hyn, bodolaeth RHI, a chymhelliant ffermwr i fabwysiadu arferion a oedd wedi bod yn llwyddiannus ar ffermydd cymheiriaid. Roedd ffactorau a oedd yn llesteirio newid yn cynnwys y rheini sy'n fewnol i'r busnes, megis cyfyngiadau ariannol, a ffactorau allanol megis prosesau llywodraeth (er enghraifft, rhai'n ymwneud â'r RHI neu'r broses o wneud cais am grant) ac amodau'r farchnad leol.

**Canlyniadau ac effeithiau ar gyfer buddiolwyr**

**Adroddodd yr unigolion yr ymgynghorwyd â hwy (y perchennog Safle a'r buddiolwyr) fudd personol o ganlyniad i ymgysylltu â Cyswllt Ffermio**, o ran datblygu gwybodaeth, naill ai drwy weithgarwch Safleoedd Ffocws yn uniongyrchol neu drwy fod yn rhan mewn cyfuniad o weithgareddau Cyswllt Ffermio. Fe wnaeth perchennog y Safle hefyd nodi buddiannau cymdeithasol, sef bod digwyddiadau'n "*dwyn pobl ynghyd",* ac yn rhoi cyfle iddo gyfarfod ac ymgysylltu ag unigolion nad oedd yn eu hadnabod cyn hynny.

**Ar gyfer perchennog y Safle, mae'r prosiect arallgyfeirio** (y Safle Ffocws) **wedi arwain at effeithiau sylweddol ar gyfer y busnes.** Mae arallgyfeirio wedi cynyddu hyfywedd y busnes yn sylweddol, gan arwain at **gynnydd (tua) pedair gwaith drosodd mewn**

**trosiant**, ac felly mae'r gweithgareddau ffermio blaenorol wedi cael eu stopio. Yn allweddol i'r fenter arallgyfeirio fu rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau a manteisio ar gyfleoedd i sicrhau arbedion effeithlonrwydd; er enghraifft, prynwyd tractor newydd a wnaeth gynyddu cynhyrchiant drwy oriau gweithredu byrrach. Gan edrych i'r dyfodol, mae potensial i dyfu gweithrediadau a chynyddu'r trosiant ymhellach. Fodd bynnag, byddai hynny'n galw am ragor o allu (staff, gofod ac ati).

Fe welodd y buddiolwr a roddodd newidiadau ar waith o ganlyniad i'r Safle Ffocws hefyd **arallgyfeiriad i'r busnes: fe wnaeth hyn wella gwytnwch** gan y bydd yr RHI yn darparu ffynhonnell gynaliadwy o incwm am 20 mlynedd[104]. Fel y crybwyllwyd uchod, mae rheolaeth gynaliadwy adnoddau wedi bod yn allweddol i arallgyfeiriad. Yn olaf, o ran y buddiolwr a roddodd newidiadau eraill ar waith o ganlyniad i gefnogaeth Cyswllt Ffermio ehangach, **nid yw hyd yma wedi gwireddu'r buddiannau disgwyliedig gan fod y rhain yn cymryd amser i brosesu.** Mae disgwyl i'r effeithiau gynnwys gwell cynaliadwyedd y busnes drwy gyflwyniad dulliau mwy cynaliadwy/arallgyfeirio, cynnydd mewn trosiant, a rheolaeth fwy cynaliadwy ar adnoddau/llai o effaith ar yr amgylchedd (e.e. drwy well rheolaeth ar ddŵr) - ond nid oedd modd meintioli'r rhain ar yr adeg hon.

### Canlyniadau ac effeithiau ehangach

Mae gwybodaeth o Safleoedd Ffocws wedi'i lledaenu i drydydd partïon, er enghraifft mewn erthyglau/cyfnodolion sy'n ymwneud â'r sector, ond nid oedd yr effeithiau dilynol chwaith yn hysbys. Un o brif nodau'r Safle Ffocws oedd i **hybu mabwysiadu dulliau cynaliadwy, ac roedd yr ymgynghoreion yn obeithiol ei fod wedi bod yn llwyddiannus yn hyn o beth.** Er nad yw'n bosibl penderfynu ar yr effaith y mae'r prosiect hwn wedi'i gael ar gynaliadwyedd yn fwy eang, gwnaethom ganfod peth tystiolaeth bod y rheini sy'n gweithredu newidiadau o'r fath yn defnyddio dull mwy cynaliadwy a allai arwain at fanteision dilynol y tu hwnt i'w cymdogaeth (er enghraifft, prysgroedio cylchdro).

### Ychwanegedd a chyfraniad

Roedd yr adborth ynglŷn ag ychwaneged canlyniadau ac effeithiau yn amrywio, ond ar y cyfan roedd yr ymgynghoreion yn dweud y byddai canlyniadau wedi'u cyflawni, ond yn arafach ac yn is eu safon heb Safle Ffocws:

- **Byddai perchennog y Safle wedi gweithredu'r newidiadau a gwella perfformiad busnes gyda neu heb Cyswllt Ffermio** ond roedd yn cydnabod bod Cyswllt Ffermio wedi helpu i wneud y broses yn haws, er enghraifft drwy gyngor y Swyddog Technegol a'r cysylltiadau/rhwydweithiau a ddatblygwyd o fod yn Safle Ffocws.
- Dywedodd un buddiolwr y **byddai'r canlyniadau wedi eu cyflawni beth bynnag** (gan nad oedd Cyswllt Ffermio yn cefnogi'r newidiadau sylfaenol a roddwyd ar waith). Fodd bynnag, **efallai y byddai canlyniadau wedi bod yn is eu safon**

[104] Sylwer, ni werthir y cynnyrch i'r farchnad, yn hytrach fe'i defnyddir i gyflenwi system CHP y fferm ei hun

(ychwanegedd rhannol) oherwydd ni fyddai'r unigolyn wedi elwa gan yr "ychwanegion", a oedd yn aml yn fach ond yn arwyddocaol, y mae Cyswllt Ffermio yn eu rhoi (e.e. rhwydweithio).

- Ar gyfer y buddiolwr arall, **byddai'r canlyniadau wedi cael eu cyflawni, ond nid o fewn yr un amserlen**, oherwydd byddai wedi cymryd yn hwy i ddatblygu'r wybodaeth a gafwyd drwy Cyswllt Ffermio, ac felly i roi'r newidiadau ar waith.

**Roedd yr adborth ynglŷn â chyfraniad hefyd yn gymysg.** O ran y gweithgaredd Cyswllt Ffermio mwyaf arwyddocaol mewn cynhyrchu canlyniadau ac effaith, yr adborth yma oedd *"nad un peth yn unig"* sydd wedi bod yn fwyaf effeithiol mewn gwella perfformiad busnes a gwireddu effeithiau ehangach, ond cyfuniad o ddatblygiad gwybodaeth a'r *"ychwanegion"* (er enghraifft, cysylltiadau a pherthnasoedd newydd) y mae Cyswllt Ffermio wedi ei roi. Ni wnaeth yr un o'r ymgynghoreion nodi unrhyw newidiadau gwirioneddol o fewn eu busnesau a ddigwyddodd ar yr un pryd neu yn dilyn eu hymgysylltiad â Cyswllt Ffermio. Y ffactorau allanol a ystyriwyd yn bwysig oedd y cyflenwad a'r galw lleol, a blaenoriaethau gwleidyddol.

### Gwersi a chanlyniadau

Mae'r digwyddiadau a gynhaliwyd ar y Safle Ffocws wedi rhoi cyfleoedd ar gyfer datblygu gwybodaeth yn ogystal â rhyngweithio cymdeithasol. Hefyd, digwyddiadau Safle Ffocws yn aml oedd y ffynhonnell wreiddiol o ddatblygu cyfle busnes, gyda'r ffermwyr yn eu dilyn i fyny drwy ymgysylltu â mathau eraill o gefnogaeth Cyswllt Ffermio. Mae gallu unigolion i roi arferion tebyg i'r Safle Ffocws ar waith wedi amrywio yn dibynnu ar ffactorau sy'n cynnwys nodweddion marchnadoedd lleol a gallu ffermwyr i lywio drwy weithdrefnau llywodraethol. Ond nid yw trosglwyddo gwybodaeth wedi'i gyfyngu i unigolion sy'n ymweld â Safle Ffocws, gan fod gwybodaeth yn cael cyhoeddusrwydd yn eang drwy ddeunydd cyfathrebu Cyswllt Ffermio yn ogystal â chyfryngau cysylltiedig y sector ehangach. Y ffactorau llwyddiant hollbwysig a nodwyd gan ymgynghoreion ar gyfer gweithgareddau Safle Ffocws oedd cyfathrebu da (gyda Swyddog Technegol, Swyddog Datblygu neu Cyswllt Ffermio yn gyfan) a chefnogaeth cynghori o ansawdd da. Nid oedd awgrymiadau ynglŷn â sut y gellid gwella'r elfen Safle Ffocws.

**Astudiaeth Achos Cyfnewidfa Rheolaeth**

## Rhagymadrodd

Mae elfen Cyfnewidfa Rheolaeth (CRh) Cyswllt Ffermio yn darparu ysgoloriaeth deithio gwerth £2,500 y person[105] er mwyn galluogi ffermwyr i archwilio ffyrdd i wella eu busnes presennol neu i arallgyfeirio. Mae CRh yn agored i ymgeiswyr o bob sector a phob maint fferm. Fodd bynnag, rhoddir blaenoriaeth nawr i'r rheini sydd â Ffermydd Arddangos. Gall buddiolwyr CRh deithio i wahanol rannau o'r DU neu rywle arall yn Ewrop. Ar ddiwedd eu hymweliad bydd disgwyl iddynt ledaenu'r wybodaeth y maent wedi ei datblygu mewn adroddiad terfynol a chyflwyniad.

Mae'r astudiaeth achos hon yn defnyddio ymgynghoriadau gydag arweinydd CRh Cyswllt Ffermio a phedwar derbynnydd ysgoloriaeth CRh; ymgynghorwyd â'r un unigolion yng Ngham 2 a Cham 2. Roedd dau o'r buddiolwyr yn gymharol newydd i ffermio a/neu y pynciau yr oeddent wedi dewis eu harchwilio ar eu hymweliadau, tra bod dau o gefndir ffermio mwy 'traddodiadol ac eisiau dysgu sut i wella eu harferion presennol. Archwiliodd y buddiolwyr bynciau a oedd yn cynnwys rheoli glaswelltir, rheoli a bwydo moch, a rheoli gwrychoedd/cloddiau. Roedd y buddiolwyr CRh hefyd wedi bod yn aelodau o'r Academi Amaeth, grwpiau Agrisgôp a/neu Grwpiau Trafod. Roedd un ymgynghorai hefyd wedi dod yn fentor Cyswllt Ffermio.

## Cyflenwi cefnogaeth

Mae'r arweinydd CRh yn asesu'r ceisiadau ac yn gweinyddu tua 10-20 o ysgoloriaethau teithio bob blwyddyn. Y buddiolwyr eu hunain sy'n gyfrifol am drefnu eu hymweliadau. Fe wnaeth ymweliadau'r buddiolwyr yr ymgynghorwyd â hwy bara am rhwng tri a deg diwrnod; weithiau roeddent yn golygu sawl taith, e.e. i arsylwi ar arfer mewn gwahanol dymhorau.

Wedi cwblhau ymweliad mae'n rhaid i bob buddiolwr ysgrifennu arddodiad er mwyn rhannu'r dysgu. Ynghyd â fideos byr o fuddiolwyr CRh, rhoddir hwn ar wefan a chyfryngau cymdeithasol Cyswllt Ffermio. Mae Cyswllt Ffermio hefyd yn trefnu digwyddiadau lledaenu gwybodaeth wedi ymweliadau, weithiau ar y cyd ag elfennau eraill o Cyswllt Ffermio megis y rhwydwaith o ffermydd ffocws. Soniwyd am yr integreiddiad hwn ar draws Cyswllt Ffermio fel ffactor llwyddiant allweddol mewn lledaenu gwybodaeth, yn enwedig pan arweiniodd at fuddiolwyr yn dod yn fentoriaid Cyswllt Ffermio neu'n cynnal Safleoedd Ffocws.

Mae'r dull cyflenwi wedi'i addasu mewn pedair ffordd: newid amseriad y broses gais o fis Mehefin i fisoedd Hydref-Ionawr sy'n amser llai prysur i ffermwyr; ychwanegu cyflwyniad ar y cam gwneud cais er mwyn asesu gallu ymgeiswyr i ledaenu gwybodaeth; lleihau uchafswm y grant o £4k i £2.5k gan mai dim ond ychydig o fuddiolwyr oedd yn hawlio'r £4k yn gyfan; a rhoi blaenoriaeth i Ffermydd Arddangos dros ymgeiswyr eraill.

[105] Yn wreiddiol hyd at £4,000 y pen, wedi'i leihau i £2,500 yn ystod diweddariad Cyswllt Ffermio

Mae caniatáu i fuddiolwyr drefnu eu hymweliadau eu hunain yn ffactor llwyddiant allweddol gan ei fod yn golygu bod pob ymweliad yn cael ei deilwra i anghenion penodol y buddiolwr unigol, gan gynnwys meysydd 'niche' na ddarperir yn dda ar eu cyfer gan y cynnig cefnogaeth Cyswllt Ffermio ehangach, e.e. archwilio hyfywedd ffermio malwod. Roedd ffactorau llwyddiant allweddol mewn trefnu'r ymweliadau yn cynnwys defnyddio rhwydweithiau personol a dewis ymweld â gwledydd lle gallai'r buddiolwr siarad yr iaith. Roedd y pwynt yn ymwneud â'r iaith yn ddefnyddiol ar gyfer trefnu'r ymweliad a sicrhau'r dysgu gorau posibl o'r daith gan nad oedd yr ymweliad yn gymhleth nac wedi'i gyfyngu gan yr angen am gyfieithydd. Roedd y gallu i wario peth o'r grant ar gyfer staff i weithio yn ystod y cyfnod pan fyddai buddiolwr y CRh wedi gadael y fferm ar fusnes yn hollbwysig mewn caniatáu i'r ymweliad CRh fynd rhagddo. Fodd bynnag, dywedodd un buddiolwr bod yr elfen hon wedi'i thanariannu.

Roedd ffactorau llwyddiant eraill yn benodol i gyd-destun, er enghraifft y dewis rhwng treulio nifer o ddyddiau ar un fferm a oedd yn cael ei chydnabod i fod yn arwain mewn arfer penodol, neu dreulio un diwrnod ar nifer o ffermydd a oedd yn defnyddio dulliau ychydig yn wahanol i fynd i'r afael â'r un broblem. Un daith a wnaeth mwyafrif y buddiolwyr, a oedd weithiau'n cynnwys ymweld â nifer o ffermydd, er y dywedodd un buddiolwr bod gwneud nifer o ymweliadau ar wahanol adegau o'r flwyddyn yn ffactor llwyddiant allweddol gan ei fod yn galluogi'r buddiolwr i weld sut yr oedd arferion rheoli'n newid drwy gydol y flwyddyn.

Roedd meysydd na weithiodd cystal yn cynnwys cyfran y dyraniad grant ar gyfer staff i weithio yn lle'r un a oedd yn ymweld fel y trafodir uchod. O safbwynt cyflenwi, gwnaed y tri addasiad cyntaf a nodir uchod er mwyn mynd i'r afael â meysydd nad oedd yn gweithio cystal.[106]

Teimlwyd bod CRh yn cyd-fynd yn dda gydag Academi Amaeth oherwydd bod yr ymweliadau grŵp a drefnwyd drwy hyn yn meithrin hyder ac awydd ymhlith ffermwyr i fynd ati i wneud cais ar gyfer ysgoloriaeth CRh. Mae elfen lledaenu gwybodaeth CRh yn cyd-fynd yn dda â Ffermydd Arddangos, Grwpiau Trafod a rhaglen Mentor Cyswllt Ffermio, gan fod yr elfennau hyn o Cyswllt Ffermio yn caniatáu i fuddiolwyr CRh rannu eu gwybodaeth yn hawdd gydag eraill. Teimlwyd bod CRh yn unigryw o fewn Cyswllt Ffermio ac yn gyflenwol i gefnogaeth ehangach sydd ar gael megis ysgoloriaethau gan y Clwb Ffermwyr Ifanc, Hybu Cig Cymru ac Ymddiriedolaeth Nuffield.

### Gweithredu

Roedd pob un o'r pedwar buddiolwr a gyfwelwyd wedi rhoi newidiadau ar waith o ganlyniad i ysgoloriaeth CRh. Drwy weld y gwahanol arferion ffermio â'u llygaid eu hunain a thrwy drafodaethau dwys gyda ffermwyr eraill ynglŷn â pham eu bod yn defnyddio'r dulliau hyn, cafodd y buddiolwyr CRh hyder bod y dulliau'n gweithio a'u bod yn ymarferol i'w rhoi ar waith ar eu ffermydd hwythau. Mae enghreifftiau'n cynnwys: strategaethau bwydo da byw;

[106] Gwnaed yr addasiad olaf - gan roi blaenoriaeth i Ffermydd Arddangos - ar gais Llywodraeth Cymru i gynyddu cefnogaeth a gynigir gan Cyswllt FFermio i nifer llai o ffermydd.

ffensys trydan hyblyg; pori mewn cylchdro; rheoli cloddiau; a dwysedd plannu cnydau. Ffactor galluogi cyffredin oedd bod nifer o'r newidiadau yn gymharol isel o ran cost ac yn hawdd i'r buddiolwyr eu rhoi ar waith eu hunain, neu mewn cyfuniad ag un partner arall megis milfeddyg.

Dyfynnwyd un ffactor cysylltiedig â Cyswllt Ffermio fel rhwystr i fabwysiadu: dim ond un person o bob fferm all dderbyn ysgoloriaeth CRh, ond mae nifer o ffermydd yn fusnesau teulu. Os mai dim ond un person sy'n mynd ar yr ymweliad CRh, weithiau bydd ef/hi yn ei chael hi'n anodd gweithredu'r newidiadau oherwydd nad yw partner(iaid) y busnes wedi gweld y newidiadau drostynt eu hunain. Roedd ffactorau busnes a oedd yn llesteirio mabwysiadu yn cynnwys dim digon o arian i roi rhai o'r newidiadau a ddymunwyd ar waith; hefyd, hyd yn oed bod arian ar gael, ni fyddai'n gost effeithiol i weithredu rhai o'r newidiadau oherwydd fferm fechan y buddiolwr. Roedd ffactorau llesteirio allanol yn cynnwys rhwystrau rheoleiddiol megis rheolau'n ymwneud â lladd anifeiliaid ar-fferm, absenoldeb canfyddedig marchnad yng Nghymru ar gyfer rhai cynhyrchion, e.e. naddion pren ar gyfer creu ynni biomas, ac anawsterau mewn perswadio trydydd partïon i newid eu harferion, e.e. ffurfio cwmni cydweithredol.

### Canlyniadau ac effeithiau ar gyfer buddiolwyr

Soniodd pob un o'r pedwar buddiolwr a gyfwelwyd am fudd personol o'u hysgoloriaeth CRh. Er enghraifft, gweld dulliau newydd "yn ehangu fy ngorwelion". Fe wnaeth y broses o drefnu a mynd ar daith hefyd feithrin hyder ac ymestyn eu rhwydweithiau personol. Yn wir, roedd un o'r ymgynghoreion yn dal mewn cysylltiad â'i 'bartner cyfnewid' ac roedd y ddau'n gallu trafod problemau cyffredin drwy e-bost. Fe wnaeth buddiolwyr hefyd wella eu gwybodaeth dechnegol.

Fodd bynnag, dim ond un o'r buddiolwyr a gyfwelwyd a oedd yn gallu meintioli budd busnes hyd yma - lleihad gwerth £5,000 y flwyddyn mewn gwariant ar wrtaith oherwydd gwell rheolaeth ar laswelltir. Dywedodd buddiolwr arall fod y busnes wedi dod yn fwy gwydn a chynaliadwy oherwydd bod y newidiadau wedi cynyddu effeithlonrwydd trwy leihau faint o lafur oedd ei angen. Roedd y ddau fuddiolwr arall yn disgwyl buddion busnes yn y dyfodol gan gynnwys cynnyrch cynyddol o allbynnau a throsiant uwch, ond gydag amser sylweddol rhwng gweithredu newidiadau i blannu/rheoli cnydau a gwireddu'r buddion unwaith y bydd y cnydau'n cael eu prosesu a'u gwerthu.

Roedd yr holl fuddiolwyr CRh yr ymgynghorwyd â hwy o'r farn mai CRh oedd rhan fwyaf effeithiol Cyswllt Ffermio wrth sicrhau'r buddion hyn oherwydd bod yr ymweliadau CRh yn caniatáu i'r ffermwyr weld yr arferion newydd yn gweithio ar ffermydd eraill a siarad â ffermwyr ynglŷn â pham roedd yr arferion hyn yn llwyddiannus.

### Canlyniadau ac effeithiau ehangach

Mae lledaenu gwybodaeth i fuddiolwyr nad ydynt yn CRh yn rhan allweddol o CRh, fel y trafodwyd uchod. Soniwyd am sawl enghraifft o'r potensial ar gyfer goferu, er enghraifft trwy

fuddiolwr CRh yn rhoi cyflwyniadau ac yn cynhyrchu adroddiadau. Gallai canlyniadau ehangach hefyd ddilyn o dderbyn cefnogaeth gan fentor/ffermwr arddangos Cyswllt Ffermio a oedd gynt yn fuddiolwr CRh.

**Ychwanegedd a chyfraniad**

Adroddodd buddiolwyr fod yr ysgoloriaethau CRh yn ychwanegol iawn. Nododd tri ychwanegiad llawn oherwydd na fyddent wedi gallu fforddio mynd dramor heb y cyllid grant a darpariaeth lwfans ar gyfer staff i weithio yn eu lle ar eu ffermydd, a/neu oherwydd bod y gefnogaeth CRh yn rhaglen strwythuredig a sicrhaodd gydweithrediad gan y ‘partner cyfnewid.’ Adroddodd y buddiolwr arall ychwaneged amseriad ond ni allai feintioli maint hyn. Nododd arweinydd CRh, er y gallai rhai buddiolwyr fod wedi trefnu ymweliadau heb gefnogaeth CRh, mae gwerth ychwanegol i’w cefnogi trwy CRh oherwydd bod yn rhaid i fuddiolwyr gymryd rhan mewn lledaenu gwybodaeth ac mae hyn o fudd i’r sector ehangach yng Nghymru.

Adroddwyd bod CRh yn bwysicach nag elfennau eraill o Cyswllt Ffermio o ran cyflawni’r canlyniadau busnes, mewn rhai achosion oherwydd bod buddiolwyr CRh wedi ymgysylltu ag agweddau eraill ar Cyswllt Ffermio fel lledaenwyr gwybodaeth yn hytrach na buddiolwyr uniongyrchol. Roedd ffactorau cyfrannol eraill yn cynnwys cefnogaeth gan drydydd partïon megis milfeddygon, agronomegwyr a chymdeithasau masnach. Oherwydd y pwysigrwydd sydd ynghlwm wrth arsylwi ar wahanol ddulliau ymarfer drostynt eu hunain, adroddwyd bod CRh (ac felly Cyswllt Ffermio) yn bwysicach na ffactorau cyfrannol eraill.

**Gwersi a goblygiadau**

Ar y cyfan, mae’r elfen CRh o Cyswllt Ffermio wedi bod yn llwyddiannus mewn cefnogi trosglwyddo arfer gorau i Gymru. Mae buddiolwyr wedi cael budd personol a hefyd wedi gallu gweithredu newidiadau, er yn gymharol fach o ran y gost ariannol a’r amser oedd ei angen, a oedd wedi cryfhau gwytnwch busnes a disgwylir iddynt arwain at fuddion pellach yn y dyfodol.

Mae tair gwers allweddol gan CRh. Yn gyntaf, bod arsylwi ar wahanol arferion â’u llygaid eu hunain yn hollbwysig er mwyn rhoi hyder i ffermwyr roi newidiadau ar waith ar eu ffermydd eu hunain. Yn ail, bod CRh yn ddigon hyblyg i roi’r cyfle hwn i’r rheini mewn elfennau ‘niche’ o’r gymuned ffermio. Yn olaf, mae cynnwys gweithgaredd lledaenu gwybodaeth ffurfiol ar ôl yr ymweliad fel rhan o’r ysgoloriaethau - yn ogystal ag arwyddbostio buddiolwyr at elfennau mentor a Fferm Arddangos Cyswllt Ffermio - wedi bod yn allweddol wrth drosglwyddo gwybodaeth i’r rhai nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â CRh.

## Astudiaeth Achos y Cynllun Mentora

### Rhagymadrodd

Sefydlwyd y cynllun Mentora yn 2016 i alluogi ffermwyr a choedwigwyr i dderbyn arweiniad a chyngor gan eu cymheiriaid ar ystod eang o bynciau. Gall mentoreion cymwys gael 15 awr o fentora wedi'u hariannu'n llawn gyda'r mentor ffermio neu goedwigaeth o'u dewis, dros gyfnod o 18 mis. Mae'r cynllun wedi'i dargedu at ffermwyr a choedwigwyr o bob oed a statws busnes gan gynnwys newydd-ddyfodiaid, busnesau sy'n ystyried newid strategol sylweddol mewn cyfeiriad, unigolion sy'n edrych i adael y diwydiant, a busnesau sy'n wynebu anawsterau yn y sector. Gellir defnyddio oriau mentora ar ffurf ymweliadau wyneb yn wyneb neu sgyrsiau ffôn. Mae'r cynllun yn hyblyg, gyda mentoriaid yn defnyddio eu horiau mewn sesiynau hanner diwrnod neu bob awr. Gellir defnyddio dyraniadau amser hefyd gyda mwy nag un mentor.

Mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar ddau fentorai a'u mentoriaid yn Sir Gaerfyrddin. Ymgynghorwyd â'r mentoreion a mentoriaid hefyd fel rhan o'r cyfweliadau Cam 1. Mae un mentor yn arbenigo mewn ffermio cyfran, tra bod gan y llall dros 20 mlynedd o brofiad mewn ffermio llaeth organig.

Mae'r mentorai cyntaf yn ffermwr ifanc a gymerodd drosodd y fferm deuluol. Mae'r mentorai arall yn newydd-ddyfodiad a ddechreuodd redeg ei dyddyn ei hun. Roedd y ddau fentorai wedi cyrchu gwasanaethau Cyswllt Ffermio eraill cyn ymgysylltu â'r cynllun Mentora, gan gynnwys cyrsiau Cyswllt Ffermio a chymorth ymgynghoriaeth. Roedd angen cymorth ar un mentorai i arallgyfeirio'r busnes yn fusnes ffermio llaeth organig. Derbyniodd y mentorai arall gyngor ar brynu a gwella tir.

### Cyflenwi cefnogaeth

Yn ystod cam cyntaf y cyfweliadau, cefnogwyd y ddau fentorai gan y rhaglen ac roedd rhai o'u horiau penodedig ar ôl i'w defnyddio. Mae'r ddau wedi defnyddio'r oriau hyn ers hynny, ond maent wedi parhau i gadw mewn cysylltiad anffurfiol â'u mentoriaid, gan ddarparu diweddariadau dros y ffôn, drwy neges destun neu weithiau'n cyfarfod wyneb yn wyneb.

*"Ar ôl i'r oriau ddod i ben, rydw i'n gwneud yn siŵr fy mod i yno ar ben arall y ffôn os oes angen help arnynt, p'un a yw hynny bythefnos neu ddwy flynedd yn ddiweddarach. Mae'n ymwneud â gwneud cysylltiadau â ffermwyr eraill a defnyddio ein rhwydweithiau i wneud bywyd yn haws i'n gilydd." (mentor)*

I ddechrau, cyfarfu'r ddau fentorai â'u mentoriaid ar eu ffermydd/darpar dir ac egluro eu sefyllfa bresennol ac unrhyw gynlluniau a heriau arfaethedig yr oeddent yn eu hwynebu. Yna cafodd y ddau gyngor yn seiliedig ar eu gofynion i newid/addasu eu busnesau. Dioddefodd un mentorai o oedi difrifol oherwydd bod pryniant tir wedi methu, ond ers hynny mae wedi prynu a chwblhaodd ym mis Gorffennaf 2019. Mae wedi bod yn canolbwyntio ar wella'r tir ac wedi derbyn cyngor gwerthfawr gan ei fentor ynglŷn â gosod gwrychoedd,

ffensio a delio â phorthiant. Cafodd oriau ychwanegol gan ei fentor ar ôl gofyn am fwy o gefnogaeth i gryfhau'r busnes.

Nod yr ail fentorai oedd symud buches sugno i fuches laeth organig a chael gwybodaeth werthfawr gan ei fentor ynglŷn ag iechyd anifeiliaid, ffyrdd o wella cyfraddau ffrwythlondeb ac felly cynhyrchiant a phroffidioldeb ei fusnes.

Mae'r prif fuddion i fentoreion yn cynnwys cael cyngor a mewnwelediadau gwerthfawr a allai eu helpu i wireddu eu nodau a'u hamcanion, a chael cyngor a gwybodaeth gan unigolyn arall oedd â phrofiad sylweddol yn y maes hwnnw, a oedd yn golygu bod y mentoreion yn ymddiried ac yn gwerthfawrogi'r arweiniad a ddarparwyd iddynt.

Pwysleisiodd mentoriaid bwysigrwydd hyblygrwydd o fewn y gweithgaredd, a'r gallu i wrando a deall anghenion mentoreion i'w helpu i wireddu eu nodau a'u hamcanion. Roedd cyfranogwyr yn gwerthfawrogi'r cyfathrebu gonest a gafwyd fel rhan o'r gweithgaredd, gyda'r ddau barti'n dysgu sgiliau a thechnegau newydd yn y sector. Roedd y cyfranogwyr yn hyblyg yn eu dull cyfathrebu, gan ddiweddaru ei gilydd drwy e-bost, dros y ffôn neu drwy neges destun. Nododd mentoreion a mentoriaid fod defnyddio'r gwasanaeth hwn yn rhoi sicrwydd iddynt wrth wneud penderfyniadau gyda cheisiadau cyllido, negodi contractau a sesiwn taflu syniadau. Dywedodd mentoriaid hefyd fod pob mentorai yn wahanol a bod angen strwythur cymorth gwahanol arnynt. Gwnaethant egluro hefyd y gall y cynllun fod yn borth i wasanaethau eraill trwy Cyswllt Ffermio.

*"Y cyfan y gallwch chi ei wneud yw rhoi syniadau iddynt, ac mae'n rhaid iddynt fentro i wneud y newidiadau. Dim ond crafu'r wyneb ydyn ni; gall y gwasanaethau eraill helpu gydag atebion mwy penodol. Gallwch ond cynghori pobl am y datrysiadau mwyaf tebygol i wneud eu busnesau'n fwy proffidiol."*

Trosglwyddodd un mentor wybodaeth neu ddeddfwriaeth newydd i'w fentoreion. Mae hefyd yn negodi gwahanol gontractau ar gyfer ffermwyr llaeth yn yr ardal, felly gallant drosglwyddo gwybodaeth bwysig i ffermwyr eraill/eu mentoreion gan eu cyflenwyr. Mae mentoriaid wedi bod yn arwyddbostio mentoreion i wasanaethau Cyswllt Ffermio eraill gan gynnwys cyrsiau byr a chymorth ymgynghoriaeth pellach pan fo angen.

> *"Rydw i am sicrhau eu bod yn cael eu llywio i'r cyfeiriad cywir ac yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Gallai hynny fod trwy gymorth gyda grantiau, cynlluniau maetholion, help gyda llif arian. Fy nghyfrifoldeb i fel mentor yw integreiddio gwasanaethau a gwneud mentoreion yn ymwybodol o'r cymorth arall sydd ar gael."*

Soniwyd bod y cynllun yn cyd-fynd yn dda â Chynllunio Olyniaeth a Chymorthfeydd. Mae mentor wedi cyfeirio mentoreion at ymgynghorwyr sy'n cynorthwyo gydag olyniaeth, gydag enghreifftiau o berthnasoedd personol yn y busnes yn gwella oherwydd mwy o eglurder yn y busnes.

> *"Rydym yn rhannu'r un nodau cyffredin ac eisiau gwella effeithlonrwydd a phroffidioldeb. Dod o hyd i rywun sy'n barod i ateb eich cwestiynau, efallai bod gennych ofn defnyddio amser ffermwr arall."*

Esboniodd y mentor ei fod yn cyfeirio mentoreion i raglenni eraill, er enghraifft AHDB, dewin slyri, Cyfoeth Naturiol Cymru, gwefannau HCC sydd â '*gwybodaeth dda a defnyddiol*.' Mae'n nodi bod rhai elfennau o ddyblygu, e.e. gwybodaeth am ddŵr gan Gyfoeth Naturiol Cymru a rhaglenni eraill.

> *"Dyna lle mae Cyswllt Ffermio wedi bod yn dda iawn gyda'i fentora. Gall y ffermwyr gael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn yr iaith sydd ei angen arnynt i ddeall."*

Soniodd y rhai a holwyd y gallai gwybodaeth ar y wefan fod yn gliriach. Awgrymodd un mentorai osod prif flwch gyda therfynau amser ar gyfer pob ffrwd ariannu ar y sgrin hafan. Daeth mentorai arall ar draws peth dryswch ynghylch gwybodaeth am goetir, a chanfu rhywfaint o ddyblygu gyda Coed Cymru, hyb busnes a Cyswllt Ffermio. "*Fe wnes i ddrysu'n fawr gyda phwy y dylwn i fod yn siarad am y mater."*

**Gweithredu**

Esboniodd y ddau fentorai eu bod wedi cael gwybodaeth a mewnwelediad o'r rhaglen Fentora y gallent ei defnyddio i roi newidiadau ar waith ar unwaith. Roedd y ddau wedi defnyddio gwybodaeth a gawsant gan eu mentoriaid i wella eu busnesau, trwy arallgyfeirio i ffermio llaeth organig neu addasu prosesau ac adeiladau fferm i wella cynhyrchiant.

Roedd un mentor wedi cynorthwyo i negodi contract llaeth yn ystod y cam blaenorol ac ers hynny mae wedi helpu i negodi prydlesu tir gan gymdogion. Roedd y mentorai yn poeni "*y byddai'n codi gwrychyn y ffermwr*" ond rhoddodd y mentor yr hyder iddo ehangu'r busnes. Mae hefyd wedi gweithredu arferion newydd trwy ddefnyddio 'garlic licks' a gwely EnviroBed ar gyfer y da byw i wella cynhyrchiant.

Derbyniodd y mentorai arall gefnogaeth wrth brynu tir yn ystod cam diwethaf y cyfweliadau. Ers hynny mae wedi prynu llain sy'n addas i'w anghenion, ac mae'r mentor wedi bod yn ei gynghori ar wella'r tir gyda chyngor ar ffensio a phlannu gwrychoedd. Gwnaeth hefyd fynychu cwrs rheoli glaswelltir, a oedd yn ymwneud â gwella porfa a defnyddio gwrtaith.

**Canlyniadau ac effeithiau ar gyfer buddiolwyr**

Mae'r cyfranogwyr wedi parhau i gynnal cysylltiad â'i gilydd ar ôl i'r oriau mentora ddod i ben, gan ledaenu a throsglwyddo cyngor a chefnogaeth yn anffurfiol. Mae un mentor wedi gwneud cais am oriau ychwanegol, sydd wedi arwain at y mentorai'n cael gwybodaeth am reoli busnes a gwella tir. O'i gyfuno â chwrs ar drin a chadw da byw trwy Cyswllt Ffermio, mae hyn wedi arwain at y mentorai'n newid cynllun y sied er mwyn gwella effeithlonrwydd.

“*Fe wnaethon ni siarad am awyru, gostwng uchder, newid y cynllun i gynnwys stondin dail gyda tho arni. Roedd y diwrnod yn ddefnyddiol iawn*.”

Mae’r cyngor rheoli busnes gan y mentor wedi gwneud iddo feddwl am broffidioldeb y busnes, maint y stoc o gymharu â’r cynnyrch. Bydd cael gwell dealltwriaeth o’r ffordd orau i drefnu’r tir yn gwella cynhyrchiant, ac felly hyfywedd y busnes.

Fe’i cynghorwyd i weld ymgynghorydd Cyswllt Ffermio a wnaeth ychydig o waith samplu pridd. Rhoddwyd argymhellion iddo ynglŷn â sut i wella’r tir, a bwydodd yr adroddiad pridd i reolaeth y tir, gan helpu’r mentorai i wneud penderfyniadau mwy gwybodus. Argymhellwyd ei fod yn gwneud cais am gynllun Glastir trwy’r ymgynghorydd, a bu’n llwyddiannus.

Mae’r mentorai arall wedi dysgu y gall systemau monitro wella cynhyrchiant a phroffidioldeb os ydych chi’n barod i newid prosesau ar y fferm. Trwy newid systemau a phrosesau, gan addasu patrymau lloia yn bennaf er mwyn diwallu ei ddymuniad o loia yn yr hydref, mae wedi gallu gwella cyfraddau ffrwythlondeb ac felly proffidioldeb y busnes. Erbyn hyn mae’r mentorai wedi mynd â’i systemau ymhellach ac mae’n cofnodi gwybodaeth ychwanegol am y fuches a all nodi camgymeriadau.

Mae’r ddau fentorai wedi magu hyder yn eu sgiliau, eu galluoedd a’u penderfyniadau. Mae gwybod bod y mentoriaid yno, os oes angen, wedi gwneud i’r mentoreion deimlo eu bod yn cael cefnogaeth ac yn gallu gwneud penderfyniadau anodd a newidiadau i’r busnes, er mwyn gwella cynaliadwyedd, proffidioldeb a chynhyrchiant.

> *“Mae Cyswllt Ffermio wedi rhoi hwb i’m hyder ac wedi rhoi hwb i mi yn seicolegol. Drwy deimlo’n fwy hyderus yn yr hyn rwy’n ei wneud, gallaf wneud penderfyniadau gwell.” “Heb Cyswllt Ffermio, ni fyddwn wedi edrych i mewn i odro organig, ond rhoddodd Cyswllt Ffermio, yr ymgynghorwyr a’r mentoriaid yr hwb i mi wneud hynny.”* (mentorai)

Roedd gan y mentoriaid enghreifftiau eraill hefyd o effeithiau cadarnhaol ar fentoreion eraill. Roedd y rhain yn cynnwys, cynorthwyo gyda system rheoli dŵr fferm sydd bellach yn fwy effeithlon a datblygu cynllun olyniaeth gyda theulu a oedd â phroblemau cyfathrebu’n wael â’i gilydd, a oedd yn effeithio ar y busnes.

**Canlyniadau ac effeithiau ehangach**

Rhoddodd un mentor enghraifft o deulu lle'r oedd cyfathrebu wedi chwalu, ac nid oedd aelodau o’r teulu’n siarad â’i gilydd. Yn y sefyllfa hon gweithredodd fel cyfryngwr, gan eu helpu i ddod i gyfaddawd. Roedd hyn o ganlyniad i beidio â bod â chynllun olyniaeth sefydlog ar waith. “*Efallai na fyddai wedi dod i ganlyniad fel hyn pe na bawn wedi bod yn rhan ohono, a gwnaeth hyn wahaniaeth i’r teulu cyfan. Pan fydd gennych chi fwy nag un perchennog ar y fferm, mae cynllunio olyniaeth yn hollbwysig*.”

Soniodd mentorai ei fod wedi trosglwyddo cyngor i'w fentor y llynedd. Roedd cyfranogwyr wedi bod yn cael trafferth gyda mastitis yn eu buchesi. Dechreuodd y mentorai ddefnyddio EnviroBed, ac argymhellodd y dull hwn i'r mentor, sydd wedi gweld lleihad yn ei achosion mastitis ers hynny.

**Ychwanegedd a chyfraniad**

Esboniodd y mentoriaid a'r mentoreion na fyddent wedi gallu cyflawni'r canlyniadau ar yr un cyflymder, yr un raddfa ac i'r un safon yn eu busnesau heb y gefnogaeth Mentora.

> *"Heb gefnogaeth Cyswllt Ffermio, ni fyddai'r ffermwyr rydw i wedi'u gweld wedi cyrraedd mor bell, a byddai wedi bod yn frwydr lawer mwy iddynt heb yr arian sydd ar gael. Gall ffermwyr symud ymlaen a magu hyder i wneud y newidiadau hynny sy'n gwneud eu busnesau'n fwy cynaliadwy,* ***ac mae hwnnw'n wasanaeth amhrisiadwy****."* *(mentor)*

> *"Mae'r mentor wedi cael effaith fawr arnaf yn newid fy nghynllun busnes i ganolbwyntio ar gig eidion yn hytrach na chig oen. Mae'n debyg na fyddwn wedi dod i'r casgliad hwn heb gymorth y mentor. Rydw i wedyn wedi gallu ymgorffori'r syniadau yn fy nghynllun busnes.* ***Mae'r cynllun Mentora wedi bod yn asgwrn cefn i'm gwybodaeth a dysgu sgiliau****."* *(mentorai)*

Soniodd y cyfranogwyr fod Brexit wedi effeithio ar y sector yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda phrisiau porthiant yn anwadal, gan arwain at lai o elw i ffermwyr. Mae'n anodd cynllunio ar gyfer ansefydlogrwydd economaidd a hoffai mentoreion a mentoriaid weld y cynllun Mentora yn parhau, gan sicrhau bod ffermwyr ifanc yn cael eu cefnogi i symud i'r sector/aros yn y sector. Fe wnaethant ddweud hefyd y bydd cymorthdaliadau yn lleihau, felly mae'n bwysig i fusnesau wella effeithlonrwydd.

Soniodd mentor yr hoffai gael mwy o gefnogaeth yn y sector i'r rheini sy'n dioddef o iselder a phroblemau iechyd meddwl. Gwnaeth sôn hefyd nad yw'n teimlo bod digon o gefnogaeth ar gyfer y rheini sydd ag anawsterau dysgu a dyslecsia[107].

> *"Gall hyn fod yn rhwystr gwirioneddol i ffermwyr gan mai'r peth cyntaf a wnawn yw darllen a llofnodi'r cofnodion o'r cyfarfod hwnnw, ac ni all rhai wneud hynny. Heb os, dylai fod mwy o help i'r ffermwyr sydd angen y gefnogaeth honno. Yn y 4-5 mlynedd nesaf gallai hon fod yn broblem wirioneddol."*

---

[107] Sylwer, cyflwynodd MaB gynnig aflwyddiannus i Lywodraeth Cymru i gynnig cefnogaeth ychwanegol i unigolion sydd ag anawsterau dysgu a dyslecsia.

Soniodd y rhai yr ymgynghorwyd â hwy fod y sector yn cael cyhoeddusrwydd gwael, yn enwedig gyda rhai sefydliadau'n honni y gall y diwydiant fod yn greulon tuag at anifeiliaid ac yn anghynaliadwy.

*"Nid oes unrhyw beth i'w glywed gan y cyrff amaethyddol yn egluro budd ffermio. Mae gwerthiant cig eidion wedi gostwng 40,000 eleni. Y ffermydd llai fydd yn cael eu taro waethaf, ac nid oes gennym y trosiant i wrthsefyll yr amrywiadau a'r gostyngiadau yn y pris."*

**Gwersi a goblygiadau**

Mae buddiolwyr wedi cael cefnogaeth a chyngor amhrisiadwy gan eu mentoriaid sydd wedi eu galluogi i symud eu busnesau ymlaen. Mae mentoreion wedi meithrin hyder, sgiliau a phrofiad yn y sector gan aelodau gwerthfawr o'r diwydiant. Mae hyn wedi arwain at fentoreion yn teimlo'n fwy hyderus a chyfforddus wrth wneud penderfyniadau/newidiadau i'w busnesau.

Soniodd mentoriaid bod angen, mewn rhai achosion, gymorth ychwanegol ar rai mentoreion, yn enwedig os oeddent yn newydd-ddyfodiaid neu'n arallgyfeirio eu busnesau. Teimlai mentoriaid y gallai rhoi mwy o reolaeth iddynt dros nifer yr oriau a roddir i fentoreion olygu y gellid cefnogi'r rhai sydd angen cymorth ychwanegol. Nododd un mentorai hefyd "*byddai cael mynediad at ragor o gyrsiau a mentora fel newydd-ddyfodiad wedi bod yn wych*."

Dywedodd mentoriaid nad yw rhai buddiolwyr Cyswllt Ffermio yn ymwybodol y gallant gyrchu mwy nag un gwasanaeth Cyswllt Ffermio. Amcangyfrifodd un mentor fod hyn yn wir am 70 y cant o'r buddiolwyr.

Awgrymodd mentoriaid hefyd y byddai sesiynau diweddaru yn ddefnyddiol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r mentoreion ynglŷn â chyrsiau/gwasanaethau newydd sydd ar gael.

## Astudiaeth Achos Hyfforddiant Busnes a Chyllid

### Rhagymadrodd

#### *Trosolwg o'r gweithgaredd*

Darperir hyfforddiant trwy rwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant cymeradwy sy'n cwmpasu ystod o hyd at 60 o wahanol gyrsiau. Mae'r darparwyr yn cael eu rheoli ac mae'r cyrsiau wedi'u hachredu neu mae eu hansawdd wedi'i sicrhau trwy Lantra. Mae rhai cyrsiau'n darparu hyfforddiant sy'n ofynnol yn ôl statud (megis cyrsiau iechyd a diogelwch gan gynnwys defnydd o blaladdwyr, peiriannau ac offer); mae eraill yn cynnwys ystod o gyrsiau technegol a gwella busnes.

Yn ystod haf 2019 adolygwyd a diweddarwyd y cyrsiau gyda rhai cyrsiau ychwanegol, rhai darparwyr hyfforddiant newydd a dull gwahanol o farchnata. Mae cyrsiau wedi'u categoreiddio fel Tir, Busnes a Da Byw. Mae'r categori Busnes yn cynnwys 'Cynllunio a Datblygu Busnes'; 'Cofnodi Ariannol a TAW' a 'Marchnata eich Busnes'.

Ffocws yr astudiaeth achos hon yw cynllunio busnes a chofnodi ariannol. Cynigir y cyrsiau hyn gan sawl darparwr hyfforddiant gwahanol ledled Cymru. Buom yn siarad â dau; Hyfforddiant 'Simply the Best' sydd wedi'i leoli yn Nhonypandy, a Really Pro Ltd (wedi'i leoli yn Abertawe, Caerfyrddin a Hwlffordd). Mae'r ddau yn ddarparwyr hyfforddiant preifat sy'n cynnal ystod o gyrsiau ar gyfer Lantra o dan y brand Cyswllt Ffermio. Mae Really Pro Ltd hefyd yn cynnal rhaglenni cymorth busnes a chyflogadwyedd eraill mewn sectorau eraill.

#### Cyfranogwyr yr astudiaeth achos

Cymerodd saith dysgwr ran yn yr astudiaeth achos. Roedd tri wedi mynychu'r hyfforddiant cofnodi ariannol a gyflwynwyd yn Ynys Môn yn 2019, roedd dau wedi'u lleoli yn Sir Benfro ac wedi derbyn hyfforddiant ar farchnata a chymorth busnes fel cleientiaid Really Pro (cyfwelwyd un yn 2020 a 2019 ac un yn 2019); roedd y ddau arall, a gafodd eu cyfweld yn 2020, wedi ymgysylltu gyntaf â Ffermio Cyswllt trwy gwrs Gwneud Treth yn Ddigidol ac yna cymryd rhan mewn elfennau eraill o'r rhaglen. Roedd cyfranogwyr Ynys Môn i gyd yn ifanc, roedd un yn mynychu fel y gallai helpu ei rieni, un arall yn cyfuno ffermio â swydd llawn amser, ac roedd y trydydd wedi priodi i'r busnes ffermio. Roedd cyfranogwyr Sir Benfro yn hŷn, ac yn cyfuno busnesau gwersylla a charafanio ochr yn ochr â ffermio a garddwriaeth yn y drefn honno. Roedd cyfranogwyr 2020 yn chwilio am ffyrdd o wneud eu busnes ffermio yn gynaliadwy er mwyn cynnal eu hunain a'u plant.

#### Cyflenwi cefnogaeth

Mae'r hyfforddiant yn ymdrin ag agweddau ymarferol ar farchnata, datblygu busnes a rheoli ac adrodd ariannol. Mae'r hyfforddwyr naill ai'n brofiadol iawn mewn gweithio gyda'r gymuned ffermio neu'n dod o deuluoedd ffermio sydd â phrofiad o arallgyfeirio.

Mae'r ddau ddarparwr yn gweithredu modelau cyflenwi gwahanol. Mae un yn cynnal cyrsiau diwrnod o hyd mewn lleoliadau ledled Cymru ar gyfer grwpiau bach o ddysgwyr. Trefnir

dyddiadau a lleoliadau gan y darparwr hyfforddiant gan geisio canfod amseroedd sy'n addas i ddysgwyr sydd wedi'u cymeradwyo ym mhob 'ffenestr' cais. Os na all un darparwr ddarparu ar gyfer dysgwyr fe'u cyfeirir at un arall, neu fe'u gwahoddir i ddigwyddiad dilynol. Yn Ynys Môn cynhaliwyd y digwyddiad mewn ystafell hyfforddi ar safle Certio a oedd yn gyfleus ac yn hygyrch i'r dysgwyr.

Mae'r model arall yn gweld darparwyr hyfforddiant yn ymweld â ffermwyr i gynnig cyfres o bedair sesiwn ddysgu fer gyda dysgu hunangyfeiriedig rhwng y sesiynau. Dywedodd y ddau ddysgwr fod hyn wedi gwneud gwahaniaeth i'w cyfranogiad a phe byddai'n rhaid iddynt ddod o hyd i amser i deithio efallai na fyddent wedi dechrau'r hyfforddiant.

Mae'r ddau ddarparwr hyfforddiant yn defnyddio eu gwybodaeth a'u profiad o ffermio a busnesau gwledig i roi eu deunydd hyfforddi mewn cyd-destun. Mae gan y broses cofnodi ariannol ar gyfer busnesau ffermio ofynion penodol ynglŷn â TAW nad ydynt yn cael eu cynnwys mewn meddalwedd cyfrifyddu prif ffrwd ac o ganlyniad mae'r hyfforddwr wedi datblygu ei offer ei hun (y mae'n ei ddefnyddio yn ei fusnes ffermio) sy'n syml ac yn ymarferol. Mae'r hyfforddiant cynllunio busnes yn cyflwyno cysyniadau a fframweithiau allweddol ond yn gosod 'gwaith cartref' i'r dysgwyr yn seiliedig ar eu mater ffermio eu hunain o ran busnes ffermio i sicrhau bod dysgu'n cael ei gymhwyso i'w gofynion penodol.

Nid yw'r hyfforddiant yn ddwys, mae'r mwyafrif naill ai'n un diwrnod neu'n cael ei ymestyn dros gyfres o ymyriadau. Ymgysylltodd y ffermwyr am nifer o resymau ond rhai o'r ysgogwyr allweddol oedd eu hanghenion i:

- gydymffurfio â gofynion statudol parthed Gwneud Treth yn Ddigidol
- arallgyfeirio eu busnes ffermio neu ffynonellau incwm i gadw'r fferm
- sicrhau y gallai eu ffermydd gynnal eu teuluoedd nawr ac i'w plant.

Roedd dysgwyr Ynys Môn wedi'u cysylltu â Cyswllt Ffermio trwy'r Swyddog Datblygu a chwaraeodd yr hyn a alwodd y darparwr yn "rôl ganolog" yn llwyddiant ei gynnig gyda ffermwyr ledled y gymuned. Dywedodd eraill eu bod yn ymwybodol o Cyswllt Ffermio er na allent esbonio'n union pam - dim ond ei fod wedi bod o gwmpas ers amser ac mai dyna'r lle cyntaf y byddent yn meddwl mynd.

Roedd nifer o'r dysgwyr wedi cyrchu hyfforddiant arall, ac elfennau eraill o gefnogaeth Cyswllt Ffermio. Roeddent yn gwerthfawrogi sawl agwedd ar yr hyfforddiant:

- Cefnogaeth y Swyddogion Datblygu, hyfforddwyr a Lantra i deilwra'r cynnwys a'i hygyrchedd. Y ffaith bod yr hyfforddwyr yn defnyddio enghreifftiau sydd i gyd yn seiliedig ar ffermio, eu bod yn trefnu hyfforddiant mewn lleoliadau ac ar adegau sy'n hwylus i'r dysgwyr a'u bod yn 'treulio amser yn egluro pethau'
- Y gallu i rwydweithio a chysylltu â ffermwyr eraill, i glywed eu profiadau, gwrando ar eu cwestiynau a sylweddoli nad oeddent ar eu pen eu hunain yn teimlo bod elfennau ariannol, busnes neu farchnata yn anodd
- Gallai aelodau eraill o'u teulu, fel ffermwyr, hefyd gyrchu'r hyfforddiant fel y gallent helpu a chefnogi ei gilydd a dysgu gyda'i gilydd

- Cost gymedrol yr hyfforddiant a'r amser byr sydd ei angen o'r fferm: nid oedd costau mynychu yn elfen oedd yn eu hatal.

Soniwyd am ychydig o rwystrau i gael mynediad at hyfforddiant: roedd y broses gofrestru dilysu dau gam lle mae'n rhaid i bobl gael gafael ar god dilysu o gyfrif e-bost yn anodd mewn lleoedd sydd â rhyngrwyd gwael a gwelwyd bod hyn yn rhwystr.

Dywedodd dau ffermwr fod eu profiad o'r cyrsiau cyllid yn golygu eu bod wedi sylweddoli pa mor hygyrch a buddiol oedd y rhaglen Cyswllt Ffermio, a'u bod wedi cyrchu gwasanaethau eraill wedi hynny. Cyn hynny roeddent o'r farn bod y rhaglen ar gyfer ffermydd masnachol mwy ac nid ar gyfer ffermydd bach fel ei un hwy.

Roedd un o'r ffermwyr wedi cyrchu hyfforddiant cymorth busnes Cyswllt Ffermio a Busnes Cymru. Roeddent yn dweud fod y cynnwys yn wahanol iawn hyd yn oed pan fo'r pwnc yn debyg (fel defnyddio cyfryngau cymdeithasol) - er ei fod yn gyflenwol. Roedd un dysgwr wedi gofyn am gyngor gan swyddog Twristiaeth a byddai un arall wedi chwilio ar y we pe na bai eisoes yn ymwybodol o Cyswllt Ffermio, neu os nad oedd ar gael.

Nid oedd mwyafrif y dysgwyr wedi ceisio cefnogaeth y tu hwnt i Cyswllt Ffermio; roeddent i gyd yn ymwybodol o Cyswllt Ffermio ac nid oedd yn arfer ganddynt i edrych ymhellach.

**Gweithredu**

Roedd y rheini a fynychodd yr hyfforddiant cynllunio busnes a marchnata wedi rhoi eu dysgu ar waith. Roedd y ddau ddysgwr eisiau arallgyfeirio a dibynnu llai ar eu busnesau ffermio a thyfu. Cefnogwyd y ddau gan y darparwr hyfforddiant i ddilyn y cwrs a'u gadael gyda chynllun busnes a chynllun marchnata.

Roedd un dysgwr wedi defnyddio'r cynllun marchnata ac erbyn hyn roedd yn marchnata ei fusnes gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol (Facebook ac Instagram) ochr yn ochr â'i weithgareddau hysbysebu arferol. Er ei fod yn fodlon iawn â'i brofiad dysgu, ac yn falch o fod â phresenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol, nid oedd hyn hyd yma wedi trosi yn rhagor o fusnes. Roedd y dysgwr arall o Sir Benfro wedi sylwi ar effaith fel yr amlinellir yn y blwch astudiaeth achos isod.

**Cynllunio a marchnata busnes ar waith**

Roedd dysgwr wedi cwblhau cynllun busnes a chynllun marchnata ar gyfer ei fenter newydd, sef datblygu maes gwersylla presennol eithaf di-nod yn rhywbeth mwy sylweddol a chynaliadwy. Roedd dwy ffactor yn ysgogi hyn, wrth iddynt heneiddio roeddent yn teimlo bod y gwaith corfforol yn fwy blinedig, ond hefyd roeddent am adeiladu busnes i'w plant gymryd yr awenau. Fe wnaeth ymchwil i'r farchnad eu helpu i ddiffinio 'niche' i'w busnes a chanfod partneriaid newydd. Roedd yn helpu nad oedd angen iddynt ysgwyddo unrhyw ddyled am

y datblygiad ffisegol oedd ei angen, a bod ganddynt faes gwersylla a busnes eisoes. Dywedodd y dysgwr ei fod yn teimlo bod ei gynllun busnes yn ddogfen ddefnyddiol iawn oherwydd "*rydych chi'n tueddu i anghofio rhai o'ch syniadau ac mae'n ddefnyddiol os yw i lawr mewn du a gwyn*". Mae'r busnes newydd yn tyfu'n raddol. Yn y tymor hwy yw'r gobaith yw, os bydd y busnes yn tyfu, y bydd eu plentyn yn gallu cymryd awenau'r busnes gwersylla a fydd yn ei dro yn "*cefnogi dyfodol ein cartref a'n tyddyn*".

**Canlyniadau ac effeithiau ar gyfer buddiolwyr**

Effaith fwyaf trawiadol cymryd rhan yn yr hyfforddiant busnes a marchnata oedd yr effaith ar dwf personol. Roedd gan bob ffermwr ei stori ei hun i'w hadrodd ac i rai nid oedd yr effaith ar arfer ffermio neu arallgyfeirio wedi'i weld eto, ond roedd yr effaith ar eu hyder, eu hoptimistiaeth a'u cysylltedd â'r sector yn amlwg.

Roedd buddion personol yn cynnwys y canlynol:

- Awydd am ddysgu wrth i fynychu un cwrs arwain at achosion pellach o ddysgu. Mewn un achos roedd ffermwr wedi mynd ymlaen i gofrestru ar gwrs ariannol mewn coleg lleol er mwyn datblygu ei ddysgu ymhellach
- Gallu cyfrannu at y busnes teuluol a chefnogi datblygiad y fenter deuluol, er enghraifft trwy gyrchu hyfforddiant a olygai y gallai dau aelod o'r teulu gyflawni tasg dechnegol yn hytrach na'r baich ar ysgwyddau un person
- Cymryd rhan mewn rhwydweithiau a chyfarfod ag unigolion eraill oedd yn wynebu heriau tebyg ond a oedd yn mynd i'r afael â hwy'n gadarnhaol ac yn weithredol. Dywedodd un ffermwr fod hyn wedi rhoi gobaith ac ymdeimlad o optimistiaeth iddo am ei fferm a'i dyfodol er gwaethaf amgylchiadau personol anodd iawn.

Roedd buddion busnes ymarferol yn cynnwys:

> *"arbed gorfod talu cyfrifydd i wneud y gwaith ... byddai gennyf fwy o drefn ar bethau ... rwy'n ei wneud ond mae'r cyfan yn dipyn o lanast"*
>
> *"mae'n ymwneud mwy â gwella fy ngwybodaeth a dweud y gwir... fel na fydd yn rhaid i mi ddibynnu ar fy mhartner"*
>
> *"rwy'n gwneud fy TAW fy hun ond mewn ffordd gymhleth… rwy'n aml yn hwyr felly gobeithio y byddaf yn talu llai o ddirwyon"*

Dywedodd eraill eu bod am gryfhau eu cynlluniau busnes a'u rhoi ar waith fel y gallai eu busnesau symud i sylfaen fwy cynaliadwy a bod yn rhywbeth i'w plant ei fwynhau ac o bosibl ei barhau.

Roedd hyfforddwyr a hyfforddeion o’r farn bod gwaith y Swyddogion Datblygu yn ganolog i’w helpu i ddysgu am y gefnogaeth sydd ar gael, llywio’r systemau cofrestru a’u cysylltu â chefnogaeth arall a’u grŵp cymheiriaid.

### *Canlyniadau ac effeithiau ehangach*

Roedd y cwrs sgiliau busnes a chyrsiau hyfforddi eraill yn cael eu hystyried yn llwybrau mynediad i’r gefnogaeth a gynigiwyd gan Cyswllt Ffermio. Gwerthfawrogwyd yr arloesedd ymarferol a’r cyngor datblygu busnes ac arallgyfeirio a hefyd y gallu i gysylltu ag arbenigwyr, ffermwyr eraill a gyda rhwydwaith ehangach yn y sector amaethyddol. Dywedodd un ffermwr fod Cyswllt Ffermio yn gwneud iddo deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a bod ei lywodraeth yn cydnabod y gwaith pwysig mae’n ei wneud.

### Gwersi a chanlyniadau

Roedd yr holl ddysgwyr yn ymwybodol o Cyswllt Ffermio ac yn gweld hon fel eu ffynhonnell gyntaf a phrif ffynhonnell sgiliau busnes a chefnogaeth hyfforddiant y tu hwnt i wasanaethau y talwyd amdanynt gan eu cyfrifydd neu o bosibl eu hundeb. Roeddent yn ymddiried yng ngwasanaethau Cyswllt Ffermio ac yn teimlo bod y darparwyr hyfforddiant o ansawdd uchel, yn gredadwy ac yn ddefnyddiol. Roedd dysgwyr na fyddai fel arall yn ystyried bod hyfforddiant yn berthnasol iddynt hwy yn dibynnu ar eu perthynas bersonol â’r darparwyr ochr yn ochr â swyddogion datblygu Cyswllt Ffermio. Roedd y dull cydgysylltiedig gan y ddau yn hanfodol i ennyn diddordeb a hyrwyddo’r nifer sy’n manteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Codwyd tri mater pwysig ar gyfer lle i wella.

- Soniwyd am y Storfa Sgiliau gan randdeiliaid strategol ond nid gan hyfforddeion. Dylai buddion hyn ar gyfer cynlluniau sicrwydd gael eu cynnwys mewn rhaglenni hyfforddi gyda chyfathrebu a marchnata priodol
- Dylai’r cynnig hyfforddiant barhau i hyrwyddo agweddau iechyd a diogelwch ar draws yr holl raglenni hyfforddiant ond soniodd rhai ffermwyr am fudd parthed iechyd meddwl dysgu, cysylltu â’u cymuned a chyrchu cymorth, a gallai’r rhain ddod yn flaenllaw gael yn y rhaglen.
- Dylid hyrwyddo anogaeth a chefnogaeth dysgu teulu fel bod mwy nag un aelod o deulu yn cael eu hannog i fynychu sesiynau hyfforddi er mwyn gwella cynaliadwyedd a gwytnwch busnesau ffermio.

**Astudiaeth Achos Hyfforddiant Technegol, Peiriannau ac Offer**

**Rhagymadrodd**

Mae Cyswllt Ffermio yn cynnig cyfle i unigolion sydd wedi cofrestru â'r Rhaglen i gyrchu cyllid ar gyfer cyrsiau hyfforddiant achrededig byr. Cefnogir dros 30 o gyrsiau hyfforddi yn y Rhaglen Dysgu a Datblygu Gydol Oes, a ddarperir gan 23 o sefydliadau hyfforddi ledled Cymru.

***Cwmpas yr astudiaeth achos***

Mae'r astudiaeth achos hon yn canolbwyntio ar ddau ddarparwr hyfforddiant sy'n cyflwyno'r **cyrsiau Defnydd Diogel o Blaladdwyr** a darparwr hyfforddiant sy'n cydlynu ac yn cyflwyno'r **cyrsiau Cneifio Defaid â Pheiriant (Categorïau 2 a 3 yn y drefn honno)**. Cyfwelwyd dau o'r tri yn ystod Cam 1 a Cham 2 y gwerthusiad, ond dim ond yn ystod gwaith maes Cam 1 yr oedd un darparwr hyfforddiant ar gael i'w gyfweld.

Mae'r astudiaeth achos hefyd yn cynnwys barn a phrofiadau a gasglwyd o gyfweliadau a gynhaliwyd gyda chyfranogwyr hyfforddiant, tri ohonynt wedi cymryd rhan yn y cwrs Cneifio defaid â pheiriant a dau yn y cyrsiau Defnydd diogel o blaladdwyr. Dim ond yn ystod cyfweliadau Cam 1 yr oedd dau o'r cyfranogwyr cneifio defaid ar gael i'w cyfweld; dim ond yn ystod Cam 2 yr oedd un cyfranogwr cneifio defaid ar gael i'w gyfweld; cyfwelwyd ag un o gyfranogwyr y cwrs defnydd diogel o blaladdwyr yn ystod y ddau gam a chyfwelwyd â'r llall yng Ngham 2 yn unig.

**Cyflenwi cefnogaeth**

Cyflwynir y cwrs Defnydd diogel o blaladdwyr dros dri diwrnod, fel arfer yng nghanolfan y darparwr hyfforddiant. Sesiwn hyfforddi grŵp yw'r diwrnod cyntaf a gynhelir mewn ystafell ddosbarth sy'n canolbwyntio ar theori defnydd diogel o blaladdwyr. Yna caiff hyn ei asesu trwy brawf ar-lein y mae'n rhaid i'r ffermwyr ei gwblhau. Yr ail ddiwrnod yw'r sesiwn ymarferol. Mae rhywfaint o amrywiad yn y modd y darperir hwn yn dibynnu ar y math o offer y mae'r unigolion am ganolbwyntio arnynt e.e. chwistrellu ar gerbyd, chwistrellwr bagiau cefn. Mae'r trydydd diwrnod yn cynnwys asesiad un i un am ddwy awr a hanner wedi'i achredu gan City and Guilds.

Cyflwynir y cyrsiau Cneifio defaid â pheiriant dros ddau ddiwrnod, gan ganolbwyntio ar wahanol dechnegau cneifio bob dydd. Mae'r hyfforddiant fel arfer yn digwydd ar fferm yn hytrach na mewn canolfan hyfforddi. Dim ond yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf, y prif dymor cneifio defaid yng Nghymru, y darperir y cyrsiau hyn sy'n cyfyngu ar y cyfleoedd i fanteisio arnynt o gymharu â rhaglenni hyfforddiant eraill, a gynhelir gydol y flwyddyn.

Gwnaeth ffermwyr a ymgysylltodd â'r cwrs Defnydd diogel o blaladdwyr hynny mewn ymateb i ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i holl ddefnyddwyr cynhyrchion diogelu planhigion (PPP) proffesiynol gan gynnwys plaladdwyr, fod wedi'u hardystio. Gwnaeth

ffermwyr a ymgysylltodd â'r cyrsiau Cneifio defaid â pheiriant hynny am resymau a oedd yn cynnwys: y cyfle i ddatblygu neu wella eu sgiliau ar gyfer cneifio eu defaid eu hunain a lleihau cost llogi contractwyr; y cyfle i wella eu sgiliau a chneifio defaid ar gyfer ffermydd eraill, a thrwy hynny greu incwm ychwanegol - mewn un achos, gyda'r nod o ddatblygu sgiliau a fyddai'n eu galluogi i gontractio cneifio trwy'r tymor.

### *Effeithiolrwydd cyflenwi*

Cafodd y cyfranogwyr hyfforddiant oedd wedi'u cynnwys yn yr astudiaeth achos hon naill ai wybodaeth a gwneud cais am gwrs hyfforddi yn uniongyrchol trwy wefan Cyswllt Ffermio, neu o ganlyniad i wybodaeth a ddarparwyd gan eu Swyddog Datblygu Cyswllt Ffermio lleol. Roedd cyfranogwyr yn teimlo bod y prosesau hyn yn gweithio'n dda. Roedd darparwyr hyfforddiant hefyd yn fodlon â'r broses gais er bod y darparwyr hyfforddiant Defnydd diogel o blaladdwyr yn nodi nad oedd ffermwyr bob amser yn ymwybodol o'r wybodaeth a gawsant ar y wefan bod gofyn iddynt wneud cais am ddwy ran o'r cwrs (ymarferol a theori) er mwyn ennill yr ardystiad gofynnol. Felly roedd yn rhaid i'r darparwyr hyn gysylltu â ffermwyr a wnaeth gais trwy wefan Cyswllt Ffermio i sicrhau eu bod wedi gwneud cais am y ddwy ran.

Nododd y ddau ddarparwr hyfforddiant sy'n darparu Defnydd diogel o blaladdwyr fod cwblhau'r CDP yn rhan bwysig o sicrhau bod y ffermwyr yn cyrchu'r hyfforddiant a oedd yn gweddu orau i'w hanghenion. Mae'r ddau ddarparwr hefyd yn darparu sesiynau cwblhau CDP i ffermwyr ac roedd y sesiynau hyn yn helpu ffermwyr i ystyried yn ofalus pa hyfforddiant y gallent ymrwymo'n realistig iddo o fewn y cyfnod cyllido naw mis.

Cytunodd y darparwr a gydlynodd ac a gyflwynodd yr hyfforddiant cneifio defaid fod proses gais Cyswllt Ffermio yn gweithio'n dda, ond rhoddodd lai o bwyslais ar bwysigrwydd cwblhau'r CDP. Dywedodd y tri darparwr fod ffermwyr weithiau'n cysylltu â nhw'n uniongyrchol er mwyn gwneud cais am y cyrsiau. Pan ddigwyddai hyn, byddai'r darparwyr yn ailgyfeirio'r ffermwr yn ôl i Cyswllt Ffermio ac yn awgrymu y dylent wneud cais gan ddefnyddio'r arian sydd ar gael trwy'r rhaglen. Nid oedd darparwyr o'r farn bod y dull cychwynnol hwn yn broblem, i'r gwrthwyneb, roedd yn gyfle i hysbysu ffermwyr am yr hyfforddiant sydd ar gael a'r ymrwymiad o ran amser sy'n ofynnol ohonynt.

### *Rhwystrau i gyflenwi*

Ni ddaeth unrhyw rwystrau sylweddol i ddarparu'r cyrsiau hyfforddi hyn i'r amlwg. Fodd bynnag, nododd y tri darparwr eu bod yn teimlo bod y prosesau gweinyddu sy'n gysylltiedig â chadarnhau eu bod wedi derbyn taliad ychydig yn llafurus. Mae'r ffenestr amser gymharol gul (dau fis) ar gyfer yr hyfforddiant cneifio defaid yn cyfyngu ar argaeledd cyfleoedd hyfforddi. Nododd y darparwr nad yw ffermwyr bob amser yn ymwybodol bod angen iddynt wneud cais am gyllid a chofrestru ar gyfer y cwrs yn ystod yr hydref/gaeaf er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer lle yr haf canlynol. Mae rhai ffermwyr yn gwneud cais ym mis Mai, pan fydd hi'n rhy hwyr i gael lle ar gwrs y mis canlynol a bydd cyllid y gwnaed cais amdano wedi dod i ben erbyn y flwyddyn ganlynol. Felly, mae amseriad y cais yn bwysig iawn.

### Cyd-fynd â chynnig ehangach Cyswllt Ffermio a rhaglenni eraill

Roedd un darparwr yn gweld yr hyfforddiant hwn fel porth i gefnogaeth arall Cyswllt Ffermio. Roedd un arall o'r farn bod achosiaeth yn gweithio'n bennaf i'r cyfeiriad arall: roedd gweithgareddau fel Grwpiau Trafod yn gyfle i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd hyfforddi.

Roedd y graddau yr oedd cyfranogwyr hyfforddiant wedi ymgysylltu â rhaglenni Cyswllt Ffermio eraill yn ogystal â'r hyfforddiant dan sylw yn amrywio: roedd rhai wedi ymgysylltu â gwasanaethau Cyswllt Ffermio eraill, ac eraill heb wneud hynny. Nid oedd unrhyw gysylltiadau penodol rhwng y cyrsiau hyfforddi hyn a llinynnau eraill yn y cynnig Cyswllt Ffermio ehangach, a gwnaeth y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr sydd wedi cynnwys yn yr astudiaeth achos hon nodi a dilyn yr hyfforddiant i ddiwallu anghenion uniongyrchol, yn hytrach nag fel dilyniant o, neu i, feysydd cefnogaeth eraill. Yn yr un modd, roedd y rhai a oedd wedi cyrchu gwasanaethau eraill Cyswllt Ffermio wedi gwneud hynny o ganlyniad i wybodaeth arall, neu oherwydd iddynt nodi eu hangen am arweiniad neu gefnogaeth yn y maes hwnnw.

### Gweithredu

Roedd ffocws ymarferol y cyrsiau hyfforddi ar y fferm yn golygu y gallai ffermwyr sy'n cymryd rhan gymhwyso'r sgiliau a'r wybodaeth yr oeddent yn eu datblygu i ymarfer pob dydd ar unwaith. Er bod llawer o'r rhai a oedd yn mynychu'r hyfforddiant Defnydd diogel o blaladdwyr wedi gwneud hynny oherwydd gofynion deddfwriaeth newydd, nododd pob un eu bod wedi dysgu sgiliau newydd a oedd wedi'u galluogi i roi arferion mwy diogel ar waith yn ogystal â phrosesau a oedd yn gwella effeithlonrwydd mewn perthynas â chyfraddau defnydd plaladdwyr.

Nododd y rheini a oedd yn mynychu'r cwrs Cneifio defaid â pheiriant hefyd y gallent gneifio eu defaid eu hunain cyn gynted ag y byddent wedi cwblhau'r cwrs. Roeddent hefyd wedi datblygu technegau trin defaid gwell a oedd yn gwella lles eu hanifeiliaid.

### Canlyniadau ac effeithiau ar gyfer buddiolwyr

Roedd canlyniadau ac effeithiau'r hyfforddiant a brofwyd gan y rhai a gymerodd ran yn y cyrsiau yn amrywio. Cytunodd y mwyafrif eu bod wedi cael rhai buddion cadarnhaol o ganlyniad i'r hyfforddiant. Fodd bynnag, teimlai rhai nad oedd rhai elfennau o'r hyfforddiant yn berthnasol iddynt hwy.

Roedd y gallu i gyflwyno arferion newydd neu wahanol ar unwaith yn galluogi cyfranogwyr i leihau costau. Roedd hyn yn arbennig o amlwg i'r rhai a fynychodd y cwrs cneifio defaid a allai, ar ôl yr hyfforddiant, gneifio eu defaid eu hunain yn lle talu contractwyr i ddod i'r fferm i wneud y gwaith iddynt. Rhoddwyd enghreifftiau hefyd o rai cyfranogwyr hyfforddiant a oedd wedi defnyddio'r sgiliau roeddent wedi'u dysgu i gneifio defaid ffermydd cyfagos a chynhyrchu rhywfaint o incwm ychwanegol yn y broses.

Soniodd y rheini a fynychodd yr hyfforddiant Defnydd diogel o blaladdwyr hefyd fuddion mewn perthynas â mabwysiadu arferion mwy diogel yn ogystal ag arbedion cost sy'n deillio o ddefnyddio plaladdwyr yn fwy effeithlon. Yn gyffredinol, roedd y canlyniadau a'r buddion a gafodd rhai a fynychodd hyfforddiant yn gymedrol, ond fe'u priodolwyd yn uniongyrchol i'r hyfforddiant ac roeddent yn gallu cael eu defnyddio bron ar unwaith.

Roedd rhai o'r cyfranogwyr hyfforddiant a gynhwyswyd yn yr astudiaeth achos hon hefyd wedi dilyn cyrsiau hyfforddi eraill gan gynnwys tocio traed a chyrsiau cyflwyno TAW ar-lein. Arweiniodd y rhain at fuddion tebyg, gyda chostau wedi'u lleihau trwy ddibynnu llai ar yr angen am wasanaethau cymorth allanol i gyflawni tasgau penodol.

Nododd y rheini a oedd hefyd wedi cyrchu meysydd cefnogaeth eraill a ddarparwyd gan Cyswllt Ffermio, megis Cynlluniau Rheoli Maetholion, ymweliadau fferm a Grwpiau Trafod, eu bod wedi cyflwyno rhai arferion newydd yr oeddent yn disgwyl iddynt gael effaith gadarnhaol ar berfformiad eu busnes ond efallai na fyddent wedi gwneud hynny eto. Oherwydd hyn, roedd hi'n anodd asesu pa fath o gefnogaeth oedd yn debygol o fod fwyaf effeithiol wrth sicrhau buddion tymor hwy.

### *Ychwanegedd a chyfraniad*

Cytunodd bron pob cyfranogwr na fyddai'r sgiliau ychwanegol a'r newidiadau mewn arferion y maent wedi'u cyflwyno o ganlyniad i'r hyfforddiant wedi digwydd, neu o leiaf y byddent wedi cymryd mwy o amser i ddatblygu, heb yr hyfforddiant. Roedd y mwyafrif eisoes wedi gweld costau is o ganlyniad i'r hyfforddiant ac yn disgwyl i hyn gyfrannu at well proffidioldeb eu busnes yn y dyfodol.

Roedd y rheini a oedd wedi cyrchu meysydd eraill o gefnogaeth Cyswllt Ffermio hefyd yn disgwyl i'r sgiliau a'r wybodaeth yr oeddent wedi'u datblygu gael effaith gadarnhaol ar eu cynhyrchiant, eu trosiant a'u proffidioldeb yn y dyfodol.

### Gwersi a goblygiadau

Mae'r cyrsiau hyfforddi a gynhwysir yma wedi rhoi effeithiau cadarnhaol i'r mwyafrif o gyfranogwyr drwy leihau eu costau a gwella arferion diogel a lles anifeiliaid. Roedd y broses o gyrchu'r hyfforddiant fel arfer yn syml er bod rhai o'r farn bod llywio o amgylch y wefan yn heriol ar brydiau.

Nododd canfyddiadau'r astudiaeth achos fod cysylltiadau rhwng hyfforddiant ac ardystiad a ariennir gan Cyswllt Ffermio mewn meysydd penodol a chefnogaeth arall a gynigiwyd gan y rhaglen ddim mor amlwg â hynny: mae hwn yn faes y gellid ei gryfhau.

**Atodiad C: Nodweddion ymatebwyr yr astudiaethau achos**

C.1 Yn y tabl isod, rydym yn rhoi nodweddion y buddiolwr yr ymgynghorwyd â hwy yn yr astudiaethau achos Cam 2, ac yn cymharu'r rhain (pan mai'r un yw'r cwestiynau) â chanlyniadau "arolwg gwaelodlin" Menter a Busnes 2019.

**Ffigur C-1: Nodweddion buddiolwyr yr astudiaethau achos ac arolwg 2019**

| Nodweddion | Adborth gan fuddiolwyr astudiaeth achos* | | | | Arolwg 2019** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Oedd | Nac oedd | D/G | Cyfanswm | Oedd | Nac oedd | D/G | Cyfanswm |
| Uchelgais glir | 58% | 36% | 6% | 36 | 72% | 27% | 0% | 705 |
| Meincnodi wedi'i wneud | 58% | 28% | 14% | 36 | 50% | 0% | 67% | 706 |
| Cynllun olyniaeth yn ei le | 33% | 42% | 25% | 36 | 44% | 49% | 8% | 705 |
| Cynllun rheoli maetholion | 58% | 33% | 8.3% | 36 | 75% | 25% | 0% | 592 |
| Monitro iechyd anifeiliaid | 56% | 25% | 19% | 36 | 69% | 31% | 0% | 592 |
| Cynllun busnes | 42% | 50% | 8% | 36 | 19% | 79% | 1% | 705 |
| Defnyddio meddalwedd electronig | 28% | 50% | 22% | 36 | 29% | 70% | 1% | 704 |
| Aelod o gynllun(iau) sicrwydd neu achredu | 50% | 31% | 19% | 36 | 71% | 29% | 0% | 280 |

Ffynhonnell: SQW (n=36)*

Ffynhonnell: Cyswllt Ffermio 2019 (n=706)**

**Atodiad D: Dadansoddiad o'r data monitro ychwanegol ar gyfer cyfnod diweddariad y rhaglen**

**Rhaglen Diweddariad Cyswllt Ffermio: proffil gwariant ac allbynnau 2019-2022**

D.1 Yn yr adran hon rydym yn cyflwyno data ar wariant ac allbynnau ar gyfer diweddariad y rhaglen (Awst 2019 i Awst 2022) er mwyn rhoi trosolwg byr o'r cynnydd hyd yma. Mae'r data'n cwmpasu'r cyfnod o 20 Awst 2019 hyd at fis Gorffennaf 2020.

*Gwariant ar Drosglwyddo Gwybodaeth a Gwasanaethau Cynghori a ddarparwyd gan MaB (2019-2022)*

D.2 Erbyn mis Gorffennaf 2020 roedd ychydig dros £5.4 miliwn wedi'i wario ar gyflenwi rhaglen ddiweddaru Cyswllt Ffermio, o gymharu â'r gwariant a ragamcanwyd ar gyfer hyd oes y rhaglen, sef £20.7 miliwn. Mae Tabl D-1 isod yn dangos fod y gwariant hyd at fis Gorffennaf 2020 ar y trywydd cywir, sef 99% o'r rhagamcaniad.[108] Isod rydym yn dadansoddi'r gwariant hyd yma ar draws Lotiau a gweithgareddau Cyswllt Ffermio.

**Tabl D-1: Gwariant rhaglen (Awst 2019-Awst 2022)**

| **Categori** | A: Cyfanswm gwariant hyd yma (Awst 2019 - Gorffennaf 2020) | B: % o ragamcaniad gwariant hyd yma (Awst 2019 - Gorffennaf 2020) | C: Rhagamcaniad gwariant yn weddill hyd ddiwedd cyfnod y rhaglen (Awst 2022) (yn cynnwys tan/gôr wariant o'r cyfnod cyn Awst 2019) | Cyfanswm gwariant disgwyliedig erbyn diwedd cyfnod y rhaglen (A+C) |
|---|---|---|---|---|
| Lot 1 | 3,634,991 | 99% | 11,020,818 | 14,655,810 |
| Lot 2 | 388,129 | 97% | 1,408,178 | 1,796,307 |
| Lot 3 | 1,438,582 | 98% | 2,821,464 | 4,260,047 |
| **Cyfanswm y rhaglen** | **5,461,702** | **99%** | **15,207,527** | **20,712,164** |

*Ffynhonnell: MaB a Lantra (derbyniwyd 10 Medi 2020)*

[108] Mae'r ffigurau gwariant a ragamcanirr yn unol ag ailgroffil Gorffennaf (2020).

D.3 Hyd yma, mae gwariant o dan Lot 1 wedi dod i gyfanswm o £3.6 miliwn gan gyfrif am 99% o'r gwariant a ragamcanir dros y cyfnod. Costau rhedeg rhaglenni oedd i gyfrif am fwyafrif y gwariant hyd at fis Gorffennaf 2020 (75%). Gwariant ar Grwpiau Trafod a Chymorthfeydd a Chlinigau un i un fu'r gweithgareddau gwariant uchaf hyd yma. Dros y cyfnod cyflenwi sy'n weddill, rhagamcanir gwariant ychwanegol gwerth £11 miliwn (gweler Tabl D-2).

D.4 O dan Lot 3, cyfanswm y gwariant hyd at fis Gorffennaf 2020 oedd £1.4 miliwn, sy'n cyfateb i 98% o'r gwariant a ragamcanwyd dros y cyfnod. Mae hanner y gwariant hyd yma wedi bod ar hyfforddiant grŵp, gyda thraean ar gyngor un i un (38%). Rhagamcanir y bydd £2.8 miliwn arall yn cael ei wario ar weithgareddau Lot 3 erbyn diwedd y rhaglen (gweler Tabl D-3).

**Tabl D-2: Gwariant rhaglen Lot 1 (Awst 2019-Awst 2022)**

| **Categori** | | A: Cyfanswm gwariant hyd yma (Awst 2019 - Gorffennaf 2020) | B: % o ragamcaniad gwariant hyd yma (Awst 2019 - Gorffennaf 2020) | C: Rhagamcaniad gwariant yn weddill hyd ddiwedd cyfnod y rhaglen (Awst 2022) | Cyfanswm gwariant disgwyliedig erbyn diwedd cyfnod y rhaglen (A+C) |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau Cynnal y Rhaglen | Mae'r costau hyn yn cynnwys darpariaeth staff cyflenwi a staff canolfan wasanaeth sy'n hyrwyddo ac yn gweinyddu rhaglen gyfan Cyswllt Ffermio (ar draws y tair lot) | 2,714,838 | 100% | 7,592,799 | 10,307,637 |
| Datblygu a Mentora | Arweinwyr ifanc ac arloeswyr busnes<br>Mentora fferm/coedwigaeth un i un<br>Dysgu Gweithredol Mentro<br>Cyfnewidfa<br>Rheolaeth fferm a | 241,719 | 99% | 515,926 | 757,645 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | choedwigaeth ac ymweliadau tymor byr | | | | |
| Gweithgareddau technegol | Rhwydwaith Arddangos<br>Hyb Gwybodaeth<br>Grwpiau Trafod | 369,384 | 94% | 1,631,958 | 2,001,342 |
| Digwyddiadau a chefnogaeth un i un | Digwyddiadau ymwybyddiaeth o arallgyfeirio<br>Digwyddiadau Cymraeg<br>Cymorthfeydd a Chlinigau un i un<br>Ymwybyddiaeth strategol | 198,199 | 103% | 782,268 | 980,467 |
| Cyfathrebu | Mae hyn yn cwmpasu marchnata ar gyfer y rhaglen gyfan (h.y. Lotiau 1, 2 a 3), ac yn cynnwys costau cyfieithu a mynychu sioeau ac arddangosfeydd. | 110,851 | 100% | 492,019 | 602,870 |
| Addasiad ar gyfer tan/gôr wariant cyn Awst 2019 | | - | - | - | 5,848 |
| **Cyfanswm Lot 1** | | **3,634,991** | **99%** | **11,014,970** | **14,655,810** |

*Ffynhonnell: MaB (derbyniwyd 16 Rhagyfr 2020)*

**Tabl D-3: Gwariant rhaglen Lot 3 (Awst 2019-Awst 2022)**

| **Categori** | A: Cyfanswm gwariant hyd yma (Awst 2019 - Gorffennaf 2020) | B: % o ragamcaniad gwariant hyd yma (Awst 2019 - Gorffennaf 2020) | C: Rhagamcaniad gwariant yn weddill hyd ddiwedd cyfnod y rhaglen (Awst 2022) | D: Tanwariant presennol i'w ddefnyddio cyn diwedd y rhaglen | Cyfanswm gwariant disgwyliedig erbyn diwedd cyfnod y rhaglen (A+C+D) |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau Cynnal y Rhaglen | 18,121 | 98% | 4,857 | 390 | 23,368 |
| Cyngor Un i Un | 554,310 | 97% | 901,541 | 15,872 | 1,471,723 |
| Hyfforddiant Grŵp | 718,661 | 99% | 1,383,148 | 9,196 | 2,111,005 |
| EIP – Grwpiau Gweithredol | 146,508 | 100% | 466,046 | 44 | 612,998 |
| Meincnodi | 983 | 100% | 2,885 | - | 3,868 |
| Addasiad ar gyfer tan/gôr wariant cyn Awst 2019 | | | | | 37,085 |
| **Lot 3 total** | **1,438,582** | **98%** | **2,758,477** | **25,902** | **4,260,047** |

*Ffynhonnell: MaB (derbyniwyd 16 Rhagfyr 2020*)

*Gwariant ar ddarpariaeth hyfforddiant a gyflenwir gan Lantra (2019-2022)*

D.5 Cyfanswm y gwariant o dan Lot 2 oedd £388K rhwng mis Awst 2019 a mis Gorffennaf 2020, o'i gymharu â tharged cyfnod y rhaglen o £441K (88% o'r rhagamcaniad). Mae mwyafrif y gwariant hyd yma wedi bod ar gostau cynnal y rhaglen (50%) a hyfforddiant achrededig cyrsiau byr (41%). Rhagamcanir gwariant ychwanegol o £1.4 miliwn dros y cyfnod cyflenwi sy'n weddill, sy'n cyfateb i gyfanswm gwariant oes o £1.79 miliwn.

**Tabl D-4: Gwariant rhaglen Lot 2 (Awst 2019-Awst 2022)**

| **Categori** | A: Cyfanswm gwariant hyd yma (Awst 2019 - Gorffennaf 2020) | B: % o ragamcaniad gwariant hyd yma (Awst 2019 - Gorffennaf 2020) | Rhagamcaniad gwariant yn weddill hyd ddiwedd cyfnod y rhaglen (Awst 2022) | Cyfanswm gwariant disgwyliedig erbyn diwedd cyfnod y rhaglen (A+C) |
|---|---|---|---|---|
| Costau Cynnal y Rhaglen | 194,415 | 91% | 655,848 | 850,263 |
| Hyfforddiant Achrededig Cyrsiau Byr | 159,177 | 90% | 591,867 | 751,044 |
| E-ddysgu achredédig | 34,537 | 68% | 160,463 | 195,000 |
| Cynlluniau Datblygu Personol | n/a | n/a | n/a | n/a |
| **Cyfanswm Lot 2** | **388,129** | **88%** | **1,408,178** | **1,796,307** |

*Ffynhonnell: Lantra (derbyniwyd 10 Medi 2020)*

*Proffil allbynnau – diweddariad y rhaglen*

D.6 Dros y cyfnod o fis Awst 2019 i fis Gorffennaf 2020, gwnaed cynnydd da tuag at gyflawni allbynnau targed o dan Lot 1; cyflawnwyd neu rhagorwyd ar bron i dri chwarter yr allbynnau targed blynyddol (tri ar ddeg allan o ddeunaw) gydag un mis yn weddill o'r cyfnod cyflenwi. Mae targed y rhaglen ar gyfer ffeithlenni a chanllawiau eisoes wedi'i basio, gyda dwy flynedd o'r cyfnod cyflenwi yn weddill. Mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar rywfaint o weithgaredd, yn enwedig sioeau ac arddangosfeydd, sy'n cael ei adlewyrchu mewn allbynnau is na'r disgwyl hyd yma (gweler Tabl D-5). Fodd bynnag, mae'r rhaglen wedi addasu trwy ddarparu rhywfaint o weithgaredd ar ffurf gweminarau (gan gynnwys Digwyddiadau Arddangos a Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol), a chynyddu gweithgareddau eraill, fel Cymorthfeydd, i wneud yn iawn am hynny.

D.7 Yn yr un modd, gwnaeth Lot 2 gynnydd da yn erbyn yr holl dargedau allbwn blynyddol gyda'r targed cyfun ar gyfer hyfforddiant wyneb yn wyneb ac e-ddysgu, a rhagorwyd ar y targed ar gyfer Cynlluniau Datblygu Personol erbyn mis Gorffennaf. Mae tri ar hugain o fodiwlau hyfforddiant e-ddysgu newydd wedi'u cyflenwi hyd yma yn erbyn targed rhaglen o 88 (gweler Tabl D-6).

D.8 Mae Tabl D-7 yn dangos allbynnau o dan Lot 3. Erbyn mis Gorffennaf 2020, aethpwyd ymhell dros y targed blynyddol ar gyfer achosion grŵp o gyngor a hawliwyd (302%). Yn ogystal, cyflawnwyd un ar bymtheg o fentrau ar y cyd. Fodd

bynnag, hyd yma bu cynnydd arafach tuag at y targed blynyddol o 800 o sesiynau cyngor un i un.

**Tabl D-5: Allbynnau rhaglen Lot 1 (Awst 2019-Awst 2022)**

| **Disgrifiad** | Targed y rhaglen (2019-2022) | Targed blynyddol | Cyflawnwyd (20 Awst 2019 – diwedd Gorffennaf 2020) | % a gyflawnwyd yn erbyn targed blynyddol |
|---|---|---|---|---|
| Academi Amaeth | 4 | 2 | 2 | 100% |
| Rhaglen Mentora | 210 | 70 | 104 | 149% |
| Rhwydwaith Arddangos | 240 | 80 | 85 | 106% |
| Sioeau ac Arddangosfeydd | 48 | 16 | 4 | 25% |
| Ffeithlenni a Chanllawiau | 18 | 6 | 40 | 667% |
| Cyhoeddiadau Technegol | 16 | 6 | 5 | 83% |
| Erthyglau Technegol a Datganiadau i’r Wasg | 280 | 100 | 105 | 105% |
| E-fwletin | 33 | 11 | 11 | 100% |
| Astudiaethau achos | 23 | 8 | 10 | 125% |
| Fideos | 81 | 27 | 35 | 130% |
| Grwpiau Trafod a Sefydlwyd | 30 grŵp | 10 grŵp | 24 | 240% |
| Digwyddiadau Ymwybyddiaeth Strategol | 262 | 90 | 83 | 92% |
| Seminar Arallgyfeirio | 9 | 3 | 4 | 133% |
| Agrisgôp | 65 grŵp | 30 grŵp | 20 | 67% |
| Cymorthfeydd Un i Un | 180 | 60 | 119 | 198% |
| Clinig | 420 | 144 | 154 | 107% |
| Cyfnewidfa Rheolaeth | 16 | 8 | 6 | 75% |
| Ymweliadau Fferm a Choedwig | 18 | 6 | 6 | 100% |

*Ffynhonnell: MaB (derbyniwyd 10 Medi 2020)*

**Tabl D-6: Allbynnau rhaglen Lot 2 (Awst 2019-Awst 2022)**

| **Disgrifiad** | Targed y rhaglen (2019-2022) | Targed blynyddol | Cyflawnwyd (Awst 2019 – Gorffennaf 2020) | % a gyflawnwyd yn erbyn targed blynyddol |
|---|---|---|---|---|
| Achosion o hyfforddiant achrededig un i un wedi'u cwblhau | 4,500 | 1,500 | 879 | 118% |
| Achosion o e-ddysgu ar-lein wedi'u cwblhau | | | 893 | |
| *Achosion o e-ddysgu ac eithrio Iechyd a Diogelwch* | | | 499 | |
| *Achosion o Iechyd a Diogelwch* | | | 394 | |
| Cynlluniau Datblygu Personol | 2,400 | 800 | 888 | 111% |
| Modiwlau hyfforddiant e-ddysgu newydd wedi'u cynhyrchu | 88 | d/g | 23 | 26%* |

*Ffynhonnell: Lantra (derbyniwyd 12 Awst 2020) *% o darged y rhaglen*

**Tabl D-7: Allbynnau rhaglen Lot 3 (Awst 2019-Awst 2022)**

| **Disgrifiad** | Targed y rhaglen (2019-2022) | Targed blynyddol | Cyflawnwyd (20 Awst 2019 – diwedd Gorff 2020) | % a gyflawnwyd yn erbyn targed blynyddol |
|---|---|---|---|---|
| Achosion i gyngor un i un a hawliwyd<br>Achosion Grŵp o gyngor a hawliwyd | Blwyddyn 5 – 1,000<br>Blwyddyn 6 – 1,000<br>Blwyddyn 7 - i'w gadarnhau darostyngedig i gyllideb | 1,000 | 1,167 | 117% |
| Prosiectau EIP | 45 prosiect dros oes y rhaglen | d/g | 12 | d/g |

*Ffynhonnell: MaB (derbyniwyd 10 Medi 2020)*

## Atodiad E: Adolygiad Cymaryddion Rhyngwladol – adolygiad manwl o'r rhaglenni

E.1 Mae Tabl E-1 yn crynhoi'r 26 rhaglen a adolygwyd ar gyfer yr adolygiad cymaryddion rhyngwladol. Mae'r Tabl yn rhoi manylion y rhaglenni a adolygwyd, gan gynnwys y sefydliad arweiniol, swm a ffynhonnell y cyllid, y gynulleidfa darged a'r gweithgareddau allweddol a oedd yn rhan o'r prosiect.

### Dull

E.2 Roedd y dull yn cynnwys chwiliad ar y we ac adolygiad o ddogfennaeth berthnasol. Lluniwyd rhestr hir o 55 rhaglen, a dewiswyd rhestr fer o'u plith yn seiliedig ar y rhaglenni oedd fwyaf perthnasol i nodau a mecanweithiau cyflenwi Cyswllt Ffermio. Adolygwyd y 26 rhaglen ar y rhestr fer yn llawn yn erbyn 18 cwestiwn yn canolbwyntio ar nodweddion y rhaglen ac unrhyw dystiolaeth werthuso, gan gynnwys canlyniadau ac effeithiau, yr hyn sy'n gweithio'n dda neu ddim cystal, ffactorau sydd wedi dylanwadu ar gynnydd a gwersi a ddysgwyd.

**Tabl E-1: Crynodeb o'r rhaglenni a adolygwyd**

| Rhaglen | Math o sefydliad cyflenwi | Cyfnod cyflenwi | Swm a ffynhonnell cyllid | Cynulleidfa darged | Gweithgareddau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Y Deyrnas Unedig** | | | | | |
| Rhaglen Prince's Farm Resilience[109] | Elusen | Parhaus (dechreuwyd 2016) | Prince's Countryside Fund: swm yn anhysbys | Diwydiant amaethyddiaeth | 15 grŵp o 20 busnes fferm yn flynyddol:<br>• Saith gweithdy ar sgiliau busnes, gan gynnwys cynllunio busnes, cyfrifon, cyllidebau, a chynllunio amgylcheddol<br>• Offeryn Gwiriad Iechyd Busnes (un i un) |
| The Farmer Network[110] | Sector preifat | Parhaus (dechreuwyd 2001) | Dim gwybodaeth | Amaethyddiaeth | Darparu ffermwyr â chymorth a chefnogaeth drwy wahanol weithgareddau:<br>• Darparu cysylltiadau i gymunedau ffermio<br>• Cefnogaeth ar gael drwy'r rhwydwaith, yn cynnwys gwasanaeth samplu pridd, talebau hyfforddiant, rhaglen uchelgais ffermio |
| **Lloegr** | | | | | |
| Tried and Tested[111] | Partneriaeth[112] | Parhaus (dechreuwyd 2013) | - | Amaethyddiaeth (ffermwyr) | Mae'r rhaglen yn darparu amrediad o ddeunyddiau i ffermwyr:<br>• Canllawiau arfer gorau sylfaenol ar reoli maetholion ar ffermydd<br>• Cynllun Rheoli Maetholion Tried & Tested<br>• Cyfrifiannell Cyflenwad Maetholion yn y Pridd (SNS) |
| Prosiect Catchment Sensitive Farming[113] | Partneriaeth | Parhaus (dechreuwyd 2005) | Dim gwybodaeth | Amaethyddiaeth (ffermwyr) | Cefnogaeth ymarferol ac wedi'i thargedu ar gyfer ffermwyr a pherchnogion tir wedi'i darparu gan Swyddogion Catchment Sensitive Farming:<br>• Gweithdai ac arddangosiadau<br>• Teithiau a digwyddiadau fferm<br>• Gwerthusiadau fferm unigol, gyda chyngor un i un |

[109] The Prince's Farm Resilience Programme
[110] The Farmer Network
[111] Tried and Tested
[112] Tried and Tested - Our supporters
[113] Catchment Sensitive Farming – Reduce water and air pollution

| Rhaglen | Math o sefydliad cyflenwi | Cyfnod cyflenwi | Swm a ffynhonnell cyllid | Cynulleidfa darged | Gweithgareddau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Grantiau cyfalaf, hyd at 60% o gyfanswm y cyllido, i gyflawni gwelliannau mewn seilwaith fferm |
| Water and Integrated Local Delivery (WILD) | Partneriaeth[114] | 2012 i 2016 | Sicrhau cyllid grant gan bartneriaid/cyrff cyllido eraill: £242,000 | Diwydiant amaethyddiaeth (ffermwyr a pherchnogion tir) a chymunedau lleol | • Swyddogion Prosiect yn ymweld â phob fferm, tyddyn a pherchennog tir perthnasol yn y dalgylch<br>• Bydd Rheolwr Prosiect yn darparu cyngor i ffermwyr a pherchnogion tir |
| **Yr Alban** | | | | | |
| Rhaglen Monitor Farm | Partneriaeth | 2016 i 2019 | Llywodraeth yr Alban a Chronfa Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi yr Undeb Ewropeaidd: £1.25 miliwn [115] | Amaethyddiaeth (ffermwyr) | Caiff naw o ffermwyr eu monitro ar draws yr Alban:<br>• Tîm Rheoli pwrpasol a Grŵp Busnes cysylltiedig ar gyfer pob fferm er mwyn arfarnu datrysiadau ac arfer gorau<br>• Bydd ffermydd yn rhannu eu canfyddiadau gyda Grwpiau Cymunedol yn ehangach a thrwy wahanol sianeli cyfryngau gan gynnwys gwefan bwrpasol |
| **Gogledd Iwerddon** | | | | | |
| Higher level education for farm heads | Sector cyhoeddus | ? i 2025 | Dim gwybodaeth | Diwydiant amaethyddiaeth | • Cynyddu nifer a hyrwyddo cyrsiau Prifysgol |
| **Iwerddon** | | | | | |
| Rhaglen Gefnogi a Chynghori Cynaliadwyedd Amaethyddol[116] | Sector cyhoeddus | 2018 i 2021 | Yr Adran Amaethyddiaeth, Bwyd a Morol a'r Adran Tai, Cynllunio a Llywodraeth Leol, a Dairy | Diwydiant Amaethyddiaeth (ffermwyr cnydau a llaeth) | Mae'r rhaglen yn darparu cefnogaeth un i un, am ddim ac wedi'i phersonoleiddio drwy amrywiol weithgareddau, sy'n cynnwys:<br>• Cynghorwyr yn asesu clos y fferm, arferion rheoli maetholion ac arferion rheoli tir ffermio cyffredinol |

114 Overview of the Water and Integrated Local Delivery (WILD) project
115 Monitor Farm Scotland
116 Agricultural Sustainability Support and Advisory Programme (ASSAP)

| Rhaglen | Math o sefydliad cyflenwi | Cyfnod cyflenwi | Swm a ffynhonnell cyllid | Cynulleidfa darged | Gweithgareddau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Sustainability Ireland: ni ddaethpwyd o hyd i'r swm | | • Mae'r cynghorydd a'r ffermwr yn cytuno ar welliannau a chamau gweithredu, yn llunio crynodeb ysgrifenedig ac amserlen ar gyfer cwblhau |
| Rhaglen Monitor Farms - Focus on Profit[117] | Partneriaeth | 2018 i 2020 | Dim gwybodaeth | Diwydiant amaethyddiaeth (ffermwyr da byw a llaeth) | Sefydlwyd deg Fferm Monitro phump fferm pridd trwm<br>• Rhaglen grwpiau trafod rhwng ffermydd<br>• Ymgyrchoedd wedi'u targedu ar reoli pori, ffrwythlondeb pridd, ansawdd llaeth a systemau fferm<br>• Menter Parth Gwybodaeth Fferm i wella cyfranogiad yn y rhaglen ymhlith yr holl gyflenwyr |
| Rhaglen BETTER Farm Crops[118] | Sector cyhoeddus | 2010 i 2013 a 2014 i 2017/18 | Dim gwybodaeth | Amaethyddiaeth (ffermwyr âr) | Dewisir ffermydd âr ar sail yr adnoddau sydd ar gael:<br>• Cyfweliadau cychwynnol i nodi meysydd o bryder a nodau<br>• Dadansoddiad ariannol o'r fferm<br>• Datblygu cynllun gweithredu<br>• Hwyluso trosglwyddo gwybodaeth rhwng cynghorwyr Teagasc, arbenigwyr ac ymchwilwyr a'r ffermydd |
| Rhaglen Options for Farm Families[119] | Sector cyhoeddus | Parhaus (dechreuwyd 2019) | Dim gwybodaeth | Diwydiant amaethyddiaeth | Cyflenwir y rhaglen drwy weithdai, gyda ffermydd yn cael gwahoddiad i fynychu cyrsiau yn eu hardal leol |
| Rhaglen Agricultural Catchment | Sector cyhoeddus | 2008 i 2023 (nawr yng Ngham 4 dechreuwyd 2019) | Yr Adran Amaethyddiaeth, Bwyd a Morol: Cyllid Cam 3 €1.56 miliwn y flwyddyn[120] | Amaethyddiaeth (ffermwyr da byw a chnydau) | 6 dalgylch (300 o ffermwyr) wedi'u nodi gan y rhaglen:<br>• Cynghorydd amaethyddol a thechnegydd yn darparu cefnogaeth dechnegol ac ymgynghorol |

117 Monitor Farms – Teagasc/Kerry Agribusiness Monitor Farms 2016-2019
118 Better Farm Crops Programme – Programme Report 2010-2012/3
119 Teagasc Options Programme
120 Agricultural Catchments Programme gets green light to 2023

| Rhaglen | Math o sefydliad cyflenwi | Cyfnod cyflenwi | Swm a ffynhonnell cyllid | Cynulleidfa darged | Gweithgareddau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | • Cesglir a dadansoddir data rheoli fferm gan wyddonydd pridd, geogemegydd dŵr a hydrolegydd amgylcheddol<br>• Economegydd cymdeithasol yn ystyried ymwybyddiaeth ac agwedd tuag at ansawdd dŵr, y mesurau sydd ar waith a'u heffaith economaidd |
| **Awstralia** | | | | | |
| Behavioural training in agriculture[121] | Sector preifat | Parhaus | D/G ffermwyr yn talu am wasanaeth | Diwydiant amaethyddiaeth (ffermwyr) | • Hyfforddiant wedi'i ganolbwyntio ar wella dealltwriaeth seicolegol<br>• Pecyn cymorth ymarferol yn ymwneud â sgiliau cymdeithasol ac ymddygiadol a gwella gwaith a chanlyniadau pob dydd<br>• Hyfforddiant gwyddor ymddygiadol gan gynnwys cynllunio a gweithredu rhaglen |
| Farming Together (Rhaglen Beilot Ffermydd Cydweithredol a Chydweithrediad au) | Sector cyhoeddus | Ionawr 2017 i Mehefin 2018 | Llywodraeth Ffederal: $14,934,000[122] | Diwydiant amaethyddiaeth (ffermwyr, pysgotwyr a choedwigwyr) | • Ffermwyr yn cyflwyno syniad am brosiect ac yn derbyn cefnogaeth ymgynghoriaeth i ddatblygu a mireinio cynllun prosiect ffurfiol. Darperir ymgynghoriadau gwasanaeth gan arbenigwyr, sydd ag arbenigedd ym meysydd y gyfraith, cynllunio strategol, marchnata, hwyluso grŵp a gwasanaethau proffesiynol eraill<br>• Yna bydd ffermwyr yn cyflwyno cynnig busnes ac yn gwneud cais am grant o hyd at $175,000<br>• Yna gellir neilltuo cefnogaeth bellach yn ôl y galw, er enghraifft gydag integreiddiad cadwyn gyflenwi, marchnata, datblygiad gwefan, rhwydweithio ac ymgyrchoedd aelodaeth, hwyluso gweithdai, dadansoddi risg neu brosesu ar-fferm |

[121] Behavioural training in Agriculture
[122] Growing your future through collaboration

| Rhaglen | Math o sefydliad cyflenwi | Cyfnod cyflenwi | Swm a ffynhonnell cyllid | Cynulleidfa darged | Gweithgareddau |
|---|---|---|---|---|---|
| Rural Research and Development for Profit | Sector cyhoeddus | 2015 i 2022 | Adran Amaethyddiaeth ac Adnoddau Dŵr: $180.5 miliwn[123] | Diwydiant amaethyddiaeth | Mae'r gweithgareddau a ariennir yn cynnwys: drwy rwydweithiau rhanbarthol, cynorthwyo ffermwyr i oresgyn rhwystrau i wneud newidiadau, hwyluso rhannu gwybodaeth, creu allbynnau trosglwyddadwy i fynd i'r afael ag anghenion ffermwyr a nodwyd a rhoi hwb i hyder ffermwyr er mwy galluogi cydweithredu ag eraill |
| **Canada** | | | | | |
| Rhaglen Agriculture Clean Technology | Sector cyhoeddus | 2018 i 2021 | Amaethyddiaeth a Bwyd Amaethyddol Canada: $25 miliwn[124] | Diwydiant amaethyddiaeth | Darpariaeth cyfraniadau ffederal sydd ddim angen eu had-dalu er mwyn galluogi prosiectau technoleg lân i gael eu rhoi ar waith a'u cyflenwi. |
| AgriInnovate[125] | Sector cyhoeddus | 2018 i 2023 | Ariennir gan Lywodraeth: swm yn anhysbys | Diwydiant amaethyddiaeth – sefydliadau nid er elw | Gweithgareddau i annog masnacheiddio, mabwysiadu ac arddangos cynhyrchion, technolegau, prosesau neu wasanaethau amaethyddol, bwyd-amaeth neu seiliedig ar amaethyddiaeth arloesol. |
| Rhaglen AgriScience[126] | Sector cyhoeddus | 2018 i 2023 | Ariennir gan Lywodraeth: swm yn anhysbys | Diwydiant amaethyddiaeth – sefydliadau er elw ac nid er elw | Gweithgareddau yn amrywio o ymchwil a datblygu cymhwysol i dechnoleg a throsglwyddo gwybodaeth. |
| **Denmarc** | | | | | |
| Precision agriculture[127] | Sector cyhoeddus | Menter barhaus yn hytrach na rhaglen | D/G | Diwydiant amaethyddiaeth (ffermwyr) | - |

[123] Evaluation of the Rural Research and Development (R&D) For Profit Programme
[124] Agricultural Clean Technology Program: Research and innovation Stream
[125] AgriInnovate Program: Applicant guide
[126] AgriScience Program – Projects: Applicant guide
[127] Danish Farmers earn €18/ha with precision agriculture

| Rhaglen | Math o sefydliad cyflenwi | Cyfnod cyflenwi | Swm a ffynhonnell cyllid | Cynulleidfa darged | Gweithgareddau |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhaglen Datblygu Gwledig Denmarc | Sector cyhoeddus | 2014 i 2020 | Cyllideb UE: €919 miliwn a chyfraniad cenedlaethol: €277 miliwn[128] | Diwydiant amaethyddiaeth (ffermwyr) | Buddsoddiad mewn arferion fferm cyfeillgar i'r amgylchedd, er enghraifft:<br>• Cefnogaeth ar gyfer peiriannau ac offer fferm newydd<br>• Sefydlu gwlyptiroedd ar gyfer echdynnu nitrogen a ffosfforws o ddŵr draenio<br>• Coedwigo i wella'r amgylchedd a hyrwyddo pa mor ddeniadol yw'r tirwedd |
| **Seland Newydd** | | | | | |
| Use of Agritech | Sector cyhoeddus | Parhaus | Ariennir yn gyhoeddus, swm yn anhysbys[129] | Diwydiant amaethyddiaeth | Mae'r rhaglen hon yn cynnwys gwahanol brosiectau a gweithgareddau ar y cyd â'r sector yn canolbwyntio ar ymateb i heriau a gweithgareddau.<br>• Rhaglenni ymchwil a datblygu ac arloesedd<br>• Agor y farchnad a chreu cysylltiadau rhwng ffermwyr |
| Prosiectau Sustainable Farming Fund | Sector cyhoeddus | Parhaus (dechreuwyd 2000) | Gweinyddiaeth y Prif Ddiwydiannau: $135 miliwn[130] | Diwydiant amaethyddiaeth (ffermwyr, coedwigwyr a dyframaethu) | Darperir cyllid ar gyfer prosiectau a arweinir gan ffermwyr, gyda hyd at $200,000 yn cael ei fuddsoddi ym mhob prosiect bob blwyddyn |
| **Yr Iseldiroedd** | | | | | |
| Circular agriculture[131] | Sector cyhoeddus | Parhaus (dechreuwyd 2018) | Dim gwybodaeth | Amaethyddiaeth (ffermwyr cnydau a da byw a dyframaethu) | • Adeiladu ar fentrau presennol, gwella deddfwriaethau, rheoliadau, gwybodaeth, arloesedd a gwelliannau ariannol<br>• Cysylltu ffermwyr, rhanddeiliaid a chwmnïau i hwyluso'r broses hon, tra'n sefyll gyda ffermwyr i'w cefnogi<br>• Gellid hefyd gynnig cyllid, cymorthdaliadau, credyd a didyniannau i ffermwyr, rhanddeiliaid a |

128 Factsheet on 2014-2020 Rural Development Programme for Denmark
129 Agritech in New Zealand: Towards an Industry Transformation plan
130 New Sustainable Farming Fund projects announced
131 Agrilculture, nature and food: Valuable and connected – The Netherlands as a leader in circular agriculture

| Rhaglen | Math o sefydliad cyflenwi | Cyfnod cyflenwi | Swm a ffynhonnell cyllid | Cynulleidfa darged | Gweithgareddau |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | chwmnïau sy'n symud tuag at gadwyni cyflenwi cylchol |
| Multi Actor Farm Health Plans (DISARM)[132] | Sector cyhoeddus | Parhaus (dechreuwyd 2019) | Dim gwybodaeth | Amaethyddiaeth (ffermwyr da byw) | Modelir y rhaglen ar 40 o ffermydd:<br>• Asesiadau fferm gwaelodlin a datblygiad cynllun iechyd fferm, a roddir ar waith gan y fferm<br>• Gweithredu adolygiad interim a diwedd cynllun<br>• Bydd pob fferm yn cynnal ymweliad fferm un diwrnod ar gyfer y timau fferm eraill yn eu gwlad |
| Food Valley[133] | Sector preifat | Parhaus (dechreuwyd 2004) | Dim gwybodaeth | Diwydiant amaethyddiaeth (busnesau bwyd amaeth) | • Gweithgareddau (cynadleddau a chyfarfodydd yn canolbwyntio ar rannu gwybodaeth a rhwydweithio)<br>• Gwasanaethau (gwasanaethau un i un ar wasanaethau i aelodau, megis helpu i ganfod partneriaid arloesi neu gyda gwneud cais am gymorthdaliadau)<br>• Ffynonellau gwybodaeth (e.e. gwefannau a chylchlythyrau a chyhoeddiadau eraill) |
| **UDA** | | | | | |
| Prosiect Ffermio Cynaliadwy New Entry[134] | Prifysgol | Parhaus (dechreuwyd 2011) | Dim gwybodaeth | Diwydiant amaethyddiaeth (ffermwyr sy'n fewnfudwyr a ffoaduriaid ym Massachusetts) | Gweithgareddau newydd-ddyfodiaid yn cynnwys:<br>• Gweithdai ar wahanol bynciau<br>• Cyrsiau cynllunio busnes<br>• Fferm ddeori yn rhoi plot bychan, offer, cymorth seilwaith a thechnegol i ffermwyr wedi iddynt gwblhau cynllun busnes |

*Ffynhonnell: SQW*

[132] Multi-Actor Farm Health Plans
[133] Food Valley
[134] New Entry Sustainable Farming Project

**Atodiad F: Gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol**

F.1 Cafodd gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol eu monitro fel rhan o'r gwerthusiad, er mwyn darparu data atodol ar ddiddordeb cyffredinol a diddordeb sy'n newid yn y rhaglen, a lle cafwyd ymgysylltiad uchel. Roedd hwn yn seiliedig ar 'giplun' yn hytrach nag ymdrin yn llawn â gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol yn ymwneud â Cyswllt Ffermio. Mae Press Data wedi cynnal ail adolygiad o weithgareddau cyfryngau cymdeithasol gan gymharu data sy'n ymwneud â Ch4 2018/Ch1 2019 (a gyflwynir yn adroddiad Cam 1) â Ch4 2019/Ch1 2020. Cyflwynir y canlyniadau manwl isod.


**Monitro sianeli**

F.2 Mae'r data a gyflwynir yn yr adran hon yn cwmpasu gweithgarwch ar gyfrifon Twitter a Facebook Cyswllt Ffermio[135].

*Canlyniad sianeli dros amser*

F.3 Yn ystod y cyfnod adrodd, cafwyd tua 6,000 o ganlyniadau Twitter a Facebook[136]. Twitter oedd â'r mwyafrif helaeth o weithgarwch cyfryngau cymdeithasol yn cyfrif am 83% o'r canlyniadau, gyda'r 17% sy'n weddill ar Facebook.
O fewn y cyfnodau a ddadansoddwyd, amrywiodd canlyniadau Twitter dros amser gyda'r pwynt isaf o 215 o ganlyniadau ym mis Rhagfyr 2018 ac uchafbwynt o 643 ym mis Hydref 2019. Mae'r patrwm tymhorol yn y ddau gyfnod yn dangos brig mewn gweithgaredd ar Twitter yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd, a lefelau is dros fisoedd y gaeaf. Mewn cymhariaeth, arhosodd gweithgaredd ar Facebook yn weddol gyson trwy gydol y cyfnodau adrodd (gweler Ffigur F-1).

**Ffigur F-1: Canlyniadau Twitter a Facebook dros amser**





Ffynhonnell: Press Data

135 Facebook: https://en-gb.facebook.com/farmingconnect/. Twitter: @FarmingConnect a @cyswlltffermio
136 Mae'r canlyniadau'n cyfeirio at swm y cynnwys a gyhoeddwyd

F.4 Mae Ffigur F-2 yn dangos bod y mwyafrif o'r gweithgarwch ar sianeli Facebook a Twitter Cyswllt Ffermio dros y cyfnod adrodd wedi bod yn Saesneg, ond mae'r Gymraeg wedi cyfrif yn gyson am tua chwarter y canlyniadau.

**Ffigur F-2: Canlyniadau sianeli yn ôl iaith**




Ffynhonnell: Press Data. Sylwer, mae'r ffigurau yn cynnwys Twitter a Facebook.

*Cyrhaeddiad ac ymgysylltiad*

F.5 Cyrhaeddiad yw nifer y bobl sy'n gweld y cynnwys cyhoeddedig, ac ymgysylltu yw nifer yr achosion o ryngweithio rhwng defnyddwyr â'r cynnwys (er enghraifft, hoffi, sylwadau, rhannu, ail-drydar ac ati). Dros y cyfnod adrodd, cyrhaeddodd cyrhaeddiad proffil Twitter Cyswllt Ffermio uchafbwynt ym mis Hydref 2018 ac yna eto ym mis Hydref 2019 ar 1.8 miliwn, tra bod cyrhaeddiad Facebook ar ei uchaf ym mis Ionawr 2019 (472.2k).

F.6 Cyfanswm yr ymgysylltiad oedd 15,776 dros y chwarteri a gafodd eu monitro. Mae ymgysylltu wedi dilyn tuedd debyg i nifer y postiadau (gweler yr adran uchod), gydag ymgysylltiad Twitter ar ei uchaf ym mis Hydref/Tachwedd yn 2018 a 2019. Roedd uchafbwynt hefyd ym mis Chwefror 2019 (1.1k), ond ni ailadroddwyd hyn y flwyddyn ganlynol. Roedd ymgysylltiad Facebook yn is rhwng Hydref 2019-Mawrth 2020, o'i gymharu â Hydref 2018-Mawrth 2019 (gweler Tabl F-3).


**Tabl F-3: Ymgysylltiad o gymharu â chyrhaeddiad (Twitter a Facebook)**


| | 2018 | | | 2019 | | | | | | 2020 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Mawrth | Hyd | Tach | Rhag | Ion | Chwe | Mawrth |
| **Twitter** | | | | | | | | | | | | |
| Ymgysylltu | 1014 | 1137 | 284 | 629 | 1093 | 553 | 1316 | 642 | 400 | 501 | 422 | 472 |
| Cyrhaeddiad | 1.8M | 1.7M | 568k | 1.3M | 1.7M | 1.1M | 1.8M | 1.4M | 738k | 1.4M | 1.4M | 1.4M |
| **Facebook** | | | | | | | | | | | | |
| Ymgysylltu | 746 | 509 | 320 | 943 | 748 | 667 | 380 | 331 | 136 | 531 | 247 | 472 |
| Cyrhaeddiad | 492k | 466k | 370k | 472k | 440k | 273k | 358k | 485k | 201k | 370k | 329.8k | 374k |

Ffynhonnell: Press Data

F.7 Lluniau fu'r mathau o bostiad neu neges drydar yr ymgysylltwyd fwyaf â hwy ar draws sianeli Twitter a Facebook Cyswllt Ffermio (gweler Ffigur F-4).

**Ffigur F-4: Mathau o bostiad/neges drydar yr ymgysylltwyd fwyaf â hwy**





Ffynhonnell: Press Data

F.8 Mae Ffigur F-5 yn dangos sut mae unigolion wedi ymgysylltu â negeseuon trydar Cyswllt Ffermio. Hoffi oedd y math mwyaf cyffredin o ymgysylltu yn gyson trwy'r cyfnodau adrodd, ac yna ail-drydar. Mewn cymhariaeth, roedd sylwadau'r gynulleidfa yn cyfrif am gyfran fach o ymgysylltu.

**Ffigur F-5: Twitter – math o ymgysylltu**




Ffynhonnell: Press Data

*Prif bostiadau sianel*

F.9 Mae data am y 25 uchaf o ran postiadau sianel dros y cyfnod adrodd (h.y. y postiadau â'r ymgysylltiad uchaf) yn dangos bod cyfran uchel yn canolbwyntio ar yr Academi Amaeth, gan gynnwys gwybodaeth am y broses ymgeisio a chyn-fyfyrwyr yr Academi Amaeth yn rhannu eu profiadau. Roedd dau ar bymtheg o'r 25 uchaf yn dod o Facebook, gyda'r wyth arall yn negeseuon trydar.


**Monitro pynciau**

F.10 Mae'r data a gyflwynir yn yr adran hon yn ymwneud â chwiliad ehangach o weithgarwch cyfryngau cymdeithasol yn cwmpasu'r pynciau 'Farming Connect' a 'Cyswllt Ffermio'.

*Canlyniadau pynciau dros amser*

F.11 Yn ystod y cyfnodau adrodd, cafwyd oddeutu 5,500 o ganlyniadau cyfryngau cymdeithasol a oedd yn ymwneud â'r pynciau 'Farming Connect' a 'Cyswllt Ffermio'. Ym mis Hydref 2019 gwelwyd y nifer fwyaf o ganlyniadau fesul mis, sef 690, a'r nifer isaf o ganlyniadau ym mis Rhagfyr 2018. O gymharu Ch4 2018/Ch1 2019 â Ch4 2019/Ch1 2020, mae gweithgaredd wedi dilyn tuedd debyg gyda brig mewn gweithgaredd yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd a swm cymharol lai o weithgaredd dros fisoedd y gaeaf (yn enwedig mis Rhagfyr) (gweler Ffigur F-6).


**Ffigur F-6: Canlyniadau pwnc dros amser**




Ffynhonnell: Press Data

F.12 Mae Ffigur D6 isod yn dangos bod mwyafrif y cynnwys wedi bod yn Saesneg yn hytrach na Chymraeg; mae'r cyfrannau'n debyg i'r rheini a ganfuwyd ar gyfer gweithgarwch cyffredinol (uchod).


**Ffigur F-7: Canlyniadau pynciau yn ôl iaith**




Ffynhonnell: Press Data


F.13 Mae Ffigurau F-8 a F-9 yn rhoi dadansoddiad o unigolion sy'n ymgysylltu â phostiadau'n ymwneud â phwnc 'Farming Connect' a Cyswllt Ffermio. Sylwer, nid yw'r data hwn yn gyflawn, gyda gwybodaeth am rywedd ac oedran ddim ar gael ar gyfer pob unigolyn a gwybodaeth am rywedd ar gael yn amlach nag oedran. Ar draws pob chwarter roedd ymgysylltiad uwch gan ddynion na menywod, a chan garfannau oedran iau. Mae ymgysylltu wedi bod yn arbennig o gryf ymhlith unigolion 25-34 oed, ond roedd y rhai yn y grwpiau oedran 18-24 a 35-44 hefyd yn cyfrif am gyfran sylweddol o'r cyfanswm. Dim ond am tua 7% o'r holl ymgysylltu oedd gan rai dros 45 oed, ac nid yw'r data sydd ar gael yma yn dangos unrhyw dystiolaeth o dwf dros amser.

**Ffigur F-8: Ymgysylltu yn ôl rhywedd**




Ffynhonnell: Press Data

**Ffigur F-9: Ymgysylltu yn ôl oedran**




Ffynhonnell: Press Data

F.14 Dangosir y pump ar hugain o ddylanwadwyr uchaf yn y ffigur isod. Wrth gymharu'r prif ddylanwadwyr ag adroddiad Cam 1 gwelir mai'r un yw ugain o'r pump ar hugain o'r prif ddylanwadwyr. Ar y cyfan, mae'n gyffredin i'r prif ddylanwadwyr ar draws yr holl ddiwydiannau (gan gynnwys amaethyddiaeth) i aros yn debyg, oherwydd mai'r dull safonol yw sgorio yn ôl cyrhaeddiad (h.y. nifer yr unigolion sy'n gweld eu cynnwys) yn hytrach na ffactorau eraill fel ymgysylltu neu nifer y postiadau. Felly, bydd unigolyn sydd â chyrhaeddiad/dilyniant eang yn sgorio'n uwch nag unigolyn â chyrhaeddiad is ond sydd â nifer uwch o bostiadau/ymgysylltiad uwch.

## Ffigur F-10: 25 prif ddylanwadwr

| Influencer | Network | Posts | Sentiment | Reach | Reach per mention | Engagement | Engagement per mention |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Farming Conne... @FarmingConnect | | 962 ↗18.3% | | 4.7M ↗19.2% | 4.9K ↗0.7% | 1.7K ↗14.6% | 1.8 ↙-3.2% |
| Farming Conne... facebook.com | | 584 ↗28.6% | | 4.6M ↗28.7% | 7.9K | 6K ↗38.6% | 10.3 ↗7.8% |
| Geraint Hughes @MadrynFoods | | 106 ↙-3.6% | | 487.6K ↙-3.5% | 4.6K | 320 | 3 ↗3.8% |
| Llŷr Derwydd @LlyrDerwydd | | 61 ↗32.6% | | 114.3K ↗31.7% | 1.9K ↙-0.7% | 251 ↙-8.7% | 4.1 ↙-31.2% |
| Welsh Govern... @WGEnviroAgri | | 49 ↗16.7% | | 456.8K ↗15.1% | 9.3K ↙-1.3% | 89 ↙-24.6% | 1.8 ↙-35.4% |
| Wales Rural Ne... @WalesRuralNet | | 48 ↙-22.6% | | 73.5K ↙-22.6% | 1.5K | 8 ↙-63.6% | 0.2 ↙-53% |
| Grŵp NPTC Gr... @NPTCGroup | | 45 ↗9.8% | | 205.6K ↗11.3% | 4.6K ↗1.4% | 0 | 0 |
| Dr Edward Tho... @EThomasJones | | 44 ↗57.1% | | 37.5K ↗61.6% | 851.6 ↗2.8% | 110 ↗26.4% | 2.5 ↙-19.5% |
| Aled Rhys Jones @AledTyllwyd | | 43 ↙-17.3% | | 102K ↙-17.6% | 2.4K | 247 ↙-37.5% | 5.7 ↙-24.4% |
| AHDB Dairy @AHDB_Dairy | | 37 ↗5.7% | | 451.3K ↗8.2% | 12.2K ↗2.3% | 148 ↙-8.6% | 4 ↙-13.6% |
| Food & Farmin... @FarmingFutures | | 35 ↗6.1% | | 815.5K ↗5.6% | 23.3K | 36 ↙-5.3% | 1 ↙-10.7% |
| HCC @HybuCigCymru | | 35 ↗6.1% | | 137.6K ↗6% | 3.9K | 41 ↗32.3% | 1.2 ↗24.7% |
| Horticulture W... @HortWales | | 35 | | 82.1K | 2.3K | 25 ↗56.3% | 0.7 ↗56.3% |
| nigel pugh ... @nspugh | | 29 ↗866.7% | | 138.3K ↗824% | 4.8K ↙-4.4% | 47 ↗2.3K% | 1.6 ↗143.1% |
| Elizabeth West... @EWestaway | | 29 ↗93.3% | | 177.4K ↗86.4% | 6.1K ↙-3.6% | 9 ↗125% | 0.3 ↗16.4% |
| WG Farming & ... @WG_FarmingFood | | 27 ↗50% | | 44.6K ↗48.5% | 1.7K ↙-1% | 16 | 0.6 |
| Jessica Willia... @WelshBlackGB | | 27 ↗42.1% | | 16.6K ↗44.5% | 613.4 ↗1.7% | 157 ↗26.6% | 5.8 ↙-10.9% |
| JIM @Jim_Ellis | | 26 | | 18.8K ↗1.6% | 722 ↗1.6% | 46 ↙-41% | 1.8 ↙-41% |
| NFU Cymru @NFUCymru | | 26 ↗13% | | 165.8K ↗14.1% | 6.4K ↗0.9% | 51 ↗96.2% | 2 ↗73.5% |
| Huw Llandre @Llandre | | 25 ↙-13.8% | | 46.9K ↙-15.3% | 1.9K ↙-1.7% | 42 ↗5% | 1.7 ↗21.8% |
| Gareth Wyn... @1GarethWynJon... | | 24 ↗41.2% | | 532.1K ↗43.4% | 22.2K ↗1.6% | 2 | 0.1 ↙-29.2% |
| Woodland Trus... @CoedCadw | | 23 ↗35.3% | | 77.2K ↗25.5% | 3.4K ↙-7.3% | 33 ↗37.5% | 1.4 ↗1.6% |
| Rosy-Lane Hol... @Rosy_Lane | | 23 ↗2.2K% | | 40.6K ↗2.3K% | 1.8K ↗2.4% | 7 | 0.3 |
| Royal Wels... @royalwelshshow | | 22 ↗120% | | 409.1K ↗118.2% | 18.6K ↙-0.8% | 45 ↗650% | 2 ↗240.9% |
| Sara Pedersen @SaraPedersen3 | | 21 ↗75% | | 53.6K ↗78.1% | 2.6K ↗1.8% | 67 ↗76.3% | 3.2 ↗0.8% |

Ffynhonnell: Press Data